

# Unedau

Yn y ddogfen hon ceir cynnwys unedau Tystysgrif a Thystysgrif Estynedig Pearson BTEC Cyntaf Lefel 1/Lefel 2 mewn Celf a Dylunio, wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg i gefnogi addysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Beth sydd ar gael i bob uned yn Gymraeg?**

Yn achos pob uned, fe gewch yr wybodaeth angenrheidiol i addysgu'r cymhwyster BTEC hwn trwy gyfrwng y Gymraeg:

- cyflwyniad
- nodau dysgu
- meini prawf asesu
- arweiniad i athrawon.

## **Ble galla i gael hyd i weddill y fanyleb?**

I gael gwybodaeth ac arweiniad ar y cymhwyster cyfan, gan gynnwys:

- strwythur a rhesymeg y cymhwyster a'r unedau
- cyflwyno'r rhaglen a recriwtio iddi
- asesu mewnol ac allanol
- sicrhau ansawdd
- graddio ac ardystio

bydd angen i chi gyfeirio at y fanyleb Saesneg, sydd ar gael ar y wefan ochr yn ochr â'r ddogfen hon ([www.btec.co.uk/firsts](http://www.btec.co.uk/firsts)).

Gweler hefyd [www.btec.co.uk/keydocuments](http://www.btec.co.uk/keydocuments) am y rheolau asesu diweddaraf.

## **Pa gefnogaeth sydd ar gael?**

Os bydd angen rhagor o gefnogaeth arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â'n timau gwasanaethau addysgu. Cewch hyd i'r holl fanylion cyswllt angenrheidiol yn [www.edexcel.com/contactus](http://www.edexcel.com/contactus).



# Uned 1: Cyflwyniad i Lwybrau Arbenigol mewn Celf a Dylunio

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Craidd**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Mae gan bobl sy'n gweithio o fewn celf a dylunio lawer o sgiliau arbenigol. Mae'r llwybr y byddan nhw'n ei ddilyn i ennill y sgiliau hyn yn cynnwys dysgu mewn meysydd gwahanol iawn o gelf a dylunio.

Yn yr uned hon, fe gewch gyfleoedd i ddysgu am rai o'r sgiliau arbenigol hyn ac i ddechrau eu datblygu. Drwy roi tro ar y sgiliau hyn drosoch eich hun, byddwch yn dysgu mwy am ble mae'ch cryfderau a'ch diddordebau chi.

Byddwch yn cael cyflwyniad i rai llwybrau arbenigol. Byddwch yn dysgu sut mae'r cylch dylunio neu wneud yn gweithio mewn ymarfer celf a dylunio ac yn dysgu am y defnyddiau, y technegau a'r prosesau arbenigol yn y llwybrau arbenigol penodol hyn. Byddwch yn dysgu sut mae pobl broffesiynol yn defnyddio ystod eang o wahanol ffynonellau wrth ymchwilio er mwyn cael eu hysbrydoli a sut y mae hyn yn eu helpu i gynhyrchu syniadau. Pa lwybr galwedigaethol bynnag yr ydych yn gweithio ynddo, byddwch yn adolygu eich gwaith yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â'ch bwriadau creadigol. Pan fyddwch yn derbyn briff gan gleientiaid, rhaid i chi allu dadansoddi beth sydd ei angen ac adnabod y ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth i chi ddatblygu eich ymateb.

Byddwch yn archwilio, yn arbrofi ac yn dysgu sut i ddefnyddio defnyddiau a technegau arbenigol sy'n berthnasol i'ch briff. Byddwch yn datblygu eich dewis o sgiliau arbenigol.

Byddwch hefyd yn dysgu am, ac yn cofnodi, y materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau, y technegau a'r prosesau traddodiadol a chyfoes y byddwch yn eu defnyddio.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A defnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol mewn ymateb i friff cleientiaid
- B cofnodi elfennau ffurfiol o fewn llwybrau arbenigol.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Defnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol mewn ymateb i friff cleientiaid</b>
<p><b>Archwilio llwybrau arbenigol dethol o fewn o leiaf tri o'r canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Crefftau Dylunio, e.e. defnyddiau (cerameg, metel, pren, papur, gwydr, tecstilau), gwneud (dodrefn, gemau, teganau, dylunio set, gwneud modelau, gemwaith)</li> <li>• Ffasiwn a Thecstilau e.e. defnyddiau (ffabrigau, tecstilau, llifynnau, inciau, digidol), gwneud (lluniadau, gwehyddu, torri, llifio, argraffu, dylunio, steilio, darluniadu)</li> <li>• Ffotograffiaeth, e.e. defnyddiau (digidol, meddalwedd, ffilm, cemegol), gwneud (recordio, prosesu, golygu, fformat)</li> <li>• Dylunio Cynnyrch e.e. defnyddiau (gwrthiannol, anwrthiannol, digidol), gwneud (torri, cerfio, ffurfio, mowldio, gorffen)</li> <li>• Celfyddydau Gweledol, e.e. defnyddiau (peintio, lluniadu, cerfluniol, digidol), gwneud (2D, 3D, seiliedig ar amser)</li> <li>• Cyfathrebu Gweledol, e.e. defnyddiau (meddalwedd, caledwedd, graffig, dylunio, crefft, rhyngweithiol), gwneud (graffig, animeiddio, wedi'i luniadu, wedi'i fodelu).</li> </ul> <p><b>Sut i:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddewis defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol priodol sydd eu hangen i gyflawni bwriadau creadigol a chwrdd â gofynion y briffiau</li> <li>• cynhyrchu syniadau mewn ymateb i'r briffiau, e.e. arbrofi, samplo neu greu brasluniau</li> <li>• addasu a mireinio'r dewis o ddefnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol mewn ymateb i ganlyniadau arbrofi, samplo ac adborth gan diwtoriaid, cymheiriaid neu gleientiaid.</li> <li>• esbonio a chyfiawnhau'r detholiad o'r dewis dechnegau, offer a phrosesau arbenigol.</li> </ul> <p><b>Sut i gofnodi cynnydd a phrosesu canlyniadau'r canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• technegau arbenigol a ddewiswyd</li> <li>• offer a phrosesau a ddefnyddiwyd</li> <li>• canllawiau iechyd a diogelwch</li> <li>• unrhyw asesiadau risg a gafodd eu cynnal</li> <li>• arbrofi a samplo</li> <li>• cynnal dyddlyfr parhaus o arferion gwaith.</li> </ul>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Cofnodi elfennau ffurfiol o fewn llwybrau arbenigol**

Adnabod beth yw elfennau ffurfiol a sut mae pobl broffesiynol yn eu defnyddio yn eu gwaith arbenigol.

Gwybod sut mae cofnodi elfennau ffurfiol gan ddefnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol.

Defnyddio technegau dylunio neu gyfansoddiadol arbenigol.

Archwilio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol i gofnodi elfennau ffurfiol, e.e. llinell, tôn, ffurf, siâp, patrwm, lliw, gwead.

Adolygu elfennau ffurfiol a sut mae dylunwyr ac artistiaid arbenigol yn eu defnyddio yn eu gwaith.

Defnyddio'r offer arbenigol a ddetholwyd i archwilio technegau dylunio neu gyfansoddiadol.

**Dethol a defnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol er mwyn:**

- defnyddio technegau dylunio neu gyfansoddiadol
- adolygu arferion gwaith
- cofnodi elfennau ffurfiol.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Defnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol mewn ymateb i friff cleientiaid</b>			
1A.1 Defnyddio o leiaf ddau ddefnydd a thechneg arbenigol i greu deilliannau mewn ymateb i friffiau cleientiaid, gan ddefnyddio offer a phrosesau'n ddiogel.	2A.LI1 Dethol a defnyddio o leiaf bedwar defnydd, techneg, offer a phroses arbenigol yn ddiogel i greu deilliannau sy'n cwrdd â gofynion briffiau cleientiaid.	2A.T1 Dethol yn gyson amrywiaeth eang o ddefnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol i greu deilliannau effeithiol sy'n cwrdd â gofynion briffiau cleientiaid.	2A.Rh1 Dethol yn annibynnol amrywiaeth eang o ddefnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol i greu deilliannau dychmygus sy'n cwrdd â gofynion briffiau cleientiaid.
<b>Nod dysgu B: Cofnodi elfennau ffurfiol o fewn llwybrau arbenigol</b>			
1B.2 Archwilio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol i gofnodi o leiaf ddwy elfen ffurfiol.	2B.LI2 Dethol a defnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol i gofnodi o leiaf bedair elfen ffurfiol i gwrdd â gofynion briffiau arbenigol.	2B.T2 Dethol a defnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol yn gymwys er mwyn cofnodi'n effeithiol amrywiaeth eang o elfennau ffurfiol i gwrdd â gofynion briffiau arbenigol.	2B.Rh2 Datblygu a defnyddio'n hyderus nodweddion defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol i gofnodi amrywiaeth creadigol ac amrywiol o elfennau ffurfiol i gwrdd â gofynion briffiau arbenigol.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Bydd yr adnoddau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer yr uned hon yn dibynnu ar y llwybrau arbenigol y gall y ganolfan eu cynnig, e.e.:

- Crefftau Dylunio
- Ffasiwn a Thecstilau
- Ffotograffiaeth
- Dylunio Cynnyrch
- Celfyddydau Gweledol
- Cyfathrebu Gweledol.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewanol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio tuag at **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu defnyddio unrhyw ymchwil ac arbrofi neu wneud maquette i'w helpu i ddatblygu gwaith gweledol ac ymarferol. I gyflawni hyn bydd rhaid iddynt ddatblygu dealltwriaeth o beth sydd ei angen ar y briffiau. Byddant yn arddangos o leiaf bedwar cymhwysiad o ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol yn y deilliannau a gynhrychir i gwrdd â gofynion y briffiau. Byddant yn dangos eu proses gwaith; sut y gwnaethant ddatblygu eu syniadau a sut y maent wedi dethol defnyddiau a thechnegau arbenigol oedd yn briodol i'w bwriadau. Bydd dysgwyr yn gallu cofnodi o leiaf bedair enghraifft o elfennau ffurfiol o fewn cwblhau eu briffiau llwybr arbenigol. Dylai athrawon fod yn ymwybodol mai dyma leiafswm y gofynion. Dylai dysgwyr anelu at weithio y tu hwnt i hyn.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio at **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu datblygu amrywiaeth eang o syniadau sy'n cwrdd â gofynion y briffiau. Mae eu meddwl yn debyg o fod yn fwy llithrig ac ymatebol i ganlyniadau unrhyw arbrofion, samplau, maquettes ac arddangosfeydd y maent wedi cymryd rhan ynddynt neu wedi eu gweld. Byddant yn gyson yn eu hymagwedd ac yn rheoli eu defnyddiau, technegau a phrosesau a bydd eu deilliannau'n effeithiol yn cwrdd â'r briffiau. Bydd eu harchwilio o elfennau ffurfiol yn perthyn yn dda i'r briff, a byddant yn defnyddio gwybodaeth a gafwyd mewn gwaith rhagarweiniol i hysbysu datblygu deilliannau sy'n dangos pwrpas.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn gallu dethol, mireinio, datblygu a defnyddio eu dewis o ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol yn hyderus, gan eu bod yn gallu defnyddio eu gwybodaeth a gafwyd drwy ymarfer ac arbrofi. Bydd amrediad eu harchwiliadau'n amrywiol. Byddant yn arddangos dealltwriaeth o ofynion y briffiau, ac yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw heriau sy'n codi yn eu harbrofion, eu samplau neu eu maquettes. Bydd eu deilliannau'n dangos ymagwedd greadigol tuag at gwrdd â'r briffiau. Byddant yn adolygu eu ymarfer gwaith eu hunain, yn myfyrio ar addasrwydd i bwrpas eu harchwiliadau, eu gwaith rhagaratoadol a'u defnydd o ddefnyddiau, technegau a phrosesau. Byddant yn adnabod eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain ac yn gweithredu'n gadarnhaol i'w gwella.

## Lefel 1

Bydd dysgwyr sy'n gweithio ar **Lefel 1** yn gallu perfformio tasgau yn defnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol. Gellir asesu ymatebion dysgwyr i ddefnyddio offer drwy arsylwadau tiwtoriaid, gyda chefnogaeth cyflwyniadau a nodiadau anodedig. Bydd y gwaith archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau i brofi a samplo yn gyfyngedig. Gellir adnabod y canlyniadau, ond heb eu defnyddio i hysbysu cynhyrchu syniadau a datblygu ymagweddau yn mynd i'r afael â'r briffiau. Bydd eu deilliant yn dangos archwiliad sylfaenol o dechnegau arbenigol. Gall fod ganddynt lefel sylfaenol wrth ddefnyddio a rheoli'r offer a'r prosesau technegol dan sylw. Dylent fod yn ymwybodol o risgiau a materion diogelwch sy'n berthnasol i'w llwybrau arbenigol eu hunain. Byddant yn arddangos o leiaf ddau ddefnydd o elfennau ffurfiol wrth gwblhau'r briffiau gofynnol.



## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.LI1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rb1, 1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Yr Arbrawf	Mae cwmni ffilm yn chwilio am syniadau newydd. Maen nhw am i ddylunwyr greu brasfodelau gwisgoedd ar gyfer y ddau brif gymeriad yn un o'r golygfeydd a'r gwrthrychau allweddol ar gyfer cynhyrchiad ffilm. Rhaid iddyn nhw ddefnyddio gwahanol ddefnyddiau, technegau, offer a phrosesau.	Arsylwi gan athrawon a thystiolaeth portffolio, e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datganiadau tystion</li> <li>• cofnodion o ymweliadau</li> <li>• dyddlyfr</li> <li>• adroddiadau ar ganfyddiadau,</li> <li>• holiaduron</li> <li>• logiau dysgu</li> <li>• llyfrau braslunio anodedig</li> <li>• blog</li> <li>• cyflwyniad digidol</li> <li>• allbrintiau</li> <li>• tudalennau gwe</li> <li>• byrddau stori</li> <li>• darnau prawf</li> <li>• cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.</li> </ul>
1A.LI1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Brave New World	Mae dylunydd wedi cael ei gomisiynu gan gyhoeddwr i greu triniaeth nofel graffig ar gyfer stori ffuglen wyddonol, gan ddangos y defnydd o dôn, lliw a gosodiad mewn pedair tudalen A4 heb ddefnyddio mwy na phum ffrâm ar bob tudalen.	
1A.LI1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Greenfingers & Co	Mae cadwyn adnabyddus o ganolfannau garddio eisiau ailwampio eu bwyty ac mae'n chwilio am amrywiaeth o syniadau dylunio a delwedd ar gyfer y gofod hwn. Mae'n chwilio am gyflwyniadau gan artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr, gan gynnwys syniadau am decstilau, cerameg, llestri bwrdd a delweddau ar gyfer y waliau.	



## Uned 2: Prosiect Creadigol mewn Celf a Dylunio

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Craidd**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Allanol**

---

### Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi erioed wedi dyfalu beth sy'n gwneud i artist neu ddylunydd weithio mewn ffordd arbennig? Sut maen nhw'n penderfynu pa ddefnyddiau a thechnegau i'w defnyddio, er enghraifft ar gyfer peintio, cerflunio, gosodiad (installation), animeiddio, ffasiwn? Mae'r prosiect hwn yn caniatáu i chi ddatblygu eich dealltwriaeth o sut rydych chi'n gweithio ac i ennill sgiliau mewn maes celf a dylunio.

Mae arlunwyr, dylunwyr a gwneuthurwyr i gyd yn archwilio dulliau gwahanol o ddatblygu eu gwaith creadigol. Mae ganddyn nhw wahanol ffyrdd o wneud i'r syniadau yma ddod yn fyw drwy ddefnyddio eu dewis dechnegau a defnyddiau. Yn yr uned hon gallwch ddatblygu eich ymateb creadigol eich hun i friff ar thema alwedigaethol. Gall hyn fod mewn maes y mae gennych ddiddordeb yn ei astudio ar lefel uwch yn y dyfodol, neu'n faes yr ydych yn gobeithio dod o hyd i waith ynddo yn y dyfodol. Neu efallai y byddwch yn ei ddewis oherwydd bod gennych ddiddordeb cyffredinol yn y diwydiannau creadigol ac y byddech yn hoffi archwilio a datblygu'r diddordeb hwn ymhellach.

Dylai'r prosiect creadigol galwedigaethol hwn eich ysbrydoli drwy'r archwiliad hwn o'ch dewis faes o gyfryngau celf, dylunio neu greadigol. Gallwch archwilio a defnyddio meysydd astudio newydd a dulliau gwaith newydd. Byddwch yn dysgu i ffocysu eich prosiect drwy gynllunio a threfnu, gan fynd â'ch syniadau o'r cysyniad i'r deilliant terfynol. Byddwch yn defnyddio'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu mewn unedau blaenorol.

### Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A datblygu syniadau, sgiliau a bwriadau creadigol mewn ymateb i friff prosiect

B cynhyrchu deilliannau terfynol sy'n cwrdd â gofynion y briff.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

### Nodweddion arbennig yr uned hon:

- mae'n cynrychioli penllanw rhaglen BTEC Lefel 2 mewn celf a dylunio
- mae'r aseiniad yn cynnwys un man cychwyn thematig eang, wedi'i osod yn allanol, gyda chyfarwyddyd pellach sy'n benodol i wahanol ddisgyblaethau
- bydd yr aseiniad ar gael yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn
- gall yr aseiniad gael ei roi i'r myfyrwyr cyn gynted ag y caiff ei dderbyn
- mae rhyddid i ganolfannau ddyfeisio eu cyfnod astudio paratoadol eu hunain cyn y cyfnod 10 awr ar gyfer y gwrthrych/au terfynol.

#### Beth sydd angen ei ddysgu

#### Nod dysgu A: Datblygu syniadau, sgiliau a bwriadau creadigol mewn ymateb i friff prosiect

#### Gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â'r cylch dylunio a/neu wneud, yn cynnwys y canlynol:

- gallu cynhyrchu syniadau drwy ddulliau unigol neu gyfunol, e.e. mapio meddwl, siartiau corryn, cyswllt geiriau, trafodaethau grŵp
- gwybod sut i ddysgu am bethau er mwyn cael ysbrydoliaeth a gwybodaeth mewn ymateb i thema'r prosiect
- gwybod sut i ddatblygu defnyddiau o ffynonellau ymchwil cynradd ac eilaidd, gan ddefnyddio gwybodaeth o fwy nag un ffynhonnell
- gallu cyfuno a syntheseiddio ymchwil gynradd ac eilaidd i wella syniadau a themâu personol
- gwybod sut i ddiffinio meysydd cyd-destunol allweddol ar gyfer ymchwil, e.e. artistiaid, dylunwyr, diwydiant, cyrff proffesiynol, sefydliadau, gwneuthurwyr, ffynonellau hanesyddol a chyfoes, cyfeirio ffynonellau'n gywir a'u perthnasu i dueddiadau cyfredol yn eich maes astudio arbenigol
- datblygu ymchwiliad y tu hwnt i'r amlwg i ystyried ffactorau sy'n effeithio ar y gwaith, megis y gynulleidfa darged, oedran a grwpio cymdeithasol, ffordd o fyw a dyheadau, pwrpas y prosiect; ffactorau diwylliannol megis cerddoriaeth, steil, celf a dylunio, chwaraeon, yr amgylchedd, materion byd-eang, ffactorau cymdeithasol, datblygiadau technolegol
- cynhyrchu a datblygu syniadau creadigol a gallu symud y rhain ymlaen tuag at ddiwedd glo creadigol sy'n cwrdd â gofynion y briff
- cyfuno'n greadigol ac yn llwyddiannus amrywiaeth o ddulliau, technegau a phrosesau arbrofol yn dangos cynnydd cydlynol o'r syniadau cychwynnol i'r atebion terfynol
- arbrofi gyda chyfuno technegau megis lluniadu, peintio, collage, gwaith lens, fideo, digidol, gwneud printiau, sganio, rhaglenni 3D
- gwybod sut i gofnodi cynnydd drwy'r prosiect a datblygiadau, prosesau a syniadau drwy ddefnyddio dulliau priodol, e.e. dyddyfr dysgu, llyfr log gwaith, anodiadau ar waith datblygu ac mewn llyfr brasluniau
- sut i ymateb yn gadarnhaol i adborth gan athrawon, cymheiriaid, ymarferwyr, e.e. sesiynau tiwtorial, seminarau, blogiau, flogiau neu safleoedd rhwydweithio.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Cynhyrchu deilliannau terfynol sy'n cwrdd â gofynion y briff****Rheoli'r ymateb i'r briff, yn cynnwys:**

- sut i gynllunio eich defnydd eich hun o amser i sicrhau bod digon o amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer cynhyrchu deilliannau
- gallu trechu trafferthion yn annibynnol os bydd materion yn codi lle mae'n rhaid gwneud penderfyniadau allweddol er mwyn rhoi'r prosiect yn ôl ar y llwybr iawn
- gallu defnyddio profion a samplau i helpu i gynhyrchu deilliannau terfynol
- sut i ddefnyddio technegau, defnyddiau a phrosesau i gynhyrchu deilliannau sy'n dangos ymateb i'r briff
- sut i arddangos defnydd creadigol o sgiliau ymarferol a dylunio wrth ddatblygu gwaith mewn ymateb i ofynion y briff
- adolygu eich arferion gwaith eich hun o ran dyfalbarhad, cadw amser, ymdrech, arbrofi, cynhyrchu deilliannau a chofnodi'r wybodaeth hon
- adolygu, ystyried a gwerthuso gwaith a dulliau gwaith ar ei hanner, ar bwytiau rheolaidd, i sicrhau bod disgwyliadau'r cleient yn cael eu cwrdd
- ystyried a oedd y dewis a'r defnydd terfynol o ddefnyddiau'n cefnogi dyluniad y syniad neu'r neges
- mewnbwn personol ac annibynnol i'r gwaith terfynol er mwyn cyrraedd casgliadau sy'n gyffrous ac yn arddangos ymateb personol i'r briff.

## Meini prawf asesu

Dim gwaith	Annosbarthedig	Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Datblygu syniadau, sgiliau a bwriadau creadigol mewn ymateb i friff prosiect</b>					
Dim gwaith wedi'i gyflwyno.	Nid yw'r gwaith a gafodd ei gyflwyno yn cwrdd â gofynion meini prawf Lefel 1.	1A.1 Datblygu syniadau o fan cychwyn mewn ymateb i'r briff, gan ddisgrifio bwriadau creadigol.	2A.LI1 Defnyddio sgiliau priodol i ddatblygu dyluniadau a syniadau mewn ymateb i'r briff, gan esbonio bwriadau creadigol.	2A.T1 Archwilio a mireinio dyluniadau a syniadau amrywiol mewn ymateb i'r briff, gan esbonio bwriadau creadigol.	2A.Rh1 Syntheseiddio amrywiaeth eang o ddyluniadau a syniadau sy'n archwilio'n ddychmygus ofynion y briff, gan gyfiawnhau bwriadau creadigol.
		1A.2 Defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn perthynas â bwriadau creadigol.	2A.LI2 Dethol a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau priodol gan archwilio bwriadau creadigol.	2A.T2 Dethol a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau amrywiol, gan ddadansoddi sut y maent yn cefnogi bwriadau creadigol.	2A.Rh2 Dethol a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau amrywiol, gan werthuso sut y maent yn gwella a chefnogi bwriadau creadigol.

Dim gwaith	Annosbarthedig	Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu B: Cynhyrchu deilliannau terfynol sy'n cwrdd â gofynion y briff</b>					
Dim gwaith wedi'i gyflwyno.	Nid yw'r gwaith a gafodd ei gyflwyno yn cwrdd â gofynion meini prawf Lefel 1.	1B.3 Cynhyrchu deilliant personol sy'n ymateb i ofynion y briff.	2B.LI3 Cynhyrchu deilliant personol sy'n cwrdd â gofynion y briff.	2B.T3 Cynhyrchu deilliant personol, yn dangos archwiliad cydlynol, wrth gwrdd â gofynion y briff.	2B.Rh3 Cynhyrchu deilliant creadigol, yn dangos archwiliad dychmygol, wrth gwrdd â gofynion y briff.
0	1-6	7-12	13-18	19-24	25-30

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Bydd adnoddau'n dibynnu ar y maes pwnc y mae'r dysgwr yn ei ddilyn ar gyfer y prosiect.

### Canllaw asesu

Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 9: Asesu Allanol*.

### Nodweddion arbennig yr uned hon

Caiff yr uned hon ei gosod yn allanol, ei marcio'n allanol a'i safoni'n allanol.

Bydd gwaith ar gyfer yr asesiad yn cynnwys y canlyniad(au) terfynol, wedi eu cynhyrchu mewn 10 awr, drwy asesiad dan oruchwyliaeth.

Rhaid i waith dysgwyr gwrdd â'r meini prawf asesu.

Mae'r uned hon yn gofyn i'r aseswyr mewnlol wneud y canlynol:

- barnu perfformiad dysgwyr a'r dystiolaeth yn erbyn y meini prawf graddio
- darparu marc unigol.

Bydd Pearson yn dethol gwaith ar gyfer ei safoni. Caiff y gwaith ei ddethol ar draws amrediad o farciau.

Er mwyn dod at farn:

- dylai aseswyr ystyried pob maen prawf gan gyfeirio'n ofalus at yr arweiniad a roddir yn yr uned hon
- dylai aseswyr ystyried lle mae pob maen prawf wedi ei gwrdd yn llawn a lle mae tystiolaeth allai gefnogi dyfarnu maen prawf uwch.

Rhaid i'r marc a roddir fod yn yr amrediad a glustnodir ar gyfer pob maen prawf:

- gellir dyfarnu marc rhwng 25 a 30 os oes tystiolaeth o feini prawf Rh1, Rh2 a Rh3 Lefel 2
- gellir dyfarnu marc rhwng 19 a 24 os oes tystiolaeth o feini prawf T1, T2 a T3 Lefel 2
- gellir dyfarnu marc rhwng 13 ac 18 os oes tystiolaeth o feini prawf LI1, LI2 a LI3 Lefel 2
- gellir dyfarnu marc rhwng 7 a 12 os oes tystiolaeth o feini prawf 1, 2 a 3 Lefel 1
- gellir dyfarnu marc rhwng 1 a 6 os bydd gwrthrych/au terfynol yn cael ei gyflwyno/eu cyflwyno dan amodau dan oruchwyliaeth, sy'n darparu peth tystiolaeth o berfformiad gofynnol, ond lle nad oes tystiolaeth bod meini prawf 1, 2 na 3 Lefel 1 wedi eu cwrdd yn llawn.



Dylai'r aseswr wedyn benderfynu pa farc y gellir ei ddyfarnu o fewn y band marciau nesaf sydd ar gael:

Gradd/band marciau	Marciau	Dyfarnu marc
Lefel 2 Rhagoriaeth	25–30	Rhaid i ddysgwyr fod â thystiolaeth sy'n cwrdd â'r holl feini prawf Rh1–Rh3. Dylai dysgwyr sydd ond yn cyrraedd y safon sy'n ddisgwyliedig ar Lefel 2 Rhagoriaeth dderbyn 25 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson yn barhaus ar Lefel 2 Rhagoriaeth dderbyn 26–28 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson ar lefel eithriadol dderbyn 29–30 marc.
Lefel 2 Teilyngdod	19–24	Rhaid i ddysgwyr fod â thystiolaeth sy'n cwrdd â'r holl feini prawf T1–T3. Dylai dysgwyr sydd ond yn cyrraedd y safon sy'n ddisgwyliedig ar Lefel 2 Teilyngdod dderbyn 19 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson yn barhaus ar Lefel 2 Teilyngdod dderbyn 20–22 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson ar Lefel 2 Teilyngdod, a thu hwnt i hynny ar adegau, h.y. mae ganddynt beth tystiolaeth sy'n cwrdd yn rhannol â'r meini prawf ar gyfer Lefel 2 Rhagoriaeth, dderbyn 23–24 marc.
Lefel 2 Llwyddo	13–18	Rhaid i ddysgwyr fod â thystiolaeth sy'n cwrdd â'r holl feini prawf LI1–LI3. Dylai dysgwyr sydd ond yn cyrraedd y safon sy'n ddisgwyliedig ar Lefel 2 Llwyddo dderbyn 13 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson yn barhaus ar Lefel 2 Llwyddo dderbyn 14–16 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson ar Lefel 2 Llwyddo, a thu hwnt i hynny ar adegau, h.y. mae ganddynt beth tystiolaeth sy'n cwrdd yn rhannol â'r meini prawf ar gyfer Lefel 2 Teilyngdod, dderbyn 17–18 marc.
Lefel 1	7–12	Rhaid i ddysgwyr fod â thystiolaeth sy'n cwrdd â'r holl feini prawf. Dylai dysgwyr sydd ond yn cyrraedd y safon sy'n ddisgwyliedig ar Lefel 1 dderbyn 7 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson yn barhaus ar Lefel 1 dderbyn 8–10 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson ar Lefel 1, a thu hwnt i hynny ar adegau, h.y. mae ganddynt beth tystiolaeth sy'n cwrdd yn rhannol â'r meini prawf ar gyfer Lefel 2 Llwyddo, dderbyn 11–12 marc.
Annosbarthedig	1–6	Bydd dysgwyr sydd heb dystiolaeth sy'n cwrdd â holl feini prawf 1–3 yn annosbarthedig. Dylai dysgwyr gael 1–6 marc, gan ddibynnu ar sut mae'r dystiolaeth yn cyfateb i feini prawf 1–3.
Dim marc	0	Dylai dysgwyr nad ydynt yn darparu canlyniad(au) terfynol neu sy'n cynhyrchu gwaith nad yw'n cwrdd ag unrhyw rai o'r priodoleddau gofynnol gael 0 marc.

## Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** wedi casglu gwybodaeth o ddwy neu ragor o ffynonellau gwahanol y byddant wedi eu harchwilio drwy ymchwiliadau cyson. Bydd y gwaith wedi cael ei adolygu'n rheolaidd, yn arddangos peth defnydd o ddealltwriaeth a detholiad beirniadol. Bydd rhai datblygiadau creadigol wedi digwydd gydag amrywiaeth o brosesau, defnyddiau a thechnegau. Bydd cofnodi syniadau'n defnyddio technegau gweledol ac ysgrifenedig priodol a bydd syniadau a materion wedi eu deall yn glir. Bydd y bwriadau gwreiddiol wedi cael eu gwireddu a bydd y gwaith gorffenedig yn cwrdd â gofynion y briff. Bydd elfennau'r prosiect yn dangos peth cysylltiad. Bydd y cyflwyniad yn ddigonol, a bydd peth myfyrio ar y cyflawniad cyffredinol. Bydd canlyniadau'r archwilio a'r syniadau a gynhyrchwyd yn cael eu hadnabod ond heb eu datblygu i gynnog datrysiadau amgen. Gall amrywiadau mewn ymagwedd fod wedi cael eu hystyried ond heb eu dilyn mewn dyfnder.

Bydd y gwaith ar gyfer **Lefel 2 Teilyngdod** yn arddangos ymgysylltiad creadigol gyda'r pwnc a hynny wedi ei gefnogi gan ymchwilio pwrpasol. Bydd tystiolaeth o ymagwedd gyson drwy gydol y gwaith, yn dangos cyfuniad dyfeisgar a meddylgar o dechnegau a'r defnydd o offer a pheiriannau. Bydd syniadau'n arddangos y defnydd o amrediad cynyddol o brosesau a defnyddiau fydd wedi cael eu canfod a'u dadansoddi drwy detholiad beirniadol. Bydd gwaith gweledol ac ysgrifenedig yn addysgiadol a chywir, yn disgrifio'n fanwl nodweddion unigol, ymatebion personol a'r rhesymau drostynt. Bydd potensial y prosiect i gwrdd â bwriadau creadigol y dysgwyr wedi cael ei adnabod a'i archwilio. Bydd y dystiolaeth a gofnodwyd am y prosesau a datblygiad syniadau a thechnegau wedi cael ei nodi'n glir ac yn gywir gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol, megis lluniadu, ysgrifennu, ffotograffiaeth, blogiau, rhwydweithio cymdeithasol. Ar y lefel hon bydd y gwaith yn arddangos llif creadigol a chysylltiad clir rhwng pob un o elfennau'r prosiect. Bydd dadansoddi'n dangos sut mae syniadau a dethol technegau, defnyddiau a phrosesau wedi cael eu mireinio a'u datblygu yn unol â phwrpas a bwriad, gan gyfeirio at dueddiadau cyfredol.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio at **Lefel 2 Rhagoriaeth** wedi arddangos symbyliad cyson. Bydd amrywiaeth eang o syniadau wedi cael eu harchwilio gan ddangos datblygiad dychmygus. Bydd y dysgwr wedi gweithio gyda brwdfrydedd, gan ddefnyddio barn gritigol a dealltwriaeth o faterion cymhleth. Bydd cyd-destunau a ffynonellau wedi cael eu canfod o blith amrywiaeth o ymchwil gynradd ac eilaidd, gan arwain at archwilio syniadau mewn ffordd amrywiol. Bydd potensial y prosiect i gwrdd â bwriad creadigol y dysgwr wedi cael ei archwilio a'i gysylltu â chysyniadau, datblygiadau a'r defnydd o ddefnyddiau a chyfryngau.

Bydd y gwaith arbrosi'n wreiddiol a'r defnydd o ddefnyddiau'n hyderus. Bydd y gwaith yn dangos ymateb critigol, personol i ddatrys problemau creadigol. Bydd datblygiad a chynnydd personol drwy'r prosiect yn cael ei gofnodi'n ddychmygus a bydd gwybodaeth gefnogol yn glir. Ar y lefel hon bydd dysgwyr wedi defnyddio ffynonellau gwahanol i gywain barn a dealltwriaeth i'w gwaith. Gallai ffynonellau gynnwys lluniadu, ysgrifennu, ffotograffiaeth, fideo, blogiau, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, y defnydd o ddyfeisiau symudol a chyflwyniadau electronig. Bydd dysgwyr yn gallu cyfiawnhau eu detholiad a'u defnydd o syniadau, archwilio cyfryngau a datblygu dyluniadau dilynol drwy gydol y prosiect.

## Lefel 1

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** wedi casglu gwybodaeth, gyda'r rhan fwyaf ohoni'n berthnasol i nodau'r prosiect. Bydd rhai meysydd gwneud penderfyniadau a dethol yn cael eu harddangos a bydd gwaith arbrofi wedi digwydd gydag amrediad cyfyngedig o brosesau, defnyddiau a thechnegau. Bydd cofnodi'r syniadau yn syml ond yn debyg o fod heb ei fireinio ac er y bydd yr ymateb yn drefnus, yn arwain at wireddu'r bwriadau, gall y rhain fod yn arwynebol mewn perthynas â chyfeirio cyd-destunol a diwylliannol. Bydd gwaith sy'n dod allan yn dangos rhai nodweddion unigol ac ymatebion personol sy'n cysylltu rhwng y ffynonellau cyfeirio a gasglwyd a'r gwaith terfynol. Bydd adolygiad o'r gwaith yn dangos tystiolaeth o beth cynllunio a rhagfeddwl. Bydd dysgwyr yn gallu disgrifio eu harferion gwaith a'u bwriadau creadigol.



## Uned 3: Cyfathrebu Syniadau mewn 2D

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

---

### Cyflwyniad i'r uned

Mae angen sgiliau a gwybodaeth 2D ar artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr i gyfathrebu eu syniadau'n effeithiol. Mae gweithio mewn dau ddimensiwn yn gofyn am sgiliau i drafod defnyddiau a thechnegau 2D. Bydd ansawdd eich gwaith yn dibynnu ar eich defnydd o offer a phrosesau ac ar eich gallu i drin a chyfuno elfennau ffurfiol 2D megis llinell, tŵn, lliw, siâp, patrwm a gwead arwynebedd i gyfathrebu syniadau a theimladau.

Yn yr uned hon byddwch yn arbrofi gydag amrediad o weithgareddau gwneud marciau 2D sy'n cynnwys lluniadu, peintio a disgyblaethau eraill megis ffotograffiaeth, gwneud printiau a chyfryngau cymysg. Byddwch yn creu gwaith drwy ddulliau traddodiadol a chyfoes. Byddwch yn ennill sgiliau cofnodi, yn dysgu sut i weithio o ffynonellau cynradd ac eilaidd a thrwy archwilio iaith weledol 2D, byddwch yn dysgu sut i gynhyrchu a datblygu syniadau cyfathrebu gweledol yn llwyddiannus. Mae angen gwybodaeth a sgiliau 2D ar gyfer nifer o'r unedau yn eich cymhwyster ac maen nhw'n hanfodol i'ch helpu i baratoi ar gyfer symud ymlaen yn eich galwedigaeth.

Bydd ymchwilio i ddisgyblaethau megis dylunio ffasiwn, dylunio graffig a chelfyddyd gain yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o ymarfer proffesiynol cyfoes 2D. Byddwch yn archwilio ac ymchwilio i'r dulliau a'r ymagweddau sy'n cael eu defnyddio gan artistiaid a dylunwyr i weld sut maen nhw'n gweithio gyda syniadau 2D i gwrdd â gofynion a chyfyngiadau briff. Byddwch yn dysgu am y ffyrdd y mae artistiaid a dylunwyr yn hysbysu ac yn ysbrydoli eu syniadau eu hunain i'w galluogi i gyfathrebu'n llwyddiannus gan ddefnyddio iaith weledol 2D.

Yn yr uned hon byddwch yn archwilio cyfryngau 2D mewn cyfres o weithgareddau fydd yn eich cefnogi i ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu gweledol. Byddwch yn casglu amrediad o wahanol enghreifftiau o waith 2D ar gyfer eich portffolio. Bydd eich portffolio'n arddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddulliau gwaith 2D.

Byddwch yn dysgu am ymarfer iechyd a diogelwch hanfodol o fewn y diwydiannau creadigol, er enghraifft defnyddio offer yn ddiogel, gweithio'n ddiogel ac ailgylchu defnyddiau.

### Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A archwilio iaith weledol ac arferion gwaith 2D

B ymchwilio i sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn cyfathrebu mewn 2D

C cyfathrebu syniadau gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau 2D mewn ymateb i friff.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Archwilio iaith weledol ac arferion gwaith 2D</b>
<p><b>Sut mae iaith weledol 2D yn cael ei defnyddio mewn gwahanol ffyrdd mewn disgyblaethau 2D:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• lluniadu – e.e. pensiliau, graffit, inc a phen/brwsh, pennau lluniadu, pennau blaen ffelt, sialciau/pasteli olew, offer lluniadu wedi’u gwneud â llaw</li> <li>• gwneud printiau – e.e. mono, bloc, sgrin sidan, ffotograffig (yn cynnwys ffotograffiaeth ddigidol a ffilm)</li> <li>• peintio – e.e. acryligion, dyfrlliw, lliw posteri, gouache</li> <li>• digidol – e.e. lluniadu, ffotograffiaeth, peintio, cipio delweddau</li> <li>• graffeg – e.e. meddalwedd graffig, prosesu delweddau</li> <li>• tecstilau – e.e. print, llifedig addurnol</li> <li>• cyfryngau cymysg – e.e. papurau collage, gwrthrychau haggael, print</li> <li>• animeiddio – e.e. stop-symudiad, cellwloid, digidol.</li> </ul> <p><b>Sut i ddefnyddio prosesau a thechnegau gwneud marciau 2D</b></p> <p><b>Mae iaith weledol 2D yn cynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• elfennau ffurfiol – e.e. llinell, tŵn, siâp, lliw, patrwm, gwead arwynebedd</li> <li>• gwneud delweddau – e.e. cyfansoddiad, gofod, dyfnder, golau, cysgod, cygord, cyferbyniad, cymesuredd, anghymesuredd</li> <li>• defnyddiau – e.e. siarcol, sialciau, pastelau, pensiliau, brwshys, paentiau, inciau, papurau, cerdyn, cyfryngau cymysg, tecstilau, pecynnau cyfrifiadurol.</li> </ul> <p><b>Mae arferion gwaith 2D yn cynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• technegau gwneud marciau fel sy’n briodol ar gyfer y ddisgyblaeth a ddewiswyd, e.e. peintio, blendio, golchiad, impasto, sgwmblo, gwydro</li> <li>• cofnodi o ffynonellau cynradd ac eilaidd, gwneud marciau, defnyddio’r elfennau ffurfiol ar gyfer gwahanol effeithiau, arbrofi gyda chyfryngau a chyfryngau cymysg, mesur, drafftio, golygu digidol, gwaith mowntio</li> <li>• arferion gwaith diogel i warchod eich hun ac eraill, e.e. sicrhau awyru da wrth ddefnyddio sefydlyn ar gyfer lluniau siarcol, cymryd egwyl yn rheolaidd o’r cyfrifiadurol, trefnu’r gweithle</li> <li>• defnyddio, storio ac ailgylchu defnyddiau’n effeithiol i osgoi gwastraff.</li> </ul> <p><b>Archwilio sut mae elfennau’n cael eu creu, eu haddasu a’u mireinio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfuno cyfryngau ac elfennau ffurfiol 2D</li> <li>• arbrofi gyda gwahanol dechnegau a phrosesau gwneud marciau</li> <li>• ymarfer braslunio syniadau dylunio</li> <li>• creu darnau prawf, cyfansoddiadau, cyfuniadau o liwiau arbrofol 2D</li> <li>• trafod ac adolygu gwaith arbrofol</li> <li>• ymchwilio i sut mae syniadau a negeseuon yn cael eu cyfleu gan bobl greadigol yn eu gwaith 2D, e.e. atyniad, ymarferoldeb, perswâd, hiwmor</li> <li>• defnyddio elfennau ffurfiol i gyfleu syniad neu neges, e.e. y defnydd o liw i greu naws, ansawdd goleuni neu i fynegi teimladau</li> <li>• adnabod a chofnodi pwysigrwydd materion iechyd, diogelwch, amgylcheddol a chynaliadwyedd.</li> </ul>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Ymchwilio i sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn cyfathrebu mewn 2D****Sut i archwilio ac ymchwilio i enghreifftiau o waith 2D gan ddylunwyr, artistiaid a chrefftwyr, e.e.:**

- disgyblaethau sydd ynghlwm wrth arferion gweithio 2D
- gwahanol ddulliau gwneud gwaith 2D
- defnyddio termau celf wrth drafod gwaith pobl eraill
- defnyddio ffynonellau gwahanol i ymchwilio
- cofnodi gwybodaeth o ffynonellau gwahanol
- sut mae iaith weledol yn cael ei defnyddio i gyfathrebu syniadau neu negeseuon yn llwyddiannus
- sut mae elfennau ffurfiol yn cael eu defnyddio, e.e. llinell, siâp, ffurf, lliw, arwyneb, strwythur, cyfaint, gofod, pwysau.

**Sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau ar gyfer effeithiau gwahanol, e.e.:**

- Caiff gwaith 2D ei greu gan ddylunwyr, artistiaid a chrefftwyr, e.e. brasluniau ffasiwn, peintiadau, gosodiadau cylchgronau, cartwnau, cardiau cyfarch, hysbysebu, dylunio tecstilau ac arwynebau
- Defnyddiau, technegau a phrosesau 2D a welir mewn enghreifftiau o waith a grëwyd gan bobl greadigol broffesiynol, e.e. y defnydd o destun a delwedd yng ngwaith peintio, printio a montage coladol Rauschenberg.

**Ymchwilio i wahanol arbenigeddau celf, crefft a dylunio 2D, e.e.:**

- gwneud nodiadau o sgysiau a thrafodaethau ar wahanol fathau o waith 2D
- cynhyrchu atebion creadigol o fewn tîm hysbysebu
- defnyddio meddalwedd i greu graffigau ar gyfer gêm gyfrifiadurol
- cymhwyso gwaith o wahanol ffynonellau a gwahanol ddisgyblaethau 2D
- anodi brasluniau o ddarnau dethol yn dangos dealltwriaeth o'r iaith weledol a ddefnyddiwyd i gyfathrebu eu syniadau
- rheoli amser ac adnoddau
- sgiliau gweithio mewn tîm
- adnabod gwahanol gynulleidfaoedd a chleientiaid, y cafodd y gwaith ei wneud ar eu cyfer, pam y cafodd ei wneud, sut y cafodd ei wneud, ble mae modd ei weld a sut y gallai gael ei ddefnyddio
- defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau i greu effeithiau penodol gan adnabod dylanwadau mewn arfer 2D cyfoes.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu C: Cyfathrebu syniadau gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau 2D mewn ymateb i briff****Deall gofynion briff drwy ddysgu am:**

- y broses o ddylunio wrth gael syniadau, tyfu syniadau a chreu dyluniadau 2D
- elfennau gofynnol y briff, megis cyfyngiadau amser, defnyddiau, maint, cost
- anghenion cleientiaid neu gynulleidfa
- cynllunio amser
- arbrofi gyda defnyddiau drwy wneud marciau a chreu darnau prawf, arbrofion, byrddau stori, brasluniau cychwynnol, cyfuniadau o liwiau
- gwneud ymchwil i ddulliau pobl eraill o ddatrys problemau a chywiro diffygion.

**Sut i gychwyn a datblygu syniadau allai gael eu cynhyrchu drwy gofnodi o amrywiaeth o wahanol ffynonellau, e.e.:**

- ffynonellau cynradd – yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- ffynonellau eilaidd – llyfrau, cylchgronau, cyfnodolion, fformatau digidol, ffilm a'r rhyngwrdd.

**Sut i gynhyrchu a datblygu syniad i gyfathrebu syniadau, teimladau, negeseuon neu farnau i gynulleidfa, e.e.:**

- dadansoddi'r briff,
- archwilio materion cymdeithasol/amgylcheddol, syniadau at y dyfodol, syniadau am ddigwyddiad neu gynnyrch masnachol
- cael ysbrydoliaeth o waith pobl eraill, ffynonellau cynradd ac eilaidd
- cynllunio prosiect, yn cynnwys amserlennu'r prif gamau
- defnyddio cyfryngau, prosesau a thechnegau
- creu gwaith terfynol i gwrdd â'r briff
- defnyddio adborth i hysbysu eich cynnydd
- adnabod meysydd ar gyfer gwella
- archwilio syniadau mewn ffyrdd gwahanol
- dogfennu cynnydd
- adolygu a gwerthuso.

**Er mwyn datblygu syniadau, bydd angen:**

- cynllunio'r briff 2D, yn cynnwys amserlen yn dangos pryd y bydd prif gamau'n cael eu cwblhau, rhestr o ddefnyddiau a faint fydd ei angen
- brasluniau cychwynnol, darnau prawf, brasfodelau, samplau – fel sy'n briodol ar gyfer y ddisgyblaeth 2D, i ddangos ffyrdd gwahanol o greu syniad(au) dylunio.

*parhad*



**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut i greu darn terfynol o waith mewn ymateb i friff:**

- deall gofynion briff drwy amrywiaeth o weithgareddau cynllunio
- archwilio elfennau ffurfiol 2D mewn cyfres o astudiaethau a brasluniau o ffurfiau naturiol neu ffurfiau gwneud
- cynhyrchu a datblygu syniadau
- arbrofi gyda defnyddiau a phrosesau i ymchwilio i'r hyn sydd fwyaf priodol i'w ddefnyddio
- adolygu gwaith cyfredol ac ymateb i adborth gan gyfoedion ac athrawon
- creu cyfres o arbrofion a darnau prawf neu frasluniau ac anodi canlyniadau
- cyflwyno gwaith terfynol
- adolygu gwaith terfynol.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Archwilio iaith weledol ac arferion gwaith 2D</b>			
1A.1 Defnyddio iaith weledol 2D gyda detholiad cyfyngedig o ddefnyddiau, offer a thechnegau gan ddefnyddio arferion gwaith diogel	2A.LI1 Defnyddio iaith weledol 2D gan ddefnyddio defnyddiau, offer a thechnegau gan ddilyn a chofnodi arferion gwaith diogel.	2A.T1 Defnyddio iaith weledol 2D gan ddewis a defnyddio detholiad amrywiol o ddefnyddiau, offer a thechnegau yn effeithiol ac yn gyson.	2A.Rh1 Defnyddio iaith weledol 2D gan gyfuno a defnyddio detholiad amrywiol o ddefnyddiau, offer a thechnegau yn greadigol ac yn ddychmygus.
<b>Nod dysgu B: Ymchwilio i sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn cyfathrebu mewn 2D</b>			
1B.2 Nodi sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn cyfathrebu mewn 2D. *	2B.LI2 Disgrifio pedwar o'r sgiliau a'r defnyddiau, technegau a phrosesau cysylltiedig sydd eu hangen ar ymarferwyr sy'n gweithio mewn 2D. *	2B.T2 Dewis a chyflwyno ymchwiliadau effeithiol i amrywiaeth o ymarferwyr 2D, gan esbonio sut y maent yn cyfathrebu eu syniadau. * #	2B.Rh2 Dewis a chyflwyno ymchwiliadau manwl i amrywiaeth o ymarferwyr 2D, gan ddadansoddi sut y maent yn cyfathrebu eu syniadau. * #
1B.3 Cyflwyno o leiaf ddwy enghraifft o ymarferwyr 2D proffesiynol, gan nodi'r artistiaid, y crefftwyr a'r dylunwyr a ddewiswyd. #	2B.LI3 Dewis a chyflwyno enghreifftiau o waith gan o leiaf bedwar o ymarferwyr 2D proffesiynol, gan egluro eu gwahanol ddulliau. #		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Cyfathrebu syniadau gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau 2D mewn ymateb i friff</b>			
1C.4 Cyfathrebu syniadau gan ddefnyddio defnyddiau, offer a thechnegau 2D yn ddiogel, gan gynhyrchu o leiaf un syniad a gwaith gweledol i gwrdd â briff.	2C.LI4 Cyfathrebu syniadau gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau 2D i gynhyrchu gwaith gweledol i gwrdd â briff, gan ddilyn a chofnodi arferion gwaith diogel.	2C.T3 Dewis a defnyddio defnyddiau, offer a thechnegau 2D i gynhyrchu amrywiaeth eang o waith gweledol sy'n cwrdd â gofynion briff yn effeithiol.	2C.Rh3 Dewis amrywiaeth eang o ddefnyddiau, offer a thechnegau 2D i gynhyrchu gwaith gweledol sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briff.
1C.5 Trafod cynnydd eich gwaith eich hun.	2C.LI5 Cofnodi cynnydd eich gwaith eich hun a'ch defnydd o ddulliau 2D.	2C.T4 Esbonio'n effeithiol gynnydd eich gwaith eich hun ac adolygu eich defnydd eich hun o ddulliau 2D.	2C.Rh4 Dadansoddi a gwerthuso cynnydd eich syniadau eich hun a'ch defnydd o ddulliau 2D.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw:

- ardaloedd gwaith – stiwdio a gweithdai sy'n briodol ar gyfer y disgyblaethau 2D a ddewiswyd, yn cynnwys stiwdio gelf amlbwrpas a chaledwedd a meddalwedd dylunio
- defnyddiau, cyfarpar ac offer 2D
- staff arbenigol ar gyfer gwahanol lwybrau, i gynnwys cefnogaeth technegydd.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewanol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn dangos tystiolaeth o ymchwiliadau i amrywiaeth o iaith weledol 2D, gan ddefnyddio o leiaf bedwar neu bum gwahanol ddefnydd a thechneg. Gall y canlyniadau fod yn amrywiol gyda pheth tystiolaeth o sgil yn trafod defnyddiau a thechnegau. Byddant yn gallu nodi ac adnabod y gwahaniaeth rhwng ymagweddau artistiaid i 2D a defnyddio amrywiaeth o dermau celf i drafod natur a phwrpas y gwaith. Bydd tystiolaeth eu hymchwil yn dod ar ffurf casgliad o wybodaeth anodedig o dair ffynhonnell o leiaf, gyda nodiadau a brasluniau ochr yn ochr. Byddant yn dangos peth annibyniaeth ond mae'n debygol y bydd angen peth cefnogaeth arnyn nhw wrth archwilio cyfryngau. Gall eu harbrefion gyda defnyddiau a thechnegau 2D fod yn amrywiol o ran ansawdd ond byddant yn dangos peth sgil a dealltwriaeth. Byddant yn gallu cynhyrchu a datblygu eu syniadau eu hunain ar gyfer briff penodol a bydd y dystiolaeth a gynhyrchir ganddynt yn cynnwys tri neu bedwar o syniadau wedi eu braslunio gan ddangos arbrofion gyda defnyddiau a thechnegau posibl. Byddant yn dangos tystiolaeth o adolygu eu cynnydd drwy nodiadau neu anodiadau neu drwy drafodaethau wedi eu recordio gydag chyfoedion. Bydd dysgwyr ar y lefel hon yn gallu adolygu eu cynnydd gan ddefnyddio dulliau adborth, er enghraifft drwy gyfrwng holiadur neu drwy siarad gyda'u cynulleidfia cleient. Byddant yn defnyddio termau celf wrth drafod y gwaith a bydd eu gwaith ysgrifenedig yn ddisgrifiadol yn bennaf. Rhaid iddynt ddangos tystiolaeth eu bod wedi rheoli a chofnodi'r materion iechyd a diogelwch y maent yn dod ar eu traws yn ystod eu gwaith ar yr uned hon.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn dangos tystiolaeth o archwilio ac ymchwilio i iaith weledol 2D, gan ddefnyddio o leiaf bump neu chwe gwahanol ddefnydd a thechneg. Byddant yn dangos trafod medrus o ddefnyddiau a thechnegau. Byddant yn gallu dangos tystiolaeth o ymchwiliadau a chymariaethau effeithiol gydag ymagweddau artistiaid, crefftwyr a dylunwyr tuag at 2D ac yn defnyddio termau celf mewn ffyrdd gwahanol i drafod natur a phwrpas y gwaith. Bydd tystiolaeth ymchwil y dysgwyr yn dod ar ffurf casgliad o wybodaeth anodedig o bedair ffynhonnell o leiaf, gyda nodiadau, anodiadau a brasluniau ochr yn ochr. Byddant yn dangos annibyniaeth gynyddol a byddant yn gallu dilyn arddangosiadau i archwilio cyfryngau a defnyddiau 2D yn llwyddiannus gan ddangos sgil a dealltwriaeth. Bydd dysgwyr yn gallu cynhyrchu a datblygu eu syniadau eu hunain ar gyfer briff a roddwyd, gan gyfiawnhau eu penderfyniadau am eu syniad terfynol.

Bydd y dystiolaeth y byddant yn ei chynhyrchu'n cynnwys amrywiaeth o syniadau wedi eu datblygu gan ddangos cyfres o frasluniau dylunio ac astudiaethau ochr yn ochr â gwaith bras arbrofol a gwaith terfynol. Byddant yn adolygu ac yn gwerthuso eu cynnydd gan ddefnyddio gwahanol ddulliau adborth gan roi tystiolaeth ar ffurf nodiadau, anodiadau neu drafodaethau wedi eu recordio gyda'u cynulleidfa o gleientiaid neu gyfoedion. Bydd dysgwyr yn defnyddio termau celf mewn ffordd wybodus a bydd eu gwaith ysgrifenedig yn dangos peth gallu i ddadansoddi.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn dangos eu bod yn cymryd risgiau, ymchwiliadau cychwynnol i iaith weledol 2D, gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol gyfuniadau o ddefnyddiau a thechnegau. Byddant yn cymharu manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau, gan anodi eu canlyniadau. Byddant yn cynnal ymchwiliadau eang ac yn gwneud cymariaethau mewn perthynas ag ymagweddau artistiaid mewn cyfathrebu 2D a byddant yn trafod natur a phwrpas y gwaith mewn ffyrdd gwybodus. Bydd dysgwyr yn arddangos dealltwriaeth yn eu barnau a hyder wrth ddefnyddio amrywiaeth eang o dermau celf. Byddant yn dangos ymagwedd ddychmygus a chreadigol tuag at gynhyrchu a datblygu syniadau i gwrdd â briff. Bydd y dystiolaeth o'u sgiliau wrth ddefnyddio cyfryngau a thechnegau 2D yn dod ar ffurf casgliadau helaeth o daflenni gwaith anodedig, syniadau dylunio dychmygus a gwaith bras arbrofol. Bydd y gwaith terfynol yn dangos sgiliau lefel uchel wrth gyfathrebu eu syniadau'n llwyddiannus a defnyddio gwahanol gyfuniadau o dechnegau 2D. Byddant yn gwneud gwerthusiad manwl o'u gwaith wrth iddo ddatblygu. Bydd dysgwyr yn cyflwyno eu hymchwiliadau, gan ddefnyddio adborth o wahanol ffynonellau.

## Lefel 1

Bydd dysgwyr sy'n gweithio ar **Lefel 1** yn gallu gwneud tasgau arferol wrth archwilio a datblygu eu dealltwriaeth o iaith weledol 2D. Bydd ymchwiliadau dysgwyr i'r math o waith 2D y mae artistiaid yn ei gynhyrchu, eu pwrpas a ble i ddod o hyd i enghreifftiau yn gyfyngedig i ddwy neu dair enghraifft ar bapur ac yn ddigidol, efallai'n ffocysu ar un enghraifft.

Gellir asesu canfyddiadau dysgwyr drwy gyflwyniadau, nodiadau cefnogi sylfaenol, arsylwadau athrawon a thrafodaethau wedi'u recordio, yn hytrach na thrwy dasgau ysgrifenedig ffurfiol. Rhaid i ddysgwyr nodi sut y maent wedi cynnal asesiadau risg neu wedi cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch stiwdio. Gallai'r rhain gael eu cofnodi drwy ddefnyddio templedi safonol. Bydd y dysgwyr yn dangos tystiolaeth eu bod wedi archwilio cyfryngau ar lefel sylfaenol, a bydd eu gwaith arbrofi gyda defnyddiau a thechnegau 2D yn gyfyngedig. Bydd y dysgwyr yn datblygu eu syniadau eu hunain, ond bydd y dystiolaeth a gynhyrchir ganddynt yn gyfyngedig i un neu ddau o syniadau mewn brasluniau sylfaenol a darnau arbrofol. Byddant yn dangos tystiolaeth o adolygu eu cynnydd drwy nodiadau neu anodiadau syml neu drwy drafodaethau wedi eu recordio gyda'u cynulleidfa o gleientiaid neu gyfoedion.

Bydd defnydd dysgwyr o dermau celf yn gyfyngedig a gall tystiolaeth o'u nodiadau/trafodaethau fod drwy eiriau unigol, rhestrau neu ymadroddion yn hytrach na disgrifiadau.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1B.2, 2B.LI2 2B.T2, 2B.Rh2, 1B.3, 2B.LI3	Gŵyl Stryd	Mae grŵp o artistiaid yn derbyn briff gan y cyngor lleol. Rhaid iddynt ddatblygu syniadau ar gyfer gŵyl stryd, er enghraifft masgiau, baneri, gwisgoedd, yn arddangos cerddoriaeth a diwylliant lleol.	<p>Portffolio o ymchwiliadau 2D perthnasol i friff.</p> <p>Delweddau anodedig o'u gwaith archwilio eu hunain; ymchwiliadau i arferion proffesiynol.</p> <p>Ymchwil o nifer o ffynonellau gyda thystiolaeth mewn llyfrau braslunio, ffeiliau, nodiadau, taflenni gwaith anodedig.</p> <p>Cynlluniau prosiectau, adolygiad cynnydd.</p> <p>Datganiadau o arsylwadau athrawon mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sgiliau ymchwil, ansawdd y detholiad, cofnodi o ymchwil</li> <li>• nodiadau dysgwyr, anodiadau a barnau beirniadol</li> <li>• cyfraniadau dysgwyr i drafodaethau, cyflwyniadau i gyfoedion/athro.</li> </ul> <p>Datganiadau tyst athrawon ar y canlynol gan ddysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• archwilio defnyddiau a'r defnydd ohonynt, technegau, prosesau ac arferion gwaith diogel</li> <li>• ansawdd syniadau a'r gallu i ddethol a datblygu.</li> </ul> <p>Sgiliau cyflwyno:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• trafodaethau tiwtorial, gwerthusiadau grwpiau cyfoedion, cyflwyniad dyluniadau, ymateb i adborth</li> <li>• arddangosfa neu arddangos gwaith.</li> </ul>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1C.4, 2C.LI4, 2C.T3, 2C.Rh3, 1C.5, 2C.LI5, 2C.T4, 2C.Rh4	Gwarchod ein Amgylchedd	Mae grŵp o artistiaid yn cael cais i ddatblygu cysyniad ar gyfer cynhadledd amgylcheddol. Gallai hyn gynnwys goleuo, themâu lliw, defnydd o ofod a seddau.	<p>Portffolio cynhyrchiad yn cynnwys gwaith datblygu a chynllunio a ffotograffau (os oes angen) o'r gwaith 2D terfynol a holiaduron adborth.</p> <p>Arsylwadau athro o'r canlynol gan ddysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb i adborth o waith ymchwil</li> <li>• hunanwerthuso parhaus.</li> </ul> <p>Cyflwyniadau a thrafodaethau grwpiau cyfoedion a sesiynau tiwtorial.</p> <p>Gwerthusiadau terfynol – ysgrifenedig/wedi'u recordio.</p> <p>Arddangosfa/arddangos gwaith terfynol gydag astudiaethau cefnogol.</p>





## Uned 4: Cyfathrebu Syniadau mewn 3D

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

---

### Cyflwyniad i'r uned

Mae gweithio mewn tri dimensiwn yn beth sy'n gyffredin gan gerflunwyr, cynllunwyr cartref, penseiri a dylunwyr cynhyrchion. Mae celf, crefft a dylunio 3D yn cynnwys amrywiaeth eang o ymarfer ar draws gwahanol ddisgyblaethau i greu nwyddau y gallwn eu gweld neu eu defnyddio yn ein cartrefi, mewn gofodau cyhoeddus, mewn orielau, mewn siopau neu yn y gweithle.

Mae dylunwyr ac artistiaid sy'n gweithio mewn 3D yn defnyddio llawer o wahanol ddefnyddiau, technegau a phrosesau i gyd-fynd â'u bwriad. Gall hyn fod ar gyfer datblygu portffolio personol neu mewn ymateb i friff gan gleient neu gwsmer. Mae pob ymarferydd yn mynd drwy gylch dylunio yn y broses o gychwyn, datblygu ac adolygu ei syniadau. Byddwch yn ennill sgiliau cofnodi, yn dysgu sut i weithio o ffynonellau cynradd ac eilaidd a thrwy archwilio iaith weledol 3D, a byddwch yn gallu cynhyrchu a datblygu syniadau cyfathrebu gweledol yn llwyddiannus. Drwy archwilio gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr 3D, byddwch yn canfod enghreifftiau ysbrydoledig i ysgogi a datblygu eich gwaith creadigol eich hun.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfleoedd cyffrous i chi ar gyfer dylunio a gwneud 3D. Byddwch yn arbrofi gyda defnyddiau gwrthiannol a defnyddiau anwrthiannol ac yn datblygu technegau mewn modelu, adeiladu, cerfio, cyfuno a mowldio. Byddwch yn ennill sgiliau yn iaith weledol 3D, yn archwilio elfennau ffurfiol cyfaint, arwyneb, ffurf a strwythur. Drwy friffiau galwedigaethol byddwch yn gallu defnyddio eich dysgu mewn ffordd bersonol a chreadigol.

Byddwch yn archwilio cyfryngau 3D mewn cyfres o weithgareddau wedi eu cynllunio i ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu gweledol. Byddwch yn casglu amrediad o wahanol enghreifftiau o waith 3D ar gyfer eich portffolio sy'n dangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddulliau gwaith 3D.

Byddwch hefyd yn dysgu am ymarfer iechyd a diogelwch hanfodol o fewn y diwydiannau creadigol, er enghraifft defnyddio offer yn ddiogel, gweithio'n ddiogel ac ailgylchu defnyddiau.

### Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A archwilio iaith weledol ac arferion gwaith 3D
- B ymchwilio i sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn cyfathrebu mewn 3D
- C cyfathrebu syniadau gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau 3D mewn ymateb i friff.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Archwilio iaith weledol ac arferion gwaith 3D</b>
<p><b>Sut mae iaith weledol 3D yn cael ei defnyddio mewn gwahanol ffyrdd mewn disgyblaethau 3D, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cerflunio (clai, gwellt, plastr, pren, carreg, metel)</li> <li>• cerameg (clai, gwydreddau)</li> <li>• dylunio (cerdyn, pren, Meddalwedd 3D, rendro, tryhediadau)</li> <li>• gwneud modelau (pensaernïol, dylunio setiau, maquettes)</li> <li>• tecstilau (ffibrau naturiol a gwneud, gwehyddu, adeiladu)</li> <li>• crefft (pren, metel, clai).</li> </ul> <p><b>Sut i ddefnyddio prosesau a thechnegau gwneud 3D.</b></p> <p><b>Mae iaith weledol 3D yn cynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• elfennau ffurfiol – e.e. strwythur, cyfaint, gofod, pwysau, llinell, siâp, ffurf, lliw, arwyneb</li> <li>• defnyddiau gwrthiannol – e.e. prennau caled, prennau meddal, metelau caled a phlastigau, cerdyn trwchus</li> <li>• defnyddiau anwrthiannol – e.e. plastr gwlyb, clai, ffibrau, gwifren, llinyn, plastigau meddal, papurau, tecstilau, ffyn helyg (withies), papier mâché.</li> </ul> <p><b>Mae arferion gwaith 3D yn cynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• technegau a phrosesau, e.e. mesur, pwyso, amcangyfrif, adeiladu, ffurfio, mowldio, modelu, cerfio, gweadu, uno, cydosod a gorffen, dylunio digidol, argraffu 3D</li> <li>• y broses ddylunio sy'n cynnwys archwilio potensial defnyddiau 3D, cael syniadau, tyfu syniadau a gwireddu syniadau</li> <li>• arferion gwaith diogel i warchod eich hun ac eraill, e.e. storio defnyddiau gwenwynig, trafod a storio offer llaw a defnyddio peiriannau'n ddiogel, dilyn trefn gweithdy</li> <li>• defnyddio, storio ac ailgylchu defnyddiau, e.e. storio torion llenfetel meddal, torri pren yn economaidd, creu ffeiliau digidol wrth gefn, aildefnyddio clai</li> <li>• adnabod a chofnodi pwysigrwydd materion iechyd, diogelwch, amgylcheddol a chynaliadwyedd.</li> </ul> <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Archwilio sut mae elfennau'n cael eu creu, eu haddasu a'u mireinio, e.e.:**

- cyfuno cyfryngau ac elfennau ffurfiol 3D
- arbrofi gyda gwahanol dechnegau a phrosesau gwneud marciau 3D
- ymarfer braslunio syniadau dylunio
- creu darnau prawf, arbrofion, maquettes arbrofol 3D
- trafod ac adolygu gwaith arbrofol
- defnyddio cyfryngau 3D gwahanol mewn ymateb i ymchwilio i adeiladu neu fodelu
- dod o hyd i ffyrdd o gydosod a chyfuno mewn ymateb i archwilio nodweddion defnyddiau mewn tasgau gosod
- cyfuno defnyddiau neu brosesau 3D megis defnyddio dau wahanol ddisgyblaeth 3D mewn gwneud arbrofol
- defnyddio cyfuniadau o elfennau ffurfiol 3D mewn darnau arbrofol megis model gwifren, ceramig
- ymchwilio i'r broses ddylunio mewn tasgau gosod a'i deall
- creu brasluniau, gwaith bras a maquettes wrth archwilio'r broses ddylunio ar gyfer tasgau a roddir
- defnyddio rhaglenni dylunio digidol
- gwneud brasluniau anodedig o ddarnau arbrofol
- gwerthuso gwaith archwilio.

**Beth sydd angen ei ddysgu**

**Nod dysgu B: Ymchwilio i sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn cyfathrebu mewn 3D**

**Sut i archwilio ac ymchwilio i enghreifftiau o waith 3D gan ddylunwyr, artistiaid a chrefftwyr, e.e.:**

- disgyblaethau sydd ynghlwm wrth ymarfer gwaith 3D
- gwahanol ddulliau gwneud gwaith 3D
- defnyddio termau celf wrth drafod gwaith pobl eraill
- defnyddio ffynonellau gwahanol i ymchwilio
- cofnodi gwybodaeth o ffynonellau gwahanol
- sut mae iaith weledol yn cael ei defnyddio i gyfathrebu syniadau neu negeseuon yn llwyddiannus
- sut mae elfennau ffurfiol yn cael eu defnyddio, e.e. strwythur, cyfaint, gofod, pwysau, llinell, siâp, ffurf, lliw, arwyneb.

**Sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau ar gyfer effeithiau gwahanol, e.e.:**

- defnyddiau anwrthiannol, e.e. clai, dalennau plastig, gwifren feddal, papur, tecstilau, ffyn helyg, clai, cŵyr, gludion, gludyddion
- defnyddiau gwrthiannol, e.e. pren, metelau caled, plastigau anhyblyg a cherdyn
- technegau, e.e. torri, cerfio, ffurfio, mowldio, modelu, argraffu 3D, adeiladu, uno, cydosod, gorffen.

**Ymchwilio i wahanol arbenigeddau 3D, e.e.:**

- gwneud nodiadau o sgysiau a thrafodaethau ar wahanol fathau o waith 3D
- cynhyrchu atebion creadigol o fewn tîm hysbysebu
- defnyddio meddalwedd i greu graffigau ar gyfer gêm gyfrifiadurol
- cymhwyso gwaith o wahanol ffynonellau a gwahanol ddisgyblaethau 3D
- anodi brasluniau o ddarnau dethol yn dangos dealltwriaeth o'r iaith weledol a ddefnyddiwyd i gyfathrebu eu syniadau
- rheoli amser ac adnoddau
- sgiliau gweithio mewn tîm
- adnabod gwahanol gynulleidfaoedd a chleientiaid, y cafodd y gwaith ei wneud ar eu cyfer, pam y cafodd ei wneud, sut y cafodd ei wneud, ble mae modd ei weld a sut y gallai gael ei ddefnyddio defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau i greu effeithiau arbennig
- adnabod dylanwadau mewn ymarfer 3D cyfoes.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu C: Cyfathrebu syniadau gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau 3D mewn ymateb i briff****Deall gofynion briff drwy ddysgu am:**

- y broses o ddylunio wrth gael syniadau, tyfu syniadau a chreu dyluniadau 3D
- elfennau gofynnol y briff, megis cyfyngiadau amser, defnyddiau, maint, cost
- anghenion cleientiaid neu gynulleidfa
- cynllunio amser
- arbrofi gyda defnyddiau drwy wneud marciau a chreu darnau prawf, arbrofion, maquettes, modelau CAD
- gwneud ymchwil i ddulliau pobl eraill o ddatrys problemau a chywiro diffygion.

**Sut i gychwyn a datblygu syniadau allai gael eu cynhyrchu drwy gofnodi o amrywiaeth o wahanol ffynonellau, e.e.:**

- ffynonellau cynradd – yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- ffynonellau eilaidd – llyfrau, cylchgronau, cyfnodolion, fformatau digidol, arteffactau, ffilm a'r rhyngwyd.

**Sut i gynhyrchu a datblygu syniad i gyfathrebu syniadau, teimladau, negeseuon neu farnau i gynulleidfa, e.e.:**

- dadansoddi'r briff
- archwilio materion cymdeithasol/amgylcheddol, syniadau at y dyfodol, syniadau am ddirgwyddiad neu gynnyrch masnachol
- cael ysbrydoliaeth o waith pobl eraill, ffynonellau cynradd ac eilaidd
- cynllunio prosiect, yn cynnwys amserlennu'r prif gamau
- defnyddio cyfryngau, prosesau a thechnegau
- creu gwaith terfynol i gwrdd â'r briff
- defnyddio adborth i hysbysu eich cynnydd
- adnabod meysydd ar gyfer gwella
- archwilio syniadau mewn ffyrdd gwahanol
- dogfennu cynnydd
- adolygu a gwerthuso.

**Er mwyn datblygu syniadau, bydd angen:**

- cynllunio'r briff 3D, yn cynnwys amserlen yn dangos pryd y bydd prif gamau'n cael eu cwblhau, rhestr o ddefnyddiau a faint fydd ei angen
- brasluniau cychwynnol, maquettes, darnau prawf, brasfodelau, samplau – fel sy'n briodol ar gyfer y ddisgyblaeth 3D, i ddangos ffyrdd gwahanol o greu syniad(au) dylunio.

*parhad*

### **Beth sydd angen ei ddysgu**

#### **Sut i greu darn terfynol o waith mewn ymateb i friff:**

- deall gofynion briff drwy amrywiaeth o weithgareddau cynllunio
- archwilio elfennau ffurfiol 3D mewn cyfres o astudiaethau a brasluniau o ffurfiau naturiol neu ffurfiau gwneud
- cynhyrchu a datblygu syniadau
- arbrofi gyda defnyddiau a phrosesau i ymchwilio i'r rhai mwyaf priodol ar gyfer eich syniadau dylunio
- adolygu gwaith cyfredol ac ymateb i adborth gan gyfoedion ac athrawon
- creu cyfres o arbrofion a darnau prawf neu faquettes ac anodi canlyniadau
- cyflwyno gwaith terfynol
- adolygu gwaith terfynol.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Archwilio iaith weledol ac arferion gwaith 3D</b>			
1A.1 Defnyddio iaith weledol 3D gyda detholiad cyfyngedig o ddefnyddiau, offer a thechnegau gan ddefnyddio arferion gwaith diogel	2A.LI1 Defnyddio iaith weledol 3D gan ddefnyddio defnyddiau, offer a thechnegau gan ddilyn a chofnodi arferion gwaith diogel.	2A.T1 Defnyddio iaith weledol 3D gan ddewis a defnyddio detholiad amrywiol o ddefnyddiau, offer a thechnegau yn effeithiol ac yn gyson.	2A.T1 Defnyddio iaith weledol 3D gan gyfuno a defnyddio detholiad amrywiol o ddefnyddiau, offer a thechnegau yn greadigol ac yn ddychmygus.
<b>Nod dysgu B: Ymchwilio i sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn cyfathrebu mewn 3D</b>			
1B.2 Nodi sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn cyfathrebu mewn 3D. *	2B.LI2 Disgrifio pedwar o'r sgiliau a'r defnyddiau, technegau a phrosesau cysylltiedig sydd eu hangen ar ymarferwyr sy'n gweithio mewn 3D. *	2B.T2 Dewis a chyflwyno ymchwiliadau effeithiol i amrywiaeth o ymarferwyr 3D, gan esbonio sut y maent yn cyfathrebu eu syniadau. * #	2B.Rh2 Dewis a chyflwyno ymchwiliadau manwl i amrywiaeth o ymarferwyr 3D, gan ddadansoddi sut y maent yn cyfathrebu eu syniadau. * #
1B.3 Cyflwyno o leiaf ddwy enghraifft o ymarferwyr 3D proffesiynol, gan nodi'r artistiaid, y crefftwyr a'r dylunwyr a ddewiswyd. #	2B.LI3 Dewis a chyflwyno enghreifftiau o waith gan o leiaf bedwar o ymarferwyr 3D proffesiynol, gan egluro eu gwahanol ddulliau. #		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Cyfathrebu syniadau gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau 3D mewn ymateb i friff</b>			
1C.4 Cyfathrebu syniadau gan ddefnyddio defnyddiau, offer a thechnegau 3D yn ddiogel, gan gynhyrchu o leiaf un syniad a gwaith gweledol i gwrdd â briff.	2C.LI4 Cyfathrebu syniadau gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau 3D i gynhyrchu gwaith gweledol i gwrdd â briff, gan ddilyn a chofnodi arferion gwaith diogel.	2C.T3 Dewis a defnyddio defnyddiau, offer a thechnegau 3D i gynhyrchu amrywiaeth eang o waith gweledol sy'n cwrdd â gofynion briff yn effeithiol.	2C.Rh3 Defnyddio amrywiaeth eang o ddefnyddiau, offer a thechnegau 3D i gynhyrchu gwaith gweledol sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briff.
1C.5 Trafod cynnydd eich gwaith eich hun.	2C.LI5 Cofnodi cynnydd eich gwaith eich hun a'ch defnydd o ddulliau 3D.	2C.T4 Esbonio'n effeithiol gynnydd eich gwaith eich hun ac adolygu eich defnydd eich hun o ddulliau 3D.	2C.Rh4 Dadansoddi a gwerthuso cynnydd eich syniadau eich hun a'ch defnydd o ddulliau 3D.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.



## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw:

- ardaloedd gwaith– stiwdio a gweithdai priodol ar gyfer y disgyblaethau 3D a ddewiswyd, i gynnwys stiwdio gelf amlwrpas, gweithdai 3D neu ardaloedd gwaith 3D priodol a chaledwedd a meddalwedd dylunio
- Defnyddiau, cyfarpar ac offer 3D
- staff arbenigol ar gyfer gwahanol lwybrau, i gynnwys cefnogaeth technegydd.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn dangos tystiolaeth o ymchwiliadau i amrywiaeth o iaith weledol 3D, gan ddefnyddio o leiaf bedwar neu bump gwahanol ddefnydd a thechneg. Gall y canlyniadau fod yn amrywiol gyda pheth tystiolaeth o sgil yn trafod defnyddiau a thechnegau.

Byddant yn gallu nodi ac adnabod y gwahaniaeth rhwng ymagweddau artistiaid i 3D a defnyddio amrywiaeth o dermau celf i drafod natur a phwrpas y gwaith. Bydd tystiolaeth eu hymchwil yn dod ar ffurf casgliad o wybodaeth anodedig o dair ffynhonnell o leiaf, gyda nodiadau a brasluniau ochr yn ochr.

Byddant yn dangos peth annibyniaeth wrth archwilio cyfryngau, gyda chanlyniadau amrywiol.

Gall arbrofion dysgwyr gyda defnyddiau a thechnegau 3D fod yn amrywiol o ran ansawdd ond byddant yn dangos peth sgil a dealltwriaeth. Byddant yn gallu cynhyrchu a datblygu eu syniadau eu hunain ar gyfer briff gosod a bydd y dystiolaeth y byddant yn ei chynhyrchu'n cynnwys tri neu bedwar syniad yn dangos brasluniau dylunio o wahanol safbwyntiau ochr yn ochr â darnau prawf neu maquettes wedi eu gwneud yn gymwys. Byddant yn dangos tystiolaeth o adolygu eu cynnydd drwy nodiadau neu anodiadau syml neu drwy drafodaethau wedi eu recordio gyda chyfoedion, er enghraifft drwy gyfrwng holiadur neu drwy siarad gyda'u cynulleidfa cleient. Byddant yn defnyddio termau celf wrth werthuso'r gwaith a bydd eu gwaith ysgrifenedig yn ddisgrifiadol yn bennaf. Rhaid iddynt ddangos tystiolaeth eu bod wedi rheoli a chofnodi'r materion iechyd a diogelwch y maent yn dod ar eu traws yn ystod eu gwaith ar yr uned hon.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn dangos tystiolaeth o archwilio ac ymchwilio i iaith weledol 3D, gan ddefnyddio o leiaf bump neu chwe gwahanol ddefnydd a thechneg. Byddant yn dangos trafod medrus o ddefnyddiau a thechnegau. Byddant yn gallu dangos tystiolaeth o ymchwiliadau a chymariaethau effeithiol gydag ymagweddau artistiaid, crefftwyr a dylunwyr tuag at 3D ac yn defnyddio termau celf mewn ffyrdd gwahanol i drafod natur a phwrpas y gwaith. Bydd tystiolaeth eu hymchwil yn dod ar ffurf casgliad o wybodaeth anodedig o bedair ffynhonnell o leiaf, gyda nodiadau, anodiadau a brasluniau ochr yn ochr.

Bydd dysgwyr yn dangos annibyniaeth gynyddol a byddant yn gallu dilyn arddangosiadau i archwilio cyfryngau a defnyddiau 3D yn llwyddiannus gan ddangos sgil a dealltwriaeth. Byddant yn gallu cynhyrchu a datblygu eu syniadau eu hunain ar gyfer briff a roddwyd, gan gyfiawnhau eu penderfyniadau am eu syniad terfynol. Bydd y dystiolaeth y byddant yn ei chynhyrchu'n cynnwys amrywiaeth o syniadau datblygedig yn dangos brasluniau dylunio o wahanol safbwyntiau ochr yn ochr â darnau prawf neu faquettes a gwaith terfynol wedi eu gwneud yn fedrus. Byddant yn adolygu ac yn gwerthuso eu cynnydd gan ddefnyddio gwahanol ddulliau adborth gan roi tystiolaeth ar ffurf nodiadau, anodiadau neu drafodaethau wedi eu recordio gyda'u cynulleidfa o gleientiaid neu gyfoedion. Byddant yn defnyddio termau celf mewn ffordd wybodus a bydd eu gwaith ysgrifenedig yn dangos peth gallu i ddadansoddi.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn dangos eu bod yn cymryd risgiau, ymchwiliadau cychwynnol i iaith weledol 3D, gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol gyfuniadau o ddefnyddiau a thechnegau. Byddant yn cymharu manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau, gan anodi eu canlyniadau. Byddant yn cynnal ymchwiliadau eang ac yn gwneud cymariaethau mewn perthynas ag ymagweddau artistiaid mewn cyfathrebu 3D a byddant yn trafod natur a phwrpas y gwaith mewn ffyrdd gwybodus.

Bydd dysgwyr yn arddangos dealltwriaeth yn eu barnau a hyder wrth ddefnyddio amrywiaeth eang o dermau celf. Byddant yn dangos ymagwedd ddychmygus a chreadigol tuag at gynhyrchu a datblygu syniadau i gwrdd â briff. Bydd y dystiolaeth o'u sgiliau wrth ddefnyddio cyfryngau a thechnegau 3D yn dod ar ffurf casgliadau helaeth o daflenni gwaith anodedig, syniadau dylunio dychmygus a gwaith bras arbrofol. Bydd y gwaith terfynol yn dangos sgiliau lefel uchel wrth gyfathrebu eu syniadau'n llwyddiannus a defnyddio gwahanol gyfuniadau o dechnegau 3D. Byddant yn gwneud gwerthusiad manwl o'u gwaith wrth iddo ddatblygu. Bydd dysgwyr yn cyflwyno eu hymchwiliadau, gan ddefnyddio adborth o wahanol ffynonellau.

## Lefel 1

Bydd dysgwyr sy'n gweithio ar **Lefel 1** yn gallu gwneud tasgau arferol wrth archwilio a datblygu eu dealltwriaeth o iaith weledol 3D. Bydd ymchwiliadau dysgwyr i'r math o waith 3D y mae artistiaid yn ei gynhyrchu, eu pwrpas a ble i ddod o hyd i enghreifftiau yn gyfyngedig i ddwy neu dair enghraifft ar bapur ac yn ddigidol, efallai'n ffocysu ar un enghraifft.

Gellir asesu canfyddiadau dysgwyr drwy gyflwyniadau, nodiadau cefnogi sylfaenol, arsylwadau athrawon a thrafodaethau wedi'u recordio, yn hytrach na thrwy dasgau ysgrifenedig ffurfiol. Rhaid i ddysgwyr nodi sut y maent wedi cynnal asesiadau risg neu wedi cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch stiwdio. Gallai'r rhain gael eu cofnodi drwy ddefnyddio templedi safonol. Bydd eu gwaith yn archwilio cyfryngau ac yn arbrofi gyda defnyddiau a thechnegau 3D yn gyfyngedig. Bydd ymateb y dysgwyr yn sylfaenol wrth gynhyrchu a datblygu eu syniadau eu hunain a bydd y dystiolaeth a gynhyrchir ganddynt yn gyfyngedig i un neu ddau o syniadau mewn brasluniau sylfaenol a darnau arbrofol. Byddant yn dangos tystiolaeth o adolygu eu cynnydd drwy nodiadau neu anodiadau syml neu drwy drafodaethau wedi eu recordio gyda'u cynulleidfa o gleientiaid neu gyfoedion.

Bydd defnydd dysgwyr o dermau celf yn gyfyngedig a gall tystiolaeth o'u nodiadau/trafodaethau fod drwy eiriau unigol, rhestrau neu ymadroddion yn hytrach na disgrifiadau.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2, 1B.3, 2B.LI3	Planed Werdd	Mae grŵp o artistiaid a dylunwyr yn derbyn briff i ddatblygu cysyniad ar gyfer arddangosfa. Rhaid iddyn nhw godi ymwybyddiaeth o effaith fyd-eang ailgylchu ar gyfer elusen amgylcheddol, er enghraifft drwy ddylunio stondinau arddangosfa, setiau, sesiynau cyflwyno a holi a delweddiadau ( <i>visualisations</i> ).	<p>Portffolio o ymchwiliadau 3D perthnasol i friff.</p> <p>Delweddu anodedig o'u gwaith archwilio eu hunain; ymchwiliadau i arferion proffesiynol.</p> <p>Ymchwil o nifer o ffynonellau gyda thystiolaeth mewn llyfrau braslunio, ffeiliau, nodiadau, taflenni gwaith anodedig.</p> <p>Cynlluniau prosiectau, hunanwerthuso parhaus o ran cynnydd.</p> <p>Datganiadau o arsylwadau athrawon mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sgiliau ymchwil, ansawdd y detholiad, cofnodi o ymchwil</li> <li>• nodiadau dysgwyr, anodiadau a barnau beirniadol</li> <li>• cyfraniadau dysgwyr i drafodaethau, cyflwyniadau i gyfoedion/athro.</li> </ul> <p>Datganiadau tyst athrawon ar y canlynol gan ddysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• archwilio defnyddiau, technegau, prosesau ac arferion gwaith diogel a'r defnydd ohonynt; maquettes, darnau prawf, samplau</li> <li>• ansawdd syniadau</li> <li>• y gallu i ddewis a datblygu syniadau.</li> </ul> <p>Sgiliau cyflwyno:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• trafodaethau tiwtorial</li> <li>• gwerthusiadau grwpiau cyfoedion</li> <li>• cyflwyniad interim o ddyluniadau</li> <li>• ymateb i adborth gan y gynulleidfa gleientiaid a/neu gyfoedion</li> <li>• arddangosfa neu arddangos gwaith</li> </ul>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1C.4, 2C.LI4, 2C.T3; 2C.Rh3, 1C.5, 2C.LI5, 2C.T4, 2C.Rh4	Sioe Arddangos Theatr	Mae grŵp o artistiaid a dylunwyr wedi cael eu comisiynu gan gwmni theatr. Rhaid iddyn nhw lunio syniadau set a chynhyrchu ar gyfer sioe arddangos o dalent actio ifanc.	<p>Portffolio cynhyrchiad yn cynnwys gwaith datblygu a chynllunio a ffotograffau (os oes angen) o'r gwaith 3D terfynol a chwestiynau adborth.</p> <p>Arsylwadau athro o'r canlynol gan ddysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb i holiaduron ac adborth gan y gynulleidfa o gleientiaid a/neu gyfoedion</li> <li>• adolygu'r hunan a hunanwerthuso parhaus.</li> </ul> <p>Cyflwyniadau a thrafodaethau grwpiau cyfoedion a sesiynau tiwtorial.</p> <p>Gwerthusiadau terfynol – ysgrifenedig/wedi'u recordio.</p> <p>Arddangosfa/arddangos gwaith terfynol gydag astudiaethau cefnogol.</p>

# Uned 5: Datblygu Portffolio Celf a Dylunio

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

O gychwyn eich cwrs celf a dylunio bydd angen i chi allu storio eich gwaith yn ddiogel er mwyn i chi gael cofnod cyflawn o'ch cynnydd, yn dangos eich sgiliau a'ch cyflawniad.

Drwy adeiladu portffolio byddwch yn trefnu ac yn cyflwyno eich gwaith gorau er mwyn i bobl eraill, er enghraifft athrawon, cyfoedion, cymedrolwyr allanol ac asiantaethau allanol megis pobl broffesiynol y diwydiant, allu deall eich syniadau creadigol a chydabod eich sgiliau technegol yn trafod cyfryngau ar draws gwahanol ddisgyblaethau celf a dylunio. Bydd yr uned hon yn datblygu eich sgiliau arddangos eich gwaith yn y ffordd orau drwy ddangos eich creadigrwydd a'ch sgiliau technegol.

Portffolio yw'r ffordd fwyaf uniongyrchol i artist, crefftwr neu ddylunydd ddangos ehangder ei waith i ddarpar gleientiaid neu gynulleidfaoedd eraill. Bydd angen i chi gadw cofnod cyfredol o'ch gwaith i arddangos gwybodaeth a sgiliau. Gall eich portffolio fod ar bapur a gallai gynnwys ymchwil, brasluniau, gwaith celf terfynol neu ffotograffau o waith celf. Yn gynyddol, mae artistiaid a dylunwyr yn defnyddio dulliau digidol i ddangos eu gwaith; er enghraifft, gallech uwchlwytho eich portffolio ar wefanau rhwydweithio cymdeithasol, gwefannau orielau neu gallech greu eich gwefan eich hun.

Bydd eich portffolio yn eich helpu i fynd ymlaen drwy eich cwrs presennol at y lefel nesaf. Bydd hefyd yn eich helpu i symud tuag at yrfa mewn celf a dylunio. Bydd eich gwaith ar gyfer yr uned hon yn eich helpu i storio a threfnu'r gwaith rydych wedi ei gynhyrchu ar gyfer unedau eraill. Mae'r uned hon yn rhoi'r cyfle i chi gyflwyno eich portffolio i bobl eraill, gan eich galluogi i rannu syniadau a chael adborth cefnogol.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A archwilio pwrpas portffolio
- B llunio portffolio i gefnogi dilyniant
- C cyflwyno portffolio o waith i eraill.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Archwilio pwrpas portffolio</b>
<p>Sut i archwilio enghreifftiau o waith portffolio a gynhyrchwyd gan artistiaid a dylunwyr, ar bapur ac yn ddigidol.</p> <p><b>Y gwahanol fathau o bortffolios sy'n cael eu cynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• llyfr brasluniau personol gyda delweddau o unrhyw waith sydd wedi cael ei ddatblygu i gam terfynol</li> <li>• portffolios seiliedig ar brosiectau, o bosibl yn ffocysu ar rôl unigolyn (os bu'n gweithio mewn tîm dylunio)</li> <li>• ffeil gynhyrchu gyda manylion y camau dylunio a chynhyrchu</li> <li>• llyfrynau gwerthu gyda gwybodaeth am yr artistiaid a'r dylunwyr a delweddau o'u gwaith</li> <li>• gwefannau gyda delweddau o waith, disgrifiadau o'r hyn a ysbrydolodd y gwaith a sut y cafodd darnau unigol eu gwneud</li> <li>• portffolio seiliedig ar gymhwyster yn darparu tystiolaeth ar gyfer unedau o fewn cymhwyster.</li> </ul> <p><b>Archwilio pwrpas gwahanol bortffolios celf, crefft a dylunio drwy:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• wneud ymchwil i waith pobl eraill, er enghraifft eu syniadau a'u dylanwadau, eu sgiliau a'u technegau</li> <li>• ymchwilio i ddatblygiad syniadau a sgiliau</li> <li>• canfod sut y maen nhw'n cynllunio eu gwaith a'u sgiliau rheoli prosiect</li> <li>• dangos enghreifftiau gorau o waith terfynol.</li> </ul> <p><b>Ble i ddod o hyd i enghreifftiau o bortffolios:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amgueddfeydd, e.e. Amgueddfa Victoria ac Albert, Amgueddfa Genedlaethol Cymru</li> <li>• gwefannau orielau celf</li> <li>• portffolios a llyfrau braslunio artistiaid a dylunwyr lleol</li> <li>• dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau celf a dylunio eraill</li> <li>• ar y we, e.e. YouTube, gwefannau colegau celf.</li> </ul> <p>Sut mae cynnwys portffolios yn gwahaniaethu mewn perthynas â'u pwrpas. Manteision storio a hyrwyddo gwaith yn electronig. Sut mae rhai artistiaid a dylunwyr yn defnyddio tudalennau gwe personol neu wefannau rhwydweithio cymdeithasol, e.e. YouTube neu Facebook, i hyrwyddo eu gwaith.</p> <p>Sut mae pwrpasau gwahanol fathau o bortffolios yn cael eu hadlewyrchu yn eu cynnwys.</p> <p>Canfod tystiolaeth mewn portffolio i gwrdd â gofynion cwrs astudio.</p> <p>Prawf o wybodaeth a sgiliau i ddangos i gyflogwyr neu athrawon, tiwtoriaid a darlithwyr, er enghraifft mewn addysg uwch ac addysg bellach.</p> <p>Cyhoedduswyd ar gyfer busnesau, arddangosfeydd a gwerthiant posibl yr artistiaid.</p> <p>Pam mae hi'n bwysig cadw cofnodion o bob cyfeiriad cyd-destunol, yn cynnwys ar y we.</p> <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

**Beth sydd angen ei ddysgu**

Pam mae rhaid adolygu portffolios yn gyson.

Manteision portffolio electronig, e.e. hawdd i'w rannu'n fyd-eang, hawdd ei ddiweddarau.

Manteision portffolio papur, e.e. gall fod ar raddfa, dangos manylion arwyneb y gwaith yn dda.

**Nod dysgu B: Llunio portffolio i gefnogi dilyniant****Dilyniant:**

- i gwrs arall
- i gyflogaeth
- ar gyfer datblygiad personol
- dysgu drwy adborth.

Sut i lunio portffolio digidol neu bortffolio papur neu gymysgedd o gynnwys papur ac electronig.

**Beth allai fod yn y portffolio, e.e. llyfrau braslunio, taflenni gwaith, lluniadau, gwaith 2D terfynol, delweddau digidol o ddarnau 3D a darnau mawr neu gydweithredol, DVDau/CDau, gwefan o waith yn dangos:**

- cynhyrchu syniadau: ffynonellau ysbrydoliaeth, mapiau meddwl syniadau, byrddau hwyliau
- brasluniau, gwaith bras, mânluniau, dalennau cyffwrdd ffotograffig
- ffotograffau o faquettes, modelau, darnau prawf, samplau
- cynlluniau megis rhestr o ddefnyddiau, cyllidebau, asesiadau risg
- clipiau fideo/sain
- adborth, all fod yn cynnwys taflenni sylwadau athrawon, asesiadau cyfoedion
- ffotograffau o'r gweithiau celf terfynol
- adolygiadau a gwerthusiadau.

**Sut i drefnu portffolio, gan ystyried:**

- y fformat (digidol neu bortffolio)
- y darnau gwaith i'w cynnwys
- trefn dangos y gwaith, e.e. gwaith wedi'i fynegeo yn nhrefn amser; gwaith yn cael ei ddangos dan benawdau unedau (Uned 1, Uned 2); gwaith yn cael ei ddangos yn ôl gweithgaredd (Ymchwil, Syniadau, Cynhyrchu)
- ansawdd ymddangosiad a golwg cyffredinol y portffolio

Y broses ddethol: pa ddarnau o waith ddylai gael eu dewis i'w rhoi yn y portffolio a pham?

Gwneud cofnodion ffotograffig: sut i dynnu ffotograffau o waith celf i ddangos graddfa, gwahanol safbwyntiau a manylion arwyneb.

**Ymchwil i gefnogi portffolio, e.e.:**

- sut y gellir defnyddio ymchwil i gefnogi dilyniant
- ydy'r ffynonellau ymchwil yn ddibynadwy?
- sut mae defnyddio ffynonellau annibynadwy yn effeithio ar bortffolio.

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu**

Coladu nodiadau ymchwil, brasluniau, lawrlwythiadau anodedig, holiaduron, ffotograffau, deunyddiau wedi eu casglu o ymweliadau i amgueddfeydd ac orielau, dadansoddiadau ymchwil.

Sut mae dod o hyd i waith, drwy dudalennu er enghraifft, rhestr gynnwys, mynegeion, anodiadau, dolenni.

Llyfryddiaeth a chyfeiriadau: sut i sicrhau bod pob ffynhonnell gwybodaeth yn cael ei ddyfynnu'n gywir ac yn gyson gan ddefnyddio dull Havard neu ddull dyfynnu arall wedi'i symleiddio.

**Creu cynnwys deniadol a diddorol i'r llygaid – beth all wneud i'r portffolio edrych yn esthetig ysbrydoledig a phroffesiynol? e.e.:**

- ansawdd cyffredinol y gwaith
- clawr neu daflen flaen sy'n gyffrous
- enw'n cael ei nodi'n glir
- dogfennau ysgrifenedig wedi eu gairbrosesu
- anodiadau mewn llawysgrifen y gellir ei ddarllen
- delweddau wedi eu gosod allan mewn trefn, wedi eu torri â gilotîn neu eu rhwygo'n fwriadol a'u gludo i mewn
- defnydd creadigol o wahanol fathau o bapur.



**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu C: Cyflwyno portffolio o waith i eraill****Sut i gyflwyno gwaith o'r portffolio i bobl eraill, e.e.:**

- grŵp cyfoedion mewn sesiwn feirniadu
- grwpiau bach megis rhieni mewn diwrnod agored neu ddysgwyr sy'n gobeithio dilyn y cwrs y flwyddyn nesaf
- unigolion, er enghraifft dylunydd, artist neu athro lleol.

**Fformatau cyflwyno, e.e.:**

- ar bapur – A1, A2, A3 neu fformat arall; fel arfer mae gwaith wedi ei gadw'n unigol mewn waledi plastig yn y portffolio
- llyfrau braslunio, DVDau/CDau a ffeiliau, sydd fel arfer yn cael eu cadw ym mhocedi'r portffolio
- gwaith digidol, allai gael ei storio mewn amrywiaeth o fformatau.

**Gallai'r gwaith yn y portffolio:**

- gael ei ddangos o fewn y portffolio i grwpiau bach neu unigolion
- gael ei arddangos ar fwrdd neu wal ar gyfer arddangosfa neu gyfweiliad
- fod yn gyflwyniad electronig ar gyfer arddangos neu gyfweiliad
- fod ar fewnrwyd ysgol neu goleg ar gyfer gwybodaeth, arddangosiad neu adborth.

**Sut i baratoi i ofyn ac ateb cwestiynau ar y portffolio naill ai wyneb yn wyneb neu'n electronig.****Adborth, e.e.:**

- arolygon
- holiaduron
- grwpiau ffocws
- sesiynau tiwtorial
- cyfarfodydd cleientiaid
- siarad gyda'r cyhoedd.

**Sut i baratoi defnyddiau cefnogi, e.e.:**

- taflen
- dalenni gwybodaeth (*handouts*)
- crynodeb o gyflawniadau fel artist neu ddylunydd
- adroddiad anodedig yn defnyddio eich delweddau eich hun o'r portffolio

Gwerthuso a defnyddio adborth

Adnabod nodweddion allweddol i arddangos sgiliau.

**Cynnwys portffolio at bwrpasau gwahanol, megis:**

- cwrs lefel uwch
- cyflogaeth
- arddangos gwaith ar gyfer asesiad terfynol
- adolygiad interim o gynnydd
- cyflwyno gwaith i gynulleidfaeodd mewn ymateb i friff.

**Meini prawf asesu**

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Archwilio pwrpas portffolio</b>			
1A.1 Nodi dau bortffolio papur a dau bortffolio digidol o waith pobl eraill, gan nodi eu prif bwrpas.	2A.L11 Disgrifio pwrpas amrywiaeth o waith portffolio papur a digidol gan bobl eraill, gan gyfeirnodir dulliau a ddefnyddir.	2A.T1 Cymharu amrywiaeth eang o enghreifftiau o waith portffolio papur a digidol gan bobl eraill, gan ddisgrifio manteision ac anfanteision y ddau fath.	2A.Rh1 Dadansoddi a chymharu amrywiaeth eang o enghreifftiau o waith portffolio papur a digidol gan bobl eraill, gan werthuso manteision ac anfanteision hyrwyddo gwaith mewn fformatau gwahanol.
<b>Nod dysgu B: Llunio portffolio i gefnogi dilyniant</b>			
1B.2 Llunio eich portffolio gwaith eich hun i gefnogi dilyniant, mewn pedair disgyblaeth, gan ddangos cynllunio a threfnu sylfaenol.	2B.L12 Llunio eich portffolio eich hun i gefnogi dilyniant, gan arddangos amrediad o wahanol ddefnydd o gyfryngau a thechnegau, a dangos dethol a threfnu.	2B.T2 Llunio eich portffolio eich hun i gefnogi dilyniant, gan arddangos amrediad eang o wahanol ddefnydd o gyfryngau a thechnegau, a dangos dethol a threfnu effeithiol.	2B.Rh2 Llunio portffolio cynhwysfawr, yn arddangos defnydd creadigol o gyfryngau ac amrywiaeth eang o dechnegau, a dangos dethol a threfnu wedi'u barnu'n dda.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Cyflwyno portffolio o waith i eraill</b>			
1C.3 Cyflwyno eich portffolio gwaith eich hun i eraill a chofnodi adborth. #	2C.LI3 Cyflwyno eich portffolio eich hun yn briodol i eraill gan adolygu adborth. #	2C.T3 Dethol a chyflwyno eich portffolio eich hun yn gymwys i eraill, gan esbonio adborth. #	2C.Rh3 Creu cyflwyniad dychmygus a meddylgar o'ch gwaith portffolio eich hun i eraill, gan werthuso adborth. #

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Er mwyn datblygu a chynhyrchu portffolio cynhwysfawr o waith, bydd angen i ddysgwyr allu gael gafael ar bob maes a deunydd sy'n berthnasol i'r unedau y maent wedi eu dewis. Bydd angen gofod stiwdio arnynt a byrddau mawr i gynllunio, paratoi a llunio eu phortffolios. Bydd angen cyfleusterau torri a mowntio arnynt hefyd, ynghyd ag amrediad o gardiau a phapurau ar gyfer mowntio a chyflwyno eu gwaith.

Bydd angen gofod storio diogel ar ddysgwyr ar gyfer eu portffolios gan y byddant yn parhau i'w diwygio a'u datblygu dros gyfnod y cwrs. Mae'r defnydd o'r rhyngrwyd er mwyn gwneud ymchwil a'r defnydd o gamerâu digidol i gofnodi eu gwaith yn hanfodol, ynghyd â chyfrifiaduron ar gyfer gairbroesu a meddalwedd dylunio ar gyfer mireinio a datblygu delweddau. Bydd angen argraffwyr a chyfleusterau llungopïo ar ddysgwyr hefyd ar gyfer atgynhyrchu delweddau dethol. Mae cael gafael ar amrywiaeth eang o gyhoeddiadau celf cyfoes a hanesyddol hefyd yn hanfodol.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn dangos tystiolaeth o ymchwiliadau i bwrpas o leiaf ddwy neu dair enghraifft o bortffolios papur a digidol. Bydd eu hymatebion yn ddisgrifiadol yn bennaf, gyda nodiadau, sganiau a chopïau wedi eu casglu i ddangos eu dewis o artistiaid, crefftwyr a dylunwyr. Bydd eu dealltwriaeth o fanteision ac anfanteision portffolio digidol yn cael ei dangos mewn amlinelliad cryno neu drafodaeth wedi ei recordio gyda'u cyfoedion. Dylai tystiolaeth i gefnogi eu dealltwriaeth o ddilyniant fod yn eu harchwiliadau ymchwil a nodiadau i gyd-fynd, ynghyd â chynlluniau a brasluniau anodedig i ddatblygu detholiad a threfn eu portffolio eu hunain. Bydd dysgwyr yn dewis dulliau priodol i gyflwyno gwaith gweledol ac ysgrifenedig i gynulleidfaoedd. Byddant yn defnyddio termau celf wrth ddisgrifio a chyfiawnhau eu dewisiadau portffolio a byddant yn creu ac yn defnyddio amrediad o ddeunyddiau i gefnogi eu cyflwyniadau. Gallai tystiolaeth ar gyfer adolygu eu cyflwyniadau fod ar ffurf holiadur syml i ddarparu adborth.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn dangos tystiolaeth o ymchwiliadau effeithiol a chymariaethau rhwng o leiaf ddwy neu dair enghraifft o bortffolios papur a digidol. Bydd eu hymatebion yn ddisgrifiadol, gan ddangos peth gallu i ddadansoddi yn eu casgliad o ddarnau ysgrifenedig, nodiadau, sganiau a chopïo i arddangos eu dewis o artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'u dealltwriaeth o fanteision ac anfanteision portffolio digidol. Bydd eu portffolio'n dangos tystiolaeth o ddethol a threfnu effeithiol. Dylai tystiolaeth i gefnogi eu dilyniant fod yn eu hymchwiliadau ymchwil a nodiadau i gyd-fynd, ynghyd â chynlluniau cymwys a brasluniau anodedig i ddatblygu'r dewis a threfn eu portffolio eu hunain. Bydd tystiolaeth bellach o dealltwriaeth i'w gweld yn eu cyflwyniadau hyderus o'u portffolios, gan eu bod yn gallu tynnu ar wybodaeth gefndir gyda pheth argyhoeddiad a'u bod wedi paratoi'n dda. Bydd dysgwyr yn defnyddio termau celf yn effeithiol, gan gyfiawnhau a dadansoddi eu dewisiadau portffolio. Byddant yn creu amrediad effeithiol o ddeunyddiau cefnogi ac yn eu defnyddio i ysgogi eu cynulleidfa. Gallai tystiolaeth ar gyfer adolygu eu cyflwyniadau ddod drwy amrywiaeth o ddulliau adborth fel sydd wedi eu rhestru yn yr adran gynnwys

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn gweithio'n annibynnol i ymchwilio i bortffolios pobl eraill, eu dewis a'u gwerthuso. Byddant yn arddangos dealltwriaeth yn eu barnau a hyder wrth ddefnyddio amrywiaeth eang o dermau celf. Byddant yn dethol, trefnu a chynhyrchu eu portffolio'n ddychmygus ac yn greadigol. Bydd tystiolaeth o'u sgiliau yn y defnydd o gyfryngau a thechnegau i'w gweld yn amrediad y gwaith a ddewiswyd. Bydd eu cyflwyniadau wedi eu cynhyrchu'n feddylgar, a byddant yn gwneud gwerthusiad manwl o'u gwaith gan ddefnyddio amrediad helaeth o dulliau adborth fel sydd wedi eu rhestru yn yr adran gynnwys.

## Lefel 1

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu gwneud tasgau arferol wrth gasglu gwybodaeth am artistiaid, crefftwyr a dylunwyr drwy archwilio eu portffolios. Bydd ymchwiliadau dysgwyr i'r math o bortffolios y mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn eu cynhyrchu, eu pwrpas a ble i ddod o hyd i enghreifftiau yn gyfyngedig i ddwy neu dair enghraifft o waith portffolio ar bapur ac yn ddigidol, ac efallai'n ffocysu ar un enghraifft. Gellir asesu canfyddiadau drwy gyflwyniadau, nodiadau cefnogi sylfaenol, arsylwadau athrawon a thrafodaethau wedi'u recordio, yn hytrach na thrwy dasgau ysgrifenedig ffurfiol. Bydd y dysgwyr yn dangos tystiolaeth o lefel sylfaenol wrth ddewis a datblygu eu portffolio eu hunain a bydd eu dealltwriaeth o ddilyniant yn gyfyngedig. Bydd ganddynt gynlluniau cyfyngedig i gefnogi cyflwyniad eu portffolio a bydd eu gallu i ddefnyddio dulliau adborth, er enghraifft drwy gyfrwng holiadur syml, yn sylfaenol. Bydd eu defnydd o dermau'n gyfyngedig a gall eu nodiadau/trafodaethau fod yn gyfyngedig i restrau yn hytrach na disgrifiadau.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	Portffolios sy'n Ysbrydoli	Daw grŵp o ddylunwyr at ei gilydd i rannu eu portffolios, sy'n cynnwys dalenni A1 mowntiedig, gwefannau, delweddiadau, cynnyrch graffig ac aps symudol. Mae dylunydd graffig yn arwain trafodaeth grŵp ar bwrpas eu portffolio.	<p>Recordiad fideo o'r drafodaeth gyda chefnogaeth nodiadau dysgwyr unigol.</p> <p>Datganiadau tystion.</p> <p>Taflenni arsylwi.</p> <p>Sesiynau tiwtorial.</p> <p>Trafodaethau grwpiau cyfoedion.</p> <p>Dyfyniadau anodedig o waith portffolio artistiaid a dylunwyr eraill.</p> <p>Casgliadau anodedig o gopiâu wedi eu printio o waith portffolio artistiaid.</p> <p>Darn o dâp sain neu fideo lle mae dysgwyr yn disgrifio neu'n esbonio pwrpas a chynnwys gwaith portffolio artistiaid a dylunwyr eraill.</p> <p>Dyddiadur/blog yn rhoi sylwadau ar waith portffolio a welwyd yn ystod ymweliadau gan artistiaid/dylunwyr ac i ardaloedd gwaith celf a chrefft neu orielau ac amgueddfeydd.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Fy Mhortffolio	<p>Mae ysgol leol am i'w disgyblion Blwyddyn 9 ddeall gofynion cwrs 14+ mewn celf a dylunio.</p> <p>Mae grŵp o fyfyrwyr dylunio'n derbyn gwahoddiad i ddewis portffolio gwaith addas i'w ddangos i'r disgyblion Blwyddyn 9. Maen nhw'n ystyried materion megis y ffyrdd gorau o arddangos y gwaith i grŵp o ryw 60 o ddisgyblion, gyda pheth o'r gwaith ar raddfa fach.</p>	<p>Portffolios dysgwyr unigol.</p> <p>Cynlluniau a datblygiad deunydd cyhoeddusrwydd cefnogol wedi'i argraffu: brasluniau, nodiadau, allbrintiau, arbrofion, gwaith bras, anodiadau, nodiadau, rhestrau, trafodaethau, datganiadau tystion, taflenni cofnodi arsylwadau.</p> <p>Portffolio papur yn cynnwys fformatau digidol, e.e. CD ROM, DVD, gyriant USB.</p> <p>Portffolio digidol gyda chefnogaeth deunyddiau papur, e.e. llyfrau braslunio.</p>
1C3, 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3	Arddangosfa Olaf	<p>Mae grŵp o ddylunwyr yn cyflwyno gwahanol agweddau o'u portffolios i grwpiau o fyfyrwyr i hyrwyddo ymagweddau tuag at dylunio graffig a 3D cyfoes. Mae'r gwaith yn cynnwys brasluniau cychwynnol, adborth gan gleientiaid, gwaith datblygu a'r canlyniadau terfynol.</p>	<p>Gwerthusiadau.</p> <p>Ffotograffau o arddangosfeydd neu arddangosiadau diwedd blwyddyn.</p> <p>Recordiadau fideo neu sain o gyflwyniad.</p> <p>Adolygiadau cyfoedion a grŵp.</p> <p>Datganiad tyst gan athro'n nodi'r hyder sy'n sail i'r cyflwyniad.</p> <p>Holiaduron a ffurflenni arolwg i gael adborth ar gyflwyniadau portffolio.</p> <p>Cofnod ysgrifenedig neu glyweledol o adborth.</p> <p>Cofnod ysgrifenedig neu glyweledol o werthusiad.</p>





# Uned 6: Ymchwilio i Gyfeiriadau Cyd-destunol mewn Celf a Dylunio

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Gorfodol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Sut mae artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr yn cael eu dylanwadu gan y byd y maen nhw'n byw ynndo?

Yn yr uned hon byddwch yn ymchwilio i ymarfer celf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes, yn archwilio sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn gweithio fel unigolion neu fel rhan o fudiad neu ddiwylliant allweddol. Byddwch yn canfod sut mae gwaith o'r gorffennol wedi dylanwadu ar ddylunio cyfoes. Bydd hyn yn ddefnyddiol iawn i chi gan y byddwch yn gallu defnyddio eich canfyddiadau hanesyddol a chyfoes i ysbrydoli eich gwaith. Mae llawer o ffyrdd cyffrous i chi gofnodi a chyfeirnoddi eich canfyddiadau drwy ysgrifennu, ffotograffiaeth, darlunio neu drwy gyflwyniadau llafar. Bydd eich sgiliau ymchwil sy'n datblygu, gan chwilio ffynonellau cynradd mewn siopau, amgueddfeydd ac orielau neu gan ymarferwyr, yn rhoi manau cychwyn i chi ganfod deunyddiau ffynonellau eilaidd o lyfrau, cylchgronau, cyfnodolion a'r rhyngwyd.

Mae gwaith celf, crefft a dylunio newydd yn aml yn cael ei greu drwy ddatblygu syniadau pobl eraill o'r gorffennol a'u gosod yng nghyd-destun heddiw. Mae hyn yn rhan o newid diwylliannol ac mae'n ein helpu i weld y byd mewn ffyrdd newydd a chyffrous. Mae'r Fonesig Vivienne Westwood yn ceisio ysbrydoliaeth am eu dyluniadau o amrywiaeth o ffynonellau, o beintiadau Rhamantaidd Ffrainc yr ail ganrif ar bymtheg i dardan draddodiadol yr Alban a Gothig tywyll y cyfnod pync. Dywedodd Lucian Freud, 'Dwi'n mynd i orielau (i astudio gwaith pobl eraill) pan dwi'n sâl.' Roedd yn golygu y byddai'n chwilio am ddulliau peintwyr eraill am ysbrydoliaeth pan fyddai angen help arno ynghylch ei waith celf.

Drwy astudio gweithiau creadigol, byddwch yn codi eich ymwybyddiaeth o faterion moesegol, moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A ymchwilio i ymarfer celf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes

B archwilio enghreifftiau celf, crefft a dylunio sy'n berthnasol i'ch gwaith eich hun.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ymarfer celf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes</b>
<p><b>Ymchwilio i fudiadau allweddol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• artistiaid hanesyddol a chyfoes, arddulliau, ysgolion ac unigolion</li> <li>• diwylliannau (gorllewinol, anorllewinol, tebygrwydd, gwahaniaethau)</li> <li>• gweithiau penodol</li> <li>• o gyd-destun ehangach (gwyddoniaeth, technoleg, gwleidyddiaeth).</li> </ul> <p><b>Ffactorau mewn cynhyrchu creadigol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• economaidd</li> <li>• cymdeithasol</li> <li>• defnyddiau, technegau, prosesau.</li> </ul> <p><b>Sut mae elfennau ffurfiol yn cael eu defnyddio yng ngwaith pobl eraill:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• i gyfathrebu syniadau</li> <li>• i gyfathrebu teimladau.</li> </ul> <p><b>Ffynonellau gwybodaeth ar ddatblygiadau celf a dylunio hanesyddol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cofnodion arddangosfeydd, amgueddfeydd, cyfnodolion, dyddiaduron, bywgraffiadau, llyfrau braslunio, dogfennau, llyfrau, printiau, ffilm.</li> </ul> <p><b>Ffynonellau gwybodaeth ar ddatblygiadau celf a dylunio cyfoes e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangosfeydd cyfredol a diweddar, sioeau, artistiaid sy'n fyw, dylunwyr, crefftwyr, digwyddiadau, orielau, amgylchedd gweledol, agoriadau, adroddiadau, cyhoeddiadau, comisiynau, cyfrifon, contractau, storiâu newyddion, cyhoeddiadau, ffrydiau, blogiau, cyfnodolion, gwefannau, tiwtorialau.</li> </ul> <p><b>Dyma rai enghreifftiau:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• archwilio gwaith unigolion neu grwpiau o artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o fewn cyfnod, mudiad neu ddiwylliant penodol</li> <li>• cofnodi'r arddull a'r technegau a ddefnyddiwyd i gyfathrebu syniadau'r artistiaid a ddewiswyd</li> <li>• disgrifio'r defnyddiau a'r prosesau a ddefnyddiwyd i greu eich gwaith eich hun</li> <li>• cyfeirnoddi ffynonellau'r ymchwil.</li> </ul> <p><b>Celf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mudiadau, e.e. Y Dadeni, Celf Deco, Celf a Chrefft, Bauhaus, Celf Tsieineaidd, Celfyddyd Bop, graffiti trefol, Moderniaeth, Swrealaeth, dylunio posterïr 20fed ganrif, celf rhyfel, ffotograffiaeth ffasiwn, Argraffiadaeth</li> <li>• artistiaid a dylunwyr unigol, e.e. Andy Warhol, Banksy, Neville Brody, Leonardo da Vinci, Mario Testino, Henry Moore, Pablo Picasso, Coco Chanel, Jasper Conran, Milton Glaser.</li> </ul> <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Adolygu dylanwad mudiadau mawr ar ddylunio cyfoes, e.e.:**

- sut mae Celf Deco wedi dylanwadu ar ddylunio mewnol cyfoes
- sut mae diwylliant y Navajo wedi dylanwadu ar ffasiwn cyfoes a dodrefn meddal mewnol
- sut mae Coco Chanel wedi dylanwadu ar ddyluniad dillad dydd cyfoes
- sut mae portreadau printio â sgrin sidan allan o iawn luniad Andy Warhol wedi dylanwadu ar ddylunwyr graffig.

**Disgrifio dylanwad mudiadau ac unigolion ar draws disgyblaethau, e.e.:**

- sut mae lliwiau a phatrymau a ddefnyddiwyd yn nhoriadau papur enwog Matisse wedi dylanwadu ar ddylunio ffasiwn
- sut mae hysbysebu'n cael ei ddylanwadu gan ffilm a ffotograffwyr, e.e. yr hysbysebion cywraïn sy'n cael eu dangos mewn sinemâu.

**Nod dysgu B: Archwilio enghreifftiau celf, crefft a dylunio sy'n berthnasol i'ch gwaith eich hun****Sut i archwilio gwahanol gelf, crefft a dylunio sy'n berthnasol i waith y dysgwr, e.e.:**

- defnyddio ffynonellau cynradd (celfweithiau, peintiadau, printiau, gwaith sgrin, ffotograffau, arteffactau, oriel, gweithdy, ymweliadau, amgueddfeydd, artistiaid/pobl broffesiynol ar ymweliad)
- defnyddio ffynonellau eilaidd (atgynyrchiadau, copïau, llyfrau, cylchgronau, cyfnodolion, ffynonellau rhyngwyd)
- gweithio gydag ymarferwyr proffesiynol ar ymweliad, ymweld ag orielau, amgueddfeydd ac arddangosfeydd i gynhyrchu syniadau prosiect
- gwneud cysylltiadau gyda gwaith pobl eraill o'r gorffennol a'r presennol
- ymchwilio i gelfwaith perthnasol o wahanol ddisgyblaethau.

**Gwneud sylwadau ar waith gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, e.e.:**

- beth sy'n gwneud y gwaith yn ddiddorol/yn ddeniadol/yn emosiynol
- defnyddio termau celf i ddisgrifio darn o gelfwaith a ddewiswyd, megis yr elfennau ffurfiol y mae'r artist wedi eu defnyddio i gyfathrebu emosiwn
- yn cynnwys peth o gefndir y celfwaith neu'r artist, pa bryd y cafodd y gwaith ei wneud a'r defnydd a ddefnyddiwyd
- gwneud nodiadau cryno ar ddulliau artistiaid neu gael eu harsylwi mewn trafodaethau.

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut i gofnodi o waith artistiaid wrth edrych ar ddelweddau, er enghraifft mewn oriel neu ar sioe sleidiau neu mewn ymchwil i ddeunydd print, e.e.:**

- cymryd rhan i ddechrau mewn trafodaeth dosbarth neu grŵp i archwilio ffyrdd y gallech ddefnyddio rhai o ddulliau'r artistiaid yn eich gwaith eich hun
- trafod sut mae artistiaid yn defnyddio iaith weledol, defnyddiau a chyfryngau i gyfathrebu eu syniadau, gan ddefnyddio taflenni annog neu pro formas efallai.
- rhoi cynnig ar ddulliau artistiaid yn eich gwaith eich hun
- archwilio strwythur gwaith artistiaid dethol, er enghraifft defnyddio brasluniau llinell syml a blociau o dŵn i gyfathrebu nodweddion 3D
- rhestru lliwiau a ddefnyddiwyd gan yr artist sy'n rhoi naws benodol i'r ddelwedd a rhoi cynnig ar yr un cymysgedd lliwiau yn eich gwaith eich hun.

**Sut i archwilio delweddau celf a dylunio i helpu i ddatblygu eich syniadau prosiect eich hun, e.e.:**

- beth, pryd, ble, sut, pam – disgrifio'r gwaith, pryd a ble y cafodd ei gynhyrchu, y technegau a ddefnyddiwyd, cefndir, manylion perthnasol, cynhyrchiad creadigol a pham eich bod wedi ei ddewis
- dadansoddi elfennau ffurfiol – llinell, siâp a lliw y mae'r artist wedi'u defnyddio i gyfathrebu ei fwriad
- defnyddio sgiliau yn y defnydd o elfennau ffurfiol wrth ddisgrifio a dadansoddi'r iaith weledol sy'n cael ei defnyddio gan bobl eraill
- defnyddio'r defnyddiau a'r prosesau sy'n cael eu defnyddio gan artistiaid a ddewiswyd yn, er enghraifft, eich gwaith bras, darnau prawf a maquettes eich hun.
- dangos sut mae eraill yn defnyddio iaith weledol – cyfathrebu syniadau, gwybodaeth, teimpladau a bwriad creadigol – i ddal nodweddion cyfansoddiad megis cydbwysedd a harmoni neu gyferbyniad a drama.
- dangos sut y byddwch yn defnyddio defnydd eich dewis artist o elfennau ffurfiol a iaith weledol yn eich gwaith eich hun sy'n datblygu drwy wneud brasluniau bras, creu darnau sampl, allbrintiadau digidol cynnar, byrddau stori.

**Sut i gofnodi ymchwil drwy ddulliau gweledol ac ysgrifenedig, e.e.:**

- paratoi holiaduron cyfweld ar gyfer ymarferwyr ac asiantaethau allanol ar ymweliad
- cofnodi gwybodaeth gyda nodiadau, canlyniadau holiaduron neu dapiau fideo o gyfweliadau gydag ymarferwyr ac eraill, amgueddfeydd lleol neu guradwyr orielau celf
- gwneud brasluniau gyda nodiadau o ymweliadau ag orielau, gweithdai neu amgueddfeydd
- tynnu lluniau, casglu delweddau gweledol printiedig (cardiau post, taflenni)
- anodi o ffynonellau a ddewiswyd, wedi eu hamlygu (fideo, CD ROM, gwefannau, cronfeydd data, llungopiâu neu sganiau o lyfrau, cylchgronau, cyfnodolion)
- coladu ymchwil a gwybodaeth gyd-destunol o ymweliadau a ffynonellau eraill mewn, er enghraifft, llyfrau braslunio, ffeiliau, ffolderi ac o bosibl ochr yn ochr â'ch ymateb eich hun i friffiau prosiect ar draws y cwrs.

**Beth sydd angen ei ddysgu**

**Sut y gall syniadau celf a dylunio hyrwyddo materion moesegol, moesol, diwylliannol ac amgylcheddol a sut y gallech hyrwyddo rhai o'r materion hyn yn eich gwaith eich hun. e.e.:**

- ymateb i friff dylunio am faterion amgylcheddol yn edrych ar ddyluniadau cyfoes ar gadwraeth ynni, ailgylchu ac olion troed carbon
- dylunio poster hyrwyddo ar faterion cymdeithasol yn edrych ar ddyluniadau cyfoes, e.e. ar gamddefnyddio cyffuriau.

**Sut i gyfeirnoddi ymchwil, gan ddatgan yn gryno:**

- ffynhonnell yr wybodaeth, megis yr amgueddfa neu'r oriel lle gwelwyd y gwaith, y wefan neu deitl ac awdur y llyfr.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ymarfer celf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes</b>			
1A.1 Nodi gwaith un ymarferydd celf a dylunio hanesyddol ac un cyfoes.	2A.LI1 Nodi ac anodi o leiaf bedair enghraifft o waith gan ddau fudiad hanesyddol.	2A.T1 Ymchwilio i amrediad eang o ymarfer hanesyddol a chyfoes gan wahanol fudiadau, gan gofnodi canfyddiadau ac anodi ffynonellau.	2A.Rh1 Dadansoddi amrediad eang o ymarfer hanesyddol a chyfoes gan wahanol fudiadau, gan werthuso canfyddiadau a ffynonellau.
1A.2 Cofnodi delweddau a ddewiswyd i ddangos syniadau, defnyddiau, arddull a phrosesau artistiaid.	2A.LI2 Disgrifio effaith dau fudiad mawr ar gelf, crefft a dylunio cyfoes.	2A.T2 Esbonio dylanwadau mudiadau hanesyddol a chyfoes a ddewiswyd.	2A.Rh2 Dadansoddi dylanwadau mudiadau hanesyddol a chyfoes a ddewiswyd.
<b>Nod dysgu B: Archwilio enghreifftiau celf, crefft a dylunio sy'n berthnasol i'ch gwaith eich hun</b>			
1B.3 Cofnodi o leiaf ddwy enghraifft o gelf, crefft a dylunio sy'n berthnasol i'ch gwaith eich hun, gan nodi'r rhesymau dros y dewis. #	2B.LI3 Dewis a chofnodi o leiaf bedair enghraifft o gelf, crefft a dylunio o ddau fudiad, gan ddisgrifio sut y maent yn perthyn i'ch gwaith eich hun. #	2B.T3 Ymchwilio i amrywiaeth eang o enghreifftiau o gelf, crefft a dylunio a'u cofnodi, gan archwilio ffyrdd y maent yn perthyn i'ch gwaith a'ch bwriadau eich hun. #	2B.Rh3 Ymchwilio i amrywiaeth eang o enghreifftiau o gelf, crefft a dylunio a'u cofnodi, gan ddadansoddi'r ffyrdd gwahanol y maent yn perthyn i'ch gwaith a'ch bwriadau eich hun. #

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw detholiad helaeth o wybodaeth ar gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes o amrywiaeth eang o ffynonellau. Byddai ystafell ddosbarth neu ofod stiwdio sy'n cynnig cwrmpas i ddangos amrywiaeth o ddarlithoedd darluniadol gydag adnoddau arbenigol ymarferol yn ddefnyddol.

Mae'r gallu i ddefnyddio offer recordio digidol, y rhyngwryd a deunydd print yn hanfodol ar gyfer ymchwil a chyflwyniadau.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

I gyflawni **Lefel 2 Llwyddo** rhaid i'r dystiolaeth a gynhyrchir ddangos fod y dysgwr yn gallu casglu a chofnodi o wybodaeth ar enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o waith eraill gan ddefnyddio nodiadau cryno gyda delweddau. Daw'r dystiolaeth ar gyfer hyn drwy frasluniau ac astudiaethau gyda nodiadau neu anodiadau i'w cefnogi gan ddefnyddio terminoleg cywir.

Efallai y bydd rhaid i athrawon ddefnyddio datganiadau tystion neu fideo i roi tystiolaeth am allu dysgwyr i drafod ffyrdd y gwnaeth eu dewis artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr ddefnyddio iaith weledol. Gallai hyn gynnwys cyfraniadau at sioeau sleid a thrafodaethau grŵp. Ar y lefel hon, bydd dysgwyr yn arddangos cymhwyster yn eu harchwiliadau o waith pobl eraill a byddant yn gallu dewis yn briodol syniadau, iaith weledol, defnyddiau a phrosesau gafodd eu defnyddio i hysbysu eu gwaith eu hunain, gan roi sylwadau ar y rhesymau dros y dewis gan ddefnyddio termau arbenigol. Bydd dysgwyr yn gallu disgrifio sut y mae eu gwaith eu hunain wedi cael ei ddylanwadu gan y gwaith y maent wedi ei astudio gan ddangos peth sgîl wrth archwilio'r berthynas rhwng eu syniadau a'r defnydd o gyfryngau a rhai eu dewis gelfwaith.

I gyflawni **Lefel 2 Teilyngdod** rhaid i'r dystiolaeth a gynhyrchir ddangos fod y dysgwr yn gallu dethol a chofnodi o amrediad o wybodaeth o'u hymchwil ar artistiaid hanesyddol a chyfoes, gan anodi eu dewis ddelweddau i greu amrywiaeth o ymatebion gwybodus. Byddant yn archwilio amrediad o waith gan bobl eraill fel ysbrydoliaeth wrth ymchwilio a datblygu eu gwaith eu hunain yn greadigol. Daw tystiolaeth o ymchwil dysgwyr drwy gyfuniad o astudiaethau gweledol ysgrifenedig ac archwiliadol megis datganiadau, brasluniau a nodiadau a llyfrau braslunio a thafenni gwaith anodedig. Byddant yn defnyddio barnau personol wrth wneud sylwadau am y gwaith gafodd ei astudio a sut y cafodd ei wneud, ar amrediad o enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o waith pobl eraill, gan ddangos dealltwriaeth ddisgrifiadol yn bennaf ond yn gynyddol ddadansoddiadol.

Bydd dysgwyr yn defnyddio iaith weledol yn fedrus ac yn effeithiol wrth gofnodi o ddelweddau pobl eraill, mewn amrywiaeth o gyd-destunau, a byddant yn gallu archwilio'r berthynas rhwng eu syniadau a'r defnydd o gyfryngau a rhai eu dewis gelfwaith gyda pheth sgîl ac annibyniaeth.

I gyflawni **Lefel 2 Rhagoriaeth** rhaid i'r dystiolaeth a gynhyrchir ddangos fod y dysgwr yn gallu ymchwilio, dethol a chofnodi o amrywiaeth eang o wybodaeth ar artistiaid hanesyddol a chyfoes, gan ddadansoddi eu detholiad i greu amrywiaeth o ymatebion a gweithio'n annibynnol. Byddant yn arddangos barnau personol a sgiliau dadansoddi yn eu hastudiaethau o syniadau ac ymagweddau artistiaid. Byddant yn archwilio amrywiaeth eang o waith pobl eraill gan chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer cynhyrchu a datblygu eu gwaith eu hunain mewn ffordd greadigol a dychmygus. Bydd tystiolaeth yn dod drwy eu hastudiaethau gweledol ac yn eu dadansoddiad o ddetholiad dychmygus o enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o waith pobl eraill, gan arddangos geirfa feirniadol wybodus. Bydd dysgwyr yn defnyddio iaith weledol yn fedrus wrth gofnodi o ddelweddau pobl eraill, mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac yn gweithio'n annibynnol.

### Lefel 1

Ar **Lefel 1** rhaid i'r dystiolaeth ddangos fod y dysgwr yn gallu casglu a chofnodi o amrediad gyfyngedig o wybodaeth ar eu dewis artistiaid, gan ddefnyddio nodiadau byr gyda delweddau gofnodi eu canfyddiadau. Efallai y bydd angen eu hannog i ymateb i gwestiynau yn ystod sioeau sleidiau a gallant wneud cyfraniadau cyfyngedig i drafodaethau wrth edrych ar fudiadau allweddol, unigolion a gwahaniaethau diwylliannol.

Bydd angen i athrawon ddefnyddio taflenni arsylwi i gofnodi cyfraniadau unigol yn ystod amser tiwtorial neu gyda grwpiau bach. Gallai athrawon hefyd wneud fideo o gyfweiliadau lle mae dysgwyr yn siarad am eu gwaith eu hunain a gwaith artistiaid a dylanwadau. Bydd taflenni cofnodi arsylwadau a datganiadau tystion yn gymorth ar y lefel hon i gofnodi tystiolaeth o'r gallu i wneud ymchwil i wybodaeth ac i gynnig sylwadau priodol ar eu dewis artistiaid. Bydd gwybodaeth a gesglir yn cael ei dewis yn bennaf o ddeunydd cyd-destunol gaiff ei ddarparu gan yr athro.

Efallai y bydd y defnydd o dermau'n gyfyngedig i ymadroddion a therminoleg syml. Gall gwaith ysgrifenedig dysgwyr fod yn rhestr o eiriau i gefnogi eu disgrifiadau llafar. Bydd eu dealltwriaeth o'r elfennau ffurfiol yn gyfyngedig i enwi ac adnabod geiriau priodol. Byddant yn arddangos defnydd sylfaenol o'r elfennau ffurfiol wrth gofnodi o waith pobl eraill ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o sut i ddefnyddio syniadau, dyluniadau, technegau a phrosesau pobl eraill yn eu gwaith eu hunain. Wrth gyflwyno eu gwaith, bydd dysgwyr yn cofnodi gwaith dewis artistiaid, gan ei ddisgrifio mewn termau syml.



## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 1B.3, 2A.LI1, 2A.LI2, 2B.LI3, 2A.T1, 2A.T2, 2B.T3, 2A.Rh1, 2A.Rh2 2B.Rh3	Chwilio am yr Hunan	Mae artist/dylunydd yn cael comisiwn i archwilio'r cysyniad o hunaniaeth bersonol, amgylcheddol neu gorfforaethol ar gyfer arddangosfa o'r enw 'Chwilio am yr Hunan'. Mae'n cychwyn drwy fyfyrion ar waith y mae wedi'i gynhyrchu dros y flwyddyn ddiwethaf.	Bydd yn defnyddio datganiadau tyst a thafenni arsylwi er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• arsylwi a chofnodi gweithgaredd dysgwyr a'u cynnydd wrth weithio</li> <li>• recordio/cofnodi trafodaethau gyda grwpiau a'u gallu i gyfathrebu</li> <li>• arsylwi a recordio/cofnodi cyflwyniadau terfynol dysgwyr.</li> </ul>
	Yn Dilyn Arddull...	Mae oriel yn gwahodd gwaith newydd a chyffrous gan amrywiaeth o grefftwyr. Maen nhw'n edrych am waith sy'n cyfeirio at artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr hanesyddol, yn cynnwys peintiadau, printiau a cherfluniau.	Adolygiad parhaus dysgwyr o gynnydd a hunan-werthuso, gyda datganiadau, nodiadau a llyfrau braslunio a thafenni gwaith yn dystiolaeth.  Tystiolaeth o astudiaethau gweledol o bortffolio o waith cyfredol a gwaith terfynol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 1B.3, 2A.LI1, 2A.LI2, 2B.LI3, 2A.T1, 2A.T2, 2B.T3, 2A.Rh1, 2A.Rh2 2B.Rh3	Rhyfelwyr Trefol ( <i>Urban Warriors</i> )	<p>Mae cwmni gemau'n datblygu dilyniant i un o'i gemau poblogaidd, yn seiliedig ar deithio drwy amser o'r gorffennol, y presennol i'r dyfodol.</p> <p>Bydd angen i'r dylunydd gyflwyno syniadau cysyniadol ar gyfer dyluniadau graffig, animeiddio, cymeriad neu lefel ar gyfer y gêm newydd, gan adlewyrchu gwaith y tîm dylunio blaenorol i sicrhau dilyniant rhwng gemau.</p>	<p>Cofnodion eraill, e.e.:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• tystiolaeth o ddadansoddi cynnydd mewn llyfr braslunio</li> <li>• anodiadau taflenni gwaith, nodiadau, ffeiliau a darnau o ysgrifennu estynedig</li> <li>• arddangosfa, dangosiad, ffolder gwaith, llyfrau braslunio, ffeiliau nodiadau, sioe ddigidol, arddangosiad, arddangosiad gwefan, mewnwrwyd ysgol/coleg, blog personol, defnydd o wefannau rhwydweithio cymdeithasol.</li> </ul>

# Uned 7: Cofnodi ar gyfer Bwriadau Creadigol mewn Celf a Dylunio

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Gorfodol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Allanol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Y gallu i gofnodi o'r byd o'ch cwmpas oedd un o ddibenion cyntaf celf. Mae modd gweld hyn yn y paentiadau gafodd eu canfod mewn ogofâu cynhanes, lle credir i bobl gynnar gofnodi delweddau o'r byd yr oedden nhw'n ei weld o'u cwmpas fel dull o gyfathrebu. Hyd yn oed heddiw, y gallu i gofnodi o arsylwi personol yw'r man cychwyn sylfaenol ar gyfer pob ymarfer celf a dylunio.

Er bod y dull a ddefnyddiwn i gofnodi o ffynonellau cynradd wedi newid yn ddramatig dros amser, mae'n dal yn sgîl pwysig i'w ddatblygu. Mae llawer o'r pethau a welwn o'n cwmpas yn cychwyn gyda lluniad, boed yn degan, yn wisg, yn gar, yn dŷ neu'n ddinas newydd. Drwy luniadu a dulliau cofnodi eraill, mae artistiaid a dylunwyr yn gallu dychmygu a datblygu syniadau gyda phobl eraill. Mae dyfodiad deunyddiau a thechnoleg newydd wedi rhoi ffyrdd newydd i artistiaid a dylunwyr i gofnodi'r hyn maen nhw'n ei weld. Mae ffotograffiaeth a fideo wedi caniatáu i artistiaid a dylunwyr wneud cofnodion sydyn o'r hyn y maen nhw'n ei weld. Fodd bynnag, mae llawer yn dal i ddefnyddio sgiliau traddodiadol lluniadu a pheintio i gofnodi'r byd o'u cwmpas.

Bydd yr uned hon yn rhoi'r cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau cofnodi ar gyfer bwriadau creadigol. Byddwch yn derbyn briff. Bydd disgwyl i chi ddewis a chofnodi o ffynonellau gweledol, yn seiliedig ar y briff. Rhaid i chi wedyn ddangos eich sgiliau wrth ddefnyddio eich cofnod i ddangos eich bwriadau creadigol.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A dethol a chofnodi o ffynonellau gweledol priodol, yn seiliedig ar y briff gosod
- B cynhyrchu syniadau dylunio tuag ag fwriadau creadigol, yn seiliedig ar y briff gosod.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

### Nodweddion arbennig yr uned hon:

- dim ond y 5 awr olaf sy'n cael eu hasesu, yn seiliedig ar dasg wedi ei gosod yn allanol
- mae'r aseiniad yn cynnwys un man cychwyn thematig eang, wedi'i osod yn allanol, gyda senarios sy'n benodol i ddisgyblaethau
- mae disgwyl i ddysgwyr arddangos eu bwriadau creadigol ond nid oes raid iddynt gynhyrchu gwaith gorffenedig, wedi'i gwblhau ar gyfer yr asesiad
- caiff y thema ei ryddhau o flaen llaw ar 1 Mawrth y flwyddyn y caiff yr asesiad ei gynnal
- bydd y papur arholiad ar gael yn ystod ffenestr o bythefnos ym mis Mai bob blwyddyn
- dim ond ar gychwyn yr asesiad 5 awr y gellir rhoi'r papur arholiad i fyfyrwyr ac athrawon
- mae rhyddid i ganolfannau ddyfeisio eu rhaglen addysgu eu hunain ar gyfer y 25 awr o ddysgu nad ydyn nhw'n cael eu hasesu sy'n arwain at yr asesiad 5 awr. Gall y 25 awr o ddysgu gael eu hintegreiddio gydag aseiniadau ar gyfer unedau eraill.

#### Beth sydd angen ei ddysgu

#### Nod dysgu A: Dethol a chofnodi o ffynonellau gweledol priodol, yn seiliedig ar y briff gosod

#### Sgiliau a gwybodaeth sy'n ofynnol wrth ddewis ffynonellau gweledol i gwrdd â briff:

- adnabod y prif amcanion mewn briff
- cynllunio gweithgareddau cofnodi i'w gwneud o fewn amser cyfyngedig
- ystyried potensial gwahanol ffynonellau gweledol i gwrdd ag anghenion y briff
- cofnodi nodiadau ar y dewisiadau gafodd eu gwneud, yn cynnwys cryfderau a gwendidau, mewn fformat priodol.

#### Datblygu sgiliau cofnodi o ffynonellau gweledol i gwrdd ag anghenion briff a osodwyd, yn cynnwys:

- gwneud cynrychioliadau 2D o wrthrychau 3D
- cofnodi elfennau gweledol
- cofnodi syniadau a theimladau
- dewis manau cychwyn sy'n briodol i fwriad creadigol
- defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo wrth recordio, yn briodol i'r briff.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Cynhyrchu syniadau dylunio tuag ag fwriadau creadigol, yn seiliedig ar y briff gosod****Datblygu sgiliau mewn cynhyrchu syniadau dylunio o ffynonellau gweledol a roddir i gwrdd â gofynion briff a osodwyd, yn cynnwys, e.e.:**

- archwilio dewisiadau amgen ar gyfer cofnodi astudiaethau
- archwilio potensial ffynonellau gweledol i gwrdd â briff a osodwyd, yn cynnwys archwilio a/neu arbrofi gyda gwahanol ymagweddau tuag at ddewis ac ymchwilio a diffinio eich bwriadau creadigol eich hun
- sut i ddefnyddio technoleg i gefnogi recordio ffynonellau gweledol megis recordio gyda lens, dogfennu cynnydd, trefnu ffeiliau digidol, myfyrio ar gynnydd
- gallu ymateb i heriau sy'n cael eu creu gan sefyllfaoedd yn y briff, a gallu datrys problemau os oes angen, er mwyn symud gwaith ymlaen a chyrraedd datrysiad creadigol.

**Rheoli a recordio ymatebion i gwrdd â gofynion briffiau a osodwyd, yn cynnwys, e.e.:**

- sicrhau fod eich defnydd eich hun o amser wedi ei gynllunio'n ddigonol i ganiatáu ar gyfer cynhyrchu profion, samplau a thechnegau recordio dilynol, yn cynnwys y defnydd diogel o ddefnyddiau a phrosesau
- arbrofi gyda defnyddiau a phrosesau gwahanol, er mwyn ymestyn yr amrediad o ddatrysiadau creadigol potensial i'r briff a osodwyd
- defnyddio nifer o dechnegau megis lluniadu, peintio, collage, ffotograffiaeth, fideo, delweddau wedi eu cynhyrchu â chyfrifiadur (CGI), gwneud printiau, arbrofi gyda chyfuno dulliau a chyfryngau, dangos bwriadau creadigol fel sy'n briodol ar gyfer briff.
- datblygu'r defnydd o elfennau ffurfiol priodol tuag at friff, wrth recordio o arsylwi personol
- ystyried canlyniadau unrhyw ddarnau prawf, gwaith archwilio, samplau ac archwiliadau cyfryngau
- cynhyrchu astudiaethau a dyluniadau sy'n dangos bwriadau creadigol o fewn briff wedi'i gyfyngu gan amser
- gallu mireinio dethol a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau, ystyried addasrwydd at bwrpas wrth gwrdd â gofynion y briff a osodwyd, a chyflwyno'r wybodaeth hon mewn fformat priodol drwy adolygu parhaus
- cadw nodiadau o gynnydd, meddyliau, syniadau, prosesau gwaith ac unrhyw newidiadau, naill ai mewn llyfrau braslunio, neu ddalenni datblygu neu ar ffurf arall.

## Meini prawf asesu

Dim gwaith	Annosbarthedig	Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Dethol a chofnodi o ffynonellau gweledol priodol, yn seiliedig ar y briff gosod</b>					
Dim gwaith wedi'i gyflwyno	Nid yw'r gwaith gafodd ei gyflwyno yn cwrdd â gofynion meini prawf Lefel 1.	1A.1 Dewis ffynhonnell weledol mewn ymateb i friff, gan roi rheswm.	2A.LI1 Dewis ffynonellau gweledol, rhai ohonynt yn briodol i gwrdd â rhai o anghenion y briff, gan roi rhesymau.	2A.T1 Dewis ffynonellau gweledol mewn ffyrdd amrywiol, llawer ohonynt yn briodol i gwrdd â gofynion y briff, gyda pheth cyfiawnhad.	2A.Rh1 Dewis ffynonellau gweledol mewn ffyrdd amrywiol, i gwrdd yn llawn â gofynion y briff, gyda chyfiawnhad llawn.
Dim gwaith wedi'i gyflwyno	Nid yw'r gwaith gafodd ei gyflwyno yn cwrdd â gofynion meini prawf Lefel 1.	1A.2 Cofnodi ffynhonnell weledol gynradd gan ddefnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau o'ch dewis.	2A.LI2 Cofnodi ffynonellau gweledol cynradd gan ddefnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau o'ch dewis yn briodol, gan fyfyrion ar y rhain i ysgogi bwriadau creadigol. #	2A.T2 Cofnodi ffynonellau gweledol cynradd gan ddefnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau o'ch dewis yn gydlynol, gan adolygu cynnydd i hysbysu bwriadau creadigol. #	2A.Rh2 Cofnodi ffynonellau gweledol cynradd gan ddefnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau o'ch dewis yn ddychmygus, gan adolygu a gwerthuso cynnydd i hysbysu bwriadau creadigol. #

Dim gwaith	Annosbarthedig	Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu B: Cynhyrchu syniadau dylunio tuag ag fwriadau creadigol, yn seiliedig ar y briff gosod</b>					
Dim gwaith wedi'i gyflwyno	Nid yw'r gwaith gafodd ei gyflwyno yn cwrdd â gofynion meini prawf Lefel 1.	1B.3 Cynhyrchu dyluniadau a syniadau cyfyngedig, gan ddangos peth bwriadau creadigol.	2B.LI3 Cynhyrchu dyluniadau a syniadau, gan amlinellu bwriadau creadigol, sy'n ymateb i rai o ofynion y briff.	2B.T3 Cynhyrchu amrywiaeth eang o ddyluniadau a syniadau, gan gyfathrebu bwriadau creadigol, i gwrdd â gofynion y briff.	2B.Rh3 Cynhyrchu amrywiaeth eang o ddyluniadau a syniadau dychmygus, gan gyfathrebu bwriadau creadigol yn glir, i archwilio gofynion y briff yn drylwyr.
0	1-6	7-12	13-18	19-24	25-30

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Bydd angen i ddysgwyr allu defnyddio defnyddiau a phrosesau i archwilio gwahanol ddulliau o gofnodi'n bersonol o ffynonellau gweledol, a hefyd ar gyfer cynhyrchu syniadau dylunio.

### Ffynonellau gweledol

Bydd ffynonellau gweledol yn dibynnu ar thema'r asesiad allanol. Diffinnir ffynonellau gweledol yma fel gwrthrychau go iawn ac nid ydynt yn cynnwys recordiadau o wrthrychau megis ffotograffau a fideo. Bydd disgwyl i athrawon ddarparu digon o ffynonellau gweledol ar gyfer y dysgwyr. Gellir cyflwyno ffynonellau gweledol mewn ffyrdd gwahanol, i ganiatáu ymatebion gwahaniaethol dysgwyr. Gall y rhain gynnwys gosodiadau, trefniadau neu gasgliadau ar gyfer grwpiau bach neu ar gyfer y dosbarth cyfan. Fel arall, gellir dewis eitemau unigol a'u gosod neu eu defnyddio gan y dysgwyr mewn ffordd sy'n fwyaf priodol iddynt hwy archwilio a chofnodi'r thema.

Caiff ansawdd ac amrediad y ffynonellau gweledol effaith ar allu dysgwyr i ddethol a chofnodi ar gyfer eu hasesiad. Dylai bod digon o ffynonellau gweledol i alluogi dysgwyr i wneud y dewis/iadau mwyaf priodol. Cyngorior athrawon i sicrhau fod eu paratodau yn caniatáu i ddysgwyr gwrdd â gofynion y meini prawf asesu ar gyfer yr uned hon.

### Canllaw asesu

Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 9: Asesu allanol*.

### Nodweddion arbennig yr uned hon

Caiff yr uned hon ei gosod yn allanol, ei marcio'n fewnol a'i safoni'n allanol.

Bydd gwaith i'w asesu yn cynnwys canlyniad (canlyniadau), wedi eu cynhyrchu mewn 5 awr, drwy asesiad dan oruchwyliaeth.

Rhaid i waith dysgwyr gwrdd â'r meini prawf asesu.

Mae'r uned hon yn gofyn i'r aseswyr mewnol wneud y canlynol:

- barnu perfformiad dysgwyr a'r dystiolaeth yn erbyn y meini prawf graddio
- darparu marc unigol.

Bydd Pearson yn dethol gwaith ar gyfer ei safoni. Caiff y gwaith ei ddethol ar draws amrediad o farciau. Er mwyn dod at farn:

- dylai aseswyr ystyried pob maen prawf gan gyfeirio'n ofalus at y canllaw a roddir yn yr uned hon
- dylai aseswyr ystyried lle mae pob maen prawf wedi ei gwrdd yn llawn a lle mae tystiolaeth allai gefnogi dyfarnu maen prawf uwch.

Rhaid i'r marc a roddir fod yn yr amrediad a glustnodir ar gyfer pob maen prawf:

- gellir dyfarnu marc rhwng 25 a 30 os oes tystiolaeth o feini prawf Rh1, Rh2 a Rh3 Lefel 2
- gellir dyfarnu marc rhwng 19 a 24 os oes tystiolaeth o feini prawf T1, T2 a T3
- gellir dyfarnu marc rhwng 13 ac 18 os oes tystiolaeth o feini prawf LI1, LI2 a LI3
- gellir dyfarnu marc rhwng 7 a 12 os oes tystiolaeth o feini prawf 1, 2 a 3
- gellir dyfarnu marc rhwng 1 a 6 os bydd canlyniad/canlyniadau terfynol yn cael eu cyflwyno dan amodau wedi'u rheoli, sy'n darparu peth tystiolaeth o berfformiad gofynnol, ond lle nad oes tystiolaeth bod meini prawf 1, 2 na 3 Lefel 1 wedi eu cwrdd yn llawn.



Dylai'r aseswr wedyn benderfynu pa farc y gellir ei ddyfarnu o fewn y band marciau nesaf sydd ar gael:

Gradd/band marciau	Marciau	Dyfarnu marc
Lefel 2 Rhagoriaeth	25–30	Rhaid i ddysgwyr fod â thystiolaeth sy'n cwrdd â'r holl feini prawf Rh1–Rh3. Dylai dysgwyr sydd ond yn cyrraedd y safon sy'n ddisgwyliedig ar Lefel 2 Rhagoriaeth dderbyn 25 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson yn barhaus ar Lefel 2 Rhagoriaeth dderbyn 26–28 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson ar lefel eithriadol dderbyn 29–30 marc.
Lefel 2 Teilyngdod	19–24	Rhaid i ddysgwyr fod â thystiolaeth sy'n cwrdd â'r holl feini prawf T1–T3. Dylai dysgwyr sydd ond yn cyrraedd y safon sy'n ddisgwyliedig ar Lefel 2 Teilyngdod dderbyn 19 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson yn barhaus ar Lefel 2 Teilyngdod dderbyn 20–22 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson ar Lefel 2, a thu hwnt i hynny ar adegau, h.y. mae ganddynt beth tystiolaeth sy'n cwrdd yn rhannol â'r meini prawf ar gyfer Lefel 2 Llwyddo, dderbyn 23–24 marc.
Lefel 2 Llwyddo	13–18	Rhaid i ddysgwyr fod â thystiolaeth sy'n cwrdd â'r holl feini prawf LI1–LI3. Dylai dysgwyr sydd ond yn cyrraedd y safon sy'n ddisgwyliedig ar Lefel 2 Llwyddo dderbyn 13 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson yn barhaus ar Lefel 2 Llwyddo dderbyn 14–16 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson ar Lefel 2, a thu hwnt i hynny ar adegau, h.y. mae ganddynt beth tystiolaeth sy'n cwrdd yn rhannol â'r meini prawf ar gyfer Lefel 2 Llwyddo, dderbyn 17–18 marc.
Lefel 1	7–12	Rhaid i ddysgwyr fod â thystiolaeth sy'n cwrdd â'r holl feini prawf 1–3. Dylai dysgwyr sydd ond yn cyrraedd y safon sy'n ddisgwyliedig ar Lefel 1 dderbyn 7 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson yn barhaus ar Lefel 1 dderbyn 8–10 marc. Dylai dysgwyr sy'n gweithio'n gyson ar Lefel 1, a thu hwnt i hynny ar adegau, h.y. mae ganddynt beth tystiolaeth sy'n cwrdd yn rhannol â'r meini prawf ar gyfer Lefel 2 Llwyddo, dderbyn 11–12 marc.
Annosbarthedig	1–6	Bydd dysgwyr sydd heb dystiolaeth sy'n cwrdd â holl feini prawf 1–3 yn annosbarthedig. Dylai dysgwyr gael 1–6 marc, gan ddibynnu ar sut mae'r dystiolaeth yn cyfateb i feini prawf 1–3.
Dim marc	0	Dylai dysgwyr nad ydynt yn darparu canlyniad (canlyniadau) terfynol neu sy'n cynhyrchu gwaith nad yw'n cwrdd ag unrhyw rai o'r priodoleddau gofynnol gael 0 marc.

## Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** wedi gwneud rhai dewisiadau priodol o'r ffynonellau gweledol a ddarparwyd a byddant yn gallu rhoi mwy nag un rheswm dros eu dewisiadau. Bydd yr astudiaethau y byddant yn eu cynhyrchu yn dangos cofnodi effeithiol o'r ffynonellau hyn i ddangos sut y maent yn bwriadu symud tuag at gwrdd â gofynion y briff y maent wedi'i ddewis. Bydd datblygiadau wedi digwydd gydag amrywiaeth o brosesau, defnyddiau a thechnegau. Bydd cofnodi ffynonellau gweledol yn defnyddio technegau gweledol priodol, a bydd y defnydd o elfennau ffurfiol a syniadau a materion yn cael eu deall. Bydd y gwaith wedi cael ei adolygu'n rheolaidd, ond heb fawr o ddealltwriaeth feirniadol. Bydd rhai o'r bwriadau gwreiddiol yn cael ei gwireddu a bydd y gwaith gaiff ei gwblhau erbyn diwedd y 5 awr yn cwrdd â rhai o ofynion y briff. Bydd yn dangos ymgysylltiad drwy gydol datblygiad y briff, o'r dewisiadau unigol sy'n cael eu gwneud o'r ffynonellau gweledol, hyd at y bwriadau creadigol. Nid oes disgwyl y bydd pob syniad wedi'i wireddu'n llawn.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn dangos ymwneud â chofnodi'r ffynonellau gweledol sydd wedi cael eu darparu. Nid oes disgwyl y bydd pob un o'r ffynonellau gweledol a ddewiswyd yn gwbl briodol ond y dylai'r dewisiadau hyn fod wedi eu cefnogi gan beth cyfiawnhad. Bydd gwaith gweledol ac ysgrifenedig yn disgrifio nodweddion unigol, ymatebion personol a'r rhesymau dros y rhain. Bydd y dystiolaeth a gofnodwyd am y prosesau a datblygiad technegau wedi cael ei nodi'n glir ac yn gywir gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol, megis lluniadu, ysgrifennu, ffotograffiaeth, byrddau stori. Bydd yr astudiaethau'n dangos lefelau cydlynol o sgîl drwy'r gwaith i gyd. Gall fod yn aml-ddimensiwn o ran na fydd yn dilyn trywydd llinol, ond bydd ganddo nifer o elfennau'n cyfuno gwahanol feysydd a syniadau. Bydd y gwaith wedi datblygu sensitifrwydd i elfennau gweledol a bydd wedi cymryd i ystyriaeth dueddiadau cyfredol a phosibiliadau'r dyfodol. Bydd tystiolaeth o adolygu mewn perthynas â'r ffordd y maent yn dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a/neu brosesau i symud eu bwriadau creadigol ymlaen i gwrdd â'r briff. Bydd tystiolaeth o amrywiaeth o syniadau y maent yn eu hystyried i gwrdd â gofynion y briff a ddewiswyd.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** wedi dangos ymwneud parhaus â'r briff. Bydd y rhan fwyaf o'r amrywiaeth o ffynonellau gweledol a ddewiswyd wedi cael eu harchwilio gan ddangos datblygiadau cyffrous a dychmygus. Bydd syniadau ar y lefel hon yn dangos barn bersonol ac wedi'i mireinio sy'n symud y gwaith datblygu i lefel greadigol. Bydd y dysgwr wedi gweithio gyda brwdfrydedd ac annibyniaeth, gan adolygu'n feirniadol yn barhaus a gyda dealltwriaeth o faterion mwy cymhleth. Bydd potensial pob elfen o'r briff wedi cael ei archwilio mewn perthynas â chysyniadau, datblygiadau a'r defnydd o ddefnyddiau a chyfryngau. Bydd yr arbofi'n wreiddiol ac yn bersonol, a bydd y defnydd o ddefnyddiau, technegau a phrosesau yn hyderus gan ddangos meistrolaeth o sgîliau a thechnegau. Bydd y gwaith yn cyfathrebu ymateb unigol i ddatrys problemau yn greadigol, sy'n archwilio gofynion y briff. Bydd cynnydd personol a'r daith drwy'r briff yn ddychmygus ac wedi ei gofnodi a bydd gwybodaeth gefnogol yn glir gan ddangos eu bwriadau creadigol. Gall tystiolaeth gynnwys lluniadu, ysgrifennu, ffotograffiaeth, fideo, y defnydd o ddyfeisiau symudol, cyflwyniadau electronig.

**Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** wedi dewis ffynhonnell weledol gynradd o'r rhai a ddarparwyd ar eu cyfer a byddant yn gallu rhoi rheswm dros y dewisiadau hyn. Ni fydd yr astudiaethau y byddant yn eu cynhyrchu yn weithredol o ran dangos eu bwriadau creadigol. Bydd cofnodi a chynhyrchu syniadau yn gyfyngedig ac yn debyg o fod heb eu mireinio ac er bod yr ymateb yn drefnus gan arwain at wireddu bwriadau, gall canlyniadau fod yn arwynebol. Bydd arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, prosesau a thechnegau yn gyfyngedig gan ddangos peth datblygiad a sgil. Bydd dysgwyr yn gallu disgrifio eu proses waith a'u bwriadau creadigol.



# Uned 8: Defnyddio Dyfeisiau Symudol mewn Celf a Dylunio

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi erioed wedi creu campwaith ar ddyfais symudol? Dyma'ch cyfle i archwilio ac arbrofi gyda maes cyffrous, ond heb ei wireddu hyd yma, o gelf a dylunio symudol.

Mae gan ffonau clyfar modern fwy o bŵer prosesu nag oedd gan y rhan fwyaf o gyfrifiaduron desg ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae dyfeisiau symudol wedi mynd yn llai, yn fwy amlbwrpas ac yn fwy pwerus, ac maent yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â thechnolegau desg digidol sylweddol, ac yn aml yn eu lle, mewn amrywiaeth eang o gymwysiadau galwedigaethol creadigol.

Un o agweddau mwyaf cyffrous y technolegau hyn yw'r elfen gludadwy. Byddai hi wedi bod yn amhosibl gweithio'n ddigidol ar leoliad cyn dyfodiad y dyfeisiau newydd hyn. Mae cysylltedd diwifr wedi ychwanegu dimensiwn arall at y dull hwn o weithio ac mae byd masnachol celf a dylunio'n dechrau archwilio potensial gweithio'n gydweithredol i ddatblygu deunydd. Mae artistiaid fel David Hockney a Brian Eno wedi dechrau archwilio potensial gwneud celf gyda'u iPad neu iPhone, ond dim ond crafu'r wyneb o beth allai fod yn bosibl y maen nhw wedi'i wneud. Mae dyfeisiau symudol yn newid y ffordd y mae pobl yn defnyddio cyfrifiaduron a'r ffordd y mae dylunwyr proffesiynol yn gweithio bellach.

Gallai'r cwmpas am ddatblygiadau yn y dyfodol gynnwys defnyddio dyfeisiau symudol i greu, rhannu ac arddangos prosiectau celf a dylunio, gan weithio'n unigol ac yn gydweithredol, a gan weithio wrth fynd o le i le yn ogystal â mewn stiwdio.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A archwilio ac ymchwilio i'r defnydd creadigol o ddyfeisiau symudol mewn celf a dylunio
- B datblygu syniadau a chynllunio gwaith celf a dylunio seiliedig ar ddyfais symudol mewn ymateb i friff
- C cadarnhau syniadau a chyflwyno cynhyrchiad gorffenedig seiliedig ar ddyfais symudol mewn ymateb i friff.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p><b>Nod dysgu A: Archwilio ac ymchwilio i'r defnydd creadigol o ddyfeisiau symudol mewn celf a dylunio</b></p>
<p><b>Sut mae dyfeisiau symudol yn gallu cael eu defnyddio'n greadigol mewn celf a dylunio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio camerâu digidol, chwaraewyr mp3, darllenwyr testun, tabledi, setiau llaw gemau, ffonau clyfar</li> <li>• defnyddio technolegau symudol ar gyfer recordio, golygu, cyfuno, rhannu a dangos</li> <li>• dysgu am y gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng potensial creadigol amrywiaeth o ddyfeisiau symudol a'r swyddogaethau creadigol y maent yn eu darparu</li> <li>• dysgu am y gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng gweithio'n greadigol gyda dyfeisiau symudol yn gydamseredig (yn fyw) ac yn anghydamseredig (wedi'i recordio).</li> </ul> <p><b>Sut gall dyfeisiau symudol helpu i weithio gyda phobl eraill mewn ffyrdd gwahanol er mwyn:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynhyrchu syniadau</li> <li>• ddatblygu syniadau</li> <li>• defnyddio technegau ar gyfer rhannu (trydar, geodagio delweddau, lluniadu gyda data GPS, defnyddio realiti estynedig, gwneud ffilmiau gyda dyfeisiau symudol)</li> <li>• rhannu syniadau</li> <li>• cyflwyno syniadau</li> </ul> <p><b>Sut y gall gweithio ar leoliad gyda dyfeisiau symudol helpu i ddatblygu eich syniadau, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio mewn stiwdio</li> <li>• gweithio ar safle</li> <li>• wrth deithio</li> <li>• tra'n gweithio gartref</li> <li>• gweithio i ffwrdd o'r safle</li> </ul> <p><b>Sut mae eraill yn dyfeisio defnyddiau creadigol o ddyfeisiau symudol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• artistiaid</li> <li>• dylunwyr</li> <li>• crefftwyr</li> <li>• defnyddio teclynnau datblygu</li> <li>• dod o hyd i gymwysiadau newydd ar gyfer meddalwedd neu galedwedd.</li> </ul>

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu B: Datblygu syniadau a chynllunio gwaith celf a dylunio seiliedig ar ddyfais symudol mewn ymateb i friff</b>
<p><b>Sut i ddatblygu syniadau creadigol drwy arbrofi gyda theclynnau a thechnegau symudol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfuno cymwysiadau</li> <li>• addasu arferion stiwdio</li> <li>• cael ysbrydoliaeth o waith pobl eraill, ffynonellau cynradd ac eilaidd</li> <li>• defnyddio teclynnau cyfarwydd mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd (neu i'r gwrthwyneb)</li> <li>• cymryd risgiau, torri rheolau ac archwilio defnydd a chymwysiadau anghonfensiynol o dechnolegau</li> <li>• datblygu'r gallu i weithio mewn cydweithrediad gydag eraill.</li> </ul> <p><b>Cynllunio darn o gelf a dylunio seiliedig ar ddyfais symudol mewn ymateb i friff, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio ar leoliad</li> <li>• dod o hyd i leoliadau addas</li> <li>• gan ddatblygu syniadau drwy weithio ar wahanol themâu a chynhyrchu syniadau unigol</li> <li>• defnydd creadigol o leoliadau cyfyngedig</li> <li>• cludo i leoliadau addas</li> <li>• defnyddio'r ddyfais i gadw nodiadau am gynnydd</li> <li>• ystyried y defnydd creadigol o dywydd, golau, naws</li> <li>• ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch</li> <li>• ceisio a defnyddio adborth i wella syniadau</li> <li>• dewis a chadarnhau dulliau, adnoddau a strategaethau i'w defnyddio wrth gynhyrchu gwaith celf a dylunio seiliedig ar ddyfais symudol.</li> </ul>
<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu C: Cyfnerthu syniadau a chyflwyno cynhyrchiad gorffenedig seiliedig ar ddyfais symudol mewn ymateb i friff</b>
<p><b>Sut i benderfynu ar syniad(au) terfynol, cwblhau a chyflwyno cynhyrchiad gorffenedig seiliedig ar ddyfais symudol mewn ymateb i friff drwy, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• deall gofynion briff</li> <li>• rhoi cynlluniau ar brawf ar gyfer cynhyrchiad seiliedig ar ddyfais symudol</li> <li>• addasu'r cynllun ar gyfer cynhyrchu'r gwaith o ganlyniad i unrhyw brofion</li> <li>• cynhyrchu ymateb i briff a osodwyd gan ddefnyddio technegau a dulliau symudol</li> <li>• cymhwyso profiadau symudol i ddulliau ac adnoddau a ddewiswyd ar gyfer y briff</li> <li>• cadw cofnod o gydweithredu, gwaith ar leoliad a datblygu technegau</li> <li>• cyflwyno a rhannu ymatebion, gwerthuso prosesau a dulliau gwaith a ddefnyddiwyd</li> <li>• adolygu gwaith terfynol.</li> </ul>

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Archwilio ac ymchwilio i'r defnydd creadigol o ddyfeisiau symudol mewn celf a dylunio</b>			
1A.1 Nodi o leiaf ddau ddefnydd ar gyfer dyfeisiau symudol mewn celf a dylunio a rhoi tro ar ddefnyddiau tebyg yn eich gwaith eich hun.	2A.LI1 Disgrifio o leiaf bedwar defnydd ar gyfer dyfeisiau symudol mewn celf a dylunio gan archwilio defnyddiau tebyg yn eich gwaith eich hun.	2A.T1 Adolygu canfyddiadau o ddefnyddiau amrywiol ar gyfer dyfeisiau symudol mewn celf a dylunio, gan ymchwilio i ddefnyddiau tebyg er mwyn creu eich gwaith eich hun yn effeithiol.	2A.Rh1 Dadansoddi canfyddiadau o ddefnyddiau amrywiol ar gyfer dyfeisiau symudol mewn celf a dylunio, gan arbrofi gyda defnyddiau tebyg i greu eich gwaith eich hun yn ddychmygus.
<b>Nod dysgu B: Datblygu syniadau a chynllunio gwaith celf a dylunio seiliedig ar ddyfais symudol mewn ymateb i friff</b>			
1B.2 Datblygu syniadau personol o fan cychwyn, gan ymateb i friff seiliedig ar ddyfais symudol.	2B.LI2 Defnyddio sgiliau priodol i ddatblygu syniadau dylunio mewn ymateb i'r briff, i gynnwys gweithio ar leoliad a pheth cydweithredu.	2B.T2 Archwilio a mireinio syniadau dylunio amrywiol mewn ymateb i'r briff, gyda gwaith effeithiol ar leoliad ac mewn cydweithrediad gyda phobl eraill.	2B.Rh2 Syntheseiddio amrywiaeth eang o syniadau dylunio sy'n archwilio'n ddychmygus ac yn llawn ofynion y briff, yn cynnwys gwaith ar leoliad ac mewn cydweithrediad gyda phobl eraill.



Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Cyfnerthu syniadau a chyflwyno cynhyrchiad gorffenedig yn seiliedig ar ddyfais symudol mewn ymateb i friff</b>			
1C.3 Nodi'r defnydd o ddefnyddiau, technegau a phrosesau i weddu i fwriadau creadigol a gwaith presennol.	2C.LI3 Dewis defnyddiau, technegau a phrosesau addas mewn ymateb i friff, i archwilio bwriadau creadigol.	2C.T3 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau amrywiol i gwrdd yn gydlynol â briff, gan esbonio sut y maent yn cefnogi bwriadau creadigol.	2C.Rh3 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau amrywiol i gwrdd yn ddychmygus â briff, gan ddadansoddi sut y maent yn gwella ac yn cefnogi bwriadau creadigol.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw'r defnydd o amrywiaeth o dechnolegau symudol megis ffonau'r dysgwyr eu hunain, camerâu digidol, is-nodiaduron, setiau llaw gemau ac ati.

Nid yw'n dyngedfennol pa dechnoleg sydd ar gael, dim ond fod gan ddysgwyr y cyfle i gymharu a chyferbynnu potensial creadigol o leiaf ddau blatfform gwahanol, yn nodweddiadol eu (ffôn clyfar, chwaraewr mp3, set llaw gemau) eu hunain ac un sy'n cael ei ddarparu gan yr ysgol (camera digidol, dyfais cludadwy), gan o leiaf weithio mewn paru gan archwilio'r gwahaniaethau rhwng eu ffonau eu hunain.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu ymchwilio i rai o'r defnyddiau creadigol o ddyfeisiau symudol mewn celf a dylunio, a gallai ddatblygu syniadau drwy gydweithredu, i ddangos eu bod wedi deall y briff a'r gofynion ar gyfer cwrdd â'r briff hwnnw. Byddant yn gallu cymhwyso canlyniadau unrhyw brofion i'w gwaith cynhyrchu syniadau. Bydd dysgwyr yn defnyddio unrhyw ymchwil i'w helpu i ddatblygu gwaith gweledol. Byddant hefyd yn dangos eu proses weithio, yn dangos sut gwnaethant ddatblygu eu syniadau a sut gwnaethant ddewis dulliau oedd yn briodol i'w bwriadau.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu datblygu un neu ddau syniad sy'n cwrdd â gofynion y briff, o amrediad o fannau cychwyn potensial. Mae eu meddyliau'n debygol o fod yn ymatebol i ganlyniadau unrhyw brofion, a byddant yn gallu datblygu a chyfnerthu syniadau. Bydd ganddynt reolaeth gyson dros dechneg, a bydd eu deilliannau'n effeithiol wrth gwrdd â'r briff. Byddant yn gallu gweithio'n gydweithredol mewn lleoliadau gwahanol, ac archwilio potensial y briff i ddefnyddio dyfeisiau symudol i gynhyrchu ymateb effeithiol i'r briff. Byddant yn disgrifio eu prosesau gweithio, gan amlygu strategaethau a dulliau a ddefnyddiwyd.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn gallu archwilio'n fwy rhydd y potensial o ddefnyddio dyfeisiau symudol a gyda pheth canlyniadau dychmygus. Byddant yn gweithio'n llwyddiannus ar leoliad ac mewn cydweithrediad â phobl eraill. Bydd eu gwaith yn dangos syniadau arloesol tuag at ddatblygu a chynhyrchu ymateb creadigol i'r briff. Byddant yn dadansoddi eu harfer gwaith eu hunain, yn myfyrio ar addasrwydd i bwrpas eu gwaith archwilio cychwynnol a byddant yn rhoi sylwadau ar ansawdd eu cynllunio. Bydd teimlad o'r annisgwyl yn eu prosesau gwaith a'u hymatebion i'r briff, a byddant yn dangos y gallu i gymryd risgiau gyda syniadau ac yn eu defnydd arbrolfol o'r cyfryngau, y prosesau a'r technegau a ddewiswyd ganddynt.

**Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu ymchwilio i amrediad cyfyngedig o gymwysiadau creadigol o waith celf a dylunio seiliedig ar ddyfeisiau symudol. Gellir asesu ymatebion dysgwyr i ddefnyddio offer symudol drwy arsylwi gan athrawon, gyda chefnogaeth cyflwyniadau a nodiadau anodedig. Bydd dysgwyr yn datblygu cynllun sylfaenol, gan ddangos amrediad cyfyngedig o syniadau yn cael eu cynhyrchu. Gallant fod yn amharod i archwilio'r potensial sy'n cael ei gynnig drwy weithio'n gydweithredol, a gallant grynhoi syniadau ar lefel sylfaenol. Bydd y dysgwyr yn dangos tystiolaeth o ddefnydd a dealltwriaeth cyfyngedig o'r cyfarpar symudol a'r prosesau technegol dan sylw. Bydd y cyflwyniadau i gynulleidfa yn gyfyngedig, a heb eu mireinio, fwy na thebyg, ond gallant fod yn drefnus.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	Torrwch y Rheolau a Chymysgwch...	Mae hyrwyddwr ffasiwn yn mynd at artist ac yn gofyn iddo roi delweddau digidol at ei gilydd allai gael eu defnyddio ar gyfer prosiect hyrwyddo fydd yn seiliedig ar ddyfeisiau symudol. Y briff yw cynnig syniadau sy'n cymryd agwedd newydd tuag at harddwch ac archwilio potensial llawn delweddau digidol, gan wneud rhywbeth gwahanol ac arloesol.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2, 1C.3, 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3	Cydweithredu Digidol	Mae cydweithfa celf yn gwahodd dau artist i gymryd rhan mewn cydweithfa/cystadleuaeth ffotograffiaeth. Mae pob artist yn cymryd un ffotograff ac yn ei roi i'w bartner, sy'n ei olygu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau/meddalwedd/aps symudol cyn ei roi'n ôl i'r artist gwreiddiol ar gyfer gwaith terfynol. Caiff y gwaith wedyn ei daflunio ar sgrin i'r gynulleidfa.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid, darnau terfynol, arddangosfa.

# Uned 9: Briffiau Crefftau Dylunio

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Gorfodol/Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Sut mae ymarfer a rôl y dylunydd/gwneuthurwr yn cyd-fynd â maes amrywiol a gwahanol crefftau dylunio heddiw? Byddwch yn gweithio i gwrdd â briff crefftau dylunio fydd yn annog ymateb unigol a chreadigol.

Mae dylunio crefftau'n cynnwys gemwaith, gwydr, cerameg a metel, a gweithio gyda phren, papur, patrwm arwyneb a phrint yn ogystal â thecstilau. Gall hefyd gynnwys dylunio cartref ar gyfer amgylcheddau domestig a masnachol. Mae'n bosib bod ymarferwyr sy'n gweithio mewn crefftau dylunio wedi cynhyrchu rhai o'r eitemau yn eich cartref. Maen nhw'n cynhyrchu gwrthrychau sy'n gallu bod yn ymarferol yn ogystal â gwneud ein hamgylchedd yn ysgogol weledol.

Yn aml mae angen amrediad eang o sgiliau ar ymarferwyr yn y maes hwn. Efallai eu bod yn gweithio fel dylunwyr a/neu wneuthurwyr llawrydd, felly mae angen iddynt ddylunio'n ofalus a gallu rhoi costiau cywir i gleientiaid. Dylent ddeall y costau sydd ynghlwm wrth redeg busnes fel ymarferydd hunangyflogedig, megis rhent am adeilad, cost gwasanaethau neu gynnal yr offer y maen nhw'n ei ddefnyddio. Rhaid iddyn nhw gydbwysu'r gofynion hyn gyda datblygu eu gwaith dylunio creadigol.

Mae dylunwyr a gwneuthurwyr yn datblygu strategaethau i'w galluogi i fireinio eu gwaith a'r syniadau y tu cefn iddo yn barhaus. Wrth weithio drwy eich briffiau, byddwch yn adolygu eich cynnydd yn gyson gan ddefnyddio adborth gan eich cyfoedion a'ch athrawon i wella eich dulliau gwaith. Gall rhai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eich ymarfer fod yn seiliedig ar ddefnyddiau: po fwyaf y byddwch yn defnyddio defnyddiau, mwyaf oll y byddwch yn dysgu sut maen nhw'n ymddwyn, gan eich helpu i fireinio'r technegau a'r prosesau rydych yn eu defnyddio. Efallai y byddwch weithiau'n penderfynu symud i weithio mewn maes newydd, neu archwilio defnyddiau a phrosesau sy'n newydd i chi, er mwyn ehangu apêl eich gwaith, ac i ehangu a datblygu eich arferion gwaith. Fel ymarferwyr proffesiynol, efallai y byddwch hefyd yn datblygu ymagweddau tuag at eich gwaith dylunio sy'n eich galluogi i gynhyrchu'r gwaith yn effeithlon – efallai y byddwch yn mynd i'r afael â briffiau sy'n galw arnoch i edrych eto ar eitem neu gynnyrch sy'n bodoli eisoes a'i ailddyfeisio mewn rhyw ffordd.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i ymarfer crefftau dylunio
- B archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau crefftau dylunio
- C datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau crefftau dylunio
- D cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff crefftau dylunio.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ymarfer crefftau dylunio</b>
<p><b>Sut mae dylunwyr yn gweithio yn y diwydiant crefftau dylunio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn hunangyflogedig/dylunydd llawrydd/gwneuthurwr</li> <li>• mewn stiwdio ddylunio</li> <li>• gydag asiant sy'n dod o hyd i gomisiynau/sy'n gwerthu gwaith iddynt, ac sydd fel arfer yn cymryd comisiwn o'r pris fel eu tâl.</li> </ul> <p><b>Sut mae dylunwyr yn cael gwaith, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• drwy asiant</li> <li>• dod o hyd i'w comisiynau eu hunain drwy gyfrwng eu portffolio – papur/ffotograffig/ar-lein</li> <li>• drwy ddangos eu gwaith fel aelod o gymdeithas neu grŵp</li> <li>• drwy argymhelliad personol ac wrth i bobl siarad</li> <li>• drwy gyfrwng ffeiriau crefftau.</li> </ul> <p><b>Sut i adnabod a chyflwyno enghreifftiau o grefftau dylunio, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gemwaith, cerameg, metel, pren, gwaith gyda phapur (papur wal, cardiau, papur lapio, cysgodion lampau), gwydr, dodrefn (celfi), tecstilau, dodrefn meddal.</li> </ul> <p><b>Sut i goladu a chyflwyno'r wybodaeth hon mewn fformat priodol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• llyfr braslunio a nodiadau, cyflwyniad ar sgrin, cyflwyniad llafar wedi'i gefnogi gan nodiadau a thafleini.</li> </ul> <p><b>Sut i ddod o hyd i enghreifftiau o waith gan ymarferwyr cyfoes sy'n gweithio mewn crefftau dylunio, a'u coladu, gan gynnwys enghreifftiau gweledol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• enghreifftiau o grefftau dylunio yn y cartref, enghreifftiau o grefftau dylunio o orielau, siopau a ffynonellau eraill; naill ai tynnu lluniau o'r gwaith yn y fan neu ddod â'r gwaith i mewn i sesiwn i'w drafod ac yna dynnu ffotograffau; anodi'r ffotograff gyda chrynodeb o'r prif bwyntiau gafodd eu trafod, gan ychwanegu eich barn eich hun.</li> </ul> <p><b>Dylunwyr/gwneuthurwyr hunangyflogedig e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hunan-hyrwyddo – dealltwriaeth o sut i hysbysebu a chyflwyno gwaith, er enghraifft ar-lein</li> <li>• rhedeg busnes – costau, deddfwriaeth ar gyfer gweithdai, cynnal offer a chyfarpar, cyllidebu ar gyfer defnyddiau ac amser dylunio/gwneud rhent</li> <li>• cyfathrebu'n effeithiol – gyda chleientiaid, sefydliadau, cyflenwyr, asiantau, orielau.</li> </ul> <p><b>Gweithio mewn stiwdio crefftau dylunio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio mewn tîm</li> <li>• sgiliau cyfathrebu – mewn cyfarfodydd, gyda chleientiaid</li> <li>• gweithio i derfynau amser, rheoli amser.</li> </ul> <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sgiliau creadigol sy'n ofynnol ar gyfer ymarferwr mewn crefftau dylunio, e.e.:**

- sut y maent yn datblygu ymatebion creadigol i themâu a osodwyd gan gleientiaid neu gwsmeriaid – dehongli pwnc neu friff mewn ffyrdd all fod yn arloesol, drwy ddefnyddio a manteisio ar elfennau ffurfiol megis siâp, lliw, llinell, neu drwy gymryd cysyniad neu eitem sy'n bodoli eisoes a'i ailddyfeisio mewn modd creadigol
- archwilio defnyddiau – sut mae ymarferwyr yn cadw arferion gwaith yn gyfredol a chyffrous drwy ystyried ac arbrofi gyda defnyddiau, technegau a phrosesau newydd
- mireinio sgiliau presennol – o fewn eu hymarfer dylunio, sut mae ymarferwyr yn cynhyrchu syniadau, sut y maent yn defnyddio defnyddiau, dysgu technegau newydd, datblygu ymhellach wybodaeth a thechnegau presennol
- datblygu sgiliau ymchwil – Sut mae ymarferwyr yn mynd ati i wella eu proses o gasglu gwybodaeth a sut y maent yn bwydo'r wybodaeth hon i mewn i'w proses neu ymarfer dylunio – edrych ar astudiaethau achos.

**Sut i fyfyrrio ar bwrpas darn neu gynnyrch y dylunydd a ddewiswyd, e.e.:**

- ystyried pwy yw'r gynulleidfa darged ar gyfer gwaith y dylunydd
- ymchwilio i nodweddion y defnyddiau a'r technegau a ddefnyddir gan y dylunydd
- archwilio a dogfennu defnydd y dylunydd o iaith weledol megis siâp, lliw, patrwm, gan gynnig sylwadau ar yr effeithiau
- ymchwilio i'r berthynas rhwng yr iaith weledol a ddefnyddiwyd, mewn darn cerameg er enghraifft, sut mae lliw wedi cael ei ddefnyddio mewn perthynas â siâp y darn.

**Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau crefftau dylunio****Sut i archwilio defnydd gwrthiannol neu ddefnydd annwrthianol mewn ymateb i friff crefftau dylunio, e.e.:**

Defnyddiau anwrthiannol megis:

- plastr, cerdyn, pren balsa, llinyn, gwifren, mod roc, papur, ffelt, ffabrig, defnyddiau wedi eu hailgylchu, defnyddiau hapgael,

Defnyddiau gwrthiannol megis:

- metel, pren, Bwrdd Ffibr Dwysedd Canolig (MDF)/pren haenog, Persbecs, gwydr, resin, defnyddiau dalen acrylig, defnyddiau wedi eu hailgylchu, defnyddiau hapgael,

**Mannau cychwyn y gellid eu defnyddio, e.e.:**

- sioe sleidiau dan arweiniad athro wrth lansio'r briff, ffocws ar ddefnyddiau, technegau a phrosesau
- lluniadau, ffotograffau, darluniau, gwrthrychau,

**Sut i archwilio technegau a phrosesau crefftau dylunio mewn ymateb i friff, e.e.:**

- gludio, uno, pwytho, brodio, castio, adeiladu â llaw, mowldio, ffurfio, torri, gorffennu.

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut i ddilyn arfer gwaith da, e.e.:**

- cynaliadwyedd – defnyddio adnoddau'n ofalus/ailgylchu lle mae hynny'n bosibl
- dilyn arferion gwaith diogel – sylw i'r amgylchedd gwaith
- dileu risgiau i chi eich hun ac i eraill
- Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) – beth mae hyn yn ei feddwl wrth ddefnyddio defnyddiau ac offer
- dilyn cyfarwyddiadau ar ddefnyddio offer, cyfarpar a thechnegau
- crynhoi gwybodaeth, taflenni ac arweiniad deddfwriaethol ar iechyd a diogelwch, pwysigrwydd cadw cofnodion a ble y dylai'r cofnodion hynny gael eu cadw
- cadw eich cofnodion eich hun ar ganllawiau iechyd a diogelwch a deddfwriaeth berthnasol ar y defnyddiau a'r technegau sy'n cael eu defnyddio
- beth yw ystyr yr arwyddion perygl/rhybuddio yn y gweithdai
- defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn iawn.

**Sut i ddewis ac archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau crefftau dylunio sy'n cwrdd â gofynion briff, e.e.:**

- ymchwilio i addasrwydd i bwrrpas
- archwilio'r potensial am fynegiant creadigol
- profi addasrwydd ar gyfer cyfuno os mai dyna'r bwriad
- esbonio'r rhesymu a chyfiawnhau'r dewis
- addasu a mireinio dewisiadau mewn ymateb i arbrofi, archwilio a phrofi, a gwerthuso'r penderfyniadau gafodd eu gwneud/y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd.

**Sut i ddewis a defnyddio technegau, e.e.:**

- paru'r dewis o dechnegau gyda'r bwriad creadigol
- defnyddio technegau i archwilio nodweddion cynhenid mewn defnyddiau, megis graen mewn pren
- defnyddio technegau i gyflawni bwriad yn llwyddiannus, megis llwyddo i gael arwynebeddau llyfn mewn cerameg, edau gwrthgyferbyniol a gwedd ffabrig mewn darnau tecstilau, torri ac uno Perspex yn lân ac yn effeithiol
- ystyried a dewis technegau adeiladu yn ôl y pwrpas
- defnyddio gwrthrychau haggael a/neu gyfuniadau damweiniol i gynnig ymatebion amgen i'r briff.

**Dewis a defnyddio offer a phrosesau, e.e.:**

- offer llaw
- peiriannau gweithdy
- Cynllunio Drwy Gymorth Cyfrifiadur (CAD)
- prosesau gwlyb, caniatáu digon o amser i aersychu/ffwrndanio

**Sut i gofnodi cynnydd a phrosesu canlyniadau profion a threialon, e.e.:**

- cadw dyddlyfr cyfredol
- defnyddio ffotograffiaeth i gofnodi samplau, ac anodi
- defnyddio adborth gan gyfoedion ac athrawon i helpu gyda datblygu eich gwaith dylunio eich hun.



**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau crefftau dylunio****Sut i ddiffinio pwrpas briff crefftau dylunio. Beth yw gofynion y briff, e.e.:**

- darllen a thrafod y briff
- cynllunio amserlen personol i gwrdd â'r terfyn amser
- ystyried anghenion y cleient, ffwythiannol/anffwythiannol
- mesur defnyddiau, maint, costau
- creu samplau, modelau, maquettes, darnau prawf, casgliadau patrymau,

**Sut i gynhyrchu syniadau drwy ddefnyddio unrhyw un neu gyfuniad o ddulliau priodol, e.e.:**

- mapio meddwl – cyswllt geiriau, llamau creadigol, arloesol, gweledigaeth anarferol
- siartiau corrbyn
- trafodaeth un i un a/neu grŵp.

**Sut i gofnodi o ffynonellau cynradd a/neu ffynonellau eilaidd, e.e.:**

- lluniadu a pheintio drwy arsylwi
- eich gwaith ffotograffig eich hun
- cofnodi yn dilyn ymweliadau stiwdio neu amgueddfa
- cofnodi gwaith ac enghreifftiau mewn orielau ac arddangosfeydd
- cofnodi enghreifftiau manwerthu megis gemwaith, patrwm arwyneb
- cofnodi o bortffolios ar-lein.

**Sut i ddatblygu ymatebion i friff mewn llyfr braslunio, e.e.:**

- cadw cofnod ar ffurf nodiadau o'r camau gafodd eu cymryd i ddatblygu'r gwaith dylunio
- ar beth mae eich syniadau eich hun yn seiliedig
- pa ddull/iau sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu syniadau
- lluniadu syniadau a chynlluniau
- pa ddefnyddiau allai gael eu defnyddio.

**Sut i ddechrau gweithio tuag at y briff, e.e.:**

- gwneud cynllun sylfaenol ar gyfer cynhyrchu
- cynhyrchu syniadau
- dewis pynciau ar gyfer ymchwilio a chofnodi
- arbrofi gyda gwahanol fannau cychwyn

**Sut i gasglu a dewis o'r wybodaeth weledol a gasglwyd, i'w defnyddio mewn gwaith datblygu, e.e.:**

- defnyddio lluniadu i gofnodi'n effeithiol, yn briodol i'r bwriad
- arsylwi a chofnodi lliw, cofnodi gwead, patrwm, rhythm
- defnyddio ffotograffiaeth yn effeithiol i gasglu a chofnodi gwybodaeth.

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut i ddewis hoff syniadau o amrywiaeth o waith dylunio cychwynnol:**

- wedi'u dewis ar sail ansawdd, arloesedd ac addasrwydd i bwrpas wrth gwrdd â'r briff
- defnyddio a mireinio iaith weledol i wella a datblygu syniadau dylunio, a chofnodi rhesymau dros y penderfyniadau gafodd eu gwneud.

**Cadw cofnod gwerthuso parhaus yn nodi pam a sut y mae'r gwaith yn cael ei wneud, yn cynnwys:**

- adolygu cynnydd cyfredol
- beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio, a pham
- sut y gall ymchwil i syniadau a dulliau pobl eraill gael ei ddefnyddio i helpu gyda datblygu'r dyluniad.

**Sut i gynllunio amserlen cynhyrchu ar gyfer y gwaith dylunio, e.e.:**

- dangos pryd mae angen cymorth technegol
- caniatáu ar gyfer amserau sychu
- archebu defnyddiau arbenigol.

**Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff crefftau dylunio****Sut i drefnu ymchwil, syniadau a chanlyniadau terfynol mewn fformat priodol, e.e.:**

- llyfr brasluniau, taflenni gwaith, profion, samplau a maquettes, canlyniad terfynol.

**Sut i werthuso'r ymateb i'r briff, ac esbonio'n glir sut mae'r gwaith dylunio wedi cwrdd â gofynion y briff, e.e.:**

- diffinio syniad neu syniadau – ar beth mae'r gwaith wedi'i seilio.
- cofnodi a choladu profion, samplau a maquettes, i esbonio a gwerthuso canlyniadau cynnal profion a samplu.
- ystyried a oedd y dewis a'r defnydd terfynol o ddefnyddiau'n cefnogi dyluniad y syniad neu'r neges
- rhoi sylwadau ar y defnydd o ddefnyddiau, y sgiliau dan sylw a sut y cawsant eu cymhwyso
- rhoi sylwadau ar unrhyw newidiadau gafodd eu gwneud i ddefnyddiau, technegau, delweddaeth gweledol a'r defnydd o iaith weledol, pam y cafodd penderfyniadau eu gwneud i newid agweddau o'r gwaith dylunio – yn sgil canlyniadau profion, wrth gyfieithu syniad o lyfr braslunio i sampl/maquette
- myfyrio ar effaith gweledol y gwaith, a sut y daethpwyd i'r canlyniad hwn
- gwerthuso'r cydweddiad rhwng bwriad a'r gwaith dylunio terfynol.

**Sut i gyflwyno canlyniad terfynol a'r holl waith cychwynnol cysylltiedig:**

- yn cynnwys ymchwil, cynhyrchu syniadau, gwaith datblygu megis samplau, profion, maquettes ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall gan ddefnyddio'r fformat cyflwyno mwyaf priodol.
- cyflwyno gwaith dylunio i gyfoedion a/neu gleient gan ddefnyddio meddalwedd cyflwyno os yn briodol; cofnodi a dangos samplau a phroffion, gwaith dylunio ar bapur, ac unrhyw waith ar sgrin.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ymarfer crefftau</b>			
1A.1 Nodi o leiaf un enghraifft hanesyddol ac un enghraifft gyfoes o grefftau dylunio, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol ac amlinellu gwaith y crefftwyr. #	2A.LI1 Disgrifio o leiaf bedair enghraifft o grefftau dylunio, gan adnabod y crefftwyr dan sylw a dangos y nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr arteffactau. *#	2A.T1 Adolygu a chyflwyno amrywiaeth eang o enghreifftiau o grefftau dylunio yn effeithiol, gan adnabod y crefftwyr dan sylw ac esbonio'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr arteffactau. *#	2A.Rh1 Dadansoddi a chyflwyno amrywiaeth eang o enghreifftiau o grefftau dylunio yn greadigol, gan adnabod y crefftwyr dan sylw a gwerthuso'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr arteffactau. *#
<b>Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau crefftau dylunio</b>			
1B.2 Defnyddio o leiaf un defnydd gwrthiannol neu anwrthiannol mewn ymateb i friff crefftau dylunio, gan ddefnyddio arferion gwaith diogel.	2B.LI2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau i gynhyrchu gwaith dylunio sy'n cwrdd â gofynion briff crefftau dylunio, gan gadw at a chofnodi arferion gwaith diogel. *	2B.T2 Dewis a defnyddio'n gyson amrywiaeth eang o ddefnyddiau, technegau a phrosesau i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briff crefftau dylunio, gan ddisgrifio'r technegau a ddefnyddiwyd. *	2B.Rh2 Dewis a defnyddio'n gyson amrywiaeth eang o ddefnyddiau, technegau a phrosesau i gynhyrchu a chyflwyno gwaith dylunio sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briff crefftau dylunio, gan ddadansoddi'r technegau a ddefnyddiwyd. *

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friff crefftau</b>			
1C.3 Datblygu o leiaf un syniad a gwaith gweledol mewn ymateb i friff crefftau dylunio.	2C.LI3 Datblygu o leiaf ddau syniad sy'n cwrdd â gofynion briff crefftau dylunio.	2C.T3 Datblygu ac ymestyn syniadau amrywiol sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briff crefftau dylunio.	2C.Rh3 Datblygu ac ymestyn syniadau amrywiol a dychmygus sy'n cwrdd yn llwyddiannus â gofynion briff crefftau dylunio.
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff crefftau dylunio</b>			
1D.4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff crefftau dylunio.	2D.LI4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff crefftau dylunio, gan ddisgrifio eich proses waith.	2D.T4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briff crefftau dylunio, gan adolygu eich proses waith.	2D.Rh4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad dychmygus sy'n cwrdd yn llwyddiannus â gofynion briff crefftau dylunio, gan ddadansoddi eich proses waith.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Mae'r adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon i'w cael mewn gweithdy. Byddant yn amrywio yn ôl yr adnoddau sydd ar gael yn y ganolfan, ond dylent ganiatáu i ddysgwyr archwilio a defnyddio defnyddiau gwrthiannol a defnyddiau anwrthiannol. Gallai gweithdai defnyddiau gwrthiannol ac anwrthiannol gynnwys unrhyw un neu gyfuniad o ddefnyddiau pren,, cerameg, tecstilau megis ffelt neu frodwaith, gwaith metel ysgafn, castio syml e.e. resin neu blastr. Dylai dysgwyr hefyd gael gafael ar ddefnyddiau wedi eu hailgylchu.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewanol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu defnyddio eu hymchwil i'w helpu i ddatblygu syniadau sy'n cwrdd â gofynion y briff. I gyflawni hyn bydd rhaid iddynt ddatblygu dealltwriaeth o beth sydd ei angen ar y briff. Byddant hefyd yn esbonio sut y gwnaethant ddatblygu eu syniadau dylunio drwy ddewis defnyddiau cofnodi cynradd ac eilaidd. Bydd eu cymhwysiad o ddefnyddiau, technegau a phrosesau yn sylfaenol. Er y bydd eu canlyniad yn cwrdd â gofynion y briff, bydd yn brin o'r coethder neu greadigrwydd enghreifftiau ar lefel teilyngdod neu ragoriaeth.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu cwrdd ag amrywiaeth ehangach o syniadau sy'n cwrdd â gofynion y briff. Mae eu syniadau'n fwy tebygol o fod yn hylifol ac ymatebol i ganlyniadau unrhyw brofion, samplau ac arddangosiadau y maent wedi eu gweld neu wedi cymryd rhan ynddynt. Bydd ganddynt reolaeth gyson dros dechneg, ac er y gall eu canlyniad fod yn brin o beth o ddychymyg gwaith ar radd rhagoriaeth, bydd yn effeithiol wrth gwrdd â'r briff. Byddant yn gallu dadansoddi'r gwahanol gamau o'u gwaith dylunio a myfyrio ar gryfderau a meysydd ar gyfer datblygu. Byddant yn gallu esbonio'n glir nodweddion gwaith pobl eraill y maent wedi ymchwilio iddynt.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn gallu datblygu amrediad ehangach o syniadau. Byddant yn dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau yn annibynnol gyda hyder a phwrpas gwirioneddol. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth o ofynion y briff ac yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw heriau sy'n codi yn eu harbafion a datblygiad y dylunio. Bydd eu canlyniad yn dangos dull dychmygus a chreadigol tuag at gwrdd â'r briff. Bydd eu cyflwyniad wedi ei gynhyrchu'n annibynnol a byddant yn ymateb yn gadarnhaol i adborth. Byddant yn gallu gwerthuso nodweddion y gwaith y maent wedi gwneud ymchwil iddo. Byddant yn myfyrio'n feirniadol ar addasrwydd i bwrpas eu harfer gwaith eu hunain, ac yn gwerthuso'n eglur eu gwaith dylunio a'u hymagweddu tuag at ddefnyddio defnyddiau.

## Lefel 1

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu gwneud tasgau arferol i gasglu gwybodaeth am y diwydiant ac am arferion gwaith ymarferwyr. Gall canfyddiadau dysgwyr gael eu hasesu drwy gyflwyniadau, gyda chefnogaeth nodiadau anodedig sylfaenol, yn hytrach na thasgau ysgrifennu ffurfiol. Bydd eu gwaith cynhyrchu syniadau'n dangos ymateb i'r briff ond ni fydd o anghenraid yn cwrdd â'i anghenion. Efallai y bydd dysgwyr yn gweithio gydag un syniad yn hytrach nag archwilio syniadau amgen. Maent yn debygol o arddangos ymateb lefel isel wrth weithio o ffynonellau cynradd ac eilaidd. Bydd eu gwaith archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau i brofi a samplo yn gyfyngedig ac efallai y bydd modd adnabod unrhyw ganlyniadau ond ni fyddant wedi'u defnyddio i hysbysu'r broses ddylunio. Bydd eu canlyniad yn dangos eu bod wedi archwilio o leiaf un defnydd gwrthiannol neu anwrthiannol ar lefel sylfaenol. Bydd eu defnydd a'u rheolaeth ar y defnyddiau a'r prosesau technegol dan sylw yn gyfyngedig a heb eu mireinio.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	Crefftau Dylunio ar gyfer Pawb	Mae person sydd wedi graddio mewn crefftau yn gwneud ymchwil i faes crefftau dylunio, gan ganolbwyntio ar ffurfiau llestri a phowlenni te seremonïol Siapan, er mwyn datblygu ei waith personol mewn amryw o feysydd gwahanol, ond cysylltiedig.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2, 1C.3, 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3	Cylchoedd Gwerthfawr	Mae tîm dylunio'n datblygu cyfres newydd o emwaith cyfoes gyda'r gobaith o'i werthu i siopau gemwaith prif ffrwd. Mae'r tîm wedi cael ei ysbrydoli gan ffurfiau organig sydd i'w gweld yn lleol ac wedi penderfynu seilio'r casgliad ar gyfres o astudiaethau ffynonellau cynradd.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1D.4, 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Nadolig ar y Gorwel	Mae manwerthwr wedi gofyn i ddylunydd teganau ddatblygu samplau ar gyfer tegan newydd mewn pryd ar gyfer y farchnad Nadolig. Bydd angen i'r dylunydd gyflwyno amrywiaeth o syniadau yn ogystal â chreu samplau i'w dangos i'r cleient.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid, darnau terfynol, arddangosfa.
	Dangos y Gwehyddu	Mae crefftwr sy'n gweithio mewn tecstilau wedi creu taflenni gwaith syniadau dylunio, ynghyd ag amrywiaeth o samplau wedi'u gwehyddu i'w cyflwyno mewn ymateb i friff gan gleient.	Cyflwyno'r deilliant a'r gwaith dylunio cychwynnol a therfynol, cyflwyniadau llafar, technolegau digidol, llyfr brasluniau anodedig, arsylwi gan athrawon a chyfoedion, asesiad o gyflwyniadau ymarferol gan athro, gwerthuso parhaus.



# Uned 10: Briffiau Ffasiwn

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Gorfodol/Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Mae mwy i ffasiwn na dim ond y dylunwyr enwocaf yn sioeau ffasiwn Llundain a Pharis. Mae'n ymwneud â dylunio ar gyfer gwahanol bobl, digwyddiadau, rhesymau ac achlysuron mewn amrywiaeth enfawr o feysydd. Mae yna bobl sy'n gweithio fel newyddiadurwyr ffasiwn, cyfarwyddwyr celf, dylunwyr gwefannau ffasiwn, ffotograffwyr ac arddullwyr neu gynhyrchu sioeau ffasiwn a hyrwyddo ffasiwn drwy hysbysebu a brandio. Mae maes ffasiwn yn ymestyn i'r diwydiant cerddoriaeth lle gall fod ar berfformwyr a bandiau angen dillad arbennig neu ffotograffiaeth a steilio dynamig ar gyfer sioe lwyfan neu ddigwyddiad cyhoeddus ac wedyn mae yna ddylunwyr dillad sy'n gweithio ar ddyluniadau hanesyddol a chyfoes ar gyfer teledu a ffilm.

Bydd yr uned hon yn eich cyflwyno i fyd ehangach ffasiwn drwy'r aseiniadau gosod sy'n edrych ar amrywiaeth o feysydd ffasiwn arbenigol, fydd yn annog ymateb unigol a chreadigol i friff ffasiwn. Byddwch yn archwilio gwahanol ddefnyddiau, technegau a phrosesau ac yn mynd i'r afael â gwirioneddau dylunio a chyflwyniadau ffasiwn. Unwaith y byddwch wedi datblygu sgiliau yn defnyddio prosesau, byddwch yn symud ymlaen i ddatblygu briff mwy sylweddol ac ymlaen at gyflwyno canlyniadau terfynol, mewn sioe ffasiwn.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i ddylunio a hyrwyddo ffasiwn
- B defnyddio defnyddiau, cyfarpar a thechnegau mewn ymateb i friffiau ffasiwn
- C datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau ffasiwn
- D cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff ffasiwn.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ddylunio a hyrwyddo ffasiwn</b>
<p><b>Sut i ymchwilio i amrywiaeth o swyddi a gweithgareddau ym myd dylunio ffasiwn. e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>dillad merched, dillad dynion, dillad chwaraeon, dillad plant, hetiau, esgidiau, gweuwaith, crysau T, gemwaith</li> <li>cynorthwydd hyrwyddo ffasiwn, gweithiwr cyfryngau, darlunydd ffasiwn, ffotograffydd ffasiwn, cynllunydd, newyddiadurwr, golygydd, cynorthwydd cysylltiadau cyhoeddus, cynhyrchydd sioeau ffasiwn, dylunydd gwe, adwerthwr ffasiwn, rheolwr gwerthu, prynwr ffasiwn, gwasanaeth cwsmeriaid, cynorthwydd marchnata, marsiandwr, swyddog y wasg</li> <li>ymchwilio i waith dylunwyr neu hyrwyddwyr ffasiwn cyfoes</li> <li>coladu ymchwil drefnus a llawn gwybodaeth</li> <li>cymharu swyddi o fewn meysydd dylunio a hyrwyddo ffasiwn</li> </ul> <p><b>Ymchwilio i wahanol feysydd adwerthu, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>siopau adrannol, siopau dylunwyr, siopa ar-lein, siopa drwy'r post, allfeydd ail-law a hen bethau, parciau adwerthu, gwerthu uniongyrchol</li> <li>dosbarthu gwybodaeth ar ffasiwn yn gorff o waith unigol wedi'i drefnu'n broffesiynol</li> <li>cyflwyno canlyniadau ymchwiliadau mewn fformat priodol.</li> </ul>
<b>Nod dysgu B: Defnyddio defnyddiau, cyfarpar a thechnegau mewn ymateb i friffiau ffasiwn</b>
<p><b>Sut i archwilio defnyddiau a thechnegau 2D i greu syniadau ffasiwn gan arbrofi gydag e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddiau traddodiadol megis lluniadu, peintio, gwneud printiau, llungopiö, collage</li> <li>paentiau, pastelau, pensiliau, inciau, papur torri allan, printiau, rhwbiadau, stensiliau</li> <li>deunyddiau digidol megis ffotograffiaeth, fideo, delweddaeth wedi'i chynhyrchu gan gyfrifiadur</li> <li>coladu darnau arbrofol ac adolygu cynnydd.</li> </ul> <p><b>Sut i archwilio defnyddiau a thechnegau 3D i greu syniadau ffasiwn gan arbrofi gydag e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddiau traddodiadol (megis cotwm, sidan, gwllân, ffibrau gwneud, lledr, synthetigion, dillad ail-law a hen ddillad)</li> <li>defnyddiau anhraddodiadol (megis plastigau, gwifren, papur, seloffan, selotep, rwber, llinyn, defnydd lapio swigod, cerdyn, pren, glud)</li> <li>addurniadau (megis rhubanau, brêd, taselau, botymau, gleiniau, secwinau, les, sipiau, motiffau, hen ddarnau o emwaith, plu).</li> </ul> <p><b>Sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer a thechnegau'n ddiogel, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>peiriannau golchi, heyrn smwddio, cyfarpar gwnïo â llaw, siswrn, gynnu glud, styffylwyr. gwau, gwehyddu, gwneud ffelt, printio, peintio, brodwaith</li> <li>ymwybyddiaeth o reoliadau iechyd a diogelwch o ran y defnydd o offer a chyfarpar llaw a pheiriant.</li> </ul>
<i>parhad</i>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Archwilio prosesau gweithio ffasiwn, e.e.:**

- cyfuno defnyddiau traddodiadol a defnyddiau anhraddodiadol
- defnyddio cofnodi cynradd ac eilaidd
- cynhyrchu a datblygu syniadau personol
- anodi datblygiad
- archwilio sut mae ffabrigau'n cael eu gwneud a sut y gellir adnabod nodweddion, e.e. gwrth-ddŵr, ymestyn, gwrthdan
- cyfuno cyfryngau 2D a 3D, e.e. ffabrig a phren mewn maquettes cadeiriau plygu, neu sgriniau
- defnyddio offer a phrosesau'n greadigol ac yn ddiogel i gyflawni atebion gwreiddiol.

**Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau ffasiwn****Sut i ddarllen a thrafod briff cysylltiedig â ffasiwn a chynllunio ymateb personol i'r briff, e.e.:**

- deall y briff a'r gofynion
- math o gleient
- grŵp oedran
- diben
- tymor.

**Sut i gynhyrchu syniadau drwy ddulliau gwahanol, e.e.:**

- mapiau meddwl
- siartiau corrbyn
- cyswllt geiriau
- trafodaeth grŵp, braslunio o ffynonellau cynradd ac eilaidd
- gwneud nodiadau o lansio sioe sleidiau, ymweliadau â gweithdai ymarferwyr proffesiynol, orielau, amgueddfeydd
- ymchwilio i gwmnïau ffasiwn, brandio neu wasanaethau megis cynhyrchwyr sioeau ffasiwn, asiantaethau rhagweld a chwmnïau cysylltiadau cyhoeddus
- ystyried ffactorau eraill all ddylanwadu ar y gwaith (megis cerddoriaeth, steil, celf, chwaraeon, gweithgareddau penodol, y tywydd, materion byd-eang, a ffactorau amgylcheddol)
- datblygu syniadau mewn llyfr braslunio drwy weithio ar thema a chynhyrchu syniadau unigol
- cadw nodiadau o gynnydd sy'n digwydd a logio gweithgareddau

**Sut i gymhwyso syniadau i wahanol gymwysiadau, e.e.:**

- dyluniadau ac arteffactau ffasiwn neu ategolion
- tudalennau ffasiwn mewn cylchgronau
- ffotograffiaeth neu steilio ffasiwn
- hysbysebu neu gyhoeddusrwydd ffasiwn, darlunio ffasiwn, tudalen we ffasiwn.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff ffasiwn****Cynhyrchu gwaith terfynol drwy, e.e.:**

- adnabod a dewis y syniadau sy'n cwrdd â'r briff orau, ac ystyried sut y maent wedi cyrraedd y rhain, yn cynnwys dadansoddi dulliau gwaith
- datblygu syniad terfynol gan ddefnyddio cyfryngau o'ch dewis
- adolygu dyluniadau terfynol, er enghraifft mewn grwpiau neu gyda'r athro
- archwilio gwahanol ddulliau cyflwyno
- defnyddio defnyddiau a thechnoleg priodol i gyflwyno gwaith dylunio ffasiwn a/neu waith hyrwyddo.

**Dadansoddi eich gwaith a'ch perfformiad eich hun gan ddefnyddio gwahanol ddulliau o adborth, e.e.:**

- defnyddio gwerthuso beirniadol gyda'ch perfformiad eich hun
- trafodaethau
- holiaduron
- sesiynau tiwtorial
- asesiad cyfoedion.

**Archwilio gwahanol ddulliau cyflwyno, e.e.:**

- cyflwyniad ar sgrin
- fideo
- blogiau
- gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ddylunio a hyrwyddo ffasiwn</b>			
1A.1 Nodi dwy swydd wahanol o fewn ffasiwn.	2A.LI1 Nodi pedair swydd wahanol o fewn ffasiwn a phedwar gweithgaredd ffasiwn gwahanol, gan ddisgrifio'r prif arferion gwaith.	2A.T1 Nodi amrywiaeth eang o wahanol swyddi a gweithgareddau mewn ffasiwn, gan esbonio'n effeithiol y prif arferion gwaith.	2A.Rh1 Nodi amrywiaeth eang o wahanol swyddi a gweithgareddau mewn ffasiwn, gan ddadansoddi'r prif arferion gwaith.
1A.2 Nodi gwaith dau ymarferwr ffasiwn.	2A.LI2 Ymchwilio i waith pedwar ymarferwr ffasiwn a'i ddisgrifio. #	2A.T2 Ymchwilio i amrywiaeth eang o ymarferwyr ffasiwn, gan grynhai rolau a gweithgareddau. #	2A.Rh2 Ymchwilio i amrywiaeth eang o ymarferwyr ffasiwn, gan ddadansoddi rolau a gweithgareddau. #
<b>Nod dysgu B: Defnyddio defnyddiau, cyfarpar a thechnegau mewn ymateb i friffiau ffasiwn</b>			
1B.3 Archwilio defnyddiau, offer a thechnegau mewn ymateb i friffiau ffasiwn, gan ddefnyddio arferion gwaith diogel. *	2B.LI3 Defnyddio defnyddiau, offer a thechnegau i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd â gofynion briffiau ffasiwn, gan arsylwi a chofnodi arferion gwaith diogel. *	2B.T3 Defnyddio defnyddiau, offer a thechnegau amrywiol yn gyson i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau ffasiwn. *	2B.Rh3 Defnyddio defnyddiau, offer a thechnegau amrywiol yn ddychmygus i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd yn greadigol â gofynion briffiau ffasiwn. *
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau ffasiwn</b>			
C Datblygu syniad mewn ymateb i friffiau ffasiwn.	2C.LI4 Datblygu syniadau sy'n cwrdd â gofynion briffiau ffasiwn.	2C.T4 Datblygu syniadau amrywiol sy'n cwrdd yn gyson ac yn effeithiol â gofynion briffiau ffasiwn.	2C.Rh4 Datblygu syniadau amrywiol a chreadigol sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau ffasiwn.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff ffasiwn</b>			
1C.5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff ffasiwn.	1C.LI5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff ffasiwn, gan ddisgrifio eich proses waith.	1C.T5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briff ffasiwn, gan esbonio eich proses waith.	1C.Rh5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad creadigol sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briff ffasiwn, gan ddadansoddi eich proses waith.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw peiriannau gwnïo, standiau ffrogiau, edafedd, nodwyddau gwnïo, nodwyddau gwau, gwlan, siswrn torri allan, glud ffabrig, papur patrwm, cyfarpar smwddio, calico, detholiad o addurniadau, botymau a sipiau, camerâu digidol, cyfrifiaduron gyda meddalwedd trin delweddu ac argraffwyr.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu dod o hyd i wybodaeth ar feysydd o ddiddordeb gan ddefnyddio dulliau amrywiol megis gwefannau, llyfrau a thrwy gysylltu â phobl broffesiynol fel rhan o ymweliadau a drefnwyd. Byddant yn amlinellu'n glir yr arferion gwaith sydd ynghlwm a gallant drafod pa weithgareddau sydd o ddiddordeb personol iddynt a pham. Gall yr wybodaeth gael ei chyflwyno gyda'r gwaith dylunio terfynol. Bydd dysgwyr yn defnyddio a chymhwysio syniadau, dyluniadau, technegau a phrosesau i gwrdd â gofynion briffiau gan ddefnyddio defnyddiau a chymwysiadu priodol. Bydd dysgwyr yn defnyddio gwahanol ffynonellau i helpu gyda'u datblygiad dylunio. Bydd dysgwyr yn trafod eu gwaith ac yn cefnogi'r dewisiadau a wnaethant drwy gydol y prosiect, gan ddisgrifio eu dulliau gwaith a rhoi rhesymau dros eu dewis o ddefnyddiau, cymwysiadu a syniadau.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu ymchwilio a thrafod y gwahaniaethau rhwng swyddi a gweithgareddau mewn ffasion a nodi'r arferion gwaith sydd ynghlwm, gan wneud cymariaethau gwybodus ym mhob maes. Caiff yr ymchwil ei chefnogi gan ddeunydd gweledol priodol. Caiff yr wybodaeth a gasglwyd ei chyflwyno mewn ffordd gydlynol. Bydd dysgwyr yn dewis a datblygu syniadau personol a sgiliau dylunio a gallant gyfuno technegau a phrosesau wrth ddefnyddio defnyddiau addas i gyflawni'r ymatebion creadigol. Byddant yn defnyddio ymchwil o amrywiaeth o ffynonellau i ddatblygu amrywiaeth eang o syniadau. Bydd datblygiadau yng ngwaith y dysgwr yn cael eu disgrifio drwy anodiadau neu drwy log dysgu ar wahân. Gall syniadau dysgwyr fod yn wreiddiol ac yn arbrolfol a byddant yn cwrdd â gofynion briff y prosiect. Bydd dysgwyr yn cyflwyno ac yn esbonio eu gwaith gan gefnogi eu syniadau gyda pheth hyder ac yn trafod eu prosesau creadigol mewn perthynas â'r briff. Bydd y cyflwyniad yn defnyddio dulliau cyflwyno priodol.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn defnyddio nifer o dulliau a ffynonellau ymchwil a byddant yn dadansoddi ac yn cymharu'r nodweddion a'r prosesau dan sylw. Byddant yn cefnogi'r ymchwil gyda deunyddiau gweledol priodol sydd wedi eu dewis yn feddylgar. Efallai y byddant yn dangos dimensiwn creadigol personol yn eu gwaith dylunio drwy ddatblygu a chymhwysio syniadau unigol a chyffrous a chyfuniadau o dechnegau a chymwysiadu drwy amrywiaeth o syniadau dylunio a phrosesau gwaith. Caiff gwaith dysgwyr ei gefnogi gan ddadansoddiadau sy'n dangos dealltwriaeth glir o'u prosesau gwaith gan roi sylwadau gwybodus ynghylch pam y cafodd rhai syniadau eu gwrthod a sut y mae eu datrysiadau wedi cwrdd â gofynion y briff. Bydd dysgwyr yn defnyddio dulliau priodol i gefnogi eu cyflwyniadau. Gall dysgwyr ddangos peth tystiolaeth o osod eu gwaith o fewn cyd-destun y diwydiant.

## **Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu adnabod a disgrifio dwy swydd wahanol o fewn ffasiwn. Bydd y rhain yn cael eu hamlinellu gan yr athro yn y cyflwyniad i'r uned a'u disgrifio yn fanylach mewn taflenni. Bydd dysgwyr yn gallu lleoli a dosbarthu gwybodaeth bellach ar feysydd sydd o ddiddordeb personol iddynt gan ddefnyddio dulliau megis gwefannau, cylchgronau a llyfrau, a'u cyflwyno mewn modd trefnus. Bydd dysgwyr yn dangos y defnydd o syniadau, dyluniadau, technegau a phrosesau er mwyn cynhyrchu ymatebion i briff gan ddefnyddio amrywiaeth o offer a chymwysadau i wireddu datrysiadau. Bydd modd adnabod ysbrydoliaeth a chyddestun ar gyfer y gwaith o fewn y gwaith datblygiadol a bydd dysgwyr yn cyflwyno'r dyluniadau terfynol mewn dull priodol.



## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1A.2, 2A.LI2, 2A.T2, 2A.Rh2	Darganfod Byd Ffasiwn	Mae dylunydd ffasiwn graddedig yn gweithio i hyrwyddwyr ffair yrfaeodd, gan wneud ymchwil i wahanol swyddi o fewn byd ffasiwn, er mwyn paratoi ar gyfer arddangosfa i ymwelwyr yng nghyntedd mynediad y ffair yrfaeodd.	Cyflwyniad 10 munud llafar a gweledol i'r dosbarth a'r athro. Nodiadau bras a gwaith datblygu. Ffeil o waith yn cynnwys yr holl gydrannau yr oedd y briff prosiect yn gofyn amdanynt gydag adroddiadau a chrynodebau fel y gofynnwyd amdanynt yn y meini prawf asesu.
1B.3, 2B.LI3, 2B.T3, 2B.Rh3, 1C.4, 2C.LI4, 2C.T4, 2C.Rh4, 1D.5, 2D.LI5, 2D.T5, 2D.Rh5	Dilyn eich Ffasiwn eich Hun	Mae dylunydd yn cynnig syniadau am ddillad a/neu ategolion ac yn arbrofi gyda defnyddiau, technegau a phrosesau mewn 2D a 3D i ddechrau gwneud eitem ffasiwn. Gallai hyn gynnwys gwneud ffelt, gwnïo, gwau, torri a thrin ffabrig, gweithio i ddilyn patrwm sylfaenol, ailgylchu neu ail-osod dillad neu gynhyrchu ategolion fel hetiau, sgarffiau, menig a gemwaith.	Bydd dilledyn, ategolyn, arteffact, sesiwn ffotograffiaeth ffasiwn, darluniad neu graffigau ffasiwn gorffenedig yn cael ei gyflwyno i gyfoedion ac athrawon gydag esboniadau am y gwaith. Ffeil o waith dylunio a datblygu arbrofol yn cynnwys yr holl maquettes, cynigion, arbrofion a syniadau yn ogystal â brasluniau a dyluniadau. Gwerthusiad o'r gwaith.



# Uned 11: Briffiau Dylunio Graffig

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Gorfodol/Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Mae enghreifftiau o ddylunio graffig o'n cwmpas ym mhobman – logos, labeli dylunwyr, hysbysebion teledu, pecynnu, gwefannau, animeiddio, effeithiau arbennig, gemau cyfrifiaduron, mewn cylchgronau, comics, graffigau gwybodaeth (taflenni a chyfarwyddiadau), posteri a thafleddi cyhoedduswydd. Mae cymwysiadau graffig yn rhoi golwg, teimlad a phersonoliaeth i gynnyrch, gwasanaeth neu frand. Mae dylunwyr yn perswadio pobl i brynu neu i ymwneud â brand neu gynnyrch drwy greu hunaniaeth unigryw. Er enghraifft, mae modd adnabod rhai logos ar unwaith, gan groesi ffiniau ieithoedd a diwylliant.

Mae dylunwyr graffig yn gweithio gydag amrywiaeth eang o gleientiaid gwahanol fydd yn gosod briffiau iddyn nhw, gan ddibynnu ar eu gofynion. Gall gweithio i gwrdd â briff dylunio graffig gychwyn gyda gwneud ymchwil i'r cynnyrch neu'r gwasanaeth. Gall hyn gynnwys ystyried y farchnad darged a'u hanghenion penodol yn ogystal â chystadleuwyr y cynnyrch neu'r gwasanaeth. Gall dylunydd hefyd edrych ar ffactorau diwyllianol allai ddylanwadu ar y cwsmer targed, megis cerddoriaeth, ffilm, adfywiadau, celf, digwyddiadau'r byd a ffactorau amgylcheddol. Byddant wedyn yn dadansoddi ac yn datblygu eu hymchwil yn gyfres o syniadau i'w cyflwyno i'r cleient. Yn dilyn trafodaeth bellach ac adborth gan y cleient, byddant yn datblygu eu hatebion dylunio terfynol.

Yn yr uned hon byddwch yn ymateb i friffiau a roddir yn yr un modd ag y mae ymarferwyr yn gwneud yn y diwydiant dylunio graffig. Byddwch yn archwilio syniadau dylunio graffig mewn ymateb i friffiau galwedigaethol gyda chleientiaid penodol fel ffocws ar gyfer eich syniadau. Byddwch yn datblygu eich sgiliau o ran defnyddio technegau, offer a defnyddiau graffig drwy gydol camau ymarferol gweithio i gwrdd â briff. Bydd hyn yn golygu defnyddio defnyddiau traddodiadol, ymarferol neu dechnegau lens a digidol i gynhyrchu a datblygu syniadau cychwynol. Gallwch hefyd ddefnyddio technolegau meddalwedd digidol i ddiwygio a mireinio eich syniadau tuag at gynhyrchu canlyniadau.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i arfer dylunio graffig
- B archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau dylunio graffig
- C datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau dylunio graffig
- D cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff dylunio graffig.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i arfer dylunio graffig</b>
<p><b>Sut mae dylunwyr yn gweithio yn y diwydiant dylunio graffig, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hunangyflogedig/llawrydd</li> <li>• mewn stiwdio ddylunio</li> <li>• dylunydd iau</li> <li>• cyfarwyddwr creadigol</li> <li>• gweithiwr celf.</li> </ul> <p><b>Sut i adnabod a chyflwyno cymwysiadau o ddylunio graffig i frandiau poblogaidd, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymchwilio i ymarfer cyfoes mewn dylunio graffig</li> <li>• hysbysebu mewn cylchgronau, hysbysebu ar y teledu, nofelau graffig, brandiau a brandio, pecynnu, arddangosiadau siopau, dyluniad gwefannau, dylunio ar gyfer y diwydiant gemau, celf y stryd a graffiti.</li> </ul> <p><b>Sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y gwahanol rolau y gall dylunwyr graffig gael eu cyflogi ynddynt, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynhyrchu atebion creadigol</li> <li>• defnyddio meddalwedd</li> <li>• rheoli amser ac adnoddau</li> <li>• gweithio mewn tîm.</li> </ul> <p><b>Gweithio mewn stiwdio ddylunio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio fel tîm ar brosiectau grŵp, cynhyrchu syniadau neu gywiro problemau</li> <li>• sgiliau cyfathrebu – mewn cyfarfodydd, gyda chleientiaid, gyda chyd-animeiddwyr</li> <li>• gweithio i derfynau amser, rheoli amser</li> <li>• parchu barn pobl eraill wrth weithio'n gydweithredol</li> <li>• deall sut mae eich rôl eich hun yn cysylltu â'r tîm.</li> </ul> <p><b>Defnyddio ymchwiliadau i ateb cwestiynau am bwrpas y gwaith dylunio yr ymchwiliwyd iddo, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried y gynulleidfa darged</li> <li>• ymchwilio i'w hanghenion</li> </ul> <p><b>Datblygu ymchwiliad i ystyried y gwaith dylunio a'r gynulleidfa darged o ran:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• oedran/grŵp cymdeithasol</li> <li>• ffordd o fyw a dyheadau</li> <li>• diben – megis gwaith dylunio yn ceisio darbwylllo pobl i brynu cynnyrch neu i ymuno â sefydliad ac ati</li> <li>• cyflwyno canlyniadau ymchwiliadau mewn fformat priodol.</li> </ul> <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut mae dylunio graffig yn gweithio'n weledol i gwrdd ag anghenion cynulleidfa, e.e.:**

- caffael, coladu ac adolygu enghreifftiau o waith gan ymarferwyr sy'n gweithio mewn dylunio graffig, esbonio'r berthynas rhwng y gwaith dylunio a gynhyrchwyd, y defnydd o iaith weledol a ddefnyddiwyd a'r gynulleidfa darged
- ymchwilio i ffynonellau ymarferwyr a'r defnydd o syniadau gweledol mewn darnau o waith a ddewiswyd
- archwilio iaith weledol a ddefnyddiwyd mewn gwaith dylunio graffig a'r effeithiau a grëwyd
- deall yr 'olwg' a grëwyd gan y dylunydd a'r effaith y mae'n ei chael ar y gwylwr.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau dylunio graffig****Sut i ddefnyddio defnyddiau a thechnegau wrth greu syniadau dylunio graffig, e.e.:**

- digidol
- lens (ffotograffiaeth, montage, fideo)
- mecanyddol (llungopïo)
- wedi'i wneud â llaw (lluniadu, peintio, argraffu, collage)
- defnyddio gwrthrychau hapgael.

**Sut i ddewis a defnyddio technegau a thechnoleg digidol, ar sgrin wrth greu syniadau a chanlyniadau dylunio graffig, e.e.:**

- caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol
- defnyddio ffontiau a newid arddull ffont
- gosodiad
- sganwyr
- gyriant caled allanol
- ffonau symudol
- trosglwyddo'n ddigidol o gamerâu, ffonau, cof bach USB, dyfeisiau symudol, lawrlwythiadau
- cipluniau
- arddangos a dylunio ar y we.

**Sut i ddewis a defnyddio defnyddiau wrth greu gwaith dylunio graffig, e.e.:**

- gwlyb, sych,
- graffig, digidol.

**Sut i ddewis a defnyddio cyfarpar i archwilio technegau priodol, e.e.:**

- offer lluniadu, marcwyr, cyfrifiaduron, meddalwedd penodol, mathau o gamera.

**Sut i ddewis a defnyddio iaith weledol wrth ddatblygu a chreu dyluniadau, e.e.:**

- delwedd, teipograffeg, gosodiad, lliw, cyfansoddiad.

**Sut i ddangos ymrwymiad i iechyd a diogelwch, yn cynnwys:**

- cofnodi gwybodaeth iechyd a diogelwch
- llunio cofnod o weithdrefnau iechyd a diogelwch
- caffael taflenni data Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH); cyrchu gwybodaeth ar y we a'i chofnodi, e.e. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), Y Bwrdd Arholi Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (NEBOSH).

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau dylunio graffig****Sut i gynhyrchu syniadau drwy ddefnyddio unrhyw un neu gyfuniad o ddulliau priodol, e.e.:**

- archwilio pwrpas briff dylunio graffig
- darllen a thrafod y briff
- cynllunio amserlen mewn ymateb i'r briff
- meddyliau cychwynnol ynghylch sut i ymateb i'r briff
- cynllunio ymateb personol
- mapio meddwl – llamau creadigol, gweledigaeth anarferol, arloesol
- siartiau corrbyn
- cyswllt geiriau
- trafodaeth un i un a/neu grŵp
- ymchwilio i frand neu gynnyrch er mwyn archwilio syniadau a dulliau pobl eraill
- cadw cofnodion ar ffurf nodiadau o'r camau gafodd eu cymryd i ddatblygu'r gwaith dylunio.

**Sut i ddisgrifio ymateb i'r briff, e.e.:**

- ar beth roedd y syniadau wedi eu seilio
- pa ddulliau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu syniadau
- pa ddefnyddiau a ddefnyddiwyd
- sut i ymestyn yr ystod o syniadau a gynhyrchwyd, drwy archwilio geiriau ac ystyron, agweddau o feddwl ochrol, cyfuno defnyddiau
- sut i adnabod y potensial mewn amrywiaeth o syniadau, a phryd mae syniad yn cael ei wireddu
- sut i ehangu'r maes ymchwilio wrth ddatblygu syniadau.

**Sut i ddatblygu'r syniadau hyn yn ymateb i gymwysiadau dylunio graffig, e.e.:**

- logo, label cynnyrch, poster, pecynnu, cylchgrawn, clawr, tudalen gwefan, dylunio gemau, graffeg gwybodaeth (taflenni, cyfarwyddiadau), dyfeisiau symudol (ffôn, tabled), hysbyseb (ar gyfer digwyddiad, cynnyrch).

**Sut i ddadansoddi ffactorau cyd-destunol eraill allai ddylanwadu ar y gwaith rydych yn ei wneud, e.e.:**

- cerddoriaeth, arddulliau, ffasiwn, celfyddyd gain, crefftau, gwyddoniaeth, technoleg, gwleidyddiaeth, yr amgylchedd, diwylliant, materion byd-eang, chwaraeon, ffactorau cymdeithasol, e.e. gwahanol blatfformau ar gyfer hysbysebu, rhwydweithio cymdeithasol.

**Sut i ddatblygu ymatebion, e.e.:**

- sy'n cwrdd â gofynion briff
- dangos y manau cychwyn
- datblygiad syniadau
- gweithio ar themâu dethol
- archwilio syniadau unigol personol
- defnyddio defnyddiau graffig, llyfrau braslunio, taflenni gwaith, offer braslunio digidol, sganiau, meddalwedd.

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut i gadw cofnod gwerthuso parhaus o pam a sut y mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen, yn cynnwys:**

- adolygiad o gynnydd
- beth weithiodd a beth na weithiodd, a pham (a beth fydd y camau ar gyfer gwella)
- sut mae'r gwaith dylunio wedi cael ei fireinio
- dewis o fannau cychwyn – disgrifio pa mor briodol yr oeddent i'r bwriad creadigol
- sut y gall ymchwil gael ei defnyddio i helpu gyda datblygiad y dyluniad
- sut mae syniadau dewisol wedi cael eu dethol o blith amrywiaeth o waith dylunio cychwynnol
- sut mae'r syniadau hyn wedi cael eu datblygu'n ymateb sy'n cwrdd â gofynion briff ar gyfer gwahanol gymwysiadau cynnyrch.

**Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff dylunio graffig****Sut i gynhyrchu canlyniad terfynol sy'n cwrdd â gofynion y briff, e.e.:**

- dewis y dyluniad mwyaf priodol sy'n cwrdd â'r briff
- dogfennu'r cynnydd a'r prosesau a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu gwaith terfynol
- dangos ymateb i'r briff drwy ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau a phrosesau dylunio graffig a ddewiswyd.

**Sut i werthuso ymateb i'r briff, ac esbonio'n glir sut mae'r gwaith dylunio wedi cwrdd â gofynion y briff, e.e.:**

- diffinio'r syniad neu syniadau sy'n cael eu cyfathrebu
- ystyried a oedd y dewis a'r defnydd o ddefnyddiau'n cefnogi dyluniad y syniad neu'r neges
- meddwl pa mor effeithiol oedd y ffordd y cafodd defnyddiau eu dewis a'u defnyddio – y sgiliau dan sylw a sut y cawsant eu cymhwyso
- gwneud nodyn o unrhyw newidiadau gafodd eu gwneud i ddefnyddiau, technegau, delweddaeth weledol a'r defnydd o iaith weledol a pham y cafodd penderfyniadau eu gwneud i fireinio agweddau o'r gwaith dylunio
- rhoi sylwadau ar effaith weledol eich gwaith eich hun a sut y daethpwyd i'r canlyniad hwn
- gwerthuso'r cydweddiad rhwng y bwriad a'r gwaith dylunio terfynol.

**Sut i gyflwyno gwaith terfynol ac astudiaethau cefnogi i gyfoedion a/neu gleientiaid, yn cynnwys:**

- trefnu ymchwil, cynhyrchu syniadau, gwaith dylunio cychwynnol a chanlyniadau terfynol
- cyflwyno mewn fformat priodol – llyfr brasluniau, gosodiadau a gwaith terfynol
- defnyddio cyflwyniadau ar sgrin, dangos camau a chanlyniad
- gwaith dylunio ar bapur, gwaith dylunio ar sgrin, defnyddio protocolau priodol i gadw ac enwi pob fersiwn o waith dylunio.



## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i arfer dylunio graffig</b>			
1A.1 Nodi o leiaf un enghraifft hanesyddol ac un enghraifft o ddylunio graffig, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol ac amlinellu gwaith y dylunwyr. #	2A.LI1 Disgrifio o leiaf ddwy enghraifft hanesyddol a dwy enghraifft gyfoes o ddylunio graffig, gan adnabod y dylunwyr dan sylw a dangos y nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #	2A.T1 Adolygu a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o ddylunio graffig yn effeithiol, gan adnabod y dylunwyr dan sylw ac esbonio'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #	2A.Rh1 Dadansoddi a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o ddylunio graffig yn effeithiol, gan adnabod y dylunwyr dan sylw a gwerthuso'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #
<b>Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau dylunio graffig</b>			
1B.2 Defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau dylunio graffig i gynhyrchu o leiaf un syniad a gwaith gweledol i gwrdd â briffiau dylunio graffig, gan ddefnyddio arferion gwaith diogel.	2B.LI2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau i gynhyrchu gwaith dylunio sy'n cwrdd â gofynion briffiau dylunio graffig, gan arsylwi a chofnodi arferion gwaith diogel.	2B.T2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau dylunio graffig amrywiol yn gyson i gynhyrchu gwaith gweledol sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau dylunio graffig, gan ddisgrifio'r technegau a ddefnyddiwyd.	2B.Rh2 Dewis a chymhwyso defnyddiau, technegau a phrosesau dylunio graffig amrywiol i gynhyrchu a chyflwyno gwaith gweledol sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau dylunio graffig, gan ddadansoddi'r technegau a ddefnyddiwyd.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau dylunio graffig</b>			
1C.3 Defnyddio o leiaf un syniad a gwaith gweledol mewn ymateb i friffiau dylunio graffig.	2C.LI3 Dewis a defnyddio o leiaf ddau syniad sy'n cwrdd â gofynion briffiau dylunio graffig.	2C.T3 Defnyddio ac ymestyn syniadau amrywiol sy'n cwrdd â gofynion briffiau dylunio graffig yn gydlynol ac yn effeithiol.	2C.Rh3 Defnyddio syniadau amrywiol yn greadigol i gwrdd yn llwyddiannus â gofynion briffiau dylunio graffig.
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff dylunio graffig</b>			
1D.4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff dylunio graffig.	2D.LI4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff dylunio graffig, gan ddisgrifio eich proses waith.	2D.T4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff dylunio graffig, gan adolygu eich proses waith.	2D.Rh4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd yn llwyddiannus â gofynion briff dylunio graffig, gan ddadansoddi eich proses waith.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw:

- defnyddiau ac offer dylunio graffig traddodiadol a digidol
- defnydd o feddalwedd a systemau cyfrifiadurol er mwyn i ddysgwyr allu gweithio'n ddigidol
- meddalwedd dylunio graffig sy'n galluogi dysgwyr i wneud gwaith elfennol o leiaf ar osodiad, cipio delweddau a mewnfario a gosod delweddau.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

#### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu adnabod enghreifftiau a chymwysiaidau o ddylunio graffig, ac adolygu'r pwrpas a'r dulliau a ddefnyddiwyd i hysbysu a siapio'r dyluniad, megis y gynulleidfa darged a'r dewis o iaith weledol. Byddant yn defnyddio defnyddiau a thechnegau i gynhyrchu syniadau a delweddau dylunio graffig, a byddant yn cynhyrchu ymateb sy'n cwrdd â gofynion y briff. Er mwyn cyflawni hyn bydd rhaid iddynt ddefnyddio'r ddealltwriaeth a gasglwyd yn eu tasgau ymchwil, er enghraifft drwy astudiaeth achos gyfyngedig. Byddant yn dangos eu prosesau gwaith a sut y bu iddynt ddatblygu'r gwaith dylunio, at bwy y mae wedi ei anelu a pha syniadau gweledol a ddefnyddiwyd ganddynt.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a thechnegau i gyflawni eu bwriad. Bydd eu rheolaeth a'u cymhwysiad o gyfryngau digidol yn bwrpasol a bydd y canlyniad y byddant yn ei gynhyrchu yn cwrdd yn effeithiol â'r briff. Byddant yn disgrifio eu proses waith gyda pheth manylder, gan gydnabod dealltwriaeth sy'n deillio o'u tasgau ymchwil. Byddant yn dangos gallu i fyfyrion ar ac i esbonio eu dewisiadau a'u defnydd o ddefnyddiau a thechnegau, er enghraifft, drwy ddefnyddio astudiaethau achos i gymharu eu gwaith gyda dylunwyr. Byddant yn disgrifio nodweddion eu dewis o gymwysiaidau o ddylunio graffig llwyddiannus, gan adnabod ffactorau allweddol. Byddant yn cyflwyno eu gwaith yn glir ac yn effeithiol.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn dangos agwedd ddychmygus a chreadigol wrth ddatblygu syniadau a delweddau sy'n cwrdd â gofynion y briff. Byddant yn myfyrio'n adeiladol ar ansawdd eu syniadau a'u hymagweddau dychmygus, gan ymateb yn gadarnhaol i ddysgu. Byddant yn cynhyrchu canlyniad yn annibynnol, ac yn gwerthuso a chyflwyno eu gwaith yn glir, gan ddangos dealltwriaeth fanwl o'u proses datblygu dyluniad. Byddant yn dadansoddi'r ymagweddau gwahanol yn eu dewis o enghreifftiau o ddylunio graffig cyfredol, ac yn datgan yn glir y ffactorau allweddol sy'n gwneud yr enghreifftiau hyn yn llwyddiannus. Byddant yn gwerthuso eu gwaith eu hunain o ran addasrwydd i bwrpas, cynulleidfa darged a'u hanghenion, y defnydd o ddelweddau ac iaith weledol, a rheoli technoleg ddigidol.

## Lefel 1

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu perfformio tasgau sylfaenol a chasglu gwybodaeth ac enghreifftiau gweledol drwy eu hymchwil. Ar lefel sylfaenol, byddant yn archwilio thema ac yn cynhyrchu syniadau yn dilyn hynny. Efallai y byddant yn tueddu i weithio gydag un syniad heb archwilio syniadau neu ymagweddau eraill. Bydd dysgwyr yn defnyddio defnyddiau a thechnegau yn ddiogel ac yn cynnal amgylchedd waith ddiogel. Dylai athrawon asesu perfformiad dysgwyr yn defnyddio cyfrifiaduron a meddalwedd drwy'r defnydd o waith papur arsylwi, yn ogystal â chyflwyno unrhyw ganlyniadau digidol.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	Swydd i Mi?	Mae person graddedig yn chwilio am swydd sy'n berthnasol i'w sgiliau a'i ddiddordebau. Mae hyn yn golygu cynnal ymchwil i gwmnïau presennol, grwpiau dylunio a rolau/setiau sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer ymarferydd mewn dylunio graffig cyfoes.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau.
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2, 1C.3, 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3	Addysg ar gyfer y Gymuned	Mae dylunydd yn cael gwahoddiad i gynhyrchu cyfres o syniadau a thudalennau statig ar gyfer gwefan ysgol/coleg lleol. Rhaid i'r dylunydd gyflwyno'i gynnig i gyfarfod cleientiaid yn cynnwys grŵp dethol o lywodraethwyr, athrawon a dysgwyr.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.
1D.4, 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Mae'r Cloc yn Tician!	Mae'n rhaid i ddylunydd gynhyrchu darluniad ar gyfer papur newydd erbyn diwedd y dydd. Mae angen i'r dyluniad adlewyrchu prif bwyntiau'r stori mewn modd sy'n denu'r llygad.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid, darnau terfynol, arddangosfa.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1D.4, 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Yr Eiliad Dyngedfennol	Mae dylunydd yn cyflwyno dyluniadau terfynol ar gyfer ymgyrch hysbysebu i'r cleient. Mae'n ymchwilio i wahanol ddulliau cyflwyno priodol i anghenion eu client.	Cyflwyno'r canlyniad a'r gwaith dylunio cychwynnol a therfynol, cyflwyniadau llafar, technolegau digidol, llyfr brasluniau anodedig, arsylwi gan athrawon a chyfoedion, asesiad o gyflwyniadau ymarferol gan athro, gwerthuso parhaus.

# Uned 12: Briffiau Tecstilau

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Gorfodol/Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Mae pob darn o ddillad, yn cynnwys esgidiau, bagiau, hetiau, sgarffiau a dillad isaf, wedi eu gwneud allan o ryw fath o decstil. Mae pob cartref ac adeilad yn cynnwys tecstilau mewn soffas, gwelyau, llenni, carpedi a rygiau. Mae tecstilau'n chwarae rhan fawr yn ein bywyd bob dydd ac mewn amgylcheddau, yn amrywio o'r diwydiant hamdden i offer diogelwch. Mae tecstilau deallus neu dechnegol yn cael eu defnyddio'n gynyddol mewn awyrennau, ar gyfer monitro iechyd, i leihau'r defnydd o ynni ac mewn ffasiwn fel technoleg wisgadwy.

Mae dylunwyr ffasiwn rhyngwladol yn defnyddio tecstilau wedi eu gwneud â llaw, wedi eu brodio â llaw ac wedi eu peintio â llaw a gallant fod wedi eu haddurno â gleiniau, brodwaith a secwinau. Mae gan bob gwlad ei thecstilau traddodiadol ac arbenigol, megis batic cŵyr o Wlad Thai a nwyddau gwau Alpaca o Peru. Dros gannoedd o flynyddoedd mae tecstilau wedi dod yn adlewyrchiad, yn ddathliad ac yn gofnod o ddiwylliannau, traddodiadau ac arferion byd-eang.

Mae artistiaid, dylunwyr neu grefftwyr tecstilau'n archwilio themâu, defnyddiau a phrosesau i ddatblygu eu sgiliau a'u syniadau. Maen nhw'n ymchwilio i ystod eang o wahanol ffynonellau er mwyn cynhyrchu dyluniadau unigryw mewn ymateb i friffiau; naill ai eu briff eu hunain neu friff gan gleient neu wneuthurwr. Bydd angen iddyn nhw ddatblygu sgiliau arbenigol sydd eu hangen i gynhyrchu gwaith all fod wedi ei wehyddu, ei brintio, ei wau, ei frodio, ei addurno â gleiniau neu ryw ddyluniad tecstilau arbenigol.

Yn yr uned hon byddwch yn astudio tecstilau a dylunwyr tecstilau, yn arbrofi gyda defnyddiau, cyfarpar a thechnegau, yn cynnig eich syniadau tecstilau eich hun ac yn cynhyrchu eich tecstilau eich hun mewn ymateb i friff.

Byddwch yn datblygu sgiliau mewn dylunio patrwm arwyneb a chyfosod drwy dechnegau a phrosesau tecstilau arbenigol gan ddefnyddio cyfryngau a defnyddiau gwahanol. Byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio'r offer a'r cyfarpar arbenigol cysylltiedig yn gywir ac yn ddiogel. Byddwch yn cael gwybod am y materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r defnyddiau a'r technegau y byddwch yn eu hastudio.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i wahanol feysydd tecstilau
- B defnyddio defnyddiau, cyfarpar a thechnegau mewn ymateb i friffiau tecstilau
- C datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau tecstilau
- D cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff tecstilau

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i wahanol feysydd tecstilau</b>
<p><b>Gwahanol fathau o decstilau, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• tecstilau cynllunydd ar gyfer couture yn Llundain, Efrog Newydd, Paris a Milan</li> <li>• tecstilau ar gyfer siopau ffasiwn y stryd fawr</li> <li>• gwahanol decstilau a thechnegau ar gyfer dillad, e.e. wedi’u hargraffu, wedi’u gwau, wedi’u gwehyddu, wedi’u plethu, wedi’u brodio, gleiniog, wedi’u cwiltio</li> <li>• ‘tecstilau dodrefnu’ e.e. ar gyfer clustogau, llenni, goruchuddion gwely, rygiau, carthenni, llieniau sychu llestri, clustogwaith, papur wal</li> <li>• tecstilau eraill sy’n cael eu defnyddio yn y diwydiannau meddygol, milwrol, hamdden a chwaraeon.</li> </ul> <p><b>Rolau dylunwyr tecstilau a sut y maent yn gweithio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• fel dylunydd llawrydd</li> <li>• ar gyfer cwmni</li> <li>• fel rhan o dîm</li> <li>• fel artist tecstilau annibynnol</li> </ul> <p><b>Sut i ddod o hyd i enghreifftiau o decstilau a ddefnyddir; ymchwilio i nodweddion tecstilau, sut maen nhw’n cael eu gwneud a’u tarddiad, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dod o hyd i enghreifftiau o wahanol wledydd a diwylliannau ar draws y byd, (megis India, Affrica, Tsiena, Peru, Norwy, Thailand, Iwerddon)</li> <li>• ymchwilio i wneuthurwyr ffabrigau, pa fath o ffabrigau y maent yn arbenigo ynddynt a pha wledydd y maent yn gweithredu ynddynt, a disgrifio rhai o’r prosesau gwneud</li> <li>• dod o hyd i ffabrigau ar-lein (y mwyaf poblogaidd, newydd ar gyfer eleni, tueddiadau cyfredol ac i’r dyfodol ar gyfer tecstilau)</li> <li>• adnabod yr edafedd a ddefnyddiwyd i wneud y samplau</li> <li>• casglu enghreifftiau o decstilau dodrefnu naill ai gan gyflenwyr ffabrigau neu o gylchgronau cynllunio mewnol neu wefannau. Cynllunwyr cartref neu gwmnïau sy’n defnyddio’r ffabrigau hynny, (megis Ikea, BHS, Designers Guild, Heals, The Conran Shop, Kath Kidson)</li> <li>• casglu gwybodaeth ar decstilau mewn ffeil ymchwil drefnus a llawn gwybodaeth, y gellir ei defnyddio i gyfeirio ati yn y dyfodol.</li> </ul> <p><b>Disgrifio tecstilau rhyngwladol a ddewiswyd – sut maent yn cael eu gwneud; materion cymdeithasol, ecolegol ac amgylcheddol sy’n gysylltiedig â’r tecstilau a ddewiswyd, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• prosesau gweithgynhyrchu</li> <li>• goblygiadau ecolegol</li> <li>• materion cymdeithasol.</li> </ul>



**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Defnyddio defnyddiau, cyfarpar a thechnegau mewn ymateb i friffiau tecstilau****Arbrofi gyda a chyfuno amrywiaeth o ddefnyddiau, prosesau a thechnegau 2D a 3D wrth greu syniadau tecstilau****Lleoli a dewis ffabrigau, e.e.:**

- ffabrigau wedi eu hailgylchu o siop elusen (dillad, llenni, cynfasau), gwlân, cotwm, lliain, sidan, reionau, synthetigion.

**Defnyddio gwahanol fathau, arwynebau a gweadau tecstilau, e.e.:**

- trwchus, tenau, ymestynnol, tryloyw, di-draidd, gloyw, pefriog, ffwr ffug, wedi'u hargraffu, plaen, wedi'u cwiltio, wedi'u brodio
- defnyddio defnyddiau anhraddodiadol eraill (megis plu, gleiniau, gwifren, cerigos, botymau, tiwbin, rwber, cregyn, brigau, gwlân gwau, plastigau, seloffan).

**Defnyddio technegau priodol i greu tecstilau drwy amrywiaeth o ddulliau, e.e.:**

- gwehyddu, gwneud ffelt, gwau, printio bloc, sgrin-brintio, printio trosluniau, gwrth-gŵyr, clymu a llifo, torri, uno, adeiladu, gludio, pwytho, pletio, smocio, rhwygo.

**Ystyried y defnydd/swyddogaethau terfynol fel y'u disgrifiwyd ym mriff y prosiect tra'n dal i fod yn ddiogel ond eto'n arbrofol o ran ymagwedd a chymhwysiad, e.e.:**

- cyfuno ac addasu defnyddiau, technegau a phrosesau gan ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel
- ymwybyddiaeth o reoliadau iechyd a diogelwch o ran y defnydd o offer a chyfarpar llaw a pheiriant
- disgrifio nodweddion unigryw'r ffabrigau a gasglwyd, a pham maen nhw'n apelio o ran arwyneb, lliw, gwead, pwysau, trafod, gorweddiad
- addasu syniadau a dyluniadau tecstilau i weithio'n briodol gyda'r cynnyrch terfynol (ystyried na fydd beth sy'n addas ar gyfer het neu wregys yn gweithio cystal ar siaced neu grys neu fel llenni neu orchuddion gwely)
- cadw log ysgrifenedig a gweledol o ffynonellau a nodweddion ffabrigau
- arbrofi gyda ffabrigau a gasglwyd a gyda chyfuno defnyddiau traddodiadol ac anhraddodiadol i greu arwynebau, gweadau a chyfuniadau lliwiau
- defnyddio peiriannau, prosesau a thechnegau i wneud tecstilau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, cymwysiadau
- cyfuno technegau gan gadw log parhaus yn esbonio sut a pham y cafodd penderfyniadau a dewisiadau eu gwneud
- sicrhau bod syniadau, dyluniadau ac arteffactau a gynhyrchwyd yn cwrdd â gofynion y briff.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau tecstilau****Cadarnhau'r defnydd terfynol a natur y tecstilau i'w cynhyrchu, e.e.:**

- tecstilau creadigol celfyddyd gain
- tecstilau ar gyfer darn penodol o ddillad megis het, gwasgod neu sgarff
- tecstilau ar gyfer addurno mewnol
- tecstilau ar gyfer swyddogaethau arbenigol megis baneri neu lumanau.

**Sut i ddarllen briff tecstilau a chynllunio ymateb personol, e.e.:**

- cynhyrchu syniadau dylunio tecstilau drwy ddulliau gwahanol, er enghraifft mapio meddwl, siartiau corryn, cyswllt geiriau, trafodaethau grŵp, dwldan, ysgrifennu, braslunio, peintio
- cymhwyso ymchwil gynradd ac eilaidd i ddatblygu mwy nag un syniad dylunio tecstilau
- ystyried unrhyw ffactorau eraill all ddylanwadu ar ddylunio tecstilau (megis cerddoriaeth, arddull, celf, chwaraeon, gweithgareddau penodol, y tywydd, materion byd-eang, ffactorau amgylcheddol)
- datblygu syniadau mewn llyfr braslunio drwy weithio ar themâu gwahanol a chynhyrchu syniadau unigol
- cadw nodiadau o gynnydd sy'n digwydd a logio gweithgareddau
- barnu, adnabod a dewis y gwaith gorau o amrywiaeth o syniadau
- datblygu syniadau drwy ddiddordebau personol megis mudiadau celfyddyd, hobiau, materion byd-eang, diddordebau diwylliannol neu achosion amgylcheddol
- symud ymlaen a disgrifio ymagweddau personol tuag at y gwaith yn cynnwys meddyliau a barn ar eich perfformiad eich hun
- rhoi sylwadau ar eich gwaith eich hun a dewis y syniad gorau sy'n cwrdd â'r briff
- ceisio a defnyddio adborth i wella syniadau
- dangos y dylanwadau cyd-destunol yn y gwaith ac esbonio pam mae'r rhain wedi cael eu dewis.

**Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff tecstilau****Cynhyrchu a chyflwyno gwaith terfynol drwy, e.e.:**

- datblygu syniad terfynol gan ddefnyddio cyfryngau o'ch dewis
- gwahanol ddulliau cyflwyno
- adolygu dyluniadau terfynol, er enghraifft mewn grwpiau neu gyda'r athro
- gan ddefnyddio defnyddiau a thechnoleg priodol i gyflwyno gwaith
- dysgu am wahanol ddulliau cyflwyno ac arbrofi gyda nhw a dysgu sut i adolygu gwaith
- sut i siarad am y gwaith gorffenedig ac esbonio'r prosesau dylunio a gwaith terfynol
- cefnogi'r gwaith yn gadarnhaol drwy esboniadau rhesymegol
- defnyddio defnyddiau a thechnoleg priodol i gyflwyno gwaith dylunio tecstilau
- disgrifio sut mae briff y prosiect wedi cael ei fodloni.

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu**

**Adolygu eich gwaith eich hun a'ch profiad dysgu a'ch perfformiad eich hun, e.e.:**

- esbonio sut y gall y gwaith gael ei symud i'r cam nesaf o fwriad creadigol unigol
- disgrifio cryfderau'r gwaith a sut y mae'r rhain wedi cwrdd â holl ofynion y briff
- defnyddio defnyddiau a thechnoleg cyflwyno yn greadigol ac yn effeithiol i ddangos y gwaith yn y ffordd orau posibl a thrafod unrhyw syniadau ar gyfer gwella
- gwerthuso gwaith yn hyderus, gan esbonio ar lafar, yn weledol ac yn ysgrifenedig sut y mae'r atebion a'r prosesau terfynol wedi cael eu defnyddio mewn ymateb i'r briff
- dadansoddi cyflawniadau creadigol a sut mae'r rhain yn cysylltu â bwriadau i'r dyfodol
- egluro syniadau a meddyliau ynghylch y diwydiannau creadigol a'ch dyfodol eich hun o fewn y diwydiannau hynny.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i wahanol feysydd tecstilau</b>			
1A.1 Nodi dau wahanol fath o decstilau, eu nodweddion, eu cymwysiadau ac enghreifftiau o ddefnydd yn y pen draw.	2A.LI1 Nodi pedwar gwahanol fath o decstilau a disgrifio eu nodweddion, eu defnydd, eu cymwysiadau, gwlad eu tarddiad a'u prosesau gweithgynhyrchu.	2A.T1 Ymchwilio i wahanol fathau o decstilau gan esbonio eu nodweddion, y defnydd ohonynt, eu cymwysiadau, gwlad eu tarddiad a'u prosesau gweithgynhyrchu.	2A.Rh1 Ymchwilio i wahanol fathau o decstilau gan ddadansoddi eu nodweddion, y defnydd ohonynt a'u cymwysiadau unigryw, gan amlinellu'r prosesau gweithgynhyrchu a thrafod ble y byddent yn cael eu defnyddio a pham.
1A.2 Nodi a chyflwyno gwybodaeth ar waith dau ddylunydd neu ymarferwr tecstilau. #	2A.LI2 Ymchwilio i waith pedwar dylunydd neu ymarferwr tecstilau a'i ddisgrifio. #	2A.T2 Gwneud ymchwil i waith amrywiaeth eang o ddylunwyr neu ymarferwyr tecstilau, gan esbonio eu dulliau gwaith. #	2A.Rh2 Gwneud ymchwil i waith amrywiaeth eang o ddylunwyr neu ymarferwyr tecstilau, gan ddadansoddi eu dulliau gwaith. #
<b>Nod dysgu B: Defnyddio defnyddiau, cyfarpar a thechnegau mewn ymateb i friffiau tecstilau</b>			
1B.3 Archwilio defnyddiau, cyfarpar a thechnegau i gynhyrchu canlyniadau tecstilau mewn ymateb i friffiau tecstilau, gan ddefnyddio arferion gwaith diogel. *	2B.LI3 Defnyddio defnyddiau, cyfarpar a thechnegau yn briodol i gwrdd â gofynion briffiau tecstilau, gan ddilyn a chofnodi arferion gwaith diogel. *	2B.T3 Defnyddio amrywiaeth eang o ddefnyddiau, cyfarpar a thechnegau yn gyson ac yn effeithiol i gwrdd â gofynion briffiau tecstilau. *	2B.Rh3 Defnyddio amrywiaeth eang o ddefnyddiau, cyfarpar a thechnegau yn greadigol ac yn ddychmygus i gwrdd â gofynion briffiau tecstilau. *

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau tecstilau</b>			
1C.4 Datblygu syniad mewn ymateb i friffiau tecstilau.	2C.LI4 Datblygu syniadau sy'n cwrdd â gofynion briffiau tecstilau.	2C.T4 Datblygu amrywiaeth eang o syniadau sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau tecstilau.	2C.Rh4 Datblygu amrywiaeth eang o syniadau sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau tecstilau.
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff tecstilau</b>			
1D.5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff tecstilau.	2D.LI5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff tecstilau, gan ddisgrifio eich dulliau gweithio.	2D.T5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briff tecstilau, gan esbonio eich dulliau gweithio.	2D.Rh5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff tecstilau, gan ddisgrifio eich dulliau gweithio.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Dylai'r adnoddau arbennig sydd eu hangen ar gyfer yr uned hon gynnwys offer ar gyfer cynhyrchu a phrosesu tecstilau. Dylai hyn gynnwys cyfleusterau ar gyfer argraffu, er enghraifft sgrin-brintio, argraffu trosluniau ac argraffu ffotograffau. Dylai bod cyfleusterau, defnyddiau a chyfarpar hefyd ar gyfer llifo lliain mewn gwaith clymu a llifo a batik. Dylai gwyddiau llaw syml fod ar gael ar gyfer gwehyddu, yn ogystal â gwlan, edafedd a nodwyddau ar gyfer gwau â llaw a chyfleusterau gwneud ffelt. Gallai gwau â pheiriant hefyd fod yn opsiwn, ac os felly byddai angen peiriant gwau domestig ar y dysgwyr. Dylai peiriannau gwnio domestig a chyfarpar gwnio â llaw fod ar gael ar gyfer brodwaith a thechnegau gwnio sylfaenol megis cwiltio, peipio, semio a smocio. Byddai'n ddefnyddiol cael cyflenwad o ddarnau dros ben o decstilau ar gyfer y dysgwyr yn ogystal â chalico a defnyddiau sylfaenol ar gyfer technegau arbrofol.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnl.*

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu adnabod a disgrifio pedwar gwahanol fath o decstilau. Gallant ddewis dethol oddi ar restr sy'n cael ei darparu gan yr athro. Bydd dysgwyr yn gallu disgrifio gwaith pedwar dylunydd tecstilau neu bersonél eraill o'r diwydiant tecstilau. Gall y rhain fod yn astudiaethau achos syml yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan yr athro mewn taflenni a'r cyflwyniad cychwynnol. Gan ddibynnu ar natur y briff, bydd dysgwyr yn ceisio ysbrydoliaeth o wahanol ffynonellau cynradd ac eilaidd i'w datblygu'n syniadau ar gyfer tecstilau a chynnyrch. Bydd ysbrydoliaeth a chyfeiriadu cyd-destunol yn amlwg gysylltiedig â'r gwaith datblygiadol a bydd yn dod o fwy nag un ffynhonnell. Bydd dysgwyr yn anodi gwaith datblygiadol, gan ddisgrifio'r prosesau sy'n cael eu gwneud.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn ymchwilio i amrywiaeth o wahanol fathau o decstilau a'u disgrifio. Bydd dysgwyr yn gallu lleoli a thrafod tarddiad y ffabrigau a'r prosesau gwneud sydd ynghlwm sy'n rhoi eu nodweddion unigryw iddynt. Gall fod trafodaeth hefyd ar y ffactorau ecolegol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu tecstilau. Bydd dysgwyr yn rhoi gwaith pobl eraill mewn cyd-destun ac yn gwneud cysylltiadau gyda'u gwaith eu hunain. Bydd ymchwil ar gyfer y dylunio a datblygiad y gwaith yn cynnwys ymchwil gynradd ac eilaidd a gall gynnwys ymweliadau maes ag adwerthwyr, cyfanwerthwyr, orielau, amgueddfeydd neu sioeau ffasiwn mewn siopau. Bydd dysgwyr yn datblygu syniadau mewn ffyrdd gwahanol drwy arbrofi gyda thechnegau a phrosesau 2D a 3D, tra'n aros wedi ffocysu ar gwrdd â gofynion y briff. Bydd peth dethol yn amlwg gyda dysgwyr yn dangos meddwl wrth wneud penderfyniadau mewn prosesau ymarferol a chysyniadol. Bydd y gwaith terfynol yn cwrdd â gofynion y briff ac yn dangos fod y prosesau dan sylw wedi cael eu deall a'u hadolygu. Bydd dysgwyr yn cyflwyno eu gwaith gan ddefnyddio technegau cyflwyno amrywiol, fel sy'n briodol i'r briff.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn dewis amrywiaeth o fathau o decstilau, gan ymchwilio iddynt yn drylwyr a disgrifio sawl defnydd terfynol a wneir ohonynt. Gall dysgwyr drafod effeithiau ecolegol ac amgylcheddol cynhyrchu ffabrigau yn ogystal ag effeithiau cymdeithasol a diwylliannol. Bydd dysgwyr yn cymharu gwaith gwahanol ddylunwyr, gan drafod rhinweddau pob un a chynnig barn

bersonol. Daw'r ymchwil a'r ysbrydoliaeth o nifer o ffynonellau; gall rhai ohonynt fod yn ymweliadau maes a drefnwyd i orielau, cyfanwerthwyr neu adwerthwyr. Bydd dysgwyr yn dadansoddi'r ymchwil a gasglwyd ac yn ei chyfosod yn y gwaith datblygiadol, gan ddangos dethol beirniadol gydag anodi parhaus, naill ai mewn dyddlyfr dysgu neu lyfr braslunio. Bydd gwaith yn dangos llif a chysylltiad drwy'r prosesau a bydd ganddo hunaniaeth bersonol eglur. Bydd dysgwyr yn fedrus ac yn arbrofol wrth ddefnyddio cyfarpar, prosesau a thechnegau a byddant yn cyfuno syniadau a chymwysiadau'n effeithiol i gwrdd â gofynion y briff. Bydd y cyflwyniad yn defnyddio dulliau priodol, a dethol beirniadol. Bydd dysgwyr yn dadansoddi eu prosesau a'u ffynonellau cyd-destunol.

### **Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu adnabod dau wahanol fath o decstilau, gan ddisgrifio o ble maen nhw'n dod ac ym mha gyd-destun y cânt eu defnyddio. Mae'n debygol y bydd y dewisiadau hyn yn cael eu dethol oddi ar restr a roddwyd gan yr athrawon. Bydd dysgwyr yn gallu dewis a disgrifio gwaith dau ddylunydd/ymarferwr tecstilau. Gallai hyn fod ar ffurf astudiaeth achos syml. Bydd dysgwyr yn casglu amrywiaeth o ddefnyddiau ac eitemau eraill i greu eu gwaith tecstilau eu hunain mewn ymateb i friff, gyda ffynonellau'n cael eu hawgrymu neu eu darparu gan yr athro. Bydd dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth i ddatblygu syniadau sy'n ymateb i'r briff. Byddant yn gallu trafod defnyddiau ac offer yn ddiogel ar gyfer cynhyrchu samplau, gan gyflwyno'r gwaith drwy ddulliau priodol.

### Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1A.2, 2A.LI2, 2A.T2, 2A.Rh2	Darganfod Byd Tecstilau	<p>Mae cwmni dodrefnu mewnol rhyngwladol wedi gofyn i grŵp o ddylunwyr tecstilau gynhyrchu cyfres o gasgliadau patrymau a samplau wedi eu hysbrydoli gan decstilau'r byd.</p> <p>Nod y casgliad yw 'adrodd stori drwy gyfrwng tecstilau'.</p>	<p>Portffolio neu ffeil o wybodaeth ar ddylunwyr tecstilau, a hefyd ar wahanol decstilau, a'u nodweddion a'u defnyddiau. Dylai'r ffeil gynnwys deunyddiau gweledol ac ysgrifenedig.</p> <p>Byddai seminarau gyda grwpiau bach o ddysgwyr lle mae pob un yn dod â'u gwaith hyd yn hyn a lle mae dulliau cyflwyno'n cael eu trafod a'u rhannu yn cefnogi'r broses asesu.</p> <p>Gwerthuso ac adborth gan ddysgwyr ac asesiad athrawon.</p>



Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1B.3, 2B.LI3, 2B.T3, 2B.Rh3, IC.4, 2C.LI4, 2C.T4, 2C.Rh4, ID.5, 2D.LI5, 2D.T5, 2D.Rh5	Adrodd Stori drwy Decstilau	Bydd y dylunwyr tecstilau'n trafod syniadau a manau cychwyn posibl. Byddant yn gwneud llawer o nodiadau ac yn cymharu eu gwahanol syniadau er mwyn llunio casgliad cyfunol o ddyluniadau, addas ar gyfer arddangosfa.	<p>Llyfr braslunio o syniadau a dyluniadau datblygiadol, ddylai hefyd gynnwys samplau, cynigion ac arbrofion ar gyfer gwahanol gymwysiadau a thechnegau.</p> <p>Enghreifftiau gorffenedig o decstilau i'w cyflwyno i'r athro ac i gyfoedion.</p> <p>Y cyflwyniad terfynol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyflwyniad llafar o'r gwaith</li> <li>• ffeil o ymchwil a gasglwyd ar y diwydiant tecstilau, dylunwyr a mathau o decstilau</li> <li>• llyfr braslunio o waith datblygiadol, dyluniadau ac arbrofion</li> <li>• tecstilau gwreiddiol wedi eu harddangos yn briodol, naill ai fel darnau crog, darnau fflat neu arteffactau 2D.</li> </ul>



# Uned 13: Briffiau Celfyddydau Gweledol

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Gorfodol/Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Mae celfyddydau gweledol yn ymwneud yn bennaf ar sut olwg sydd ar bethau ond mae syniadau neu gysyniadau hefyd yn bwysig. Mae celfyddydau gweledol yn cynnwys gwneud 2D a 3D, boed yn swyddogaethol, yn addurniadol neu'n esthetig. Mae artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr sy'n cynhyrchu delweddau neu wrthrychau celfyddydau gweledol yn gweithio mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau gwahanol, megis peintio, cerflunio, gwneud printiau, ffotograffiaeth, collage, cyfosodiad a gosodiadau.

Mae artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr yn archwilio syniadau, defnyddiau a thechnegau celfyddydau gweledol mewn ymateb i friffiau a ddiffiniwyd ganddynt eu hunain neu friffiau a roddwyd. Er mwyn datblygu eu gwaith, mae artistiaid yn arbrofi gyda gwahanol ddefnyddiau i archwilio potensial cyfrwng a ddewiswyd a'i addasrwydd ar gyfer y dasg. Maent hefyd yn ymchwilio'n eang i wahanol ffynonellau er mwyn cael ysbrydoliaeth i'w helpu i ddatblygu syniadau. Mae pobl broffesiynol yn adolygu cynnydd eu gwaith yn barhaus i sicrhau ei fod yn cwrdd â'u bwriadau creadigol a gofynion y briff.

Yn yr uned hon byddwch yn gweithio gyda briff neu friffiau i ymchwilio i syniadau celfyddydau gweledol, eu harchwilio a'u datblygu. Bydd angen i chi wneud ymchwil i amrywiaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd sy'n briodol i'ch briff. Rhan werthfawr o'ch ymchwil fydd dysgu pa fath o waith mae artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr hanesyddol a chyfoes yn ei gynhyrchu a'r amrywiaeth o ddefnyddiau a thechnegau oedd yn cael eu defnyddio ganddynt. Bydd yr ymchwil hon yn eich helpu i ddeall sut i ddefnyddio defnyddiau, prosesau a thechnegau celfyddydau gweledol i archwilio syniadau a chynhyrchu canlyniad neu ganlyniadau terfynol. Byddwch yn adolygu eich cynnydd ac yn mireinio proses eich gwaith drwy ddadansoddi parhaus a therfynol mewn ymateb i'r briff a roddwyd.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i ymarfer celfyddydau gweledol
- B archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau celfyddydau gweledol
- C datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau celfyddydau gweledol
- D cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff celfyddydau gweledol.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ymarfer celfyddydau gweledol</b>
<p><b>Disgyblaethau sydd ynghlwm wrth y celfyddydau gweledol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• celfyddyd gain 2D a 3D, darlunio, cerameg, celf a chrefft 3D, gwneud printiau, tecstilau a ffasiwn, cyfryngau cymysg, ffotograffiaeth, delweddau symudol, celf ddigidol.</li> </ul> <p><b>Archwilio ffynonellau cynradd ac eilaidd cyd-destunol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ffynonellau cyd-destunol cynradd: ymweld ag ymarferwr proffesiynol yn dangos ei waith; ymweliadau ag orielau, arddangosfeydd, amgueddfeydd, casgliadau celf, stiwdios celf, digwyddiadau celf byw</li> <li>• ffynonellau cyd-destunol eilaidd: gwybodaeth orielau ar-lein e.e. Gwefan yr Oriol Genedlaethol, gwefannau artistiaid, casgliadau hanesyddol a chyfoes ar-lein; llyfrau, cyfnodolion, cylchgronau, casgliadau o ddelweddau, e.e. cardiau post, sganiau, llungopiau, printiau.</li> </ul> <p><b>Sut i nodi enghreifftiau hanesyddol/cyfoes 2D a 3D o waith celfyddydau gweledol, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol ac adnabod yr artistiaid dan sylw, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymchwilio i gyd-destunau celfyddydau gweledol 2D a 3D, yn cynnwys ymchwil ar y rhyngwyd, arsylwi gwrthrychau yn fyw</li> <li>• gwneud brasluniau cyflym mewn oriel o ddelweddau/gwrthrychau sy'n berthnasol i'r briff</li> <li>• cymryd nodiadau am ddelweddau/gwrthrychau a ddewiswyd allai olygu rhestru'r gwaith neu ddefnyddio pro fforma syml</li> <li>• anodi neu liwddangos gwybodaeth wedi'i lawrlwytho a'i hargraffu o'r rhyngwyd a ffynonellau eraill</li> <li>• dogfennu ymatebion i'r gwaith, gan archwilio nodweddion synhwyraidd neu weledol, disgrifio sut mae'n teimlo, sut mae'n edrych, beth yw ei ddefnydd a sut y gellir ei ddefnyddio</li> <li>• trafod mewn grwpiau sut y gallai gwaith pobl eraill gael ei ddefnyddio i ysbrydoli eich syniadau eich hun.</li> </ul> <p><b>Sut i ymchwilio cyfeiriadau cyd-destunol celfyddydau gweledol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• disgrifio enghreifftiau o esiamplau cyd-destunol celfyddydau gweledol 2D a 3D a nodi'r artistiaid dan sylw</li> <li>• rhoi sylwadau ar yr enghreifftiau a ddewiswyd, y defnyddiau a ddefnyddiwyd, megis estheteg, siâp, lliw, maint, gwadau, prosesau gweledol, e.e. drwy daflenni gwaith anodedig, llyfrau braslunio, trafodaethau wedi eu recordio, esboniadau, disgrifiadau, sylwadau, gwerthusiadau, sesiynau tiwtorial, y gair llafar, fideo, wyneb yn wyneb, unigol, sesiynau barnu grŵp, defnyddio termau technegol a chelf ar gyfer prosesau celf, crefft a dylunio a'u gwahanol nodweddion i ddisgrifio a dadansoddi'r gwaith</li> <li>• datblygu gwerthusiad o nodweddion megis: archwilio priodweddau, effeithiau, defnyddiau – yn cynnwys pwrpas, masnachol, proffesiynol, addasrwydd, e.e. megis pwrpas delwedd, ffactorau, cyfleoedd, cyfyngiadau, cynulleidfa darged/anghenion y gynulleidfa, cyllideb, cynnwys</li> </ul> <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

**Beth sydd angen ei ddysgu**

- cyflwyno gwybodaeth mewn fformat priodol sy'n cynnwys delweddau a thestun
- adolygu ffynonellau cyd-destunol cynradd mewn ymateb i friff
- adolygu ffynonellau eilaidd mewn ymateb i friff – o gylchgronau/papurau newydd, llyfrau, mewnrwyd, hysbysebu, cardiau post, gwaith artistiaid, ffotograffau, ffynonellau sain/gweledol
- esbonio sut y gallai'r syniadau hyn gael eu defnyddio i ysbrydoli eich syniadau eich hun a'r defnydd o gyfryngau mewn ymateb i friff.

**Sut i wneud adysgrifiadau o fanylion neu dechnegau a ddefnyddiwyd gan artistiaid a ddewiswyd i hysbysu eich arbrofion eich hun, e.e.:**

- mewn paentiad (cymysgu lliwiau, marciau brwshys, dargopïo cyfansoddiad a rhoi ardaloedd o dôn tywyll a golau)
- mewn dyluniad (defnyddio llinellau mewn ffyrdd y mae'r artist wedi'u gwneud, i awgrymu nodweddion o ffurf gain/ygni neu symudiad/poen neu finiogrwydd gwrthrych)
- mewn model (defnyddio clai i greu strwythurau syml o ffurfiau cerflunio).

**Adolygu a gwerthuso:**

- dewis a chyflwyno canlyniadau ymchwil i'r grŵp mewn fformat priodol gan
- ymateb i adborth i'r cyflwyniad.

**Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau celfyddydau gweledol****Defnyddiau, prosesau a thechnegau 2D, e.e.:**

- cyfarpar lluniadu megis pensiliau, siarcol, pen, inc, pasteli olew, sialciau
- cyfarpar peintio megis acryligion, dyfrlliw, lliw poster, brwshys, cylllell balet, sbyngau, carpiâu,
- cyfarpar gwneud printiau megis print mono, print bloc, colograffeg (print o gerdyn – wedi'i endorri a chollage), inciau printio dŵr, platiau printio, rheseli print, papurau amrywiol ar gyfer argraffu, gwasg brintio
- ffotograffiaeth, delwedd symudol, cyfryngau digidol, rhaglenni meddalwedd
- cefndiroedd megis papur, cerdyn, papur newyddion, papur lapio brown, papurau du a lliw, cynfas, pren haenog, caledfwrdd, papurau gweadog, ffotograffau, papurau hapgael.

**Defnyddiau, prosesau a thechnegau 3D, e.e.:**

- defnyddiau modelu megis clai, gwifren feddal, llenfetelau meddal
- defnyddiau cerfio megis plastr, clai gwyrdd-caled, blociau bris, cerrig meddal
- defnyddiau adeiladu megis gwifren cwt ieir, plastr, mod-roc, pren, metelau, clai, plastig, gwaiail, gwellt, a defnyddiau hapgael
- defnyddiau gwneud mowldiau megis plastr, plastigau.

**Defnyddio dwy neu ragor o brosesau a thechnegau 2D a 3D mewn ymateb i'r briff:**

- archwilio gwneud marciau 2D, elfennau ffurfiol (ffurf, gofod, siâp, strwythur, llinell)
- archwilio gwneud marciau 3D, elfennau ffurfiol (llinell, tŵn, ffurf, lliw, gwead, patrwm)

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu**

- creu gwaith bras, brasluniau, lluniadau, astudiaethau lliw, darnau prawf, casgliadau patrymau, modelau, maquettes
- 2D (lluniadu, collage, ffotograffiaeth, gwneud printiau, peintio)
- 3D (modelu, cerfio, castio, cerflunio, cydosod, gosod, cyfuno).

**Iechyd a diogelwch:**

- sut i ddefnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau 2D a 3D yn ddiogel gan ddefnyddio arferion gwaith da.

**Sut i archwilio a defnyddio defnyddiau, prosesau a thechnegau 2D a 3D mewn ymateb i friff celfyddydau gweledol, e.e.:**

- defnyddiau megis graffit, siarcol, pen, inc, golch, pasteli olew, sialciau, offer o waith llaw
- prosesau (gwaith a gomisiynwyd, archwilio personol, haniaeth, copïo, graddio, gwaith cydweithredol, safle-benodol, cyfyngiadau, amcanion, traddodiadol, cyfryngau newydd)
- technegau, (montage, collage, ffotograffiaeth, sganio digidol, trin, gwneud printiau, modelu)
- archwilio gwneud marciau, elfennau ffurfiol – llinell, tŷn, ffurf, lliw, gwead, patrwm.

**Sut i ddefnyddio ffynonellau cynradd, cyd-destunol ac amgylcheddol mewn ymateb i friff, e.e.:**

- cofnodi o ffynonellau cyd-destunol gyda dyluniadau drwy arsylwi, peintio bywyd llonydd, ffotograffiaeth o'r amgylchedd trefol, rhwbiadau o arwynebeddau yn y ganolfan a'r tiroedd, gwneud castiau plastr allan o fowldiau clai o draciau, arwyddion a symbolau a gafwyd yn lleol, defnyddio cyfryngau digidol i gofnodi a chasglu delweddau gweledol cyffrous.
- arbrofi gyda gwahanol ddefnyddiau, prosesau a thechnegau celfyddydau gweledol a ddefnyddiwyd mewn gwaith artistiaid a ddewiswyd i hysbysu eich dulliau eich hun, yn berthnasol i'r briff.
- defnyddio syniadau cyfansoddiadol o waith artist a ddewiswyd i archwilio eich gwaith eich hun yn berthnasol i'r briff.

**Sut i archwilio a chyfuno defnyddiau, prosesau a thechnegau mewn ymateb i friff celfyddydau gweledol drwy:**

- gyfuno gwahanol ddefnyddiau 2D megis paent a chyfryngau gwneud print.
- arbrofi, cynnal profion, gwneud casgliadau patrymau, darnau prawf, maquettes, brasluniau, gwaith bras, ymchwilio i botensial cyfrwng, dadansoddi'r canlyniadau.
- arbrofi gyda gwahanol gyfuniadau o dechnegau megis defnyddio golchiadau o liw a defnyddio technegau peintio sgwmblo ar ôl gweld peintiad tirlun gan Peter Lanyon.
- defnyddio cyfuniadau o dechnegau 3D megis modelu gwifren a defnyddio sgrim platr gyda gwellt wedi'i fewnosod ar ôl gweld cerflun anifail gan Nicola Hicks.

**Gwneud eich astudiaethau 2D a 3D arbrofol eich hun yn gweithio o, e.e.:**

- gwrthrychau, gosodiadau bywyd llonydd, y ffurf ddynol, anifeiliaid, pryfed, ffurfiau planhigion, ffurfiau mecanyddol, tirwedd, treflun
- arbrofi gyda'ch syniadau eich hun gan ddefnyddio defnyddiau, prosesau a thechnegau wedi eu hysbrydoli gan waith artistiaid a ddewiswyd.

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut i adolygu cyfuniadau arbrofol o dechnegau mewn ymateb i briff, e.e.:**

- pa ddefnyddiau, prosesau a thechnegau 2D a 3D a ddefnyddiwyd
- effeithiolrwydd y technegau a ddefnyddiwyd
- ansawdd eich syniadau cychwynnol eich hun
- sut mae gwaith artistiaid dethol wedi hysbysu syniadau a'r defnydd o ddefnyddiau, prosesau a thechnegau
- cryfderau'r gwaith a gynhyrchwyd
- y gwendidau a sut y gallai'r gwaith gael ei wella.

**Sut i adolygu eich ymateb eich hun i'r briff, yn cynnwys:**

- rhoi sylwadau ar eich gwaith eich hun a gynhyrchwyd
- beth aeth yn dda a pham
- beth nad aeth cystal a pham.

**Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau celfyddydau gweledol****Sut i archwilio briffiau celfyddydau gweledol, e.e.:**

- trafodaethau grŵp, taflenni gan athrawon megis manylion anodedig/wedi'u hamlygu a'u hatodi i'r briff
- cyflwyniadau athrawon i ysbrydoli a hysbysu
- dadansoddi gofynion a chyfyngiadau'r briff.

**Ymchwilio gan ddefnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd, e.e.:**

- ymchwilio cyd-destunol, nodiadau a delweddau o ymweliadau ymarferwyr, astudiaethau, brasluniau, gwneud modelau a ffotograffau o ddelweddau naturiol a gwneud, gwrthrychau, bywyd llonydd, tirwedd lleol, treflun, manau mewnol, manylion pensaernïol, gan ddibynnu ar ofynion y briff.

**Dulliau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu syniadau, e.e.:**

- mân-luniau, brasluniau, astudiaethau ffynonellau cynradd, datblygiadau dylunio 2D/3D

**Sut i gynhyrchu syniadau cychwynnol:**

- o ffynonellau, archwilio iaith weledol syniadau 2D a 3D a ddewiswyd megis cyfansoddiad, strwythur, maint, cyfrannedd, nodweddion lliw i gyfathrebu syniad sy'n cwrdd â gofynion y briff
- defnyddio mapio meddwl – llamau creadigol, gweledigaeth anarferol, arloesol
- siartiau corryn, trafodaeth un i un a/neu grŵp
- cynllunio'r briff – dyfeisio cynllun ar gyfer arbrofi a chynhyrchu
- casglu delweddau ac adnoddau angenrheidiol.

**Datblygu a mireinio syniadau:**

- mynd â syniad ymhellach, gan ddefnyddio amrywiaeth o fân-luniau, modelau, maquettes; cyfuno elfennau o fwy nag un syniad, archwilio'r dulliau mwyaf effeithiol o gyfathrebu'r syniad a ddewiswyd sy'n cwrdd â gofynion y briff.

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu****Archwilio ac arbrofi, e.e.:**

- defnyddio ystod o ddefnyddiau, technegau a phrosesau; archwilio potensial a chyfyngiadau cyfryngau a ddewiswyd
- cynhyrchu canlyniad terfynol mewn ymateb i'r briff
- paratoi datblygiad a gwaith terfynol i'w gyflwyno.

**Sut i gofnodi cynnydd cyfredol, e.e.:**

- mewn llyfr braslunio, gwneud nodiadau, ffeiliau, astudiaethau anodedig, ffotograffau a thafleini gwaith, samplau, profion, modelau ac ati o'r camau gafodd eu cymryd yn y broses ddatblygu
- dewis a defnyddio manau cychwyn a defnyddiau ffynhonnell, thema/âu, deunydd testun, nodi bwriad creadigol, cymharu a chyferbynnu potensial amrywiaeth o fannau cychwyn
- casglu a dethol o wybodaeth weledol a gasglwyd, i'w ddefnyddio wrth ddatblygu gwaith dylunio, syniadau lluniadu, mânluniau
- dethol hoff syniadau dewis o blith amrywiaeth o waith dylunio cychwynnol
- cymhwyso profi, adborth gan gynulleidfa, samplo, gwneud modelau/maquettes.

**Cadw cofnod gwerthuso parhaus:**

- beth sy'n cael ei gyfathrebu a pha ddefnyddiau, prosesau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio
- adnabod cryfderau a gwendidau'r syniadau a ddewiswyd a'r defnyddiau a ddewiswyd
- dangos tystiolaeth o'r defnydd o adborth i fireinio a datblygu syniadau.

**Sut i archwilio holl elfennau'r briff celfyddydau gweledol, e.e.:**

- dadansoddi gofynion y prosiect
- y cyfyngiadau posibl
- yr ymchwil gyd-destunol ofynnol
- ffocws yr ymchwiliad
- y cylch datblygu dyluniad
- cadw adolygiad parhaus
- angen gwybodaeth ychwanegol
- archwilio defnyddiau a phrosesau tuag at gynhyrchu canlyniad terfynol.

**Defnyddio cylch datblygu dylunio, e.e.:**

- cynhyrchu syniadau, ymchwilio, datblygu ac archwilio syniadau gan ddefnyddio cyfryngau a phrosesau.



**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i briff celfyddydau gweledol****Sut i gynhyrchu canlyniad terfynol sy'n dangos ymateb i'r briff:**

- trefnu ymchwil, cynhyrchu syniadau, dyluniadau cychwynnol, gwaith 2D/3D a chanlyniadau terfynol mewn fformat priodol
- defnyddio llyfrau braslunio, taflenni gwaith, maquettes, darnau prawf fel sy'n briodol
- cofnodi a dangos syniadau bras ac arbrofion megis gwaith dylunio ar bapur ac unrhyw waith ar sgrin
- defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau i gynhyrchu canlyniad celfyddydau gweledol 2D neu 3D mewn ymateb i'r briff
- dangos astudiaethau dylunio, samplau, maquettes priodol
- diffinio'r ymarfer gwaith a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r gwaith dylunio, gwerthuso'r ymateb i'r briff, ac esbonio'n eglur sut y mae'r canlyniad wedi cwrdd â gofynion y briff.

**Sut i gyflwyno canlyniad terfynol a gwaith datblygu sy'n dangos ymateb i'r briff:**

- diffinio syniad neu syniadau – beth rydych chi'n ei gyfathrebu, i bwy ac i ba bwrrpas
- cyflwyno i gyfoedion a/neu gleient, 1:1, mewn grwpiau, yn y dosbarth gan ddefnyddio dulliau gweledol, llafar neu ysgrifenedig, cyflwyniad ar sgrin neu feddalwedd cyflwyniad ar y we os yn briodol
- dangos syniadau a datblygiadau drwy ddangos neu arddangos gwaith a thrafod gyda chyfoedion/athro mewn sesiwn adolygu grŵp
- defnyddio taflenni dylunio/syniadau allai gael eu cyflwyno 1:1, neu i grŵp, gan ddefnyddio deunydd gweledol, cyflwyno drwy dulliau digidol, amlinellu'r gwaith, defnyddio nodiadau ysgrifenedig a delweddau anodedig fel sy'n briodol.
- adolygu gwaith drwy drafod gyda chyfoedion a'r athro, e.e. amlinellu ymchwil i ffynonellau cyd-destunol, dangos datblygiad y syniad cychwynnol a beth yw'r prif gryfderau a gwendidau yn y gwaith cyfan
- sut i gyflwyno canlyniad terfynol a'r holl waith cefnogi, ymchwil, cynhyrchu syniadau, profion, modelau, gwaith ar-sgrin ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall, gan ddefnyddio fformat cyflwyno priodol.

**Sut i werthuso gwaith celfyddydau gweledol terfynol, e.e.:**

- effeithiolrwydd y defnyddiau a ddefnyddiwyd – y sgiliau dan sylw a pha mor llwyddiannus oedd y defnydd o'r sgiliau hynny
- gwerthuso a chyfiawnhau unrhyw ddiwygiadau a newidiadau i ddefnyddiau, technegau, delweddau gweledol a'r defnydd o iaith weledol i fireinio agweddau o'r gwaith
- adolygu'r cyfuniad arbrofol o ddefnyddiau, prosesau a thechnegau 2D neu 3D
- myfyrio ar effeithiolrwydd y technegau a ddefnyddiwyd, gan ddefnyddio adborth o adolygiad
- gwerthuso'r cydweddu rhwng bwriad a chanlyniad terfynol.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ymarfer celfyddydau gweledol</b>			
1A.1 Nodi o leiaf un enghraifft hanesyddol ac un enghraifft gyfoes o gelfyddydau gweledol, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol ac amlinellu gwaith yr artistiaid/dylunwyr dan sylw. #	2A.LI1 Disgrifio o leiaf ddwy enghraifft hanesyddol a dwy enghraifft gyfoes o gelfyddydau gweledol, gan adnabod y dylunwyr dan sylw a dangos y nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #	2A.T1 Adolygu a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o gelfyddydau gweledol, gan adnabod y dylunwyr dan sylw ac esbonio'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #	2A.Rh1 Adolygu a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o gelfyddydau gweledol, gan adnabod y dylunwyr dan sylw a gwerthuso'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #
<b>Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau celfyddydau gweledol</b>			
1B.2 Defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau celf weledol i gynhyrchu o leiaf un syniad a gwaith gweledol i gwrdd â briffiau celfyddydau gweledol, gan ddefnyddio arferion gwaith diogel.	2B.LI2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau i gynhyrchu gwaith dylunio sy'n cwrdd â gofynion briffiau celfyddydau gweledol, gan arsylwi a chofnodi arferion gwaith diogel.	2B.T2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau celfyddydau gweledol amrywiol yn gyson i gynhyrchu gwaith gweledol sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau celfyddydau gweledol, gan ddisgrifio'r technegau a ddefnyddiwyd.	2B.Rh2 Dewis a chymhwysio defnyddiau, technegau a phrosesau celfyddydau gweledol amrywiol i gynhyrchu a chyflwyno gwaith gweledol sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau celfyddydau gweledol, gan ddadansoddi'r technegau a ddefnyddiwyd.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau celfyddydau gweledol</b>			
1C.3 Defnyddio o leiaf un syniad a gwaith gweledol mewn ymateb i friffiau celfyddydau gweledol.	2C.LI3 Dewis a defnyddio o leiaf ddau syniad a gwaith gweledol sy'n cwrdd â gofynion briffiau celfyddydau gweledol.	2C.T3 Defnyddio ac ymestyn yn gydlynol amrywiaeth eang o syniadau a gwaith gweledol sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau celfyddydau gweledol.	2C.Rh3 Cymhwyso amrywiaeth eang o syniadau a gwaith gweledol dychmygus i gwrdd yn llwyddiannus â gofynion y briff celfyddydau gweledol.
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff celfyddydau gweledol</b>			
1C.4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff celfyddydau gweledol.	2C.LI4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff celfyddydau gweledol, gan ddisgrifio eich proses waith.	2C.T4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff celfyddydau gweledol, gan ddisgrifio eich proses waith.	2C.Rh4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad creadigol a dychmygus yn annibynnol, i gwrdd yn llwyddiannus â holl ofynion briff celfyddydau gweledol, gan ddadansoddi eich proses waith.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw:

- stiwdio celfyddydau gweledol benodedig gyda chyfleusterau ar gyfer lluniadu, peintio, gwneud printiau, gwneud cardiau a chyfryngau cymysg
- defnydd o weithdai 3D ar gyfer defnyddiau, prosesau a thechnegau dethol dylunio 3D a cherflunio.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu adnabod o leiaf ddwy enghraifft hanesyddol a dwy enghraifft gyfoes o weithiau 2D a 3D cyfoes a hanesyddol, gan ddefnyddio delweddau a themau celf sylfaenol yn briodol. Dylai athrawon fod yn ymwybodol mai dyma leiafswm y gofynion. Byddant yn dangos tystiolaeth o'u gallu i ddefnyddio defnyddiau, prosesau a thechnegau celfyddydau gweledol gan ddangos eu samplau, astudiaethau bras a maquettes wedi'u coladu. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth o'r defnydd diogel o'u dewis o ddefnyddiau a phrosesau drwy daflenni gwaith anodedig neu dudalennau llyfrau braslunio, ffotograffau o'u modelau a'u maquettes, taflenni cofnodi arsylwadau athro a datganiadau tystion neu drwy holiaduron wedi eu cwblhau. Bydd dysgwyr yn defnyddio eu samplau arbrefol a'u gwaith bras i gynhyrchu a datblygu o leiaf ddau syniad a gwaith archwilio yn ganlyniad terfynol gan ddefnyddio eu dewis o gyfryngau yn gymwys. Byddant yn cynllunio ac yn cyflwyno eu gwaith ac yn adolygu eu cynnydd eu hunain. Efallai y bydd angen i athrawon ddefnyddio taflenni arsylwi dysgwyr a datganiadau tystion i ddarparu tystiolaeth o ddulliau gweithio ymarferol dysgwyr a'u trafodaethau yn ystod trafodaethau grŵp.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu archwilio ac ymchwilio i amrywiaeth o gelfyddydau gweledol 2D a 3D cyfoes a hanesyddol. Bydd eu trafodaethau a'u darnau ysgrifenedig ar nodweddion gwaith pobl eraill wedi eu hamlinellu'n glir a byddant yn ddisgrifiadol yn bennaf, er y byddant yn dangos peth gallu i ddadansoddi. Byddant yn dangos eu hymchwil drwy ddelweddau anodedig a gasglwyd a nodiadau ysgrifenedig o ffynonellau cyd-destunol cynradd ac eilaidd. Bydd ganddynt reolaeth gyson dros ddefnyddiau a dulliau a ddewiswyd, a byddant weithiau'n dangos defnydd effeithiol a medrus o ddefnyddiau, prosesau a thechnegau mewn gwahanol gyfryngau. Bydd dysgwyr yn cynhyrchu canlyniad effeithiol, gan gyfathrebu eu bwriad yn llwyddiannus. Byddant yn gwneud cynlluniau effeithiol ar gyfer cyflwyno gwahanol gamau eu hymchwil a'u gwaith ymarferol archwiliadol i gwrdd â gofynion y briff a byddant yn myfyrio ar gryfderau a meysydd ar gyfer gwella.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn archwilio ac yn ymchwilio i amrywiaeth eang o enghreifftiau o gelfyddydau gweledol cyfoes a hanesyddol. Yn eu trafodaethau a'u gwaith ysgrifenedig ar nodweddion yr enghreifftiau a ddewiswyd, byddant yn defnyddio peth geirfa feirniadol ac yn dadansoddi gweithiau a ddewiswyd gan ddefnyddio barnau personol wedi eu hysbysu gan eu ffynonellau. Byddant yn dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau gyda hyder a phwrpas. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth o ofynion y briff ac yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw heriau sy'n codi yn sgil eu defnydd arbrefol o gyfryngau. Byddant yn defnyddio defnyddiau gyda dychymyg a byddant yn gallu dadansoddi eu canlyniadau.

Byddant yn dewis eu syniad terfynol, yn dadansoddi eu dewisiadau, ac yn datblygu canlyniad celfyddydau gweledol dychmygus a medrus. Bydd eu cyflwyniadau o waith terfynol a chefnogol yn cael eu cynllunio a'u cynhyrchu'n annibynnol a byddant yn ymateb yn gadarnhaol i ddysgu, gan ddiwygio eu gwaith lle mae hynny'n briodol. Byddant yn myfyrio ar addasrwydd i bwrpas eu harfer gwaith eu hunain ac yn gwerthuso'n eglur eu gwaith ymchwil, eu hymagweddau tuag at ddefnyddio defnyddiau ac ansawdd eu canlyniadau.

### **Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu perfformio tasgau arferol i gasglu gwybodaeth am ymarferwyr celfyddydau gweledol a'u dulliau gweithio. Gall canfyddiadau dysgwyr gael eu hasesu drwy gyflwyniadau, gyda chefnogaeth nodiadau anodedig sylfaenol, yn hytrach na thasgau ysgrifennu ffurfiol. Efallai y bydd angen i athrawon ddefnyddio taflenni arsylwi dysgwyr a datganiadau tystion i ddarparu tystiolaeth o allu dysgwyr i drafod enghreifftiau o gelfyddydau gweledol ac i ddefnyddio termau celf syml. Gallai athrawon helpu dysgwyr i siarad ac i ysgrifennu am eu dewis o ddelweddau drwy ddylunio ffurflen gyda chwestiynau syml ac awgrymiadau ar ffyrdd o edrych ar weithiau celf. Bydd dysgwyr yn archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau celfyddydau gweledol mewn ffordd gyfyngedig, gan ddangos eu gwybodaeth drwy weithgareddau sy'n cael eu harsylwi gan athrawon, ac enghreifftiau a gasglwyd o'u harbrofion a nodiadau cryno o'r defnyddiau a'r prosesau y maent wedi eu defnyddio. Gallant ddangos eu dealltwriaeth o'r defnydd diogel o'u dewis o ddefnyddiau a phrosesau drwy arddangosiadau, trafodaethau a holiaduron wedi eu cwblhau. Bydd eu canlyniadau'n dangos archwiliad sylfaenol o ddefnyddiau. Gallant ddangos tystiolaeth o ddefnydd a rheolaeth cyfyngedig ar y defnyddiau a'r prosesau technegol dan sylw.

### Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	Galw am Gynigion	Mae cerflunydd yn dadansoddi, yn archwilio ac yn ymchwilio i ffurfiau celfyddydau gweledol 3D ar gyfer arddangosfa mewn oriel gelf newydd. Mae angen archwilio prosesau'r ffurfiau 3D a ddewiswyd mor drylwyr â phosibl.	Taflenni arsylwi a datganiadau tystion. Cyfraniadau at drafodaethau grŵp, sesiynau tiwtorial a seminarau. Brasluniau a nodiadau o ymweliadau cyd-destunol. Holiadur ar gyfer ymarferwr ar ymweliad a chanfyddiadau dilynol y dysgwr. Ymchwil i ffynonellau celfyddydau gweledol – rhestrau, nodiadau, deunydd ffynhonnell a gasglwyd, delweddau anodedig, ffolderi wedi'u coladu o amrywiaeth o ddeunydd ffynhonnell cynradd ac eilaidd.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Rhoi Cynnig ar Rywbeth Newydd	Mae peintiwr yn archwilio ac yn arbrofi gyda defnyddiau, prosesau a thechnegau celfyddydau gweledol a chyfuniadau gwahanol o'r rhain i greu gwaith ar gyfer sioe grŵp o ymagweddau cyfoes tuag at beintio mewn oriel leol.	<p>Cofnod wedi'i ddogfennu o ymagweddau a dulliau ymarferwyr ar ymweliad</p> <p>Canlyniadau arbrofol wedi eu cyflwyno'n briodol drwy gyfrwng llyfrau braslunio, taflenni gwaith gydag archwiliadau anodedig o ddefnyddiau, prosesau a thechnegau; ffotograffau o ddarnau prawf, modelau a maquettes 3D.</p> <p>Taflenni sylwadau athrawon a datganiadau tystion mewn perthynas â thrafodaethau dysgwyr, sesiynau tiwtorial a dulliau gwaith cyfredol a defnydd diogel ac effeithiol o ddefnyddiau, technegau a phrosesau.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1C.3, 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3	Cŵn a Chathod ac ati	Mae tîm o animeiddwyr wedi cael ei gomisiynu i greu cyfres o ddarnau byr ar gyfer teledu plant ar anifeiliaid anwes. Maent yn defnyddio ffynonellau cynradd ac eraill i gynhyrchu a datblygu syniadau ar gyfer y gyfres.	<p>Adolygiad wedi'i gofnodi o ymchwil a syniadau mewn ymateb i briff.</p> <p>Nodiadau ysgrifenedig, llyfrau braslunio anodedig, astudiaethau achos.</p> <p>Anodi parhaus o ganfyddiadau ymchwil a defnydd archwilio o gyfryngau.</p> <p>Datganiadau tystion i ddangos tystiolaeth o waith dysgwyr a'u defnydd diogel o ddefnyddiau, prosesau a thechnoleg.</p> <p>Trafodaethau grŵp cyfredol.</p> <p>Seminarau wedi eu recordio, nodiadau ysgrifenedig.</p> <p>Cynlluniau ar gyfer ystyried gofynion a chyfyngiadau yn natblygiad y briff.</p> <p>Cynlluniau cyflwyno ac adborth.</p> <p>Datganiadau o arsylwadau athrawon mewn perthynas â'r gwerthuso llafar a roddwyd.</p>



Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1D.4, 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Y Ddelwedd Iawn	<p>Mae grŵp ffotograffiaeth wedi cael ei gomisiynu i gynhyrchu cyfres newydd o gardiau post ar gyfer y bwrdd twristiaeth lleol, yn hyrwyddo harddwch y dirwedd leol. Mae'r ffotograffwyr yn dewis o blith syniadau, ac yn datblygu a chynhyrchu cyfres o ddelweddau. Maen nhw'n trefnu noson arddangos gychwynnol gyda'r gynulleidfa darged ar gyfer y gwaith terfynol. Yng ngoleuni'r adborth gan eu cynulleidfa darged, maen nhw'n diwygio a datblygu'r gwaith.</p>	<p>Gwerthuso'r prosiect a'r gwaith terfynol.</p> <p>Trafodaethau grŵp wedi'u recordio a seminarau gwerthuso terfynol gan ddefnyddio datganiadau tystion.</p> <p>Cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r gwaith fel cyfanwaith.</p> <p>Cyflawniad wedi'i recordio gan ddefnyddio fideo.</p> <p>Blogiau a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol eraill i uwchlwytho trafodaethau, syniadau a gwaith terfynol.</p> <p>Gwerthusiad ysgrifenedig, llafar o gryfderau a gwendidau, ansawdd syniadau, cyflawniad bwriadau, diwygiadau a newidiadau, disgrifiadau a dadansoddiad o'r defnydd o gyfryngau, defnyddiau a phrosesau.</p> <p>Datganiadau o arsylwadau athrawon ar werthusiadau llafar.</p>



# Uned 14: Briffiau Ffotograffiaeth

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Gorfodol/Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Mae ffotograffiaeth yn rhan o'n diwylliant bob dydd. Rydyn ni'n defnyddio camera i gofnodi digwyddiadau, i ddogfennu rhywbeth neu i ddal eiliad mewn amser. Mae datblygiadau technoleg wedi gwneud camerâu digidol hyd yn oed yn haws eu fforddio, ac mae ansawdd camerâu ffonau symudol yn gwella o hyd sy'n golygu bod y gallu i gofnodi delweddau ar gael i bawb unrhyw bryd. Mae ffotograffiaeth yn cynnwys dal delweddau mewn stiwdio neu ar leoliad a chynhyrchu printiau neu ddelweddau ar sgrin gan ddefnyddio ffilm neu dechnoleg digidol. Mae creu ffotograff da yn ei hanfod yn ymwneud â dysgu cipio nodweddion gweledol cyffrous drwy ffenestr camera.

Mae ffotograffwyr proffesiynol yn cynhyrchu gwaith ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gwahanol o hysbysebu a lluniau ffasiwn i bortreadau a lluniau priodas. Maen nhw'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau a phrosesau i archwilio syniadau ar gyfer ffotograffau. Maen nhw'n gwneud ymchwil eang o wahanol ffynonellau i gael ysbrydoliaeth i'w helpu i ddatblygu syniadau.

Mae ffotograffwyr proffesiynol yn adolygu cynnydd eu gwaith yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â'u bwriadau creadigol ac â gofynion y briff. Maen nhw'n cynhyrchu gwaith ar gyfer amryw o wahanol bwrpasau o hysbysebu a lluniau ffasiwn i bortreadau a lluniau priodas. Mae angen iddyn nhw allu dadansoddi briffiau'n gywir a nodi pa ffactorau y mae angen eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu eu hymateb er mwyn iddynt allu cwrdd ag anghenion eu cleientiaid.

Yn yr uned hon byddwch yn astudio gwaith ffotograffwyr cyfoes a hanesyddol ac yn archwilio, arbrofi a dysgu sut i ddefnyddio defnyddiau a thechnegau arbenigol i ffotograffiaeth sy'n berthnasol i friff. Byddwch yn datblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o ffotograffiaeth drwy archwilio prosesau ffilm traddodiadol a/neu ffotograffiaeth digidol mewn ymateb i friff.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i ymarfer ffotograffiaeth
- B defnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol mewn ymateb i friff ffotograffiaeth
- C datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau ffotograffiaeth
- D cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff ffotograffiaeth.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ymarfer ffotograffiaeth</b>
<p><b>Sut mae ffotograffwyr yn gweithio yn y diwydiant, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hunangyflogedig/llawrydd</li> <li>• mewn stiwdio ffotograffiaeth</li> <li>• ar leoliad</li> <li>• o fewn cwmni mwy</li> </ul> <p><b>Sut i adnabod a chyflwyno enghreifftiau o ffotograffiaeth gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymchwilio i ymarfer cyfoes mewn ffotograffiaeth</li> <li>• ffotograffiaeth mewn cylchgronau, llyfrau, ar y we fyd-eang, mewn hysbysebu, dogfennaeth, celfyddyd gain, ffasiwn, priodasau, portreadau, tirwedd, bywyd gwylt, fforensig, meddygol, amatur, cymdeithasol, twristiaeth.</li> </ul> <p><b>Sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y gwahanol rolau y gall ffotograffwyr gael eu cyflogi ynddynt, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynhyrchu atebion creadigol</li> <li>• defnyddio offer a phrosesau</li> <li>• rheoli amser ac adnoddau</li> <li>• gweithio mewn tîm.</li> </ul> <p><b>Gweithio mewn stiwdio ffotograffiaeth, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio fel tîm ar brosiectau grŵp, cynhyrchu syniadau neu gywiro problemau</li> <li>• sgiliau cyfathrebu – mewn cyfarfodydd, gyda chleientiaid, gyda chyd-ffotograffwyr, staff cefnogi</li> <li>• gweithio i derfynau amser, rheoli amser</li> <li>• gyda chleientiaid, modelau, pynciau</li> <li>• deall sut mae eich rôl eich hun yn cysylltu â'r tîm</li> <li>• delio gyda materion iechyd a diogelwch.</li> </ul> <p><b>Defnyddio ymchwiliadau i ateb cwestiynau am bwrpas y gwaith ffotograffiaeth yr ymchwiliwyd iddo, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried y gynulleidfa darged</li> <li>• ymchwilio i'w hanghenion</li> </ul> <p><b>Datblygu ymchwiliad i ystyried y gwaith a'r gynulleidfa darged o ran:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• oedran/grŵp cymdeithasol</li> <li>• ffordd o fyw a dyheadau</li> <li>• pwrpas – megis cysylltiadau cadarnhaol neu negyddol</li> <li>• cyflwyno canlyniadau ymchwiliadau mewn fformat priodol.</li> </ul>

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut mae ffotograffiaeth yn gweithio'n weledol i gwrdd ag anghenion cynulleidfa, e.e.:**

- caffael, coladu ac adolygu enghreifftiau o waith gan ffotograffwyr, esbonio'r berthynas rhwng y gwaith a gynhyrchwyd, y defnydd o iaith weledol a ddefnyddiwyd a'r gynulleidfa darged
- ymchwilio i ffynonellau ffotograffwyr a'r defnydd o syniadau gweledol mewn darnau o waith a ddewiswyd
- archwilio iaith weledol mewn ffotograffiaeth a'r effeithiau sy'n cael eu creu
- deall y ddelwedd a grëwyd gan y ffotograffydd a'r effaith y mae'n ei chael ar y gwylwr.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Defnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol mewn ymateb i friff ffotograffiaeth**

Sut i adnabod offer ffotograffig: camerâu – cryno, ffôn, SLR (ffilm, digidol), lensys cyfnewidiol, trybeddau, mesuryddion golau, goleuo wedi'i reoli.

**Sut i ddefnyddio offer ffotograffig yn ddiogel ac yn ofalus, e.e.:**

- llwytho a dadlwytho camera, gosodiadau camera, trafod negatiffau, gwefru batri, cof sydd ar gael, lawrlwytho delweddau, caledwedd/meddalwedd cyfrifiadurol, cyfleusterau ystafell dywyll.

**Sut i ddefnyddio prosesau ffotograffig, e.e.:**

- cipio ac enwi ffeiliau, prosesu ffilm, cynhyrchu taflenni cyffwrdd, cynhyrchu delweddau (ar gyfer print, ar gyfer sgrin), graddio, fformatau.

**Sut i ddefnyddio technegau ffotograffig i reoli delweddau mewn ymateb i friff ffotograffiaeth, e.e.:**

- gosodiadau caead/agorfa, dinoethiad – cyflym, hir, moddau saethu/gosodiadau ISO, ffocws cymysg, fframio gwrthrych, cyfansoddi llun, defnyddio golau naturiol/artiffisial, goleuo sydd ar gael/goleuo stiwdio sydd wedi ei reoli.

**Sut i ddatblygu a mireinio'r defnydd o dechnegau, offer a phrosesau, e.e.:**

- dewis yr offer priodol i gyflawni bwriad creadigol a chwrdd â gofynion y briffiau, a chofnodi'r wybodaeth hon
- dogfennu detholiad o dechnegau, offer a phrosesau ffotograffig
- addasu a mireinio'r dewis o dechnegau, offer a phrosesau mewn ymateb i ganlyniadau sesiynau prawf, adborth (athro, cyfoedion neu gleient)
- cofnodi gwybodaeth o gynnydd o ganlyniadau technegau, offer a phrosesau a ddefnyddiwyd, canllawiau iechyd a diogelwch, unrhyw asesiadau risg gafodd eu cynnal, sesiynau prawf a phrintiau cyntaf, fel rhan o ddyddiadur parhaus o arferion gwaith
- dewis a chymhwyso technegau ffotograffig priodol i gwrdd â gofynion amrywiaeth o friffiau ffotograffiaeth.

**Sut i adnabod a chofnodi elfennau ffurfiol, e.e.:**

- adnabod beth yw elfennau ffurfiol a sut mae ffotograffwyr yn eu defnyddio yn eu gwaith
- cofnodi gan ddefnyddio technegau, offer a phrosesau ffotograffig
- defnyddio technegau cyfansoddiadol wrth fframio ffotograffau.

**Sut i ddiwygio, mireinio ac adolygu eich gwaith eich hun, e.e.:**

- adolygu'r defnydd o elfennau ffurfiol a sut mae ffotograffwyr yn eu defnyddio yn eu gwaith
- dewis a defnyddio technegau, offer a phrosesau ffotograffig i gymhwyso technegau cyfansoddiadol, gan werthuso arfer gwaith
- dewis a defnyddio technegau, offer a phrosesau ffotograffig i gofnodi elfennau ffurfiol.

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau ffotograffiaeth</b>
<p><b>Sut i gynllunio, cynhyrchu a ddatblygu syniadau, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynllunio ar gyfer cynhyrchu gwaith mewn ymateb i'r briff, yn cynnwys manau cychwyn, adnoddau, technegau posibl</li> <li>• datblygu syniadau drwy fapio meddwl, siartiau corryn, trafodaethau – 1:1, grŵp</li> <li>• cofnodi gwybodaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd ac o waith pobl eraill i hysbysu gwaith datblygu, mewn ymateb i friff ffotograffiaeth</li> <li>• cynhyrchu gwaith datblygu a chynhyrchu syniadau mewn ymateb i friff ffotograffiaeth, e.e. lluniadau, dalennau cyffwrdd, printiau prawf.</li> </ul> <p><b>Sut i ddewis syniadau a gwerthuso cynnydd, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dewis a chofnodi o ffynonellau cynradd ac eilaidd ac o waith pobl eraill i ddatblygu syniadau a delweddau sy'n cwrdd â gofynion briff ffotograffiaeth</li> <li>• mireinio gwaith datblygu i gwrdd â gofynion briffiau ffotograffiaeth, gan ddedol eu hoff syniadau</li> <li>• gwneud gwaith prawf drwy sesiynau prawf, defnyddio adborth y gynulleidfa, ystyried dulliau amgen</li> <li>• cadw cofnod gwerthuso parhaus o ddatblygiad syniadau a'r dewis o dechnegau, offer a phrosesau ffotograffig, yn cynnwys adnabod cryfderau a gwendidau'r syniadau a ddewiswyd a'r dewis o dechnegau.</li> </ul>
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff ffotograffiaeth</b>
<p><b>Sut i gynhyrchu a chyflwyno canlyniadau, yn cynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynhyrchu canlyniad terfynol mewn ymateb i friff ffotograffiaeth, e.e. portread, tirwedd, trefol, stiwdio bywyd llonydd, ffotograffiaeth dogfennol</li> <li>• dewis gwaith i'w fowntio</li> <li>• paratoi gwaith ffotograffig ar gyfer mowntio, e.e. mowntio arwyneb, defnyddio mowntio chwistrell, mownt ffenestr, lliw'r cerdyn, mesur borderi</li> <li>• torri cerdyn ar gyfer mowntiau, gan ddefnyddio offer a chyfarpar yn ddiogel</li> <li>• cyflwyno canlyniadau, e.e. 1:1, i grŵp, yn weledol, yn llafar neu'n ysgrifenedig, ar-sgrin, mewn print, fel sy'n briodol.</li> </ul> <p><b>Sut i werthuso gwaith terfynol i gwrdd â gofynion y briff, yn cynnwys: e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynhyrchu canlyniad terfynol sy'n cwrdd â gofynion y briff, drwy ddefnyddio technegau, offer a phrosesau ffotograffig ar ôl ystyriaeth a'u dethol,</li> <li>• diffinio arfer gwaith a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r gwaith ffotograffig, gwerthuso'r ymateb i'r briff ac esbonio'n glir sut y mae'r canlyniad wedi cwrdd â gofynion y briff</li> <li>• dogfennu pa mor effeithiol y cafodd technegau, offer a phrosesau ffotograffig eu defnyddio – y sgiliau dan sylw a sut y cawsant eu defnyddio, pa welliannau allai gael eu gwneud</li> <li>• cyflwyno canlyniad terfynol a'r holl waith cychwynnol cysylltiedig, ymchwil, cynhyrchu syniadau, lluniau prawf, dalennau cyffwrdd, printiau prawf a chanlyniadau terfynol, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall gan ddefnyddio'r fformat cyflwyno mwyaf priodol.</li> </ul>

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ymarfer ffotograffiaeth</b>			
1A.1 Nodi o leiaf un enghraifft hanesyddol ac un enghraifft gyfoes o ffotograffiaeth, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol ac amlinellu gwaith y ffotograffwyr. #	2A.LI1 Disgrifio o leiaf ddwy enghraifft hanesyddol a dwy enghraifft gyfoes o ffotograffiaeth, gan adnabod y ffotograffwyr dan sylw a dangos y nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y delweddau. #	2A.T1 Adolygu a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o ffotograffiaeth yn effeithiol, gan adnabod y ffotograffwyr dan sylw ac esbonio'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y delweddau. #	2A.Rh1 Dadansoddi a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o ffotograffiaeth yn effeithiol, gan adnabod y ffotograffwyr dan sylw a gwerthuso'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y delweddau. #
<b>Nod dysgu B: Defnyddio defnyddiau, technegau, offer a phrosesau arbenigol mewn ymateb i friff ffotograffiaeth</b>			
1B.2 Archwilio o leiaf ddwy dechneg gwahanol mewn ymateb i friffiau ffotograffiaeth, gan ddefnyddio arferion gwaith diogel.	2B.LI2 Dewis ac archwilio o leiaf bedair techneg gyda gwahanol offer a phrosesau sy'n cwrdd â gofynion briffiau ffotograffiaeth, gan ddilyn a chofnodi arferion gwaith diogel.	2B.T2 Dewis a defnyddio technegau, offer a phrosesau amrywiol yn gyson i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau ffotograffiaeth, gan ddisgrifio'r technegau a ddefnyddiwyd.	2B.Rh2 Dewis a defnyddio technegau, offer a phrosesau amrywiol yn annibynnol i gynhyrchu a chyflwyno gwaith sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau ffotograffiaeth, gan ddadansoddi'r technegau a ddefnyddiwyd.



Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau ffotograffiaeth</b>			
1C.3 Defnyddio o leiaf un ffynhonnell gynradd ac un ffynhonnell eilaidd i gynhyrchu syniad a gwaith gweledol mewn ymateb i friffiau ffotograffiaeth.	2C.LI3 Dewis a defnyddio o leiaf ddwy ffynhonnell gynradd a dwy ffynhonnell eilaidd i ddatblygu syniad sy'n cwrdd â gofynion briffiau ffotograffiaeth.	2C.T3 Dewis a defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd yn gyson i ddatblygu ac ymestyn syniadau amrywiol sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau ffotograffiaeth.	2C.Rh3 Dewis a defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd yn ddychmygus i ddatblygu ac ymestyn syniadau amrywiol sy'n cwrdd yn greadigol â gofynion briffiau ffotograffiaeth.
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff ffotograffiaeth</b>			
1D.4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff ffotograffiaeth. *	2D.LI4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff ffotograffiaeth, gan ddisgrifio eich proses weithio. *	2D.T4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briff ffotograffiaeth, gan adolygu eich proses weithio. *	2D.Rh4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd yn llwyddiannus â gofynion briff ffotograffiaeth, gan ddadansoddi eich proses weithio. *

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Mae angen camerâu digidol a/neu ffilm ar gyfer yr uned hon. Bydd angen i ganolfannau sy'n cynnig ffotograffiaeth wlyb ddarparu cyfleusterau ystafell dywyll digonol. Lle mae canolfannau'n darparu ffotograffiaeth ddigidol, bydd angen defnydd o stiwdio gyfrifiaduron addas ar gyfer cipio ac allbynnu delweddau.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu adnabod enghreifftiau a chymwysiaidau o ffotograffiaeth, ac adolygu'r pwrpas a'r dulliau a ddefnyddiwyd i hysbysu a siapio'r ddelwedd, megis y pwnc a'r dewis o iaith weledol. Byddant yn defnyddio prosesau, offer a thechnegau i gynhyrchu syniadau a delweddau ffotograffiaeth, a byddant yn cynhyrchu ymateb sy'n cwrdd â gofynion y briff. Er mwyn cyflawni hyn bydd rhaid iddynt ddefnyddio'r ddealltwriaeth a gasglwyd yn eu tasgau ymchwil, er enghraifft drwy astudiaeth achos cyfyngedig. Byddant yn dangos eu prosesau gweithio a sut y bu iddynt ddatblygu'r gwaith, at bwy y mae wedi ei anelu a pha syniadau gweledol a ddefnyddiwyd ganddynt.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu defnyddio amrywiaeth o brosesau, offer a thechnegau i gyflawni eu bwriad. Bydd eu rheolaeth a'u cymhwysiad o gyfryngau digidol yn bwrsol a bydd y canlyniad y byddant yn ei gynhyrchu yn cwrdd yn effeithiol â'r briff. Byddant yn disgrifio eu prosesau gweithio gyda pheth manylder. Byddant yn dangos gallu i fyfyrion ar ac i esbonio eu dewisiadau a'u defnydd o ddefnyddiau a thechnegau, er enghraifft, drwy ddefnyddio astudiaethau achos i gymharu eu gwaith gyda ffotograffwyr. Byddant yn disgrifio nodweddion eu dewis o gymwysiaidau o ffotograffiaeth lwyddiannus, gan nodi ffactorau allweddol. Byddant yn cyflwyno eu gwaith yn glir ac yn effeithiol.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn dangos agwedd ddychmygus a chreadigol wrth ddatblygu syniadau a delweddau sy'n cwrdd â gofynion y briff. Byddant yn myfyrio'n adeiladol ar ansawdd eu syniadau a'u hymagweddau dychmygus. Byddant yn cynhyrchu canlyniad yn annibynnol, ac yn gwerthuso a chyflwyno eu gwaith yn glir, gan ddangos dealltwriaeth fanwl o'u proses datblygu creadigol. Byddant yn dadansoddi'r ymagweddau gwahanol yn eu dewis o enghreifftiau o ffotograffiaeth gyfredol, ac yn datgan yn glir y ffactorau allweddol sy'n gwneud yr enghreifftiau hyn yn lwyddiannus. Byddant yn gwerthuso eu gwaith eu hunain o ran addasrwydd i bwrsol, cynulleidfada darged a'u hanghenion, y defnydd o ddelweddau ac iaith weledol, a rheoli prosesau, offer a thechnegau.

**Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu perfformio tasgau sylfaenol a chasglu gwybodaeth ac enghreifftiau gweledol drwy eu hymchwil. Gall eu gwaith wrth archwilio thema a chynhyrchu syniadau yn dilyn hynny fod yn sylfaenol ac yn gyfyngedig. Efallai y byddant yn tueddu i weithio gydag un syniad heb archwilio syniadau neu ymagweddau eraill. Bydd dysgwyr yn defnyddio technegau yn ddiogel ac yn cynnal amgylchedd gwaith diogel. Dylai athrawon asesu perfformiad dysgwyr yn defnyddio offer drwy ddefnyddio gwaith papur arsylwi, yn ogystal â chyflwyno unrhyw ganlyniadau digidol.

### Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Drwy Sganiwr, Yn Dywyll	Mae ffotograffydd llawrydd wedi gofyn i artist celfyddyd gain gydweithio ar brosiect creadigol. Maen nhw eisiau archwilio gwaith yr artist gan ddefnyddio technegau ffotograffiaeth er mwyn cynhyrchu cyfres newydd i'w werthu i oriel.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.
1C.3, 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3	Pump y Dydd	Mae ffotograffydd masnachol yn cynhyrchu syniadau cychwynnol ar gyfer briff, wedi'i gomisiynu gan ganolfan iechyd lleol sydd eisiau dangos y delweddau yn eu cyntedd.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Tymor Newydd, Golwg Newydd	Mae ffotograffydd ffasiwn yn cynhyrchu gwaith archwilio ar gyfer erthygl i gylchgrawn ar dueddiadau tymhorol mewn ffasiwn. Mae ffocws ar liw a chyfansoddiad yn arbennig o bwysig ar gyfer yr erthygl.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.
1D.4, 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Gnocchi Nigella	Mae ffotograffydd masnachol yn tynnu lluniau bwyd ar gyfer llyfr ryseitiau. Mae'r bennod maen nhw'n gweithio arni'n trafod y gwahanol fathau o basta. Mae angen tynnu lluniau'r rhain mewn ffyrdd diddorol.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid, darnau terfynol, arddangosfa.
1D.4, 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Strwythurau Stadiwm	Mae ffotograffydd diwydiannol yn cyflwyno ei waith ar adeiladu'r Pentref Olympaidd. Mae wedi cynhyrchu cyfres o ddelweddau llonydd a ffilmiau bwlch amser. Bydd angen iddo/i weithio gyda thîm i greu cyflwyniad effeithiol o'r delweddau.	Cyflwyno'r canlyniad a'r gwaith dylunio cychwynnol a therfynol, cyflwyniadau llafar, technolegau digidol, llyfr brasluniau anodedig, arsylwi gan athrawon a chyfoedion, asesiad athrawon o gyflwyniadau ymarferol.



# Uned 15: Dylunio ar gyfer y Dyfodol

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Gorfodol/Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Sut gallwn ni ddysgu o'r gorffennol a gwneud dyluniadau gwell ar gyfer y dyfodol? O'r holl ddyluniadau a thechnolegau newydd sydd o gwmpas heddiw, pa rai sy'n mynd i fod yn llwyddiannus? Weithiau nid briff manwl gan gleient sy'n llwyddo, ond yn hytrach rhywbeth nad yw ond nifer fechan o bobl yn sylweddoli y bydd yn ddefnyddiol ac yn ddymunol. Gall y dyluniadau hyn newid y ffordd y mae pobl yn meddwl ac yn ymddwyn yn eu bywyd bob dydd.

Er y gall llawer o'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu gan sefydliadau dylunio fod yn eithaf confensiynol, yn aml maen nhw'n hoffi cynnwys cynigion dyfodolaidd neu 'gysyniadol' i ddangos i gleientiaid eu bod yn greadigol ac yn edrych tua'r dyfodol yn eu gwaith.

Mae'r uned hon yn ymwneud â dysgu o ddylunio cyfredol a hanesyddol er mwyn deall y presennol, ac i ddylunio ar gyfer y dyfodol. Sut gallai dyluniadau eraill tebyg gael eu gwella neu gael eu gwneud i weithio'n well? Beth sy'n golygu bod cynnyrch, amgylchedd neu broses bob dydd yn bodoli yn y ffurf honno? Beth sy'n gwneud dyluniad yn llwyddiant neu'n fethiant?

Yn yr uned hon bydd gofyn i chi ymateb i ddefnyddiau, technolegau a phrosesau sy'n bodoli eisoes, sydd naill ai'n gwneud i bobl deimlo'n dda neu ddrwg, yn hapus neu'n anfodlon, sy'n gallu gwneud bywyd yn well neu hyd yn oed achub bywyd. Bydd angen i chi ofyn pam y gall pethau newid yn y dyfodol oherwydd defnyddiau a thechnolegau newydd a newidiadau i'r amgylchedd a'r ffordd y mae pobl yn byw. Bydd angen i chi feddwl am nodweddion defnyddiau a thechnolegau amrywiol. Gall hyn gael ei wneud drwy wneud pethau, eu profi a'u dangos i bobl eraill a siarad am y canlyniadau.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i esblygiad dylunio ac ystyried dyfodol cynnyrch 2D a 3D presennol
- B archwilio ffyrdd o weithio gyda'ch gilydd i fanteisio ar ddefnyddiau, technegau a phrosesau newydd a rhai sy'n ymddangos mewn ymateb i friffiau dylunio
- C datblygu syniadau mewn ymateb i anghenion posibl yn y dyfodol drwy friffiau dylunio cydweithredol
- D cyflwyno cynnig, yn cynnwys adborth, mewn ymateb i friff dylunio.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p><b>Nod dysgu A: Ymchwilio i esblygiad dylunio ac ystyried dyfodol cynnyrch 2D a 3D presennol</b></p>
<p><b>Meysydd bywyd bob dydd sy'n cynnwys dylunio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cludiant, cyfathrebu, hamdden, gwaith, meddygaeth, addysg, chwaraeon.</li> </ul> <p><b>Sut i ddisgrifio cynnyrch, amgylcheddau a chyfathrebiadau sy'n bodoli eisoes a sut y gallent newid, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodweddion, golwg, defnyddiau, swyddogaethau, estheteg, addasrwydd i bwrpas, materion iechyd a diogelwch, technoleg a ddefnyddiwyd.</li> </ul> <p><b>Sut i ymchwilio i gynnyrch, defnyddiau a chyfathrebiadau o'r gorffennol a'u dadansoddi, ac adnabod sut y maent wedi esblygu dros amser, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• setiau radio a theledu, ffonau, camerâu, systemau llywio, teclynnau'r cartref (tegellau, heyrn smwddio, poptai, oergelloedd, sugnwyr llwch, sychwyr gwallt, eillwyr), pensaernïaeth (siopau, campfeydd, meysydd awyr, cartrefi, ysgolion, gofodau arddangos), cyfarpar meddygol (offer symudedd, breichiau a choesau artiffisial, teclynnau llawfeddygol)</li> <li>• cyflwyno canlyniadau ymchwiliadau mewn fformat priodol.</li> </ul> <p><b>Y dylanwadau a'r effaith y mae dylunwyr a mudiadau dylunio o'r gorffennol yn eu cael ar ymgweddau tuag at arferion gwaith cyfoes, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Art Deco, Bauhaus, De Stijl, Art Nouveau, Celf a Chrefft, William Morris, Walter Gropius, Mary Quant, Leonardo da Vinci, Mies van der Rohe, Arne Jacobsen, Memphis Designs</li> </ul> <p>Y prosesau cydweithredol o gyfnewid syniadau mae dylunwyr yn eu defnyddio i ddatblygu cynnyrch newydd.</p> <p><b>Ystyried dyfodol cynnyrch o ganlyniad i newidiadau mewn cymdeithas, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• demograffeg</li> <li>• grwpiau cymdeithasol</li> <li>• ffordd o fyw a dyheadau</li> <li>• cyd-destun diwylliannol</li> <li>• yr amgylchedd (adeiledig, naturiol)</li> <li>• ffasiwn.</li> </ul>



**Beth sydd angen ei ddysgu**

**Nod dysgu B: Archwilio ffyrdd o weithio gyda'ch gilydd i fanteisio ar ddefnyddiau, technegau a phrosesau newydd a rhai sy'n ymddangos mewn ymateb i friffiau**

**Defnyddio defnyddiau, technolegau a phrosesau wrth greu dyluniadau newydd, e.e. drwy wneud rhai o'r canlynol:**

- arbrofi gyda defnyddiau
- cymhwyso gwahanol brosesau i ddefnyddiau
- arbrofi gyda thechnegau
- ymchwilio i ddefnyddiau newydd
- technolegau newydd a rhai sy'n ymddangos megis laserau, gwneud mowldiau chwistrellu; technolegau cyfathrebu megis technolegau digidol rhyngweithiol, systemau llywio, dylunio rhyngwynebaw, technoleg animeiddio, systemau llywio tudalennau gwe, argraffu 3D
- sut mae'r uchod yn gweithio gyda defnyddiau, technegau a phrosesau traddodiadol a sefydledig
- gwerthuso defnyddiau a gwneud penderfyniadau ar y defnyddiau a'r technegau gorau at y pwrpas
- defnyddio technoleg gyfrifiadurol i greu syniadau dylunio.

**Sut i weithio mewn ffordd ryngddisgyblaethol fel rhan o dîm, e.e.:**

- trafod a chyfaddawdu wrth wneud penderfyniadau tîm
- datrys materion arweinyddiaeth a rheoli prosiectau
- gwneud cyfraniad cyffredinol ac arbenigol (ymchwil, creadigrwydd, cyflwyniad, gwerthuso, ffotograffiaeth); sut i weithio gydag eraill wrth anelu at nod cyffredin; sut i gymryd barn pobl eraill i ystyriaeth; sut i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at brofiad tîm.

**Sut i ystyried, rhagweld a defnyddio gwybodaeth am ddefnyddiau hysbys a datblygiadau technolegol y dyfodol agos. e.e.:**

- ffonau clyfar ac aps, tabledi ac aps, cardiau SIM, tagiau RDF, torri laser 2D ac argraffu sy'n gallu dyblygu gwrthrychau 3D, ffabrigo digidol, pwrpasol ac o bell, , platfformau a rhwydweithiau cyfrifiadurol, systemau GPS a thechnoleg lloeren.
- cymryd risgiau, torri rheolau ac archwilio defnydd a chymwysiadau anghonfensiynol o ddefnyddiau a thechnolegau.

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i anghenion posibl yn y dyfodol drwy friffiau dylunio cydweithredol</b>
<p><b>Sut i ddatblygu syniadau arloesol drwy amrywiaeth o ddulliau, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>mapio meddwl, rhyngweithio grŵp, cyswllt geiriau, diddordebau personol (ffilm, cerddoriaeth, dawns, gemau cyfrifiadurol, ymweld ag oriel neu amgueddfa), lluniadu a pheintio, defnyddio dyfeisiau ac arbrofi.</li> </ul> <p>Datblygu syniadau drwy ddetholiad beirniadol, yn gweithredu ar adborth a chywain barn pobl eraill.</p> <p><b>Sut i baratoi cyflwyniad tîm amlygyfrwng sy'n cyfathrebu prif agweddau'r cynnig fel sy'n briodol i wahanol gynulleidfaeodd, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>modelau, brasfodelau, prototeipiau, lluniadau 3D, graffeg gwybodaeth, gwaith celf, animeiddiadau, sain, fideo.</li> </ul> <p>Sut i gymryd risgiau, torri rheolau ac archwilio defnydd a chymwysiadau anghonfensiynol o themâu a syniadau.</p>
<b>Nod dysgu D: Cyflwyno cynnig, yn cynnwys adborth, mewn ymateb i friff dylunio</b>
<p><b>Sut i fynegi syniadau ynghylch sut y gallai bod angen datblygu'r cynnig ymhellach, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>agweddau o fecanwaith, electroneg, marchnata, pecynnu, cynaliadwyedd, apêl fyd-eang.</li> </ul> <p><b>Sut i ragweld pa ddatblygiadau neu newidiadau eraill sy'n debygol o fod yn angenrheidiol yn y dyfodol er mwyn i'r cynnig ddod yn hyfyw o fewn amser penodol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>bychanigo pellach, gwell bywyd batri, sefyllfaoedd cymdeithasol sy'n esblygu, newidiadau diwylliannol, cyfyngiadau economaidd, newidiadau yn y gyfraith, ymateb i adborth y gynulleidfa (ystyried ymatebion i'r cynnig gan fwy nag un ffynhonnell a phenderfynu ar sut i weithredu neu p'un ai i weithredu ai peidio i'r ymatebion hyn mewn datblygu pellach).</li> </ul> <p><b>Sut i adolygu dyluniadau terfynol, er enghraifft mewn grwpiau neu gydag athro, i ffurfio barn ar ddulliau cynhyrchu terfynol a ffyrdd o gyflwyno, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio defnyddiau a thechnoleg briodol i gyflwyno canlyniadau dylunio</li> <li>cyflwyno gwaith yn cefnogi eich syniadau a'ch gwerthoedd eich hun</li> <li>gwerthuso eich gwaith a'ch perfformiad eich hun gan ddefnyddio gwahanol ddulliau o adborth</li> <li>defnyddio gwerthuso beirniadol gyda'ch perfformiad eich hun</li> <li>defnyddio adborth i hysbysu bwriadau yn y dyfodol</li> </ul> <p>Sut y bydd y dyluniad arfaethedig yn ymateb i newidiadau byd-eang yn y dyfodol ac i anghenion cwsmeriaid a newidiadau mewn technoleg.</p> <p><b>Archwilio a chyfuno gwahanol ddulliau cyflwyno, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyflwyniad ar sgrin, gwefannau, fideo, blogiau, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, cyflwyniadau aml-blatfform.</li> </ul>

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i esblygiad dylunio ac ystyried dyfodol cynnyrch 2D a 3D presennol</b>			
1A.1 Nodi o leiaf ddau ddyluniad, gan ddangos sut y gallent esblygu yn y dyfodol.	2A.LI1 Disgrifio o leiaf bedair enghraifft wahanol o ddylunio, gan ddangos eu prif nodweddion a sut y gallent esblygu yn y dyfodol.	2A.T1 Adolygu a chyflwyno enghreifftiau o ddylunio, gan esbonio eu prif nodweddion a sut y gallent esblygu i gwrdd ag anghenion penodol.	2A.RH1 Dadansoddi a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o ddylunio, gan werthuso eu prif nodweddion a sut y gallent esblygu i gwrdd ag amrywiaeth o anghenion penodol.
<b>Nod dysgu B: Archwilio ffyrdd o weithio gyda'ch gilydd i fanteisio ar ddefnyddiau, technegau a phrosesau newydd a rhai sy'n ymddangos mewn ymateb i friffiau dylunio</b>			
1B.2 Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau 2D a 3D mewn ymateb i friffiau cydweithredol, gan ddefnyddio arferion gwaith diogel.	2B.LI2 Dewis ac archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau 2D a 3D mewn ymateb i friffiau cydweithredol, gan gadw at arferion gwaith diogel a'u cofnodi.	2B.T2 Dewis a defnyddio'n gyson ddefnyddiau, technegau a phrosesau 2D a 3D amrywiol i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau cydweithredol, gan ddisgrifio'r technegau a ddefnyddiwyd.	2B.Rh2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau 2D a 3D i gynhyrchu a chyflwyno gwaith sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau cydweithredol, gan ddadansoddi technegau a ddefnyddiwyd.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i anghenion posibl yn y dyfodol drwy friffiau dylunio cydweithredol</b>			
1C.3 Cynhyrchu syniad a gwaith gweledol mewn ymateb i friffiau anghenion dylunio posibl yn y dyfodol.	2C.LI3 Cynhyrchu a datblygu syniad sy'n cwrdd â gofynion briffiau anghenion dylunio posibl yn y dyfodol.	2C.T3 Cynhyrchu, datblygu ac ymestyn syniadau amrywiol sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau anghenion dylunio posibl yn y dyfodol.	2C.Rh3 Cynhyrchu, datblygu ac ymestyn syniadau amrywiol sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion anghenion posibl yn y dyfodol mewn briffiau dylunio.
1C.4 Gweithio fel rhan o dîm, gan wneud cyfraniad tuag at friff dylunio a thechnoleg. #	2C.LI4 Dangos cyfraniadau tuag at waith tîm mewn briff dylunio a thechnoleg, gan ddangos parodrwydd i drafod ac i gyfaddawdu er mwyn cyflawni amcanion. #	2C.T4 Dangos cyfraniad cyson a chadarnhaol tuag at waith tîm mewn briff dylunio a thechnoleg. #	2C.Rh4 Dangos cyfraniad ystyriol ac arbenigol tuag at waith y tîm mewn briff dylunio a thechnoleg. #
<b>Nod dysgu D: Cyflwyno cynnig, yn cynnwys adborth, mewn ymateb i friff dylunio</b>			
1D.5 Cyflawni a chyflwyno cynnig mewn ymateb i friff dylunio, gyda rhai awgrymiadau am ddatblygiad pellach. #	2D.LI5 Cyflawni a chyflwyno cynnig sy'n cwrdd â gofynion briff dylunio, gan wneud ymateb i adborth. #	2D.T5 Cyflawni a chyflwyno cynnig sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briff, gan ymgorffori adolygiad o adborth i ddangos sut y gallai'r cynnig gael ei ddatblygu ymhellach.	2D.Rh5 Cyflawni a chyflwyno cynnig dychmygus sy'n cwrdd yn llwyddiannus â gofynion briff dylunio, gan ymgorffori dadansoddiad o adborth i ddangos sut y gall y cynnig esblygu o fewn amserlenni penodol. #

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw gallu cael gafael ar enghreifftiau a gwybodaeth am ddefnyddiau a thechnolegau electronig newydd a rhai sy'n ymddangos.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu disgrifio cynnyrch, llefydd neu gyfathrebiadau sy'n bodoli eisoes o ran eu nodweddion, defnyddiau, golwg a defnydd ac ati wrth greu dyluniad boddhaol ac ateb ymarferol. Byddant yn gwneud cyfraniadau tuag at waith y tîm, gan ddangos gallu i hyrwyddo amcanion y tîm ymhellach, er enghraifft, drwy wneud awgrym priodol am ddatblygiad posibl yn y defnydd o ddefnyddiau. Byddant yn datblygu syniadau sy'n adlewyrchu datblygiadau technegol neu gymdeithasol all effeithio ar hyfywedd y cynnig. Byddant yn ymateb yn gadarnhaol i adborth a geir wrth brofi eu cynnig. Bydd dysgwyr yn cyfeirio at waith dylunwyr ac at ddyluniadau o'r gorffennol a'r presennol ac yn cyflwyno gwaith yn feddylgar gan gyfeirio at eu cyflawniadau eu hunain a'r potensial am ddatblygiadau yn y dyfodol.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu adolygu cynnyrch, llefydd neu gyfathrebiadau sy'n bodoli eisoes mewn termau eang o ran swyddogaeth ac effeithiolrwydd ac esblygiad posibl. Byddant yn cyfeirio at waith dylunwyr a'u dylanwad ar feysydd eraill dylunio, gan drafod esblygiad gwahanol feysydd. Byddant yn gwneud cyfraniadau defnyddiol tuag at waith y tîm, er enghraifft drwy wneud nifer o awgrymiadau priodol am y defnydd o ddatblygiadau posibl mewn technegau a defnyddiau. Byddant yn datblygu syniadau'n feddylgar ac mewn ffyrdd amrywiol. Byddant yn gallu trafod nifer o ddatblygiadau technegol, amgylcheddol, diwylliannol neu gymdeithasol yn y dyfodol all gael effaith ar ddyfodol dylunio. Bydd y datblygiadau hyn yn gysylltiedig â'u cynigion, gan esbonio sut y gallai'r cynnyrch gorffenedig fod yn fwy hyfyw a chynaliadwy. Bydd y cyflwyniad yn ystyriol ac yn briodol a bydd yn gwella'r cynllun arfaethedig. Bydd dysgwyr yn cefnogi ac yn adolygu eu gwaith yng ngoleuni adborth a gafwyd drwy gydol y cyfnod datblygu.

Bydd dysgwyr **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn dadansoddi cynnyrch, llefydd neu gyfathrebiadau sy'n bodoli eisoes mewn termau eang o ran llwyddiant creu dyluniad boddhaol gan ragdybio ynghylch datblygiadau penodol yn y dyfodol. Byddant yn gwneud ymchwil i ddyluniadau ac i waith dylunwyr, gan ddangos mewnwelediad ar ddylanwadau. Byddant yn dangos gwybodaeth gadarn am agweddau o'r farchnad ddylunio gyfoes, gan fedru cysylltu'r gorffennol gyda'r presennol a'r dyfodol. Byddant yn gwneud cyfraniad arbenigol tuag at waith y tîm, fydd yn cynnwys diplomyddiaeth a gwneud awgrymiadau gwybodus am y defnydd o ddatblygiadau posibl mewn dylunio. Byddant yn cymryd i ystyriaeth amrywiol ddatblygiadau technegol, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol wrth iddynt gyflwyno cynigion ar gyfer gwneud y cynnyrch yn fwy hyfyw a chynaliadwy yn y dyfodol. Bydd dysgwyr yn cyflwyno gwaith yn ddychmygus gan ddefnyddio cyfuniad o gyfryngau a defnyddiau i ddangos potensial y cynnig. Byddant yn gallu cefnogi cyflwyniad y gwaith drwy ystyried amrywiol ffurfiau o adborth a gafwyd drwy gydol y cyfnod datblygu.

## **Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu adnabod cynnyrch, llefydd neu gyfathrebiadau sy'n bodoli eisoes gan gyfeirio at nodweddion, defnyddiau, golwg a defnydd. Byddant yn gweithio fel rhan o dîm, gyda chyfraniad cadarnhaol. Wrth gynllunio cyflwyniad terfynol cynnig dylunio byddant yn gwneud o leiaf un datganiad sy'n disgrifio agwedd allai gael ei datblygu ymhellach mewn modd defnyddiol.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Darganfyddiad Dylunio	Mae tîm dylunio'n cael y dasg o gynnig syniadau newydd ar gyfer amddiffyniad personol rhag y tywydd, gan ddefnyddio defnyddiau a thechnolegau newydd a rhai sy'n ymddangos.	Cyflwyniad tîm a chyflwyno ffolderi ymchwil unigol. Cyflwyniad grŵp, e.e. un dysgwr yn cyflwyno gwybodaeth ar ddylunwyr a dyluniadau o'r gorffennol a sut mae'r rhain yn berthnasol i waith cyfoes. Bydd un arall yn cyflwyno'r syniadau ar gyfer y dyluniad arfaethedig ac un arall yn trafod y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd a'r rheswm dros y dewisiadau.
1C.3, 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3, 1C.4, 2C.LI4, 2C.T4, 2C.Rh4, 1D.5, 2D.LI5, 2D.T5, 2D.Rh5	Edrych i'r Dyfodol	Ar ôl edrych ar nifer o bosibiliadau, mae angen i'r tîm dylunio yn awr ddatblygu prototeipiau all gael eu profi ar ddau grŵp targed gwahanol: plant rhwng 5 a 8 oed ac oedolion rhwng 55 a 65.	Beirniadaethau a sesiynau tiwtorial rheolaidd i ddod â'r grwpiau a'r timoedd at ei gilydd. Mae'n debygol y bydd dysgwyr yn gweithio mewn gwahanol leoliadau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a chymwysiadau ac felly mae monitro cynnydd yn agos a rhoi adborth gan yr athro a gan y naill a'r llall yn hanfodol. Cyflwyniad gweledol a llafar ffurfiol i'r naill a'r llall, mewn timoedd neu'n unigol. Bydd y cyflwyniad yn cynnwys sesiwn holi ac ateb gan y gynulleidfa a bydd dysgwyr yn cyflwyno gwerthusiad o'u gwaith ac awgrymiadau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei gefnogi gan gyflwyniad ysgrifenedig a phortffolio o waith grŵp ac unigol.





# Uned 16: Defnyddio Cyfeiriadau Cyd-destunol mewn Celf a Dylunio

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Dywedir nad oes unrhyw syniad sy'n gwbl wreiddiol. Mae artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr bob amser wedi cael eu dylanwadu gan waith celf pobl eraill, o'r gorffennol pell hyd at y presennol. Mae artistiaid yn tueddu i adeiladu ar syniadau pobl eraill ac adeiladu arnyn nhw drwy gadw i fyny gyda thueddiadau creadigol a diwylliannol yn ogystal â bod yn gwybod am beth sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

Byddai dylunydd graffig sy'n gweithio ar syniad ar gyfer clawr DVD neu gêm yn ymchwilio i dueddiadau presennol y farchnad mewn delweddaeth weledol. Byddai hefyd yn ystyried yr oedran targed a'r math o elfennau gweledol sy'n cyd-fynd â'r prosiect i ddenu eu cwsmeriaid.

Yn yr uned hon byddwch yn dangos sut mae syniadau pobl eraill wedi dylanwadu ar eich gwaith chi. Dylech ystyried y gwaith sydd wedi bod yn fwyaf ystyrion a dylanwadol ar eich agwedd tuag at gelf a dylunio, gan gyflwyno'r wybodaeth hon mewn fformat priodol. Wrth ddiffinio dylanwad pobl eraill dylech gael gwell dealltwriaeth o'ch arferion gwaith eich hun. Dylech ddatblygu eich sgiliau o chwilio, trefnu, dewis a chofnodi gwybodaeth a chyfeiriadau o amrywiaeth o waith celf sy'n darparu ysbrydoliaeth ar gyfer tarddu a datblygu eich syniadau chi. Drwy gymhwyso ymchwil a myfyrio ar ymarfer dylech gyflwyno gwybodaeth sy'n eich helpu i ddeall y dylanwadau sydd â rhan yn eich gwaith eich hun.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A dangos sut mae syniadau pobl eraill yn dylanwadu ar eich gwaith eich hun

B cyflwyno canlyniadau ymchwil mewn fformat priodol

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Dangos sut mae syniadau pobl eraill yn dylanwadu ar eich gwaith eich hun</b>
<p><b>Sut i ddefnyddio syniadau a dulliau pobl eraill yn eich gwaith eich hun, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwneud copiâu o waith artistiaid i ymarfer technegau, (gwneud ffigur clai yn seiliedig ar maquette gan Henry Moore)</li> <li>• peintio portread o ffrind gan ddefnyddio techneg gwaith brwsh toredig Van Gogh</li> <li>• defnyddio gwaith pobl eraill i ysbrydoli eich syniadau eich hun, (defnydd dylunydd tecstilau o arwyneb a lliw fel man cychwyn ar gyfer ymateb i aseiniad)</li> <li>• defnyddio technegau a defnyddiau tebyg i'r rhai a ddewiswyd gan artist/dylunydd/crefftwr (defnyddio'r lliwiau llachar cyferbyniol mewn peintiad o fudiad Fauve gan Derain neu Vlaminck)</li> <li>• defnyddio elfennau ffurfiol a ddewiswyd gan artist/dylunydd/crefftwr yn eich gwaith eich hun, (defnyddio gwaith llinellol Paul Klee fel ysbrydoliaeth ar gyfer cyfres o frasluniau ac astudiaethau o goed)</li> <li>• cynnig sylwadau ar artistiaid neu ddelweddau a ddefnyddiwyd yn eich gwaith eich hun.</li> </ul> <p><b>Sut i ddefnyddio gwaith pobl eraill i hysbysu a datblygu eich syniadau eich hun, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae eraill yn dylanwadu ar eich gwaith, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio cyfuniad o destun a delwedd sydd i'w gweld yng ngwaith collage yr artist Cubaid Kurt Schwitters mewn montage ar friff ar gyfer y thema 'Hunaniaeth'</li> <li>• defnyddio syniadau pecynnu o ymchwil i'r farchnad wrth i chi ddylunio a llunio bag papur cludo (<i>carrier bag</i>).</li> </ul> <p><b>Sut i addasu syniadau, arddull, technegau a phrosesau pobl eraill a'u gwneud yn bersonol yn hytrach na dim ond copio (dyblygu) gwaith artist/dylunydd/crefftwr arall drwy e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• perthnasu eich syniadau eich hun, e.e. ar gyfer briff prosiect ar 'Symudiad' gan ddefnyddio dulliau artistiaid Dyfodolwyr i bortreadu eich syniadau eich hun</li> <li>• defnyddio amrywiaeth o lensys ar y camera gan ddefnyddio technegau gwahanol ffotograffwyr, e.e. ar gyfer eich prosiect eich hun ar afluniad y corff dynol.</li> </ul> <p><b>Sut y gall syniadau gael eu dewis o waith dylunio cychwynnol ac ymchwil gyd-destunol drwy, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• disgrifio a rhoi sylwadau'n barhaus ar y ffyrdd y mae eich gwaith eich hun wedi cael ei ddylanwadu drwy gydol ei ddatblygiad</li> <li>• cadw cofnod gwerthuso parhaus yn nodi pam a sut y mae'r gwaith yn cael ei wneud, yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ adolygiad o gynnydd: beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim, a pham</li> <li>○ sut mae'ch gwaith celf/dylunio/crefft wedi cael ei fireinio yng ngoleuni ymchwil i'r defnydd o ddefnyddiau, dulliau a thechnegau</li> <li>○ rhoi sylwadau ar y dewis o fannau cychwyn – pa mor briodol yr oeddent i'r bwriad creadigol</li> <li>○ defnyddio barn bersonol i roi sylwadau ar fwriadau yng ngwaith pobl eraill a sut y maent yn berthnasol i'ch gwaith eich hun.</li> </ul> </li> </ul>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Cyflwyno canlyniadau ymchwil mewn fformat priodol****Sut i gofnodi ymchwil i waith pobl eraill a'r dylanwadau ar eich syniadau a'ch darnau terfynol eich hun, e.e.:**

- crynhoi ymchwil gyd-destunol mewn ffolder, ffeil neu lyfr braslunio trefnus
- cofnodi ymchwil mewn ffyrdd gwahanol (llyfr brasluniau gyda nodiadau – gallai'r rhain fod yn gyfeiriadau cyd-destunol ochr yn ochr â'r gwaith ar gyfer prosiectau ac aseiniadau ar draws y cwrs; ffolderi gyda delweddau o waith artistiaid a ddewiswyd gyda nodiadau; CD, DVD neu flogiau, neu ddefnyddio dulliau llafar, ffotograffig neu fideo).

**Sut i goladu ymchwil ar gyfer cyflwyno i wahanol gynulleidfaedd, gan ddefnyddio gwybodaeth gefndir neu wybodaeth bwysig arall, e.e.:**

- beth wnaeth yr artist/dylunydd/crefftwr neu beth mae'n ei wneud (teitl, grŵp, math h.y. cerflun, delwedd graffig, darn tecstilau, peintiad, animeiddiad ac ati)
- beth yw defnydd y gwaith, dimensiynau (cast efydd, 550 x 170cm; breichled ffelt a metel, diamedr 5cm; ffeil jpeg gwreiddiol, 50Mb)
- sut y cafodd y gwaith ei wneud – defnyddiau a thechnegau
- pa elfennau ffurfiol sydd wedi cael eu defnyddio
- sut mae iaith weledol 2D a 3D wedi cael ei defnyddio ac i ba effaith
- pam y cafodd y gwaith ei ddewis.

**Sut i gyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio barn a sylwadau personol gyda thystiolaeth gefnogol, gan ddangos sut mae gwaith pobl eraill wedi dylanwadu ar eich gwaith eich hun, e.e.:**

- disgrifio sut mae enghreifftiau a ddewiswyd wedi dylanwadu ar eich gwaith eich hun
- esbonio'r agweddau penodol o waith ymarferwyr sydd wedi bod yn ddylanwadol, e.e. syniadau, technegau, y defnydd o elfennau/iaith weledol benodol, y defnydd o ddefnyddiau, ymagwedd, dylanwad cyd-destunol, ystyr neu neges, effaith weledol
- gwneud ymchwil i thema neu fudiad sy'n ymgorffori syniad, e.e. defnyddio ymweliad, er enghraifft, i'r Tate Modern i wneud astudiaeth o fudiad megis Swrealaeth.
- creu astudiaeth achos o ymarferydd proffesiynol neu nodiadau estynedig gyda delweddau mewn ffeil neu lyfr braslunio.

**Sut i lunio rhestr o gyfeiriadau yn dangos ffynonellau gwybodaeth, yn cynnwys e.e.:**

- archwilio dulliau hysbys a ddefnyddiwyd, e.e. system gyfeirio Harvard
- rhestru pob ffynhonnell, e.e. ymarferwyr byw, ffrwd fideo ar y we o artistiaid yn trafod eu gwaith, ffynonellau eraill digidol neu ar y we, deunydd printiedig.

**Archwilio potensial dulliau o gyflwyno gwaith, e.e.:**

- arddangos portffolio ac esbonio gwaith gorau dylanwadau celf, crefft a dylunio i grŵp o ddysgwyr a/neu athro
- i gynulleidfa ddethol o athrawon a rhieni fel uchod
- gwneud cyflwyniad ar sgrin o'r portffolio a chyflwyno i grwpiau megis uchod
- gwahodd adborth gan y gynulleidfa.

*parhad*

### **Beth sydd angen ei ddysgu**

#### **Sut i ddylunio a gwneud cyflwyniad o ganfyddiadau ymchwil drwy archwilio fformatau priodol, e.e.:**

- cyflwyniad anodedig llafar/gweledol, blog neu ddull arall ar y we
- cyfuniad o waith (llyfrau braslunio, ffolder o astudiaethau cefnogi a gwaith terfynol, ynghyd â chyflwyniad digidol o agweddau dethol o waith yn dangos dylanwadau gan artistiaid dethol)
- llyfr astudiaethau cyd-destunol penodol yn cynnwys delweddau o'r gwaith celf/dylunio/crefft a ddewiswyd gyda disgrifiad neu ddadansoddiad o'r gwaith nesaf at (ar dudalen gyferbyn) ffotograff o'ch gwaith eich hun a gwerthusiad o'ch gwaith eich hun, gan ddisgrifio dylanwadau.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Dangos sut mae syniadau pobl eraill yn dylanwadu ar eich gwaith eich hun</b>			
1A.1 Nodi dylanwad un ymarferydd celf a dylunio hanesyddol ac un cyfoes ar eich gwaith eich hun. #	2A.LI1 Nodi ac anodi dylanwad o leiaf bedair enghraifft o waith o fudiadau hanesyddol a chyfoes ar eich gwaith eich hun. #	2A.T1 Ymchwilio i ddylanwad amrywiaeth eang o ymarfer hanesyddol a chyfoes o wahanol fudiadau ar eich gwaith, gan gofnodi canfyddiadau ac anodi ffynonellau. #	2A.Rh1 Dadansoddi dylanwad amrywiaeth eang o ymarfer hanesyddol a chyfoes o wahanol fudiadau ar eich gwaith, gan gofnodi canfyddiadau ac anodi ffynonellau. #
<b>Nod dysgu B: Cyflwyno canlyniadau ymchwil mewn fformat priodol</b>			
1B.2 Cyflwyno gwybodaeth am astudiaethau o waith pobl eraill. #	2B.LI2 Cyflwyno gwybodaeth am ganfyddiadau ymchwil ac astudiaethau i waith pobl eraill mewn fformat priodol, gan ddisgrifio eich proses weithio. #	2B.T2 Cyflwyno'n rhesymegol wybodaeth am ganfyddiadau ymchwil ac astudiaethau i waith pobl eraill gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau cyflwyno effeithiol, gan adolygu eich proses weithio. #	2B.Rh2 Cyflwyno'n ddychmygus wybodaeth am ganfyddiadau ymchwil ac astudiaethau i waith pobl eraill gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau cyflwyno creadigol, gan ddadansoddi eich proses weithio. #

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw amrywiaeth eang o wybodaeth celf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes o amrywiaeth eang o ffynonellau. Byddai'n ddelfrydol cael ystafell ddosbarth neu ofod stiwdio sy'n cynnig modd i ddangos amrywiaeth o ddarlithoedd eglurhaol ac sydd ag adnoddau arbenigol ymarferol. Mae'n hanfodol cael defnydd o offer recordio digidol a'r rhyngwyd er mwyn i ddysgwyr allu elwa o amrywiaeth o wybodaeth ymchwil a thechnegau cyflwyno creadigol. Mae canolfan adnoddau dysgu gydag adnoddau da yn hanfodol i dysgwyr gael mynediad i ddeunydd printiedig helaeth.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu casglu a chofnodi o wybodaeth ar enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o waith pobl eraill gan ddefnyddio nodiadau cryno gyda delweddau. Ar y cychwyn bydd yr wybodaeth hon yn cael ei dewis yn bennaf o ddeunydd cyd-destunol gaiff ei ddarparu gan yr athro. Bydd y dystiolaeth ar ffurf brasluniau ac astudiaethau gyda nodiadau cefnogi neu anodiadau gan ddefnyddio terminoleg gywir. Efallai y bydd rhaid i athrawon ddefnyddio datganiadau tystion neu fideo i ddarparu tystiolaeth ar allu dysgwyr i drafod ffyrdd y mae eu dewis artistiaid wedi defnyddio iaith weledol. Gall hyn gynnwys cyfraniadau dysgwyr tuag at sioeau sleidiau a thrafodaethau grŵp. Bydd dysgwyr ar y lefel hon yn dangos cymhwysedd yn eu harchwilio o waith pobl eraill a byddant yn dewis syniadau, iaith weledol, defnyddiau a phrosesau priodol a defnyddiwyd gan yr artist i hysbysu eu gwaith eu hunain, gan gynnig sylwadau ar y rhesymau dros eu dewisiadau gan ddefnyddio termau celf. Byddant yn nodi sut y mae eu gwaith eu hunain wedi cael ei ddylanwadu gan y gwaith y maent wedi'i astudio a byddant yn dangos peth sgil yn archwilio'r berthynas rhwng eu syniadau a'r defnydd o gyfryngau a rhai eu dewis waith celf. Byddant yn cyflwyno eu hymchwil a'u cofnodion o waith eu dewis artistiaid yn glir gan ddefnyddio dulliau cyflwyno sy'n briodol i'r deunydd gafodd ei astudio.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu dewis a chofnodi o amrywiaeth o wybodaeth o'u hymchwil i artistiaid hanesyddol a chyfoes, gan anodi eu dewis ddelweddau i greu amrywiaeth o ymatebion gwybodus. Byddant yn archwilio gwaith pobl eraill fel ysbrydoliaeth wrth ymchwilio i'w gwaith eu hunain yn greadigol a'i ddatblygu. Bydd tystiolaeth o'u hymchwil yn dod ar ffurf cyfuniad o astudiaethau ysgrifenedig a gweledol archwiliadol megis datganiadau, brasluniau a nodiadau a thafenni gwaith a llyfrau braslunio anodedig. Byddant yn defnyddio barn bersonol wrth gynnig sylwadau ar y gwaith gafodd ei astudio a sut y cafodd ei wneud, gan ddangos dealltwriaeth ddisgrifiadol yn bennaf, ond yn gynyddol ddadansoddiadol. Byddant yn defnyddio iaith weledol yn effeithiol wrth gofnodi o ddelweddaeth pobl eraill mewn amrywiol gyd-destunau a byddant yn gallu archwilio'r berthynas rhwng eu syniadau a'u defnydd o gyfryngau a rhai eu dewis waith celf gyda pheth sgil ac annibyniaeth. Byddant yn cyflwyno gwybodaeth gydlynol wedi'i threfnu'n dda wedi'i dewis o gofnodion eu hymchwil i waith eu dewis artistiaid gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyflwyno creadigol a gan ddefnyddio amrywiaeth briodol o derminoleg celf.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn gallu ymchwilio, dewis a chofnodi o amrywiaeth eang o wybodaeth ar artistiaid hanesyddol a chyfoes, gan ddadansoddi eu dewis i greu amrywiaeth o ymatebion a gweithio'n annibynnol. Gall tystiolaeth ar gyfer hyn fod drwy llyfrau braslunio anodedig, nodiadau a darnau ysgrifenedig ar weithiau dethol, gyda dysgwyr yn dangos barn bersonol a sgiliau dadansoddi yn eu hastudiaethau o syniadau ac ymagweddau artistiaid. Bydd dysgwyr yn archwilio amrywiaeth eang o waith pobl eraill, gan geisio ysbrydoliaeth ar gyfer cynhyrchu a datblygu eu gwaith eu hunain mewn ffordd greadigol a dychmygus. Bydd tystiolaeth yn cael ei darparu drwy astudiaethau gweledol y dysgwyr ac yn eu dadansoddiad o ddetholiad dychmygus o enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o waith pobl eraill, gan ddangos geirfa feirniadol wybodus. Byddant yn defnyddio iaith weledol yn ddychmygus ac yn gweithio'n annibynnol wrth recordio o ddelweddau pobl eraill mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddant yn dadansoddi sut y mae eu gwaith eu hunain wedi cael ei ddylanwadu gan y gwaith y maent wedi'i astudio, gan anodi eu brasluniau ac archwilio'r berthynas rhwng eu syniadau a'r defnydd o gyfryngau a'r hyn a geir yn eu dewis waith celf. Byddant yn creu cyflwyniad diddorol o'u hymchwili i artistiaid eraill, gan ddangos gwybodaeth bersonol, ddealladwy ac wedi'i strwythuro'n dda gan ddefnyddio amrywiaeth o dulliau cyflwyno dychmygus. Gallai tystiolaeth fod ar ffurf arddangosfa o waith terfynol ynghyd â llyfrau braslunio anodedig, ffolderi prosiect a samplau o gyfryngau, defnyddiau a thechnegau a gallai gynnwys cyflwyniad digidol gyda deunydd gweledol ac ysgrifenedig i'w gefnogi.

### Lefel 1

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu casglu a chofnodi o amrywiaeth gyfyngedig o wybodaeth ar eu dewis artistiaid gan ddefnyddio nodiadau cryno gyda delweddau i gofnodi eu canfyddiadau. Gall fod angen anogaeth arnynt i ymateb i gwestiynau yn ystod sioeau sleidiau ac efallai y gwnânt gyfraniadau cyfyngedig i drafodaethau wrth edrych ar fudiadau, unigolion a gwahaniaethau diwylliannol allweddol. Bydd angen i athrawon ddefnyddio taflenni arsylwi i gofnodi cyfraniadau dysgwyr unigol yn ystod sesiynau tiwtorial neu gyda grwpiau bach a gallent wneud fideo o gyfweiliadau lle mae dysgwyr yn siarad am eu gwaith eu hunain a gwaith a dylanwadau artistiaid eraill. Gall taflenni cofnodi arsylwadau a datganiadau tystion fod yn hanfodol ar y lefel hon i gofnodi tystiolaeth o allu dysgwyr i wneud ymchwil ac i gynnig sylwadau priodol ar eu dewis artistiaid. Bydd gwybodaeth a gesglir yn cael ei dewis yn bennaf o ddeunydd cyd-destunol gaiff ei ddarparu gan yr athro. Efallai y bydd defnydd dysgwyr o dermau celf yn gyfyngedig i ymadroddion a therminoleg syml. Efallai y bydd eu gwaith ysgrifenedig yn rhestrau o eiriau i gefnogi eu disgrifiadau llafar. Bydd eu dealltwriaeth o'r elfennau ffurfiol yn gyfyngedig i enwi ac adnabod geiriau priodol. Byddant yn dangos defnydd cyfyngedig o'r elfennau ffurfiol wrth gofnodi o waith pobl eraill ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o sut i ddefnyddio syniadau, dyluniadau, technegau a phrosesau pobl eraill yn eu gwaith eu hunain. Wrth gyflwyno eu gwaith, bydd dysgwyr yn dangos eu hymchwili a chofnodion o waith eu dewis artistiaid gan ddisgrifio, mewn termau syml, sut y mae'n dylanwadu ar eu gwaith eu hunain gan ddefnyddio dulliau cyflwyno syml.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	Profi'r Cysylltiad	Mae dylunydd yn blogio am y ffordd y mae artistiaid, crefftwyr, dylunwyr, ysgrifenwyr a gwneuthurwyr ffilmiau eraill wedi ei helpu i ddatblygu ei hunaniaeth greadigol. Mae'n gwneud cysylltiadau gyda gwahanol agweddau o waith pobl eraill, gyda sylwadau sy'n cysylltu â darnau penodol o'i g/waith ei hun.	Defnyddio datganiadau tystion a thafleuni arsylwi i: arsylwi a chofnodi gweithgaredd dysgwyr a'u cynnydd wrth weithio; cofnodi trafodaethau dysgwyr gyda grwpiau a'r gallu i gyfathrebu; arsylwi a chofnodi cyflwyniadau terfynol dysgwyr.  Adolygiad parhaus y dysgwyr eu hunain o'u cynnydd a hunanwerthuso gyda thystiolaeth datganiadau, nodiadau a thafleuni gwaith a llyfrau braslunio anodedig.
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Damcaniaethau ar Waith	Mae myfyriwr coleg celf yn paratoi ei ymchwil ar ôl treulio mis yn astudio gwaith arlunwyr yr Almaen o'r 1980au. Maen nhw'n ystyried gwaith artistiaid megis Kippenberger, Oehlen a Polke a ph'un a allent ddefnyddio egwyddorion yn eu gwaith wrth gyflwyno'r canfyddiadau.	Tystiolaeth o astudiaethau gweledol o bortffolio o waith cyfredol a therfynol.  Cofnodi o waith celf pobl eraill; y defnydd o elfennau ffurfiol a iaith weledol.  Gwaith celf cyfredol dysgwyr yn dangos dylanwad o'u dewis o waith celf.  Trafodaethau mewn grwpiau a chyfraniadau tiwtorial; tystiolaeth o ddadansoddi ar waith mewn llyfrau braslunio, anodiadau tafleuni gwaith, nodiadau, ffeiliau a darnau ysgrifennu estynedig.  Arddangosfa, arddangosiad, ffolder o waith, llyfrau braslunio, ffeiliau nodiadau, sioe ddigidol, arddangosiad gwefan, mewnwyd ysgol/coleg, blog personol, y defnydd o wefannau rhwydweithio cymdeithasol.



# Uned 17: Celf, Crefft a Dylunio yn y Diwydiannau Creadigol

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi'n gwybod faint o swyddi gwahanol sydd ar gael o fewn celf, crefft a dylunio? Efallai y byddwch yn synnu ar yr amrywiaeth a'r cyfoeth sydd ar gael.

Bydd gwrando ar ymarferwyr a siarad gyda nhw yn eich helpu i ennill dealltwriaeth wirioneddol o'r amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith sydd ar gael o fewn pob maes arbenigol celf, crefft a dylunio.

Byddwch yn gwneud ymchwil i wahanol fathau o sefydliadau a'r gwaith y mae unigolion yn ei wneud o fewn pob un ac yn archwilio gwahanol agweddau o'r diwydiant celf a dylunio. Efallai y cewch y cyfle i ymweld a lleoliadau gwaith creadigol, megis stiwdios celf neu ffilm a theledu a swyddfeydd dylunio, gan gwrdd â phobl sy'n gweithio yno.

Bydd eich athrawon yn eich cefnogi i wneud ymchwil i gyfleoedd cyflogaeth a byddwch yn creu log o gyfleoedd gyrfa lle byddwch yn cofnodi rolau pobl sy'n gweithio mewn sefydliadau gwahanol. Mae'n bwysig eich bod yn dysgu sut mae sefydliadau'n defnyddio unigolion, boed y rheiny'n llawrydd neu'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol, a sut mae sefydliadau ac unigolion yn cyrraedd eu nodau.

Bydd defnyddio'r wybodaeth hon yn eich helpu i ddewis pa unedau neu gwrs arbenigol i'w dilyn er mwyn datblygu eich set eich hun o sgiliau i gyd-fynd â'r hyn rydych eisiau ei wneud.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A archwilio'r gwahanol lwybrau gyrfa, rolau a chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o fewn y diwydiannau creadigol
- B ymchwilio i'r gwahanol sgiliau a gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer llwybrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol a chyflwyno gwybodaeth.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p><b>Nod dysgu A: Archwilio'r gwahanol lwybrau gyrfa, rolau a chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o fewn y diwydiannau creadigol</b></p>
<p><b>Sut i adnabod sefydliadau priodol ar gyfer ymchwil, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• grwpiau dylunio, tai ffasiwn, cwmnïau animeiddio, canolfannau celf a dylunio, asiantaethau darlunio a chelfyddyd gain, cwmnïau amlgyfrwng, cwmnïau dylunio, cyhoeddwyr meddalwedd, cwmnïau cysylltiadau cyhoeddus a chwmnïau marchnata, stiwdios teledu a ffilm, papurau newydd a chylchgronau, asiantaethau hysbysebu, adrannau cyfrifiaduron a delweddu digidol, theatrau, cwmnïau pensaernïol, cwmnïau dylunio mewnol ac addurno, celfyddydau cymunedol.</li> </ul> <p><b>Sut i wneud ymchwil i wahanol lwybrau gyrfa o fewn y diwydiant creadigol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael trafodaethau gydag athrawon a chyfoedion i archwilio meysydd posibl i ymchwilio iddynt (llwybrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol; sut mae llwybrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol yn amrywio'n fawr)</li> <li>• defnyddio arbenigedd arweiniad gyrfaoedd ac adnoddau printiedig o'r llyfrgell gyrfaoedd, gwefannau</li> <li>• defnyddio'r rhyngwyd ar gyfer ymchwil, er enghraifft porth gwe'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer dylunio, Creative Choices; blogiau dylunwyr nodedig</li> <li>• gwneud ymchwil i brosbectysau colegau a phrifysgolion ar gyfer yr amrywiaeth eang o gyrfa sydd ar gael</li> <li>• archwilio cylchgronau dylunio a chyfnodolion creadigol yn dangos gwaith gwahanol ymarferwyr cyfoes</li> <li>• cynllunio ymweliadau i weithdai a stiwdios artistiaid a dylunwyr ac yna cofnodi'r canfyddiadau fel astudiaethau achos</li> <li>• archwilio technegau holi cwestiynau (cwestiynau agored yn erbyn rhai caeedig)</li> <li>• gofyn caniatâd i dynnu lluniau neu wneud fideo o gyfweiliadau</li> <li>• cynhyrchu fideo neu gofnod ffotograffig o'r cyfweiliad byw</li> <li>• siarad â chyn ddysgwyr neu ymarferwyr proffesiynol am eu dewis lwybrau o feysydd celf, crefft a dylunio, a gwrando arnyn nhw; gall hyn fod yn fyw wyneb yn wyneb neu drwy wyllo llif fideo, ar Facebook neu Drydar yr ymarferwyr yn siarad drwy eu gwefan.</li> </ul> <p><b>Sut i gofnodi canfyddiadau ymchwil drwy, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio cyfleusterau megis llungopïo, sganio, ffotograffiaeth, fideo/DVD, amlgyfrwng a chreu log parhaus sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd; rhannu canfyddiadau drwy agregu gwybodaeth ar-lein</li> <li>• categoreiddio gwybodaeth am y cyfleoedd gyrfa amrywiol yn y diwydiannau creadigol</li> <li>• paratoi holiaduron er mwyn edrych ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>o rolau gwahanol weithwyr creadigol</li> <li>o sut mae pobl yn anelu am un yrfa ac yn diweddu ar lwybr gwahanol</li> <li>o pa bosibiliadau sydd yna ar gyfer symud i fyny</li> <li>o manteision ac anfanteision bod yn hunan-gyflogedig.</li> </ul> </li> </ul>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Ymchwilio i'r gwahanol sgiliau a gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer llwybrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol a chyflwyno gwybodaeth****Sut i ymchwilio i'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer swyddi celf, crefft a dylunio o fewn y diwydiannau creadigol, e.e.:**

artist hunangyflogedig, cyfarwyddwr dylunio, dylunydd iau, dylunydd llawrydd, dylunydd cartref, ymgynghorydd dylunio, artist cysyniadol, gweithiwr celf, dylunydd amlgyfrwng, dylunydd gwefannau, darlunydd, dylunydd graffig, artist neu ddylunydd tecstilau, dylunydd cynnyrch, ceramegydd, crefftwr, gwarchodwr, dylunydd ffasiwn, dylunydd meddalwedd, animeiddydd, dylunydd gemau, artist cyfrifiadurol a rhyngweithiol/amlgyfrwng, artist effeithiau arbennig, gwneuthurwr modelau, ffotograffydd, cyfarwyddwr celf, dylunydd 3D, ysgrifennwr copi, teipograffydd, artist amgylcheddol.

**Sut y gall rolau swyddi fod yn gydgyssylltiedig e.e.:**

- archwilio sut y gallai swydd mewn dylunio graffig gwmpasu nifer o rolau swyddi
- cymharu rolau swyddi mewn gwahanol ddiwydiannau.

**Maes ehangach rolau swyddi creadigol, e.e.:**

- gweinyddwr y celfyddydau
- cynhyrchydd
- curadur
- swyddog ariannu
- swyddog marchnata
- gweithiwr cyswllt.

**Ymchwilio i ofynion rolau swydd, drwy e.e.:**

- gwneud ymchwil i wybodaeth am ofynion swydd
- rhestru a blaenoriaethu gofynion
- ymchwilio i sut mae gofynion o fewn rolau swyddi'n newid wrth i dechnoleg symud ymlaen
- cyfweld cyflogwyr a chyflogedigion
- ymchwilio i hunangyflogaeth a sut mae'n gweithio.

**Sgiliau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer rôl swydd benodol, e.e.:**

- efallai y bydd angen y canlynol ar gyflogai mewn gweithdy dylunio a thechnoleg 3D:
  - gwybodaeth fanwl am y defnydd diogel o offer a chyfarpar
  - gwybodaeth ar sut i ddefnyddio offer digidol cymhleth
  - gwybodaeth gyfredol am dechnoleg newydd.

*parhad*

## Beth sydd angen ei ddysgu

**Sut mae angen gwahanol nodweddion personol ar gyfer rolau swydd penodol, e.e.:**

- lefel dibynadwyedd
- priodweddau arweinyddiaeth
- sgiliau hunan-reoli
- galluoedd meddwl yn greadigol
- cyfathrebu gydag eraill yn glir a chadarnhaol
- hunan-hyrwyddo drwy CV cyfredol, sgiliau a phortffolio perthnasol
- lefel o hyblygrwydd.

**Amodau gwaith, e.e.:**

- manteision ac anfanteision hunan-gyflogaeth
- gweithio fel tîm
- amgylchedd gwaith angenrheidiol i wneud y rôl.

**Gwybodaeth berthnasol arall, e.e.:**

- dod o hyd i asiant addas fel gweithiwr hunangyflogedig
- hunan-hyrwyddo a hunan-gyhoeddusrwydd
- trefniadau gweithio hyblyg
- terfynau amser
- tâl salwch
- absenoldeb mamolaeth
- pensiynau.

**Sut i gyflwyno deunydd ymchwil, e.e.:**

- creu astudiaeth achos i ddangos cymariaethau
- creu blog parhaus o wybodaeth ar yrfaeodd a rolau swydd yn y diwydiannau creadigol
- defnyddio delweddau i ddangos amodau gwaith, stiwdios, lleoliadau, samplau o waith creadigol, sgrin luniau, clipiau ffilm, defnydd o god HTML ac ati
- disgrifio rolau swydd gyda dyfyniadau cefnogi o gyfweiliadau gydag ymarferwyr mewn dyddiadur parhaus dros gyfnod y cwrs
- cyflwyno gwybodaeth yn ddigidol ar ffurf sioe anodedig neu animeiddiad ar sgrin
- creu dyddiadur fideo o wybodaeth gyda chefnogaeth cyfweiliadau byw neu rai wedi'u lawrlwytho gydag ymarferwyr
- ffeil barhaus o wybodaeth wedi'i choladu a'i chategoreiddio dros gwrs yr uned
- uwchlwytho i safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Archwilio'r gwahanol lwybrau gyrfa, rolau a chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o fewn y diwydiannau creadigol</b>			
1A.1 Nodi o leiaf bedwar gwahanol lwybr gyrfa mewn celf, crefft a dylunio yn y diwydiannau creadigol, gan restru eu prif rolau.	2A.LI1 Nodi o leiaf wyth gwahanol lwybr gyrfa mewn celf, crefft a dylunio yn y diwydiannau creadigol, gan ddisgrifio eu prif rolau.	2A.T1 Ymchwilio i lwybrau gyrfa amrywiol mewn celf, crefft a dylunio yn y diwydiannau creadigol, gan gofnodi canfyddiadau ac esbonio eu prif rolau.	2A.Rh1 Dadansoddi llwybrau gyrfa amrywiol mewn celf, crefft a dylunio yn y diwydiannau creadigol, gan gofnodi canfyddiadau a gwerthuso eu prif rolau.
<b>Nod dysgu B: Ymchwilio i'r gwahanol sgiliau a chymwysterau sy'n angenrheidiol ar gyfer llwybrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol a chyflwyno gwybodaeth</b>			
1B.2 Nodi'r cymwysterau neu'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer pob llwybr gyrfa a ymchwiliwyd.	2B.LI2 Disgrifio'r cymwysterau a'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer rolau swydd posibl ym mhob llwybr gyrfa a ymchwiliwyd.	2B.T2 Esbonio nodweddion y cymwysterau a'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer rolau swydd penodol ym mhob llwybr gyrfa a ymchwiliwyd.	2B.Rh2 Dadansoddi nodweddion y cymwysterau a'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer rolau swydd amrywiol ym mhob llwybr gyrfa a ymchwiliwyd.
1B.3 Cyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio fformat syml. #	2B.LI3 Cyflwyno ymchwiliadau, gan ddefnyddio fformat priodol, gan adolygu adborth. #	2B.T3 Cyflwyno canfyddiadau ymchwiliadau mewn ffordd berthnasol a rhesymegol, gan esbonio adborth. #	2B.Rh3 Cyflwyno canfyddiadau ymchwiliad amrywiol mewn ffordd ddychmygus a threfnus, gan werthuso adborth. #

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Mynediad i ymarfer proffesiynol, er enghraifft swyddogion addysg mewn amgueddfeydd ac oriellau, canolfannau crefft lleol neu unigolion sy'n ymarferwyr allai ymweld â'r ysgol neu ganiatáu mynediad i'w stiwdio (e.e. yn ystod wythnos y celfyddydau neu gyfnod stiwdio agored).

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn dangos tystiolaeth o ymchwiliadau i yrfaedd celf, dylunio a chrefft yn y diwydiannau creadigol. Bydd eu hymatebion yn ddisgrifiadol yn bennaf, gyda nodiadau, sganiau a chopïau i ddangos eu dewis o yrfaedd. Byddant yn amlinellu'n gryno fanteision ac anfanteision amodau gwaith o fewn rolau swydd o'u dewis gyda thrafodaethau wedi eu recordio ymhlith grŵp cyfoedion ac athrawon fel tystiolaeth. Bydd rhyngweithio gydag ymarferwyr sydd naill ai'n ymweld â'r ganolfan neu yn eu hamgylchedd waith yn darparu tystiolaeth o ddealltwriaeth dysgwyr o rolau swydd. Bydd holiaduron dysgwyr (wedi eu paratoi gyda help yr athro) ac ymatebion eu dewis ymarferwyr, ynghyd â datganiadau tystion, yn dystiolaeth o'u dealltwriaeth a'u gallu i ddod o hyd i wybodaeth briodol. Dylai eu hymchwil i yrfaedd gynnwys o leiaf wyth gwahanol fath o lwybr gyrfa ar draws meysydd arbenigol celf, crefft a dylunio. Dylai tystiolaeth gynnwys beth fyddai'n ddisgwyliedig o ran cyfartaledd cyflog, cyfartaledd oriau gwaith yr wythnos, cymwysterau a nodweddion personol angenrheidiol ar gyfer pob swydd. Bydd dysgwyr yn crynhoi canfyddiadau eu hymchwil, gan wneud dewisiadau priodol a dilyn trefn briodol. Wrth gyflwyno eu canfyddiadau ymchwil byddant yn defnyddio termau arbenigol wrth ddisgrifio'r cynnwys a'r gofynion. Byddant yn creu ac yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau i gefnogi eu cyflwyniad. Gallai tystiolaeth ar gyfer adolygu eu cyflwyniad ddod ar ffurf holiadur syml i ddarparu adborth.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu dewis a chofnodi o amrywiaeth o wybodaeth o'u hymchwil i yrfaedd celf, crefft a dylunio yn y diwydiannau creadigol, gan anodi eu dewis o enghreifftiau o lwybrau gyrfa. Byddant yn archwilio amrywiaeth eang o rolau swydd creadigol ar draws meysydd arbenigol celf, crefft a dylunio, gan ddisgrifio gofynion y rôl ac esbonio manteision ac anfanteision y manylebau ar gyfer gwahanol fathau o swyddi. Daw tystiolaeth o'u hymchwil drwy gyfuniad o ddeunydd gweledol ac ysgrifenedig anodedig o wahanol ffynonellau wedi'i gefnogi gan eu sylwadau a'u ysgrifennu estynedig eu hunain. Gallai'r dystiolaeth gynnwys trawsgrifiadau'r dysgwyr o gyfweiliadau gydag ymarferwyr proffesiynol, yn cynnwys delweddau anodedig o'u gwaith. Byddant yn defnyddio barn bersonol wrth gymharu manteision ac anfanteision rolau swydd, gan ddefnyddio termau disgrifiadol yn bennaf ond gyda dealltwriaeth gynyddol, gan grynhoi eu hymchwil yn effeithiol a chydabod eu ffynonellau. Byddant yn dewis ac yn coladu eu gwybodaeth ar yrfaedd a rolau swydd, gan ymchwilio i'r dulliau mwyaf priodol o gyflwyno eu canfyddiadau, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyflwyno ac ystod o derminoleg celf.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2** Rhagoriaeth yn gallu dadansoddi gwybodaeth ar yrfaeodd celf, crefft a dylunio yn y diwydiannau creadigol i greu amrywiaeth o ymatebion. Gall tystiolaeth ar gyfer hyn fod drwy wybodaeth anodedig, llyfrau braslunio o ddelweddau wedi'u coladu a nodiadau gyda darnau ysgrifennu estynedig ar eu dewis o yrfaeodd. Bydd dysgwyr yn archwilio amrywiaeth eang o rolau swydd ar draws sbectrwm gyrfaeodd celf, crefft a dylunio, gan archwilio'r gwahanol fanylebau swydd a chymharu a chyferbynnu gofynion grŵp o swyddi sydd o ddiddordeb iddynt. Byddant yn gwerthuso manteision ac anfanteision rolau swydd dethol, gan ddangos barn bersonol a sgiliau dadansoddi yn eu hastudiaethau. Bydd tystiolaeth yn cael ei darparu drwy astudiaethau dysgwyr a'u dadansoddiad o ddetholiad o enghreifftiau o rolau swydd, gan ddefnyddio geirfa feirniadol wybodus. Bydd dysgwyr yn dyfeisio holiaduron priodol ac yn trefnu cyfweiliadau gydag ymarferwyr proffesiynol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddant yn archwilio'r berthynas rhwng syniadau ymarferwyr a'u defnydd o gyfryngau a sut mae eu gwaith wedi newid a datblygu i gwrdd â gofynion cleientiaid dros y blynyddoedd. Bydd dysgwyr yn creu cyflwyniad wedi'i gynllunio'n dda o'u hymchwil i yrfaeodd, gan ddangos gwybodaeth bersonol, gydlynol ac wedi'i strwythuro gan ddefnyddio amrywiaeth o dulliau cyflwyno dychmygus. Gall tystiolaeth fod yn arddangosfa o lyfrau braslunio anodedig, darnau ysgrifenedig neu astudiaethau achos darluniadol, ffolderi ac enghreifftiau o ddefnydd ymarferwyr o gyfryngau, defnyddiau a thechnegau. Gallai tystiolaeth hefyd gael ei chynhyrchu drwy greu fideo, drwy wybodaeth o'r we megis gwefan gyrfaeodd, drwy ysgrifennu blog neu drwy bostio ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

### **Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio ar **Lefel 1** yn canfod gwybodaeth sylfaenol am yrfaeodd celf, crefft a dylunio, wedi ei dethol yn bennaf o ddeunydd cyd-destunol wedi'i ddarparu gan yr athro. Byddant yn canfod swm cyfyngedig o wybodaeth ar y cymwysterau a'r profiad sydd ei angen ar gyfer pob gyrfa ac yn gwneud nodiadau byr neu restrau i gefnogi eu dealltwriaeth. Bydd ymchwiliadau dysgwyr i yrfaeodd a rolau swydd yn gyfyngedig i ddau neu dri chwiliad ar y we neu ar bapur. Efallai y bydd y dystiolaeth gliraf o ddealltwriaeth dysgwyr o rolau swydd i'w gweld drwy drafodaethau wedi eu recordio gydag ymarferwyr ar ymweliad. Byddant yn cyflwyno enghreifftiau gweledol o'u hymchwil gan ddefnyddio dulliau cyflwyno syml, er enghraifft ffeil neu lyfr gwaith. Gellir asesu canfyddiadau dysgwyr hefyd drwy gyflwyniadau, nodiadau cefnogi sylfaenol, arsylwadau athrawon a thrafodaethau wedi'u recordio, yn hytrach na thrwy dasgau ysgrifenedig ffurfiol.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	O Graffeg Symudol i Ddarlunio	Ar gyfer pob aseiniad: Mae myfyriwr dylunio graffig yn ymchwilio i yrfa yn y diwydiant ac mae angen archwilio ac edrych ar wahanol rolau swydd sy'n berthnasol i'w wybodaeth, ei sgiliau a'i brofiad.	Ar gyfer pob aseiniad: Defnyddio datganiadau tystion a thafleni arsylwi Arsylwi a chofnodi gweithgaredd dysgwyr a'u cynnydd wrth weithio Cofnodi trafodaethau dysgwyr gyda grwpiau a gallu i gyfathrebu Arsylwi a chofnodi cyflwyniadau terfynol dysgwyr Adolygiad y dysgwyr eu hunain o'u cynnydd a hunanwerthuso gyda thystiolaeth datganiadau, nodiadau a thafleni gwaith a llyfrau braslunio anodedig. Tystiolaeth o astudiaethau ysgrifenedig o bortffolio o waith cyfredol a chyflwyniad terfynol o ganfyddiadau Detholiadau dysgwyr wedi eu recordio o waith ymarferwyr a sylwadau ar eu defnydd o elfennau ffurfiol a iaith weledol.
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	O Rôl i Rôl Mewn Gyrfa	Mae ymarferydd proffesiynol yn amlinellu i grŵp o ddysgwyr y nifer o rolau swydd y mae wedi'i wneud o fewn ei yrfa fel dylunydd graffig.	Trafodaethau mewn grwpiau a chyfraniadau tiwtorial; tystiolaeth o ddadansoddi ar waith mewn llyfrau braslunio anodedig, tafleni gwaith, nodiadau, ffeiliau a darnau ysgrifennu estynedig.



# Uned 18: Briffiau Dylunio 3D

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol/Gorfodol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

## Cyflwyniad i'r uned

Meddyliwch am y pethau sydd o'n cwmpas yn ein bywyd bob dydd. Sut ydyn ni'n eu defnyddio? Beth yw eu pwrpas? Sut gawson nhw eu cynhyrchu? Dylunio tri dimensiwn yw'r broses o ddylunio a gwneud gwrthrychau. Mae angen i ddylunwyr ddeall nodweddion y defnyddiau y maen nhw'n eu defnyddio a'r technegau ar gyfer eu dylunio a'u cynhyrchu. Gall hyn gynnwys defnyddio meddalwedd dylunio a rendro 3D ac argraffu digidol 3D yn ogystal â sgiliau traddodiadol gwneud crefftau. Y gallu i gyfathrebu syniadau ac arddangos sgiliau gyda defnyddiau yw hanfod bod yn ddylunydd 3D. Mae angen i ddylunwyr allu ystyried cyd-destun eu cynnyrch neu ddyluniadau, Er enghraifft, oes modd ei wisgo, ei ddefnyddio, ei arddangos? Ydy e'n wrthrych domestig neu ddiwydiannol?

Yn yr uned hon byddwch yn ystyried y defnyddiau a'r 3D sydd ar gael i chi a pha rai sy'n iawn ar gyfer eich briff dylunio. Dylai eich gwaith archwilio dylunio 3D gynnwys dysgu am wahanol ddefnyddiau gwrthiannol ac anwrthiannol er mwyn i chi ddeall eu nodweddion a'u priodweddau a gwybod sut i'w trin. Bydd archwilio ymarferol gydag offer a defnyddiau yn helpu i hysbysu eich gwaith dylunio. Mae dylunwyr llwyddiannus yn gallu cyfuno eu sgiliau ymarferol gyda thechnoleg felly gallech ddatblygu eich syniadau drwy ddefnyddio sgiliau lluniadu a meddalwedd digidol.

Mae llawer o gynnyrch newydd yn ddatblygiadau o gynnyrch sydd eisoes yn bod, yn ailddluniadau neu'n addasiadau ar gyfer cynulleidfa newydd neu at bwrpas gwahanol. Mae dylunwyr yn aml yn edrych at fudiadau dylunio a chelf hanesyddol a chyfoes fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth ac ymchwil. Bydd yr uned hon yn eich helpu i ddefnyddio sgiliau datrys problemau creadigol gyda'r heriau hyn gan arwain at ddyluniadau arloesol a chyffrous. Byddwch yn ystyried eich cleientiaid neu eich cynulleidfa, y defnyddiau sydd ar gael, technoleg newydd a materion cyfredol megis defnyddiau cynaliadwy neu ddulliau cynhyrchu sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Gall dylunio tri dimensiwn eich symud at astudiaeth bellach o feysydd megis dylunio cerbydau modur, dylunio cynnyrch, crefft, dylunio setiau ffilm/theatr, dylunio gemau, dylunio diwydiannol (yn cynnwys dylunio cydrannau ar gyfer diwydiant), gemwaith, peirianeg, plastigau, cerameg, adeiladu, pecynnu a graffigwaith.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i nodweddion a phriodweddau gwaith dylunio 3D
- B archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau dylunio 3D
- C datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau dylunio 3D
- D cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff dylunio 3D

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i nodweddion a phriodweddau gwaith dylunio 3D</b>
<p><b>Sut i adnabod gwahanol nodweddion dylunio 3D, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• diffinio'r disgyblaethau ym maes dylunio 3D, megis dylunio cynnyrch, dylunio dodrefn, dylunio gemau, dylunio setiau, gwneud modelau, gemwaith, graffigwaith 3D</li> <li>• ymchwilio i faes dylunio 3D, yn cynnwys ymchwil ar y rhynggrwyd, arsylwi gwrthrychau'n bersonol, adolygu gwaith dylunio</li> <li>• dogfennu ymatebion i'r gwaith yr edrychwyd arno, gan archwilio nodweddion synhwyraidd neu weledol, disgrifio sut mae'n teimlo, sut mae'n edrych, beth yw ei ddefnydd a sut y gellir ei ddefnyddio</li> <li>• nodi enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o ddylunio 3D, defnyddio enghreifftiau gweledol ac adnabod y dylunwyr dan sylw</li> <li>• myfyrio ar ffactorau a nodweddion yr enghreifftiau 3D a ddewiswyd, defnyddiau a ddefnyddiwyd, estheteg gweledol, siâp, lliw, maint, gwead, ergonomeg, prosesau gweithgynhyrchu</li> <li>• datblygu gwerthusiad o nodweddion i gynnwys myfyrio ar gylchoedd bywyd cynhyrchion, cynaliadwyedd, problemau amgylcheddol, gwarediad, moeseg dulliau cynhyrchu, ymarferoldeb/addasrwydd i bwrpas, cynulleidfa darged/anghenion y gynulleidfa, costau.</li> </ul> <p><b>Cyflwyno canlyniadau ymchwiliad, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adolygiadau (llafar, gweledol, ysgrifenedig, synhwyraidd, cyffyrddol), llyfrau braslunio anodedig, cyflwyniadau mewn fformat priodol.</li> </ul>
<b>Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau dylunio 3D</b>
<p><b>Sut i ymateb i friffiau dylunio 3D e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymchwilio i ofynion y briff</li> <li>• pwy yw'r cleientiaid a beth yw eu hanghenion dylunio penodol</li> <li>• y terfyn amser ar gyfer cwblhau a chyfyngiadau ariannol</li> <li>• pa ddefnyddiau, offer a chyfarpar fydd eu hangen i gwrdd â'r briff</li> <li>• ymchwilio i waith tebyg gan ddylunwyr 3D proffesiynol</li> <li>• dyfeisio cynllun ar gyfer y prosiect cyfan</li> <li>• egluro'r broses ddylunio drwy drafodaethau gyda chyfoedion ac athrawon.</li> </ul> <p><b>Sut i archwilio prosesau a thechnegau gwneud 3D, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• prosesau a thechnegau – dulliau ac ymarfer: torri, cerfio, ffurfio, mowldio, modelu, argraffu 3D, adeiladu, uno, cydosod, gorffen.</li> </ul> <p><b>Iaith weledol 3D, sy'n cynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• elfennau ffurfiol – strwythur, cyfaint, gofod, pwysau, llinell, siâp, ffurf, lliw, arwyneb</li> <li>• defnyddiau gwrthiannol – prennau caled, prennau meddal, metelau caled a phlastigau, cerdyn trwchus</li> <li>• defnyddiau anwrthiannol – plastr gwlyb, clai, ffibrau, gwifren, llinyn, plastigau meddal, papurau, tecstilau, gwaiail, papier mache.</li> </ul> <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut mae iaith weledol 3D yn cael ei defnyddio mewn gwahanol ffyrdd mewn disgyblaethau 3D, e.e.:**

- cerflunio – clai, gwellt, plastr, pren, carreg, metel
- cerameg – clai, gwydro
- dylunio 3D – cerdyn, pren, meddalwedd 3D, rendro, tryheddiad (fly-throughs)
- gwneud modelau – pensaernïol, dylunio setiau, maquettes
- tecstilau 3D – ffibrau naturiol a gwneud, gwehyddu, adeiladu
- crefft – pren, metel, clai.

**Sut i archwilio defnyddiau a phrosesau mewn ymateb i friffiau dylunio 3D, e.e.:**

- dewis defnyddiau i'w defnyddio sy'n briodol i'r briff
- archwilio prosesau gwneud
- arbrofi gyda gwneud marciau 3D
- cyfuno gwahanol ddefnyddiau a phrosesau 3D
- creu darnau prawf a samplau
- ystyried nodweddion addasrwydd i bwrpas, y potensial am fynegiant creadigol, addasrwydd ar gyfer cyfuno os mai dyna'r bwriad
- anodi canlyniadau arbrofion – beth weithiodd yn dda a beth na wnaeth, a pham.

**Arferion gwaith 3D, sy'n cynnwys, e.e.:**

- dilyn arferion gwaith diogel – sylw i'r amgylchedd gwaith, dileu risgiau i chi eich hun ac i eraill, Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH)
- dilyn cyfarwyddiadau ar ddefnyddio offer, cyfarpar a thechnegau
- sut i ddewis ac archwilio defnyddiau a phrosesau sy'n cwrdd â gofynion briff dylunio 3D
- dewis a defnyddio offer a phrosesau – teclynnau llaw, gweithdy Cynllunio Drwy Gymorth Cyfrifiadur (CAD), prosesau gwlyb, caniatáu digon o amser i aersychu/tanio, castio, gwneud mowldiau, argraffu digidol 3D, prototeipio cyflym, torri laser
- sut i esbonio, rhesymu a chyfiawnhau'r dewis o ddefnyddiau
- sut i addasu a mireinio dewisiadau mewn ymateb i arbrofi, archwilio a phrofi, a gwerthuso penderfyniadau gafodd eu gwneud/cyfeiriadau gafodd eu dilyn
- sut i gofnodi cynnydd a phrosesu canlyniadau'r defnyddiau a'r prosesau a ddefnyddiwyd, yn cynnwys unrhyw brofion a threialon, cadw dyddlyfr cyfredol o arferion gwaith, defnyddio ffotograffiaeth i gofnodi samplau, anodi, defnyddio cofnodion dylunio gweledol, byrddau hwyliau, celf gysyniadol, cyflwyniadau, cyfleadau
- sut i gyflwyno samplau a darnau prawf i gwrdd â briff dylunio i gyfoedion a/neu gleient.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau dylunio 3D****Sut i gynhyrchu a datblygu syniadau mewn ymateb i friff drwy, e.e.:**

- defnyddio dulliau gwahanol megis: mapio meddwl – cyswllt geiriau, llamau creadigol; arloesol, gweledigaeth anarferol; siartiau corryn; trafodaeth un i un a/neu grŵp
- creu cynllun ar gyfer cynhyrchu
- casglu delweddau ac adnoddau angenrheidiol
- defnyddio cylch dylunio: ymchwilio, dylunio, adolygu a samplo
- cofnodi o ffynonellau cynradd i archwilio elfennau ffurfiol 3D sy'n briodol i'r briff
- ymchwilio i ffynonellau cyd-destunol 3D er mwyn ysbrydoli a hysbysu'r gwaith
- archwilio enghreifftiau eilaidd cyfoes priodol ar-lein ac o ddeunydd printiedig
- dewis a defnyddio manau cychwyn a defnyddiau ffynhonnell, deunydd testun, nodi bwriad creadigol, cymharu a chyferbynnu potensial amrywiaeth o fannau cychwyn
- casglu a dethol o wybodaeth weledol a gasglwyd, i'w ddefnyddio wrth ddatblygu gwaith dylunio, syniadau lluniadu, mân-luniau
- cofnodi cynnydd o ran ymateb i'r briff mewn llyfr braslunio, gan gadw nodiadau o'r camau gafodd eu cymryd i ddatblygu'r syniad, pa ddull/iau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu syniadau, lluniadu syniadau a chynlluniau
- dethol hoff syniadau o blith amrywiaeth o waith dylunio cychwynnol
- cynnal profion, adborth y gynulleidfa, samplo, gwneud modelau/maquettes
- cadw cofnod gwerthuso parhaus yn nodi pam a sut mae'r gwaith yn cael ei wneud, yn cynnwys adnabod cryfderau a gwendidau'r syniadau a'r defnyddiau a ddewiswyd
- defnyddio adborth i fireinio a datblygu syniadau.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i briff dylunio 3D****Sut i gynhyrchu canlyniad terfynol sy'n dangos ymateb i'r briff e.e.:**

- dewis o blith cyfres o maquettes, modelau a phrofion ar gyfer y syniad terfynol, dewis ar sail addasrwydd i bwrpas wrth gwrdd â'r briff
- dewis o blith eich darnau prawf y defnyddiau a'r technegau 3D mwyaf priodol i greu'r gwaith terfynol
- diwygio a mireinio gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen
- gwneud nodiadau a chadw cofnodion o gamau datblygu'r gwaith terfynol
- ymateb i adborth gan athrawon a chyfoedion
- cynhyrchu canlyniad terfynol sy'n cwrdd â gofynion y briff gan ddefnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau 3D dethol.

**Sut i werthuso ymateb i'r briff 3D, ac esbonio'n glir sut mae'r gwaith dylunio wedi cwrdd â gofynion y briff drwy, e.e.:**

- diffinio'r syniad neu'r syniadau sy'n cael eu cyfathrebu – y nodweddion sy'n cael eu cyfleu neu'r bwriad.
- dogfennu beth weithiodd yn dda a beth na wnaeth, a pham
- ystyried a oedd y dewis a'r defnydd o ddefnyddiau 3D yn cefnogi dyluniad y syniad
- meddwl am ba mor effeithiol y cafodd defnyddiau a phrosesau 3D eu dewis a'u defnyddio – pa sgiliau oedd ynghlwm a sut cawsant eu defnyddio
- gwerthuso a chyfiawnhau unrhyw newidiadau i ddefnyddiau, technegau wrth wneud modelau neu maquettes a'r defnydd o iaith weledol, esbonio pam y cafodd penderfyniadau eu gwneud i fireinio agweddau o'r gwaith dylunio
- myfyrio ar effaith gweledol y gwaith, a sut y daethpwyd i'r canlyniad hwn
- gwerthuso'r gyfatebiaeth rhwng bwriad a'r gwaith dylunio terfynol.

**Sut i gyflwyno canlyniad terfynol a'r holl waith cychwynnol cysylltiedig, gan ddefnyddio'r fformat cyflwyno mwyaf priodol, e.e.:**

- trefnu ymchwil, cynhyrchu syniadau, gwaith dylunio a 3D cychwynnol, a chanlyniadau terfynol mewn fformat priodol – llyfr brasluniau, maquettes, profion, canlyniad terfynol
- cofnodi a dangos profion, gwaith dylunio ar bapur ac unrhyw waith ar sgrin, dyluniadau priodol, samplau, maquettes a phrototeipiau
- paratoi cyflwyniad o'r canlyniad terfynol i gyfoedion a/neu gleient gan ddefnyddio cyflwyniad ar sgrin
- gallai'r gwaith cyflwyno fod yn 1:1, mewn grwpiau, yn y dosbarth, i gleientiaid dethol a'i gyflwyno'n weledol gyda chyfuniadau llafar neu ysgrifenedig fel sy'n briodol
- diffinio ymarfer gwaith a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r gwaith dylunio, gwerthuso ymateb i'r briff, ac esbonio'n glir sut y mae'r canlyniad wedi cwrdd â gofynion y briff
- diffinio syniad neu syniadau
- cofnodi a choladu gwybodaeth ac adborth yn sgil cyflwyno'r gwaith.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i nodweddion a phriodweddau gwaith dylunio 3D</b>			
1A.1 Nodi un enghraifft hanesyddol ac un enghraifft gyfoes o ddylunio 3D, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol ac amlinellu gwaith y dylunwyr. #	2A.LI1 Disgrifio o leiaf ddwy enghraifft hanesyddol a dwy enghraifft gyfoes o ddylunio 3D, gan adnabod y dylunwyr dan sylw a dangos rhai o'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #	2A.T1 Adolygu a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o ddylunio 3D yn effeithiol, gan adnabod y dylunwyr dan sylw ac esbonio'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #	2A.Rh1 Adolygu a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o ddylunio 3D yn ddychmygus, gan adnabod y dylunwyr dan sylw a gwerthuso'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #
<b>Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau dylunio 3D</b>			
1B.2 Defnyddio o leiaf un defnydd gwrthiannol neu anwrthiannol mewn ymateb i friff 3D, gan ddefnyddio arferion gwaith diogel.	2B.LI2 Dewis a defnyddio defnyddiau a phrosesau i gynhyrchu gwaith dylunio sy'n cwrdd â gofynion briff dylunio 3D, gan gadw at arferion gwaith diogel a'u cofnodi. *	2B.T2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau dylunio 3D amrywiol i gynhyrchu gwaith gweledol sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau dylunio 3D, gan ddisgrifio'r technegau a ddefnyddiwyd. *	2B.Rh2 Dewis a chymhwysio defnyddiau, technegau a phrosesau dylunio 3D amrywiol i gynhyrchu a chyflwyno gwaith gweledol creadigol sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau dylunio 3D, gan ddadansoddi'r technegau a ddefnyddiwyd. *

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau dylunio 3D</b>			
1C.3 Defnyddio o leiaf un syniad a gwaith gweledol mewn ymateb i friffiau dylunio 3D.	2C.LI3 Dewis a defnyddio o leiaf ddau syniad a gwaith gweledol sy'n cwrdd â gofynion briffiau dylunio 3D.	2C.T3 Defnyddio ac ymestyn syniadau amrywiol a gwaith gweledol sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau dylunio 3D.	2C.Rh3 Defnyddio ac ymestyn syniadau amrywiol dychmygus a gwaith gweledol creadigol sy'n cwrdd yn llwyddiannus â gofynion briffiau dylunio 3D.
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff dylunio 3D</b>			
1D.4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friffiau dylunio 3D.	1D.LI4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briffiau dylunio 3D, gan ddisgrifio eich proses weithio.	1D.T4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau dylunio 3D, gan adolygu eich proses weithio.	1D.Rh4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad dychmygus sy'n cwrdd yn llwyddiannus â gofynion briffiau dylunio 3D, gan ddadansoddi eich proses weithio.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Gall darparu'r uned hon fod yn hyblyg gan ddibynnu ar yr adnoddau a'r dechnoleg sydd ar gael ym mhob canolfan. Prif ffocws yr uned yw bod dysgwyr yn gallu cynhyrchu gwaith dylunio a dod i ddeall y diwydiant dylunio 3D.

Ar gyfer eu gwaith dylunio, bydd angen i ddysgwyr allu cael gafael ar ddefnyddiau lluniadu sylfaenol ac offer digidol, megis camerâu, sganwyr a meddalwedd CAD PC/Mac, er mwyn iddynt allu cyfieithu eu syniadau 2D yn ddylunio wedi'i fynegi'n ddigidol a thafleini cyflwyno neu ddyluniadau cyflawn. Argymhellir cael rhai defnyddiau a theclynnau arbenigol, er enghraifft gefeiliau, gwifren, persbecs, ffurfydd â gwactod, llifiau, driliau, gynnu gwres, pren balsa, gynnu glud, clai a theclynnau cysylltiedig i wneud maquettes, samplau neu ddarnau gorffenedig. Mae adnoddau delfrydol yn cynnwys cyfrifiaduron gyda meddalwedd wedi'i gysylltu ag argraffwyr fformat mawr, torrwr laser ac argraffydd digidol 3D. Os nad yw'r rhain ar gael mewn canolfannau, gellid creu cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol neu ganolfannau cyfagos i rannu adnoddau ac offer a gwneud y dysgu'n gyfredol ac yn gysylltiedig â diwydiant.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu adnabod o leiaf ddwy enghraifft hanesyddol a dwy enghraifft gyfoes o ddylunio 3D. Dylai athrawon fod yn ymwybodol mai dyma leiafswm y gofynion. Dylai dysgwyr anelu at weithio y tu hwnt i hyn. Bydd dysgwyr yn defnyddio eu hymchwil i ddatblygu syniadau a gwaith gweledol sy'n cwrdd â gofynion y briff. I gyflawni hyn bydd rhaid iddynt ddatblygu dealltwriaeth o beth sydd ei angen ar y briff. Byddant yn dangos eu proses weithio; sut y gwnaethant ddatblygu eu syniad dylunio a dewis defnyddiau a thechnegau oedd yn briodol i'w bwriadau. Bydd eu defnydd dilynol o ddefnyddiau, technegau a phrosesau yn cwrdd â gofynion sylfaenol y briff.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu datblygu syniadau amrywiol sy'n cwrdd â gofynion y briff. Mae eu meddwl yn debygol o fod yn fwy hylifol ac ymatebol i ganlyniadau unrhyw brofion, samplau ac arddangosiadau y maent wedi eu gweld neu wedi cymryd rhan ynddynt. Bydd ganddynt reolaeth gyson dros dechneg, a bydd eu canlyniad yn effeithiol wrth gwrdd â'r briff. Byddant yn gallu disgrifio'r gwahanol gamau yn eu gwaith dylunio ac yn gallu myfyrio ar gryfderau a meysydd ar gyfer datblygu. Byddant yn galluesbonio'n glir nodweddion gwaith pobl eraill y maent wedi ymchwilio iddynt.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn gallu datblygu amrediad eang o syniadau. Byddant yn dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau yn annibynnol gyda hyder a phwrpas gwirioneddol. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth o ofynion y briff ac yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw heriau sy'n codi yn eu harbafion a datblygiad y dylunio. Bydd eu canlyniad yn dangos dull dychmygus a chreadigol tuag at gwrdd â'r briff. Bydd eu cyflwyniad wedi ei gynhyrchu'n annibynnol a byddant yn ymateb yn gadarnhaol i adborth. Byddant yn gwerthuso nodweddion y gwaith y maent wedi gwneud ymchwil iddo. Byddant yn myfyrio ar addasrwydd i bwrpas eu harfer gwaith eu hunain, ac yn gwerthuso'n eglur eu gwaith dylunio a'u hymagweddau tuag at ddefnyddio defnyddiau.



**Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu gwneud tasgau arferol i gasglu gwybodaeth am ddylunio 3D ac am arferion gwaith ymarferwyr. Gall canfyddiadau dysgwyr gael eu hasesu drwy gyflwyniadau, gyda chefnogaeth nodiadau anodedig sylfaenol, yn hytrach na thasgau ysgrifennu ffurfiol. Bydd gwaith y dysgwyr yn cynhyrchu syniadau'n dangos ymateb i'r briff ond ni fydd o anghenraid yn cwrdd â'i ofynion. Gall dysgwyr weithio gydag un syniad yn hytrach nag archwilio dewisiadau amgen. Bydd eu gallu i ddod â syniad yn fyw trwy ddylunio yn gyfyngedig. Bydd eu gwaith archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau i brofi a samplo yn gyfyngedig a gall unrhyw ganlyniadau gael eu hadnabod ond heb eu defnyddio i hysbysu'r broses ddylunio. Bydd eu canlyniad yn dangos eu bod wedi archwilio o leiaf un defnydd gwrthiannol neu anwrthiannol ar lefel sylfaenol. Gallant lwyddo i raddau cyfyngedig wrth ddefnyddio a rheoli'r offer a'r prosesau technegol sydd ynghlwm wrth y gwaith.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	Cynnau'r Golau	Mae cwmni sy'n cynhyrchu goleuadau a gosodiadau'n comisiynu dylunydd i edrych ar hanes y bwlb golau ac effaith technoleg ar y dyluniad i gefnogi dyluniad eu cynnyrch nesaf.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau.
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Gwresogi'r Ystafell	Mae cwmni dylunio mewnol wedi comisiynu dylunydd i archwilio dulliau amgen i ddefnyddio defnyddiau i hyrwyddo effeithiau cynnes a chysurus mewn amrediad o ddodrefn a gorchuddion wal arloesol.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2, 1C.3, 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3, 1D.4, 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Gwyrdd a Godidog	Mae dylunydd yn cael briff i ddylunio gwrthrychau coeth a moethus ar gyfer cyntedd gwesty yn seiliedig ar themâu 'moeth, cynaliadwyedd ac ailgylchu'. Mae'n edrych ar iardiau sbwriel a'r technolegau ynni isel diweddaraf am ysbrydoliaeth.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid, darnau terfynol, arddangosfa.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1D.4, 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Dan y Bwa	Mae pensaer iau yn cyflwyno syniadau dylunio a datblygiadau gyda maquettes ar fynedfa i ddatblygiad adeiladu newydd, fel rhan o gomisiwn gan gleient. Mae gan y cleient ddiddordeb arbennig mewn defnyddio bwa ar gyfer y fynedfa.	Cyflwyno'r canlyniad a'r gwaith dylunio cychwynnol a therfynol, cyflwyniadau llafar, technolegau digidol, llyfr brasluniau anodedig, arsylwi gan athrawon a chyfoedion, asesiad athrawon o gyflwyniadau ymarferol, gwerthuso parhaus.



# Uned 19: Briffiau Celf a Dylunio Digidol

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol/Gorfodol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Mae mwy a mwy o artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn defnyddio technoleg ddigidol fel cyfrwng ar gyfer mynegiant creadigol. I lawer, mae wedi dod yn rhan annatod o'u harfer gwaith. Mae twf technoleg symudol fwy fforddiadwy wedi gwneud y defnydd o ddyfeisiau symudol ac aps yn gyffredin. Mae modd edrych ar arddangosfeydd ar-lein, a gellir defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol fel cyfryngau ar gyfer gweld a chynnig sylwadau ar waith sy'n cael ei weld ar-lein.

Mae'r uned hon yn eich cyflwyno i'r maes cyfoethog ac amrywiol hwn, drwy ymchwilio i sut mae artistiaid a dylunwyr yn defnyddio a datblygu technegau, defnyddiau a phrosesau celf a dylunio digidol. Bydd yr ymchwil hon yn eich helpu i ddatblygu eich syniadau a'ch sgiliau ymarferol eich hun mewn celf a dylunio digidol. Byddwch yn archwilio amrywiaeth o dechnegau a phrosesau digidol ac yn ennill profiad yn datblygu syniadau i gwrdd â briffiau celf a dylunio digidol.

Bydd hi'n bwysig i chi adolygu sut mae syniadau'n datblygu a myfyrio ar eich defnydd o dechnegau, defnyddiau a phrosesau digidol mewn ymateb i friff a osodwyd. Dylai eich canlyniadau arddangos yr wybodaeth a gasglwyd drwy archwilio a byddwch yn datblygu sgiliau yn gwerthuso addasrwydd at bwrpas y technegau a ddefnyddiwyd gennych. Byddwch yn datblygu cyflwyniad sy'n dangos sut yr ydych wedi defnyddio technegau penodol i gyflawni eich bwriadau creadigol.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i gelf a dylunio digidol
- B archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau celf a dylunio digidol
- C datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau celf a dylunio digidol
- D cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff celf a dylunio digidol

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i gelf a dylunio digidol</b>
<p><b>Sut i ymchwilio i gelf a dylunio digidol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• diffinio cymwysiadau technegau a phrosesau celf a dylunio digidol</li> <li>• nodi enghraifft hanesyddol/cyfoes o gelf a dylunio digidol, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol ac adnabod y dylunwyr dan sylw</li> <li>• ymchwilio i enghreifftiau o gymhwysiad celf a dylunio digidol, gan adolygu gwaith</li> <li>• dadansoddi enghreifftiau o gymhwysiad celf a dylunio digidol, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol ac adnabod y dylunwyr dan sylw.</li> </ul> <p><b>Technegau a chyfarpar a ddefnyddir mewn ymarfer celf a dylunio digidol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol, offer lens, dyfeisiau symudol, trin delweddau, cyfarpar rhyngwyd, rhwydweithio cymdeithasol.</li> </ul> <p><b>Sut i fyfrio ar ffactorau a nodweddion yr enghreifftiau o gelf a dylunio digidol a ddewiswyd, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymchwilio i'r cymwysiadau, y defnyddiau, yr estheteg a'r technegau gweledol a ddefnyddiwyd</li> <li>• gwerthuso nodweddion i gynnwys myfrio ar ymarferoldeb y dyluniad, addasrwydd i bwrpas, cynulleidfa darged/ anghenion cynulleidfa, technoleg</li> </ul> <p><b>Sut i gyflwyno canlyniadau ymchwiliad, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adolygiadau interim (llafar, gweledol, ysgrifenedig, synhwyrdd, cyffyrddol), llyfrau braslunio anodedig</li> <li>• i athrawon, grŵp cyfoedion, cleientiaid</li> <li>• cyflwyniadau terfynol mewn fformat priodol gan ddefnyddio cyflwyniad ar sgrin, sioeau sleidiau anodedig, gwefannau, blogiau, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.</li> </ul> <p><b>Gweithio mewn stiwdio ddylunio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio mewn tîm</li> <li>• sgiliau cyfathrebu – mewn cyfarfodydd, gyda chleientiaid, gyda chyd-animeiddwyr</li> <li>• gweithio i derfynau amser, rheoli amser</li> <li>• parchu barn pobl eraill wrth weithio'n gydweithredol</li> <li>• deall sut mae eich rôl eich hun yn cysylltu â'r tîm.</li> </ul>

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau celf a dylunio digidol****Sut i ymchwilio i dechnegau celf a dylunio digidol, defnyddiau a phrosesau mewn ymateb i friffiau penodol, e.e.:**

- defnyddio technegau lens
- sganio
- trin
- gweithio ar draws platfformau
- defnyddio adnoddau ar y we, defnyddio dyfeisiau symudol
- cyfuno delweddau â llaw gyda delweddaeth wedi'i sganio
- darlunio wedi'i luniadu'n ddigidol
- technegau meddalwedd
- dilyn arferion gweithio diogel (sylw i'r amgylchedd gwaith, dileu risgiau i chi eich hun ac i eraill, dilyn cyfarwyddiadau ar ddefnyddio teclynnau, cyfarpar a thechnegau).

**Ansawdd, dewis a defnydd o ddefnyddiau, e.e.:**

- addasrwydd i bwrpas, archwilio'r potensial am fynegiant creadigol
- addasrwydd ar gyfer cyfuno os mai dyna'r bwriad
- addasu a mireinio dewisiadau mewn ymateb i arbrofi, archwilio a phrofi, a gwerthuso'r penderfyniadau gafodd eu gwneud/y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd .
- rhoi sylwadau ar ddetholiad o dechnegau, defnyddiau a prosesau a'u hanodi.
- sut i gofnodi cynnydd a phrosesu canlyniadau'r technegau, defnyddiau a phrosesau a ddefnyddiwyd, gwybodaeth iechyd a diogelwch, cadw dyddlyfr cyfredol o arferion gwaith, protocolau ar gyfer cadw ac enwi ffeiliau, cyflwyniadau.

**Offer a phrosesau digidol, e.e.:**

- camerâu
- sganwyr
- meddalwedd a chaledwedd cyfrifiadurol
- dyfeisiau symudol
- trosglwyddo ffeiliau
- gyriannau caled
- dyfeisiau USB.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau celf a dylunio digidol****Sut i ddatblygu syniadau mewn ymateb i friffiau celf a dylunio digidol, e.e.:**

- casglu delweddau ac adnoddau angenrheidiol, i ddefnyddio manau cychwyn, i weithio i'r cynllun
- cofnodi o ffynonellau cynradd, cyd-destunol ac eilaidd am ysbrydoliaeth
- dogfennu cynnydd ymateb i'r briff mewn llyfr braslunio, cadw cofnod ar ffurf nodiadau o'r camau gafodd eu cymryd i ddatblygu'r syniad, pa ddull/iau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu syniadau a chynlluniau
- cynhyrchu syniadau sy'n cwrdd â gofynion briff celf a dylunio digidol – brasluniau mân-lun, ffotograffau digidol, sganiau o ddeunydd ffynhonnell, defnydd o feddalwedd i ddiwygio a datblygu.

**Sut i ddewis a defnyddio deunydd testun, e.e.:**

- deunyddiau ffynhonnell, thema/âu, deunydd testun, nodi bwriad creadigol o amrywiaeth o fannau cychwyn
- dewis o wybodaeth weledol a gasglwyd, i'w defnyddio wrth ddatblygu gwaith celf a dylunio
- dewis hoff syniadau o amrywiaeth o waith dylunio cychwynnol
- cadw cofnodi gwerthuso parhaus ynghylch pam a sut y mae'r gwaith yn cael ei wneud, yn cynnwys adnabod cryfderau a gwendidau'r syniadau gafodd eu dewis a'r technegau, defnyddiau a phrosesau digidol gafodd eu dewis
- rhoi tystiolaeth o'r defnydd o adborth i fireinio a datblygu syniadau.



**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i briff celf a dylunio digidol****Cynhyrchu canlyniad terfynol sy'n cwrdd â gofynion y briff, gan ddefnyddio technegau, defnyddiau a phrosesau celf a dylunio digidol, e.e.:**

- dewis y syniad mwyaf priodol ar gyfer cwrdd â'r briff
- defnyddio llyfrau braslunio, gwaith archwilio, mapio syniadau, delweddau prawf, ffeiliau digidol, cofnodion ar-sgrin fel ffynonellau i ddatblygu gwaith terfynol.

**Trefnu ymchwil mewn fformat priodol, e.e.:**

- cynhyrchu syniadau, gwaith cychwynol, datblygu dyluniadau a chanlyniad terfynol
- llyfr brasluniau, gwaith archwilio, mapio syniadau, delweddau prawf, ffeiliau digidol, cofnodion ar sgrin
- defnyddio technegau, defnyddiau a phrosesau celf a dylunio digidol megis caledwedd/meddalwedd cyfrifiadurol, codio, rhaglennu, dyfeisiau digidol, dyfeisiau symudol, technegau digidol, trin delweddau, enwi a chadw ffeiliau, allbwn
- cynhyrchu canlyniad digidol
- gwerthuso cynnydd a phrosesau a ddefnyddiwyd wrth greu canlyniad terfynol.

**Gwerthuso a chyflwyno canlyniad terfynol, e.e.:**

- dogfennu datblygiad a rhoi sylwadau ar ansawdd yr ymateb i'r briff
- cofnodi a choladu gwybodaeth o ddeunyddiau yr ymchwiliwyd iddynt
- cael adborth o sesiynau tiwtorial a gan gyfoedion ar effeithiolrwydd y dyluniad terfynol
- rhoi sylwadau ar effeithiolrwydd y technegau a ddefnyddiwyd i gyfleu'r syniad
- dogfennu newidiadau gafodd eu gwneud wrth ddatblygu a chynhyrchu'r gwaith terfynol
- archwilio ffyrdd priodol i gyflwyno canlyniad terfynol a'r holl waith cychwynol cysylltiedig, ymchwil, cynhyrchu syniadau, profion, modelau, gwaith ar sgrin ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall gan ddefnyddio'r fformat cyflwyno mwyaf priodol
- cyflwyno i gyfoedion a/neu gleient, 1:1, mewn grwpiau, yn y dosbarth, yn weledol, yn llafar neu'n ysgrifenedig, defnyddio cyflwyniad ar-sgrin.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i gelf a dylunio digidol</b>			
1A.1 Nodi o leiaf ddwy enghraifft o gelf a dylunio digidol, gan ddefnyddio enghreifftiau gweledol ac amlinellu gwaith yr artistiaid/dylunwyr dan sylw. #	2A.LI1 Disgrifio o leiaf bedair enghraifft o gelf a dylunio digidol, gan adnabod y dylunwyr dan sylw a dangos y nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #	2A.T1 Adolygu a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o gelf a dylunio digidol yn effeithiol, gan adnabod y dylunwyr dan sylw ac esbonio'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #	2A.Rh1 Adolygu a chyflwyno enghreifftiau amrywiol o gelf a dylunio digidol yn effeithiol, gan adnabod y dylunwyr dan sylw a gwerthuso'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau. #
<b>Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau celf a dylunio digidol</b>			
1B.2 Defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau i gynhyrchu o leiaf un syniad a gwaith gweledol i gwrdd â briffiau celf a dylunio digidol, gan ddefnyddio arferion gwaith diogel.	2B.LI2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau i gynhyrchu gwaith gweledol sy'n cwrdd â gofynion briffiau celf a dylunio digidol, gan arsylwi a chofnodi arferion gwaith diogel.	2B.T2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau amrywiol yn gyson i gynhyrchu gwaith gweledol sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau celf a dylunio digidol, gan ddisgrifio'r technegau a ddefnyddiwyd.	2B.Rh2 Dewis a chymhwysio defnyddiau, technegau a phrosesau amrywiol yn annibynnol, i gynhyrchu a chyflwyno gwaith gweledol sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau celf a dylunio digidol, gan ddadansoddi'r technegau a ddefnyddiwyd.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau celf a dylunio digidol</b>			
1C.3 Defnyddio o leiaf un ffynhonnell gynradd ac un ffynhonnell eilaidd i gynhyrchu syniad a gwaith gweledol mewn ymateb i friffiau celf a dylunio digidol.	2C.LI3 Dethol a defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd i ddatblygu syniad sy'n cwrdd â gofynion briffiau celf a dylunio digidol.	2C.T3 Dewis a defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd i ddatblygu ac ymestyn syniadau amrywiol yn gyson sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau celf a dylunio digidol.	2C.Rh3 Dewis a defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd yn greadigol i ddatblygu ac ymestyn syniadau amrywiol sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau celf a dylunio digidol.
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff celf a dylunio digidol</b>			
1D.4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff celf a dylunio digidol	1D.LI4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff celf a dylunio digidol, gan ddisgrifio eich proses weithio.	1D.T4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd yn gydlynol â gofynion briff celf a dylunio digidol, gan adolygu eich proses weithio.	1D.Rh4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad dychmygus sy'n cwrdd â gofynion briff celf a dylunio digidol, gan ddadansoddi eich proses weithio.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw defnydd o stiwdios neu ystafelloedd dosbarth digidol, gyda chaledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol, sganwyr, a chyfleusterau argraffu. Efallai y bydd angen camerâu digidol ar ddysgwyr i recordio delweddau llongydd a/neu symudol ac efallai y byddant eisiau ychwanegu sain i ddarn seiliedig ar ddelweddau, neu mewn lleoliad gosodiad. Efallai y bydd angen dyfeisiau symudol ar ddysgwyr hefyd i gofnodi syniadau a bwriadau creadigol.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu adnabod o leiaf bedair enghraifft o gymhwysiad celf a dylunio digidol. Dylai dysgwyr anelu at weithio y tu hwnt i hyn. Bydd dysgwyr yn defnyddio eu hymchwil i ddatblygu o leiaf un syniad a gwaith gweledol sy'n cwrdd â gofynion y briff. Byddant yn archwilio technegau digidol, mewn gwaith archwiliadol ac wrth ddatblygu eu canlyniad terfynol. Byddant hefyd yn cofnodi ac yn dangos eu proses weithio; sut y gwnaethant ddatblygu eu syniadau a dewis technegau a defnyddiau oedd yn briodol i'w bwriadau. Bydd eu defnydd dilynol o ddefnyddiau, technegau a phrosesau yn cwrdd â gofynion sylfaenol y briff. Bydd eu cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth ar eu harfer gwaith, a byddant yn dangos gallu cyfyngedig wrth ddiffinio gwahanol gamau eu gwaith.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu datblygu amrediad ehangach o syniadau sy'n cwrdd â gofynion y briff. Mae eu meddwl yn debygol o fod yn ymatebol i ganlyniadau unrhyw brofion, samplau ac arddangosiadau y maent wedi eu gweld neu wedi cymryd rhan ynddynt. Bydd ganddynt reolaeth gyson dros dechneg, a bydd eu canlyniad yn effeithiol wrth gwrdd â'r briff. Byddant yn disgrifio gwahanol gamau eu gwaith dylunio digidol ac yn myfyrio ar gryfderau a meysydd ar gyfer datblygu gyda pheth mewnwelediad. Bydd eu hymateb i'r briff gosod yn dangos parodrwydd i arbrofi, er y gall y canlyniad fod yn anghyson. Bydd syniadau'n cael eu hystyried ond heb eu datblygu'n llawn bob amser. Byddant yn esbonio nodweddion gwaith pobl eraill y maent wedi ymchwilio iddo gydag eglurder, a byddant yn dangos peth dealltwriaeth o'r ffactorau a ddylanwadodd ar y gwaith celf a dylunio.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn gallu datblygu amrediad ehangach o syniadau. Byddant yn hyderus wrth ddewis, archwilio a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau gyda phwrpas a byddant yn ystyried potensial creadigol canlyniadau dilynol. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth o ofynion y briff ac yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw heriau sy'n codi wrth brofi a datblygu gwaith gweledol. Bydd eu canlyniad yn dangos dull dychmygus a chreadigol tuag at gwrdd â'r briff. Bydd eu cyflwyniad yn dangos ymagwedd hyderus a byddant yn ymateb yn gadarnhaol i adborth. Byddant yn gwerthuso nodweddion y gwaith y maent wedi gwneud ymchwil iddo. Byddant yn myfyrio ar addasrwydd i bwrpas eu harfer gwaith eu hunain, ac yn gwerthuso'n eglur eu gwaith celf digidol a dylunio a'u hymagweddau tuag at ddefnyddio defnyddiau.

**Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu perfformio tasgau sylfaenol, syml yn casglu gwybodaeth am faes celf a dylunio digidol, arferion gwaith a chymwysiaidau. Gall canfyddiadau dysgwyr gael eu hasesu drwy gyflwyniadau, gyda chefnogaeth nodiadau anodedig sylfaenol, yn hytrach na thasgau ysgrifennu ffurfiol. Bydd eu gwaith cynhyrchu syniadau'n dangos ymateb i'r briff ond ni fydd o anghenraid yn cwrdd â'i anghenion. Gall dysgwyr weithio gydag un syniad yn hytrach nag archwilio syniadau amgen. Maent yn debygol o arddangos ymateb sylfaenol wrth ddatblygu syniad i weithio arno. Bydd eu gwaith yn archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau i brofi a rhoi cynnig ar eu syniadau yn gyfyngedig, a gall unrhyw ganlyniadau gael eu hadnabod, ond nid eu defnyddio i hysbysu datblygiad gwaith digidol pellach. Byddant yn archwilio technegau digidol er mwyn datblygu syniadau a gwaith ymarferol. Bydd eu canlyniad yn dangos eu bod wedi archwilio technegau, defnyddiau a phrosesau celf a dylunio digidol ar lefel sylfaenol. Gallant gael llwyddiant cyfyngedig wrth ddefnyddio a rheoli'r defnyddiau a'r prosesau technegol sydd ynghlwm wrth y gwaith.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	Digideiddio Hyn!	Mae artist yn gwneud ymchwil i gymwysiadau celf a dylunio digidol, i ymchwilio i'r defnyddiau potensial o dechnoleg i'w defnyddio yn eu prosiect personol cyfredol.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau.
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Cydsymud Llaw ac iGydsymud	Mae cwmni cyhoeddi ar-lein wedi comisiynu darlunydd i grynhoi syniadau ar gyfer cylchgrawn digidol newydd y mae'n bwriadu'i lansio. Mae'r darlunydd yn penderfynu archwilio amrywiaeth o dechnegau digidol, gan eu cyfuno gyda delweddau â llaw.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2, 1C.3, 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3, 1D.4, 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Clonio Dyluniadau	Mae hyrwyddwr digwyddiadau cerddorol wedi mynd at ddylunydd llawrydd. Mae'n bwriadu cynnal digwyddiad ac am gael golwg newydd ar gyfer y deunyddiau hyrwyddo. Mae'r dylunydd yn penderfynu defnyddio technegau a phrosesau digidol i gynhyrchu syniadau a gwaith dylunio sy'n seiliedig ar batrwm yn ailadrodd.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid, darnau terfynol, arddangosfa.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1D.4, 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Amlinellu Dyluniad	Mae'r dylunydd wedi cwblhau'r prosiect ar gyfer yr hyrwyddwr digwyddiadau cerddoriaeth. Bydd yn awr yn cyflwyno ei syniadau dylunio ar ailadrodd patrwm i'r cleient ac yn ateb cwestiynau am y gwaith.	Cyflwyno'r canlyniad a'r gwaith dylunio cychwynnol a therfynol, cyflwyniadau llafar, technolegau digidol, llyfr brasluniau anodedig, arsylwi gan athrawon a chyfoedion, asesiad athrawon o gyflwyniadau ymarferol, gwerthuso parhaus.





# Uned 20: Briffiau Cynhyrchu Cyfryngau Rhyngweithiol

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol/Gorfodol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Mewn diwrnod nodweddiadol, pa mor aml ydych chi'n mynd ar wefan neu'n gwyllo teledu digidol, yn chwarae gêm, yn defnyddio ap, yn creu blog, yn siarad gyda'ch ffrindiau dros y we, yn rhannu lluniau, yn lawrlwytho podlediadau, yn defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, yn defnyddio DVDs, CD ROMs neu ffôn clyfar? Mae'n anodd dychmygu bywyd heb gyfryngau rhyngweithiol erbyn hyn.

Yn ein cymdeithas heddiw, mae'r defnydd o gyfryngau rhyngweithiol yn ail natur. Mae wedi newid y ffordd rydym yn cyfathrebu, yn cymdeithasu, yn ymlacio ac yn cyfnewid gwybodaeth. Mae cyfryngau rhyngweithiol wedi dod yn un o offerynnau mwyaf pwerus y ganrif hon. Bydd bron pawb rydych chi'n ei adnabod yn ddefnyddiwr cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol. Mae'r uned hon yn eich galluogi i archwilio'r defnydd o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol a sut y maen nhw'n ffithio'n ddi-rwystr yn ein bywydau.

Mae'r rhai sy'n creu cynnyrch cyfryngau'n meddwl am y farchnad ar gyfer eu gwaith a phwy yw defnyddwyr eu cynnyrch. Mae'r holl gyfryngau rhyngweithiol yn cael eu gwneud gyda defnyddiwr mewn golwg. Yn yr uned hon byddwch yn archwilio rhai cynhyrchion cyfryngau rhyngweithio sy'n bodoli eisoes gan ystyried i bwy maen nhw'n cael eu gwneud a pham. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i feddwl am eich syniadau eich hunain am gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol ac ymchwilio i ba fath o berson allai ddefnyddio eich cynnyrch. Drwy ddilyn prosesau cyfryngau rhyngweithiol, byddwch yn gweithio tuag at gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gorffenedig.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i'r defnydd o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol presennol
- B ymchwilio i syniadau a'u datblygu mewn ymateb i friffiau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol
- C archwilio technegau a thechnoleg mewn ymateb i friffiau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol
- D profi a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i'r defnydd o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol presennol</b>
<p><b>Sut i adnabod y mathau o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwefannau, teledu digidol, gemau, aps, blogiau, podlediadau, rhwydweithio cymdeithasol, DVDau, CD ROMau, ffonau clyfar.</li> </ul> <p><b>Sut i ymchwilio i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddefnyddio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ffynonellau eilaidd yn bennaf</li> <li>• cyfweiliadau, holiaduron a grwpiau ffocws</li> <li>• cyflwyno canlyniadau ymchwiliad mewn fformat priodol.</li> </ul> <p><b>Grwpiau a chynhyrchion targed yn cynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adnabod y gynulleidfa darged ar gyfer pob cynnyrch a sut i gyrchu cynhyrchion cyfryngau rhyngweithiol</li> <li>• ystyried sut mae gwahanol grwpiau defnyddwyr yn cyrchu cynhyrchion cyfryngau rhyngweithiol</li> <li>• canfod pa mor hawdd yw'r cynhyrchion i'w defnyddio</li> <li>• archwilio sut mae cynulleidfaoedd yn rhyngweithio gyda chynnyrch cyfryngau rhyngweithiol</li> <li>• archwilio sut mae data'n cael eu defnyddio ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol megis cludiant neu ddata llywodraeth mewn aps</li> <li>• dadansoddi sut mae'r gynulleidfa darged a'r gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr yn cyrchu cynhyrchion cyfryngau rhyngweithiol</li> <li>• pa mor hawdd yw'r cynhyrchion i'w defnyddio a sut mae'r gynulleidfa'n rhyngweithio gyda'r cynhyrchion.</li> </ul> <p><b>Sut i greu nodiadau am gynhyrchion cyfryngau rhyngweithiol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwefannau, teledu digidol, gemau, aps, blogiau, podlediadau, rhwydweithio cymdeithasol, DVDau, CD ROMau, ffonau clyfar ac ati.</li> <li>• datblygu nodiadau ar gynulleidfa darged pob cynnyrch, gan ystyried agweddau megis oedran, rhyw, demograffig a ffordd o fyw.</li> </ul>
<b>Nod dysgu B: Ymchwilio i syniadau a'u datblygu mewn ymateb i friffiau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol</b>
<p><b>Sut i gynllunio cyn-gynhyrchu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymchwilio i syniadau gan ddefnyddio ffynonellau eilaidd yn bennaf</li> <li>• ymchwilio i syniadau gan ddefnyddio ffynonellau llai amlwg megis data, cyfweiliadau, grwpiau ffocws a holiaduron a chrynhoi canlyniadau ymchwil</li> <li>• ystyried y gynulleidfa darged ar gyfer y cynnyrch a ddatblygwyd ac amlinellu eu gofynion</li> <li>• datblygu nodiadau am y gynulleidfa darged a chymhwyso'r canfyddiadau i ddatblygu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol</li> <li>• datblygu a dylunio syniadau (byrddau stori, gosodiadau, diagramau, brasluniau, sgrïptiau, amserlenni cynhyrchu a chynlluniau) ystyried arferion gwaith diogel ar gyfer cynhyrchu.</li> </ul>

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu C: Archwilio technegau a thechnoleg mewn ymateb i friffiau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol</b>
<p><b>Sut i ddatblygu cynhyrchiad cyfryngau rhyngweithiol, gan gymryd y canlynol i ystyriaeth, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asedau (sain, testun, data, fideo, graffeg, animeiddio, cynnwys 3D)</li> <li>• cynhyrchu (sgrin, rhyngweithio, gwelywio, rheolyddion, graffeg, lliw, gosodiad, cyfansoddiad, naratif)</li> <li>• gweithio i amserlen</li> <li>• creu cynnyrch defnyddiadwy sy'n ystyried rhai agweddau o ofynion y gynulleidfa darged</li> <li>• defnyddio arferion gwaith diogel bob amser</li> <li>• ymagwedd ddisgybledig i gynhyrchu a gweithio i'r amserlen wreiddiol</li> <li>• cyhoeddi'r cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gorffenedig yn neu ar y plattform perthnasol i'r cynnyrch gyda pheth cywirdeb, e.e. creu DVD, sy'n cynnwys dewislen rhyngweithiol DVD</li> <li>• creu cynnyrch sy'n perthyn yn glir i'r ymchwil a'r cynlluniau a ddatblygwyd, er efallai y bydd rhai newidiadau wedi digwydd i'r cynnyrch wrth iddo ddatblygu</li> <li>• archwilio sut y gall fod gan gynhyrchion gorffenedig ymdeimlad clir o bwrpas.</li> </ul>
<b>Nod dysgu D: Profi a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol</b>
<p><b>Defnyddio technoleg i gyflwyno cynnyrch amlgyfrwng gorffenedig:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dogfennu'r cryfderau a'r gwendidau</li> <li>• beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim, a pham</li> <li>• sut mae cyfryngau rhyngweithiol a meddalwedd wedi cael eu defnyddio</li> <li>• arddangos syniadau a datblygiadau</li> <li>• defnyddio dulliau digidol i ddangos cynnydd a phrosesu.</li> </ul> <p><b>Sut i ddyfeisio cynlluniau i brofi'r cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gorffenedig a defnyddio dulliau o brofi'r cynnyrch, gan ystyried gwahanol grwpiau defnyddwyr, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu amlinelliad, yn seiliedig ar adborth a gafwyd, i wella'r cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol</li> <li>• gweithredu newidiadau i fireinio syniadau.</li> </ul> <p><b>Defnyddio technoleg briodol i gyflwyno cynnyrch amlgyfrwng gorffenedig:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos ymwybyddiaeth yn ystod y cyflwyniad o sut y gallai'r cynnyrch gael ei wella</li> <li>• cyflwyno cryfderau a gwendidau'r cynnyrch yn fanwl.</li> </ul>

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i'r defnydd o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol presennol</b>			
1A.1 Nodi cynhyrchion cyfryngau rhyngweithiol a chynulleidfaoedd targed, gan amlinellu cynhyrchion cyfryngau rhyngweithiol pobl eraill.	2A.LI1 Disgrifio cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol a'u cynulleidfaoedd targed, gan ddangos y nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau.	2A.T1 Adolygu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol a'u cynulleidfaoedd targed, gan esbonio'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau.	2A.Rh1 Dadansoddi cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol a'u cynulleidfaoedd targed, gan werthuso'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y dyluniadau.
<b>Nod dysgu B: Ymchwilio i syniadau a'u datblygu mewn ymateb i friffiau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol</b>			
1B.2 Nodi syniadau a chreu cynnig mewn ymateb i friffiau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol. #	2B.LI2 Disgrifio syniadau a chreu cynnig, i gwrdd â briffiau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol. #	2B.T2 Adolygu a chyflwyno syniadau cydlynol, amrywiol a chreu cynnig i gwrdd â briffiau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol #	2B.Rh2 Adolygu a chyflwyno syniadau dychmygus, amrywiol a chreu cynnig i gwrdd â briffiau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol #
<b>Nod dysgu C: Archwilio technegau a thechnoleg mewn ymateb i friffiau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol</b>			
1C.3 Defnyddio technegau a thechnoleg digidol i greu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol mewn ymateb i friffiau.	2C.LI3 Dewis a defnyddio technegau a thechnoleg digidol i greu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol sy'n cwrdd â gofynion briffiau gosod, gan gadw at arferion gwaith diogel a'u cofnodi. *	2C.T3 Dewis a defnyddio technegau a thechnoleg digidol i greu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol effeithiol sy'n cwrdd yn gyson â gofynion briffiau gosod, gan ystyried y gynulleidfa darged. *	2C.Rh3 Dewis a defnyddio technegau a thechnoleg digidol amrywiol i greu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gwybodus sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau gosod, gan ddadansoddi'r technegau a ddefnyddiwyd. *

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu D: Profi a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff cynhyrchiad cyfryngau rhyngweithiol</b>			
1D.4 Profi a chyflwyno eich gwaith cyfryngau rhyngweithiol eich hun, sy'n ymateb i friff gosod, gan ddefnyddio technoleg briodol. *	2D.LI4 Profi a chyflwyno eich gwaith cyfryngau rhyngweithiol gorffenedig eich hun sy'n cwrdd â gofynion briff gosod, gan ddisgrifio eich proses weithio. *	2D.T4 Profi a chyflwyno mewn peth manylder eich gwaith cyfryngau rhyngweithiol gorffenedig eich hun sy'n cwrdd yn gydlynol â gofynion briff gosod, gan adolygu eich proses weithio. *	2D.Rh4Profi a chyflwyno eich gwaith cyfryngau rhyngweithiol dychmygus gorffenedig eich hun sy'n cwrdd yn gydlynol â gofynion briff gosod, gan ddadansoddi eich proses weithio. *

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw meddalwedd digidol a chyfarpar i alluogi dysgwyr i greu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn archwilio cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol ac yn cyfeirio at eu cynulleidfaoedd targed. Bydd ymchwil yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol ac yn dod yn bennaf o ffynonellau eilaidd, er y gall dysgwyr ddefnyddio rhai technegau ymchwil gynradd syml. Bydd dysgwyr yn ddatblygu syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gydag elfen o ofal a bydd dogfennaeth y cynllunio'n rhesymegol. Bydd y cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gaiff ei greu yn arddangos lefel sylfaenol o sgiliau. Gall y cynnyrch fod ychydig yn anodd ei gyrchu a'i lywio oherwydd natur sylfaenol sgiliau'r dysgwyr ar y lefel hon. Bydd estheteg y cynnyrch wedi cael ei hystyried ond heb ei gweithredu'n llwyddiannus. Bydd profion a chyflwyniad y darn gorffenedig yn sylfaenol o ran ei ymagwedd. Bydd y dysgwr yn cyflwyno gwaith yn glir gan ddefnyddio dulliau cyflwyno syml.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn adolygu cynhyrchion cyfryngau rhyngweithiol ac yn ystyried yn ofalus y cynulleidfaoedd targed. Bydd dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd i gwblhau eu hymchwil. Bydd syniadau a chynlluniau ar y lefel hon yn effeithiol ac yn ddeniadol. Bydd dysgwyr yn cynhyrchu gwaith gyda ffocws pendant ac yn defnyddio deunyddiau cynllunio yn ystod y cynhyrchu. Byddant yn creu dyluniadau clir. Bydd y cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol terfynol yn effeithiol ac yn ddefnyddiadwy. Bydd ystyriaeth o'r gynulleidfa darged yn fanwl. Bydd y cynnyrch yn hawdd ei lywio ac yn esthetig ddeniadol. Bydd y profi a'r cyflwyno yn eithaf manwl. Bydd dysgwyr yn cyfiawnhau newidiadau a diwygiadau gafodd eu gwneud a byddant yn gymwys yn eu hymagwedd i gyflwyno eu gwaith terfynol.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** wrth archwilio'r defnydd o gyfryngau rhyngweithiol, yn cymharu a chyferbynnu nodweddion nifer amrywiol o gynnyrch o fewn eu gwaith. Byddant yn gwneud sylwadau clir a chryno am gynulleidfaoedd targed. Bydd dysgwyr yn defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd i ymchwilio a byddant yn dadansoddi a gwerthuso eu canfyddiadau. Bydd syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol yn drefnus ac yn greadigol yn eu hymagwedd. Bydd cynllunio'n fanwl iawn a bydd dysgwyr yn cynhyrchu dyluniadau clir a chryno. Bydd y cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol terfynol yn wybodus yn ei ymagwedd ac yn rhesymegol i'w lywio. Bydd dysgwyr wedi ystyried gofynion y cynulleidfaoedd targed yn fanwl. Wrth gwblhau profion a chyflwyno gwaith, bydd dysgwyr yn dadansoddi'n hyderus gryfderau a gwendidau eu harfer gwaith. Byddant yn defnyddio canlyniadau dysgu ac ymchwil i weithredu diwygiadau creadigol i'w gwaith.

**Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn debygol o archwilio cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol amlwg. Bydd eu hymagwedd tuag at archwilio yn gyfyngedig iawn. Bydd peth ystyriaeth fer iawn o gynulleidfaedd targed. Bydd yr ymchwil o ffynonellau eilaidd. Bydd syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol yn gyfyngedig o ran eu hymagwedd. Bydd dogfennaeth cynllunio'n cynnwys agweddau sylfaenol y cynhyrchiad. Bydd arferion gwaith diogel yn cael eu cyffwrdd. Mae'r cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol ei hun yn debyg o fod yn eithaf syml gan ddangos ychydig o ystyriaeth o'r cynulleidfaedd targed. Bydd dysgwyr yn gwneud peth ymdrech i greu darn sy'n plesio'n esthetig, ond mae'n debyg o fod yn ddiffygiol o ran naratif ac ystyriaeth o gynnwys. Bydd gwaith yn cael ei gyhoeddi ar y platfform perthnasol yn y fformat perthnasol. Bydd dysgwyr yn defnyddio profion sylfaenol gyda'u cynnyrch gorffenedig ac yn cyflwyno gwaith cyfryngau rhyngweithiol mewn ffordd ddisgrifiadol sylfaenol.

**Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau**

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A31, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	Oes Unrhyw Un Yna?	Mae dylunydd yn cael y dasg o archwilio amrywiaeth o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol ar gyfer cwmni cynhyrchu. Rhaid iddynt ystyried pwy yw'r gynulleidfa darged ar gyfer pob cynnyrch a sut mae'r gynulleidfa'n ymgysylltu â'r cynnyrch.	Portffolio ymchwil a chasgliadau.
1B.2 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh	Gêm yn Cychwyn	Mae fideograffydd yn datblygu syniadau ar gyfergêm fideo. Mae angen gwneud ymchwil i'r cynhyrchion, ystyried y gynulleidfa darged a datblygu syniad terfynol. Hefyd mae angen datblygu a choladu dogfennaeth cyn-gynhyrchu.	Portffolio cyn-gynhyrchu i gynnwys: ymchwil; datblygiad syniadau; dyluniadau; byrddau stori; gosodiadau; diagramau; brasluniau; sgriptiau; amserlenni a chynlluniau cynhyrchu.  Cynlluniau iechyd a diogelwch.  Dewisiadau terfynol.
1C.3 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3	Gwe 3.0	Mae tîm o ddatblygwyr yn gweithio ar wefan newydd ar gyfer cwmni rhynggrwyd newydd. Bydd angen iddynt ystyried asedau a chynhyrchiant. Rhaid i'r cynnyrch terfynol gael ei gyhoeddi ar y platfform cywir ac yn y fformat cywir.	Ffotograffau o ddysgwyr yn gweithio.  Cipluniau sgrin anodedig.  Cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol terfynol.  Cofnodion arsylwi athrawon.



Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1D.4 2D.LI4, 2D.T4, 2D.Rh4	Pylu i Mewn	Bydd tîm sy'n gweithio ar gynhyrchiad teledu newydd yn dylunio a gweithredu profion ar gyfer eu dilyniant agoriadol gorffenedig i'r rhaglen. Byddant wedyn yn cyflwyno eu cynnyrch gorffenedig.	Dyluniadau prawf. Tystiolaeth o gynnal profion. Adolygiadau i'r cynnyrch terfynol. Fideo o'r cyflwyniad, arsylwi gan athro a viva voce.



# Uned 21: Briffiau Peintio

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol/Gorfodol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Ers dechrau amser, mae peintwyr wedi archwilio ffyrdd o fynegi sut y maen nhw'n gweld y byd yn eu celf, gan ddefnyddio arddulliau, technegau a defnyddiau gwahanol. Mae peintio wedi bod yn ddangosydd allweddol o ddatblygiadau mewn meddylfryd artistig dros y blynyddoedd, gyda mudiadau artistig amrywiol yn gyffredin ar adegau penodol, er enghraifft Argraffiadaeth yn y 19 ganrif.

Mae angen i beintwyr cyfoes wybod sut i gael cyllid a ble y gallant arddangos eu gwaith. Gallai hyn fod mewn prosiect cydweithredol, mewn sioe grŵp neu drwy gymryd rhan mewn cystadlaethau yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau ac awdurdodau celf lleol ar brosiectau penodedig, megis mentrau a gweithdai cymunedol. Mae angen i artistiaid hefyd allu cyfathrebu'n effeithiol gydag orielau a phobl sy'n eu cynrychioli a rheoli eu hamser a'u hallbwn yn llwyddiannus.

Yn yr uned hon byddwch yn dysgu am arferion gwaith peintwyr, gwahanol fudiadau celf a sut mae peintwyr yn cael eu cyflogi yn y diwydiant celf a dylunio. Byddwch yn archwilio nodweddion defnyddiau, technegau a phrosesau peintio ac yn dysgu datblygu eich syniadau eich hun. Byddwch yn dod â'ch holl syniadau a'ch gwybodaeth at ei gilydd i greu eich gwaith celf eich hun ac yna yn ei gyflwyno i'ch cyfoedion neu i gleient. Byddwch hefyd yn dysgu sut i ddadansoddi eich gwaith creadigol eich hun.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i ymarfer peintio
- B archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau peintio
- C datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau peintio
- D cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff peintio.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

<b>Beth sydd angen ei ddysgu</b>
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ymarfer peintio</b>
<p><b>Sut i adnabod enghreifftiau o fwriadau creadigol artistiaid sy'n gallu cael eu gwireddu drwy beintio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• realaeth – darlunio agweddau o fywyd go iawn o'u cyfnod, fel rhaglen ddogfen weledol</li> <li>• adroddiad – cyflwyno moment neu ddigwyddiad o ffuglen neu ddychymyg, neu gynrychioli digwyddiad ffeithiol, fel stori weledol</li> <li>• cofnodi – portreadau, o natur, effeithiau golau ar wahanol adegau o'r dydd neu'r nos</li> <li>• peintwrus – archwilio iaith a nodweddion paent ei hun</li> <li>• haniaeth – creu delweddau sy'n fwy seiliedig ar ddehongli unigol a chyflyrau meddwl mewnol neu brofiadau emosiynol nag ar arsylwi</li> <li>• rhyngddisgyblaethol – cyfuno peintio gyda chyfryngau eraill, e.e. seiliedig ar amser, gosodiad, celf perfformio, gwneud printiau, ffotograffiaeth ddigidol</li> </ul> <p><b>Pa ddefnyddiau y gallai peintwyr eu defnyddio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• acryligion, paent olew, dyfrlliw, cyfryngau cymysg, defnyddiau hapgael, collage.</li> </ul> <p><b>Pa arwynebau y gallai peintwyr weithio arnynt, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynfas, papur, byrddau, defnyddiau wedi eu hailgylchu, e.e. cardbord, dalennau plastig.</li> </ul> <p><b>Pa dechnegau y gallai peintwyr eu defnyddio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio paent di-draidd (sgwmblo) archwilio nodweddion gweadeddol paent defnyddio paent hylifol (golchiadau, gwydro, diferu), datblygu marciau brwsh, gosod paent gydag amrywiaeth o offer (rholer, dwylo, gwesgi, ffyn), ymgorffori delweddau ffotograffig (wedi'u hargraffu, ar sgrin).</li> </ul> <p><b>Sut i adnabod ac ymchwilio i fudiadau celf hanesyddol neu gyfoes sy'n cynnwys peintio, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhamantiaeth Argraffiadaeth, ôl-Argraffiadaeth, Ciwbiaeth, Haniaeth, Swrealiaeth, Mynegiadaeth, Peintio Ewropeaidd Newydd, Styciaeth, Arte Povera, Celf Graffiti, Celf y Stryd</li> <li>• ymweliadau ag orielau, amgueddfeydd a stiwdios lleol a chenedlaethol, gwefannau artistiaid a gwybodaeth ar beintio hanesyddol a chyfoes drwy lyfrau, DVDau, cyfnodolion.</li> </ul> <p><b>Sut i goladu a chyflwyno gwybodaeth o ymchwil ac archwilio mewn fformat priodol, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cofnodi gwybodaeth mewn llyfr braslunio drwy astudiaeth weledol anodedig, ffotograffau, nodiadau, darnau ysgrifennu estynedig</li> <li>• archwilio dulliau cyflwyno gyda chyflwyniad trylwyr ar sgrin neu gyflwyniad llafar gyda chefnogaeth nodiadau a thafenni.</li> </ul>

*parhad*

### Beth sydd angen ei ddysgu

#### Sut mae peintwyr yn cael cyflogaeth mewn ymarfer celf a dylunio, e.e.:

- hunangyflogedig, wedi'u cynrychioli gan oriel neu asiant, trwy gyfrwng gwefan, trwy fod yn aelod o grŵp neu gydweithfa, trwy gymryd rhan mewn cystadlaethau, ennill comisiynau, cefnogi eu hymarfer drwy addysgu gweithdai, mewn partneriaeth ag artistiaid eraill, drwy arddangos mewn ffeiriau celf
- archwilio sut mae peintwyr yn arddangos eu gwaith a beth sydd ynghlwm wrth y broses
- ymchwilio i'r sgiliau creadigol sy'n ofynnol ar gyfer ymarferwr peintio.

#### Sut mae peintwyr yn datblygu syniadau ar gyfer eu gwaith o ddelweddau, e.e.:

- eich lluniadau eich hun neu rai pobl eraill, astudiaethau o bwnc, recordio deunydd pwnc gyda lens/yn ddigidol; drwy archwilio potensial cyfres o ddelweddau wedi'u cysylltu gan thema neu bwnc; drwy archwilio nodweddion paent ac arwyneb; ymateb i themâu mewn llenyddiaeth, athroniaeth, gwyddoniaeth.

#### Sut mae peintwyr yn datblygu ymatebion creadigol i themâu gafodd eu cynhyrchu ganddynt eu hunain neu i rai a osodwyd gan eraill, e.e.:

- dehongli pwnc neu friff mewn ffyrdd arloesol
- datblygu elfennau ffurfiol megis graddfa, siâp, lliw, llinell
- defnyddio cysyniad sy'n bodoli eisoes a'i ail ddehongli mewn ffordd arall
- archwilio defnyddiau – arbrofi gyda gwahanol ddefnyddiau, technegau a phrosesau.

#### Sut mae peintwyr yn mireinio sgiliau presennol – o fewn eu hymarfer, gan brocio deunydd pwnc, gan ddatblygu nodweddion defnyddiau.

#### Sut i ymchwilio i waith peintwyr, gan ystyried eu harfer gwaith, e.e.:

- manau cychwyn sydd wedi cael eu defnyddio gan beintwyr dethol
- ystyried y gynulleidfa darged ar gyfer eu gwaith
- archwilio nodweddion cynhenid y defnyddiau a ddefnyddiwyd gan yr ymarferwr
- dogfennu'r technegau a ddefnyddiwyd
- disgrifio sut mae'r peintwyr wedi defnyddio iaith weledol, er enghraifft siâp, lliw, patrwm
- ystyried y ffyrdd y maent yn mireinio eu harferion gwaith wrth iddynt fynd ymlaen gyda'u gwaith
- sut i gyflwyno canlyniadau ymchwil mewn fformat priodol.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau peintio****Sut i ymateb i friff:**

- darllen drwy'r gofynion a thrafod mewn grŵp
- cynllunio amserlen personol i gwrdd â'r terfyn amser
- ystyried yr amrywiaeth posibl o gyfryngau sydd ar gael i gwrdd â'r briff
- cynhyrchu syniadau potensial fel manau cychwyn
- ystyried cyfyngiadau a phosibiliadau'r briff.

**Sut i ddefnyddio manau cychwyn ar gyfer briff peintio:**

Ffynonellau cynradd, e.e.:

- lluniadau, o arsylwadau, o ddychymyg
- peintiadau blaenorol, o arsylwadau, o ddychymyg
- o'ch ffotograffau eich hun
- o'ch delweddaeth wedi'i chynhyrchu'n ddigidol eich hun.

Ffynonellau eilaidd, e.e.:

- llenyddiaeth
- delweddau o wefannau, cylchgronau, llyfrau, y cyfryngau
- cerddoriaeth
- delweddaeth briodol.

**Defnyddiau peintio, e.e.:**

- paentiau dŵr – acrylig, emwlsiwn, gouache
- paentiau olew – olewau artistiaid, paentiau'r cartref
- cyfryngau cymysg.

**Offer peintio, e.e.:**

- brwshys, paletau, cyllyll palet, ffyn, gwrthrychau hapgael, e.e. darnau o gerdyn i lusgo paent ar draws arwyneb.

**Sut i ddefnyddio cynalyddion ar gyfer peintio, e.e.:**

- papur/papur wedi'i ymestyn, cerdyn a chardbord, caledfwrdd, pren haenog ac MDF, cyfnas, defnyddiau hapgael neu wedi eu hailgylchu, cynalyddion preimio.

**Sut i wanedu a chymysgu paentiau, e.e.:**

- cymysgu golau i dywyll
- defnyddio cyfryngau megis PVA neu wirod gwyn,

**Sut i archwilio gwahanol dechnegau peintio mewn ymateb i friff, e.e.:**

- impasto, gwydro, gwlyb ar wlyb, sgwmblo, brwsh sych, ychwanegu gwead i baent, (e.e. tywod), asio, ysgeintio, stensilio.

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut i reoli eich amser eich hun wrth weithio i friff peintio, e.e.:**

- cynllunio'r adnoddau i'w defnyddio
- caniatáu amser i ddefnyddiau sychu
- gweithio i amserlen
- tacluso'r gweithle
- cytuno terfynau amser ar gyfer tasgau
- cynaliadwyedd – defnyddio adnoddau'n ofalus/ailgylchu lle mae hynny'n bosibl.

**Dilyn arferion gwaith diogel, yn cynnwys:**

- storio paent yn briodol, osgoi gwastraff, sylw i'r amgylchedd gwaith
- dileu risgiau i'w hunain ac i eraill
- Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) – beth mae hyn yn ei feddwl wrth ddefnyddio defnyddiau ac offer
- dilyn cyfarwyddiadau ar ddefnyddio cyfarpar a thechnegau
- sut i grynhoi gwybodaeth, taflenni ac arweiniad deddfwriaethol ar iechyd a diogelwch
- sut i gadw eich cofnodion eich hun o ganllawiau iechyd a diogelwch a deddfwriaeth berthnasol ar y defnyddiau a'r technegau y maent wedi'u defnyddio
- sut i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn iawn.

**Sut i ddewis ac archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau sy'n cwrdd â gofynion briff peintio, e.e.:**

- addasrwydd i bwrpas
- archwilio'r potensial am fynegiant creadigol
- addasrwydd ac ymarferoldeb ar gyfer cyfuno gwahanol ddefnyddiau gyda'i gilydd, os bwriadwyd i gwrdd â bwriadau
- sut i esbonio rhesymu a chyfiawnhau dewis
- sut i addasu a mireinio dewisiadau mewn ymateb i arbrofi, archwilio a phrofi, a gwerthuso penderfyniadau gafodd eu gwneud/cyfeiriadau gafodd eu dilyn.

**Sut i ddewis a defnyddio technegau a pham, e.e.:**

- defnyddio technegau'n sensitif i ddangos nodweddion defnyddiau mewn paent a/neu gyfryngau cymysg
- sut i ddewis a defnyddio technegau i gyflawni bwriadau creadigol yn llwyddiannus
- dewis a pharatoi cynalyddion addas
- defnyddio gwrthrychau hapgael a/neu gyfuniadau damweiniol, a gwireddu eu potensial i gynnig ymatebion amgen dilys a chreadigol i'r briff.

**Dewis a defnyddio offer a phrosesau i gwrdd â gofynion y briff, e.e.:**

- offer peintio – brwshys, dewisiadau eraill
- cyfryngau peintio
- cyfuniadau o wahanol dechnegau a phrosesau.

*parhad*

### **Beth sydd angen ei ddysgu**

#### **Sut i gofnodi cynnydd a phrosesu canlyniadau gwaith datblygiadol/ archwiliadau o gyfryngau, e.e.:**

- cadw dyddlyfr cyfredol – sut mae gofynion y briff wedi cael eu cwrdd?
- defnyddio ffotograffiaeth i gofnodi syniadau peintio ac anodi cynnydd a phrofiadau bob dydd. Beth weithiodd yn dda ac unrhyw anawsterau a brofwyd
- defnyddio adborth gan gyfoedion ac athrawon i helpu gyda datblygu eich gwaith peintio eich hun.



**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau peintio****Sut i ddechrau gweithio tuag at y briff a sut i ddewis a defnyddio pwyntiau cychwyn a defnyddiau ffynhonnell, e.e.:**

- gwneud cynllun sylfaenol ar gyfer cynhyrchu.
- dewis deunydd pwnc
- cofnodi o ffynonellau cynradd ac eilaidd
- ystyried gofynion y gynulleidfa a fwriadwyd
- potensial am fynegiant creadigol i'r briff
- gwybodaeth, manylion a photensial yn y pwyntiau cychwyn
- cymharu a chyferbynnu pwyntiau cychwyn amgen.

**Sut i gasglu a dewis o'r wybodaeth weledol a gasglwyd, i'w defnyddio mewn gwaith datblygu, e.e.:**

- defnyddio lluniadau/peintiadau i gofnodi'n effeithiol, yn briodol i fwriadau
- arsylwi a chofnodi lliw,
- cofnodi iaith weledol, e.e. siâp, gwead, patrwm, rhythm
- defnyddio ffotograffiaeth yn effeithiol i gasglu a chofnodi gwybodaeth
- defnyddio a mireinio iaith weledol i wella a datblygu syniadau peintio, a sut i gofnodi meddyliau a chyfiawnhad dros y penderfyniadau gafodd eu gwneud.

**Sut i gynhyrchu syniadau drwy ddulliau priodol, e.e.:**

- mapio meddwl
- siartiau corrbyn
- siarad gyda phobl
- edrych ar beintiadau
- ymweld â lleoedd
- defnyddio darluniau/delweddaeth lens fel man cychwyn ar gyfer syniadau peintio.

**Sut i ddefnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd i gefnogi cynhyrchu syniadau, e.e.:**

- lluniadu a pheintio drwy arsylwi
- eich gwaith ffotograffig eich hun
- ymweliadau stiwdio neu amgueddfa
- edrych ar waith ac enghreifftiau mewn orielau ac arddangosfeydd
- delweddaeth ar y we
- delweddaeth wedi'i chynhyrchu'n ddigidol.

**Sut i gofnodi a dogfennu datblygiad syniadau mewn ymateb i friff peintio, e.e.:**

- sut i drefnu nodiadau ac anodiadau'n rheolaidd mewn llyfr braslunio neu ddyddlyfr
- cofnodi ar ffurf nodiadau ganlyniadau archwiliadau gyda chyfryngau, technegau a phrosesau peintio
- adnabod sail y syniadau
- amlygu dull/iau sydd wedi cael eu defnyddio i gynhyrchu syniadau
- nodi'r defnyddiau sydd wedi cael eu defnyddio i archwilio a datblygu syniadau.

*parhad*

### **Beth sydd angen ei ddysgu**

**Cadw cofnod gwerthuso parhaus yn nodi pam a sut y mae'r gwaith yn cael ei wneud, yn cynnwys:**

- adolygiad o gynnydd
- beth weithiodd a beth na wnaeth, a pham
- sut y gellir defnyddio gwerthuso i helpu gyda datblygu'r syniadau ar gyfer y briff peintio.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i briff peintio****Sut i gynhyrchu canlyniad terfynol sy'n cwrdd â gofynion y briff, drwy ddefnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau peintio,**

- dewis hoff syniadau o amrywiaeth o waith gweledol cychwynnol
- dewis defnyddiau a defnyddio technegau a phrosesau dethol i ddatblygu a chwblhau gwaith terfynol
- dogfennu cynnydd a newidiadau gafodd eu gwneud wrth ddatblygu gwaith terfynol

**Sut i drefnu ymchwil, mewn fformat priodol, e.e.:**

- astudiaethau, brasluniau o ffynonellau, cynhyrchu syniadau, defnydd arbrolfol o gyfryngau
- gwaith bras a chanlyniadau arbrolfol, datblygu terfynol o'r syniad a ddewiswyd
- mewn llyfr braslunio, mewn astudiaethau, taflenni gwaith, datblygiadau digidol ar CD, gwefan, blog, yn y canlyniad terfynol

**Sut i gyflwyno gwaith celf i gyfoedion a/neu gleient, gan ddefnyddio technegau ac adnoddau proffesiynol priodol a chyfredol, e.e.:**

- archwilio dulliau cyflwyno sy'n briodol i'r corff o waith
- defnyddio cyflwyniad ar sgrin
- cofnodi a dangos gwaith celf ar raddfa fawr a manylion drwy ffotograffiaeth ddigidol a sioe sleidiau
- defnyddio taflenni, dalenni gwybodaeth, taflenni gyda chyflwyniad digidol
- cyflwyno i gyfoedion, athrawon, cleientiaid mewn grwpiau, seminarau, sesiynau tiwtorial

**Sut i werthuso'r ymateb i'r briff, ac esbonio'n glir sut mae'r gwaith celf wedi cwrdd â gofynion y briff, e.e.:**

- esbonio syniadau – ar beth mae'r gwaith wedi'i seilio
- cofnodi a choladu archwiliadau o dechnegau a chyfryngau peintio, i esbonio a gwerthuso'r canlyniadau
- ystyried a yw'r dewis terfynol a'r defnydd o ddefnyddiau wedi cefnogi bwriadau creadigol
- meddwl am ba mor effeithiol oedd y defnydd o ddefnyddiau – y sgiliau oedd ynghlwm a sut y cawsant eu defnyddio
- gwerthuso a chyfiawnhau unrhyw newidiadau i ddefnyddiau, technegau, delweddau gweledol a'r defnydd o iaith weledol, esbonio pam y cafodd penderfyniadau eu gwneud i fireinio agweddau o'r gwaith celf (oherwydd canlyniadau archwilio techneg a chyfryngau peintio, wrth gyfieithu syniad o lyfr brasluniau i astudiaethau).
- myfrio ar effaith weledol y gwaith, a sut y daethpwyd i'r canlyniad hwn
- defnyddio adborth yn gadarnhaol wrth werthuso eu canlyniad a'r arferion gwaith a fabwysiadwyd ganddynt ar gyfer y briff
- gwerthuso'r paru rhwng bwriad creadigol a chanlyniad terfynol.

## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ymarfer peintio</b>			
1A.1 Nodi o leiaf un peintiwr hanesyddol ac un cyfoes, gan ddangos sut y maent wedi defnyddio gwahanol ddefnyddiau a thechnegau. #	2A.LI1 Disgrifio o leiaf ddau beintiwr hanesyddol a dau o rai cyfoes, gan ddangos cymeriad eu gwaith a'r ffactorau sy'n dylanwadu arno. #	2A.T1 Adolygu a chyflwyno enghreifftiau o beintwyr amrywiol, gan esbonio cymeriad eu gwaith a ffactorau sy'n dylanwadu arno. #	2A.Rh1 Dadansoddi a chyflwyno enghreifftiau o beintwyr amrywiol, gan werthuso cymeriad eu gwaith a'r ffactorau sy'n dylanwadu arno. #
<b>Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau mewn ymateb i friffiau peintio</b>			
1B.2 Defnyddio o leiaf ddwy dechneg wahanol mewn ymateb i friffiau peintio, gan ddefnyddio arferion gwaith diogel.	2B.LI2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau sy'n cwrdd â gofynion briffiau peintio, gan gadw at a chofnodi arferion gwaith diogel.	2B.T2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau amrywiol yn gyson i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau peintio, gan ddisgrifio'r technegau a ddefnyddiwyd.	2B.Rh2 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau amrywiol a chyflwyno gwaith sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau peintio, gan ddadansoddi technegau a ddefnyddiwyd.
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau peintio</b>			
1C.3 Defnyddio o leiaf un ffynhonnell gynradd ac un ffynhonnell eilaidd i gynhyrchu syniad a gwaith gweledol mewn ymateb i friffiau peintio.	2C.LI3 Dewis a defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau sy'n cwrdd â gofynion briffiau peintio.	2C.T3 Defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau cydlynol ac amrywiol sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau peintio.	2C.Rh3 Cymhwyso ffynonellau cynradd ac eilaidd yn ddychmygus, i ddatblygu ac ymestyn syniadau creadigol amrywiol sy'n cwrdd yn llwyddiannus â gofynion briffiau peintio.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff peintio</b>			
1D.4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff peintio.	2D.LI4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff peintio, gan ddisgrifio prosesau gwaith.	2D.T4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briff peintio, gan adolygu prosesau gwaith.	2D.Rh4 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad dychmygus a chreadigol sy'n cwrdd yn llwyddiannus â gofynion briff peintio, gan ddadansoddi prosesau gwaith.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, mae angen defnyddiau ac offer megis îsls, olewau, acryligion, dyfrlliwiau, byrddau, defnyddiau darlunio, cynfasau, papurau, amrywiaeth o frwshys addas, cynhwysyddion, carpiâu a lle storio mewn stiwdio.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu defnyddio eu hymchwil i'w helpu i ddethol a defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau sy'n cwrdd â gofynion y briff. I gyflawni hyn bydd rhaid iddynt ddatblygu dealltwriaeth o beth sydd ei angen ar y briff. Byddant yn esbonio sut y gwnaethant ddatblygu eu syniad, drwy ddangos sut y gwnaethant ddewis deunydd pwnc cynradd ac eilaidd i'w recordio oedd yn briodol i'w bwriadau. Bydd eu defnydd o ddefnyddiau, technegau a phrosesau yn sylfaenol. Bydd eu canlyniad yn cwrdd â gofynion y briff mewn modd sylfaenol. Gallant fod wedi sylwi ar ymagweddau a syniadau amgen, ond heb eu datblygu mewn unrhyw ffordd ystyrlon.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu datblygu amrediad ehangach o syniadau sy'n cwrdd â gofynion y briff. Mae eu meddwl yn debygol o fod yn fwy ymatebol i ganlyniadau unrhyw archwiliadau neu arddangosiadau y maent wedi eu gweld neu wedi cymryd rhan ynddynt. Bydd ganddynt reolaeth gyson dros dechnegau a defnyddiau peintio, a bydd eu canlyniad yn effeithiol wrth gwrdd â'r briff. Byddant yn gallu adolygu gwahanol gamau eu hymateb i'r briff a datgan y rhesymau dros eu dewis a'u defnydd o ffynonellau cynradd ac eilaidd fel manau cychwyn. Byddant yn myfyrio ar gryfderau a meysydd ar gyfer datblygu. Byddant yn gallu esbonio'n glir arferion gwaith y peintwyr y maent wedi ymchwilio iddynt.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn dewis a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau gyda hyder a phwrpas. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth o ofynion y briff ac yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw heriau sy'n codi dwy archwilio technegau a defnyddiau peintio. Gallant ddefnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd helaeth i gynhyrchu gwaith gweledol uchelgeisiol. Bydd eu canlyniad yn dangos dull dychmygus a chreadigol tuag at gwrdd â'r briff. Bydd eu cyflwyniad wedi ei gynhyrchu'n annibynnol a byddant yn ymateb yn gadarnhaol i adborth. Bydd dysgwyr yn gallu dadansoddi arferion gwaith y peintwyr y maent wedi ymchwilio iddynt. Byddant yn myfyrio'n feirniadol ar addasrwydd i bwrpas eu harfer gwaith eu hunain ac yn gwerthuso'n glir eu hymagweddau tuag at ddefnyddio defnyddiau i gwrdd â'r briff. Byddant yn barod i ddefnyddio adborth gan eraill yn gadarnhaol yn y gwahanol gamau o'r briff peintio.

**Lefel 1**

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** yn gallu gwneud tasgau arferol i gasglu gwybodaeth am beintwyr. Gall canfyddiadau dysgwyr gael eu hasesu drwy gyflwyniadau, gyda chefnogaeth nodiadau anodedig, yn hytrach na thasgau ysgrifennu ffurfiol. Bydd syniadau gaiff eu cynhyrchu gan ddysgwyr yn dangos ymateb i'r briff, heb gwrdd â'i ofynion o anghenraid. Gall dysgwyr weithio gydag un ffynhonnell gynradd neu eilaidd i ddatblygu eu syniadau yn hytrach nag archwilio dewisiadau eraill. Gallant wneud dewisiadau anaddas wrth benderfynu pa ffynonellau cynradd ac eilaidd sy'n addas fel manau cychwyn. Bydd eu gwaith yn archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau peintio yn gyfyngedig. Mae'n bosibl y gall canlyniadau'r archwiliadau hyn gael eu cydnabod, ond nid eu defnyddio i ddatblygu syniadau sy'n cwrdd â gofynion y briff. Bydd eu canlyniad yn dangos archwiliad sylfaenol o dechnegau peintio. Gall eu hymateb wrth ddefnyddio a rheoli'r defnyddiau a'r prosesau technegol dan sylw fod yn gyfyngedig.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1; 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	Y Marc Cyntaf yw'r Caletaf	Mae person sydd wedi graddio mewn peintio yn gweithio fel intern mewn oriel gelf i ymchwilio i enghreifftiau o waith peintwyr, er mwyn datblygu dealltwriaeth o wahanol ymagweddau tuag at ddeunydd testun a mannau cychwyn.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.
1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2 1C.3, 2C.LI3, 2C.T3, 2C.Rh3	Portreadau: Archwilio Hunaniaeth Leol	Mae peintiwr wedi dechau cynnig gwasanaeth peintio portreadau. Mae'r peintiwr yn dechrau gweld diddordeb ymhlith pobl leol sy'n byw o fewn milltir i'w stiwdio. Mae'r peintiwr wedi dechrau datblygu astudiaethau wedi'u lluniadu a'u peintio ar gyfer portreadau'r cleientiaid cyntaf.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.



Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1D.4, 2LI.4, 2D.T4, 2D.Rh4	Portreadau: y Cynnyrch Gorffenedig	<p>Mae'r peintiwr wedi cwblhau'r astudiaethau cychwynnol.</p> <p>Mae un o'r cleientiaid, perchennog oriel leol, wrth ei fodd gyda'r gwaith ac mae'n penderfynu y byddai'n hoffi comisiynu'r peintiwr i gwblhau portread ar raddfa lawn. Mae'r peintiwr wedyn yn cynhyrchu'r gwaith terfynol ar gyfer y cleient.</p>	<p>Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori/ darnau prawf, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid, darnau terfynol, arddangosfa.</p>
	Agoriad yr Oriel	<p>Mae'r peintiwr wedi gorffen y gwaith terfynol ac mae'r cleient yn dymuno arddangos y darn terfynol yn ei oriel, gyda chyflwyniad ar noson agoriadol y sioe.</p>	<p>Cyflwyno'r canlyniad a'r gwaith dylunio cychwynnol a therfynol, cyflwyniadau llafar, technolegau digidol, llyfr brasluniau anodedig, arsylwi gan athrawon a chyfoedion, asesiad athrawon o gyflwyniadau ymarferol, gwerthuso parhaus.</p>



# Uned 22: Cynllunio Cynnyrch

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol/Gorfodol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

---

## Cyflwyniad i'r uned

Sut mae cynhyrchion yn cael eu dylunio a'u gwneud? Pam maen nhw'n edrych fel y maen nhw? Beth sy'n eu gwneud yn dda i'w defnyddio? Beth sy'n gwneud cynnyrch sy'n arwain y farchnad? Mae dylunio cynnyrch yn faes enfawr sy'n cynnwys eitemau cyfarwydd bob dydd megis dodrefn, nwyddau electronig, goleuadau, dillad, teganau, ffonau, cyfrifiaduron, camerâu ac eitemau eraill sy'n cael eu cynhyrchu mewn niferoedd mawr. Wedyn mae hefyd y dylunydd, gwneuthurwr a chrefftwr syn cynhyrchu darnau unigol, y dylunydd mewnol neu ofodol sy'n dod â phethau at ei gilydd ar gyfer tu mewn i adeiladau, gofodau arddangos neu setiau teledu a ffilm.

Mae dylunwyr cynnyrch yn nodi natur ffisegol ac emosiynol eitemau sydd eu hangen ar bobl ac y maent eu heisiau. Maen nhw'n archwilio syniadau, defnyddiau a thechnegau ac yn datblygu dyluniadau, fel arfer mewn ymateb i friffiau cleientiaid. Maen nhw'n gweithio gyda chyfryngau a syniadau gwahanol gan ddefnyddiau prosesau crefft llaw a rhai digidol.

Yn yr uned hon byddwch yn ymchwilio i ddylunwyr cynnyrch. Byddwch yn dysgu sut y maen nhw'n cyfuno celf, gwyddoniaeth a thechnoleg i greu dyluniadau masnachol sy'n edrych yn dda yn ogystal â bod yn effeithiol a defnyddiol.

Yn yr uned hon byddwch yn dysgu sut i adnabod marchnad darged ac anghenion cwsmeriaid. Byddwch hefyd yn astudio sut y gall ffactorau diwylliannol a chymdeithasol effeithio ar y cwsmeriaid, megis cerddoriaeth, ffilm, celf, digwyddiadau'r byd a materion amgylcheddol. Byddwch yn dylunio syniadau mewn ymateb i friffiau ac yn dysgu sut i wneud i syniad ddod yn fyw drwy archwilio defnyddiau, technegau a phrosesau wrth i chi arbrofi gyda'ch syniadau. I gwblhau'r uned byddwch yn cynhyrchu ac yn cyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff cynnyrch dylunio technoleg.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A ymchwilio i ddyluniadau cynhyrchion ac adnabod anghenion defnyddwyr
- B archwilio defnyddiau, technegau, prosesau, teclynnau a thechnoleg mewn ymateb i friff dylunio cynnyrch
- C datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau dylunio cynnyrch
- D cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff dylunio cynnyrch.

## Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p><b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ddyluniadau cynhyrchion ac adnabod anghenion defnyddwyr</b></p> <p><b>Sut i ffurfio cwestiynau priodol am gynnyrch sy'n bodoli eisoes er mwyn penderfynu pa mor dda mae wedi cael ei ddylunio a'i wneud, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• beth yw pwrpas neu ddefnydd y cynnyrch?</li> <li>• pwy sy'n ei ddefnyddio a pham?</li> <li>• pwy sy'n ei wneud?</li> <li>• sut mae'n cael ei wneud?</li> <li>• faint mae'n ei gostio i'w brynu, o gymharu â chynhyrchion tebyg?</li> <li>• beth yw barn y cwsmer/defnyddiwr ar y cynnyrch?</li> <li>• pwy yw'r cystadleuwyr yn y farchnad?</li> <li>• beth sy'n gweithio'n dda am y cynnyrch a beth allai gael ei wella?</li> </ul> <p><b>Sut i ddefnyddio ffynonellau ymchwil eilaidd, tynnu gwybodaeth a dod i gasgliadau, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymchwil ar y we</li> <li>• cylchgronau a chyfnodolion arbenigol</li> <li>• adolygiadau mewn papurau newydd a chylchgronau</li> <li>• gwybodaeth o lyfrau a'r teledu</li> <li>• cyflwyno canlyniadau ymchwiliadau mewn fformat priodol.</li> </ul> <p><b>Sut i gael gwybod am gynnyrch o'r gorffennol a'u cofnodi ac am eu nodweddion dylunio a'u pwrpas, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddiwch eich ffynhonnell ymchwil i archwilio nodweddion a phriodweddau dyluniadau cynnyrch.</li> <li>• nodi a disgrifio anghenion defnyddwyr mewn perthynas â gwahanol gynhyrchion</li> <li>• disgrifio sut y maent wedi datblygu a'r cyfeiriad y gallent ei gymryd ar gyfer y dyfodol</li> <li>• dysgu am ddylunwyr a mudiadau dylunio mewn perthynas â'ch gwaith eich hun a chyfeirio atynt.</li> </ul> <p><b>Sut i lunio cwestiynau priodol am sefyllfa neu amgylchiad presennol er mwyn sefydlu manau cychwyn ar gyfer canfod mwy am anghenion ac eisiau corfforol a seicolegol pobl, e.e.:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• diogelwch</li> <li>• iechyd</li> <li>• hamdden</li> <li>• gwybodaeth a chyfathrebu</li> <li>• defnyddiau, teclynnau, cydranna a dulliau cynhyrchu sydd ar gael</li> <li>• sylfeini cynhyrchu.</li> </ul>

*parhad*

**Beth sydd angen ei ddysgu****Sut i gynllunio rhaglen o ymchwil gychwynnol a pharhaus sy'n cynnwys y defnydd o ffynonellau cynradd, e.e.:**

- arsylwi uniongyrchol o siapiau a ffurfiau naturiol a rhai gwneud sy'n bodoli eisoes
- cyfweiliadau ac arolygon
- ceisio cyngor a barn arbenigwyr
- arsylwadau a barn bersonol
- dod i gasgliadau priodol sy'n hysbysu datblygu dyluniadau wedi hynny ac ysgogi cwestiynau pellach ar gyfer ymchwilio parhaus
- ymchwilio i gynhyrchion o'r gorffennol a'r presennol a'u gwerthuso mewn perthynas â dylunio a thechnoleg a gwneud sylwadau ar sut y gallai'r rhain symud ymlaen yn y dyfodol
- adnabod dylanwadau dylunio o'r gorffennol a'r presennol a'u cymhwyso i'ch gwaith eich hun.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau, prosesau, teclynnau a thechnoleg mewn ymateb i friff dylunio cynnyrch****Sut i ymateb i angen neu gyfle dylunio drwy, e.e.:**

- nodiadau ac anodiadau
- brasluniau
- defnyddio defnyddiau 2D, megis pensiliau, ysgrifbinnau, inciau, papur, cerdyn, paentiau, ysgrifbinnau marcio, brwshys
- arbrofi gyda defnyddiau 3D. megis pren, persbecs, plastisin, mod-roc, ffabrig, gwifren, plastr, clai
- archwilio technegau a phrosesau, megis torri, siapio, uno, plygu, gludo
- arbrofi gyda chymwysiadau digidol
- canfod ysbrydoliaeth ac ysgogiad creadigol o ffynonellau o fewn byd natur a'r byd gwneud (megis patrymau a lliwiau ym myd natur, siapiau planhigion a choed, pensaerniaeth, tirluniau, morluniau, ceir, ffasiwn, dyfeisiau, datblygiadau technolegol).

**Sut i archwilio addasrwydd defnyddiau a gwneud penderfyniadau ar y defnyddiau a'r technegau gorau ar gyfer y pwrpas, e.e.:**

- archwilio nodweddion a phriodweddau gwaith amrywiaeth eang o ddefnyddiau a thechnegau 2D a/neu 3D
- cyfuno defnyddiau (megis ffibrau, llinyn, gludyddion, metelau, cynhyrchion pren, mewn modd meddylgar a chreadigol drwy siapio, ffurfio, cydosod, weldio, rhybedu, clymu)
- ymestyn gwybodaeth o raglenni CAD drwy arbrofi gyda meddalwedd yn cynnwys pecynnau 3D, fideo, animeiddio, ffontiau, gosodiadau
- arbrofi gyda chymwysiadau electronig eraill megis camerâu digidol a dyfeisiau symudol
- archwilio cynrychiolaeth 2D ar ffurf weledol drwy luniadu, peintio, gwneud printiau, collage, ffotograffiaeth, llungopïo
- ystyried, rhagweld a defnyddio gwybodaeth am ddefnyddiau hysbys a datblygiadau technolegol y dyfodol agos
- cymryd risgiau, torri rheolau ac archwilio defnydd a chymwysiadau anghonfensiynol o ddefnyddiau a thechnolegau dylunio cynnyrch.

**Iechyd a diogelwch:**

- sut i ddefnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau 2D a 3D yn ddiogel gan ddefnyddio arferion gwaith diogel.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau dylunio cynnyrch**

**Sut i gynhyrchu syniadau arloesol ar y cychwyn drwy amrywiaeth o ddulliau, e.e.:**

- mapio meddwl
- rhyngweithio grŵp
- cyswllt geiriau
- diddordebau personol megis ffilm, cerddoriaeth, dawns
- defnyddio ac ystyried meysydd cynnyrch presennol megis gemau cyfrifiadurol
- ymweld ag oriel neu amgueddfa
- darlunio a pheintio.

**Sut i ddatblygu syniadau, gan fynd i'r afael â chyfyngiadau, e.e.:**

- ymarferoldeb, golwg ac apêl
- ffactorau cost (mewn cynhyrchu ac adwerthu)
- perfformiad (ydy e'n gweithio'n dda, neu ydy e'n tanberfformio?)
- cefnogi cwsmeriaid (os aiff pethau o chwith)
- hyd oes
- hygyrchedd (h.y. ydy e'n hawdd i'w ddeall a'i ddefnyddio?)
- argaeledd a galw
- cyfyngiadau amgylcheddol ac ecolegol
- ergonomeg (estheteg, pwysau, gwead, sain, gafael, maint)
- iechyd a diogelwch
- cynaliadwyedd
- ehangu a blaengynllunio
- ailadrodd cynhyrchu ??
- soffistigeiddrwydd technegol (yn enwedig ar gyfer prynwyr craff)
- hysbysebu a marchnata
- pecynnu.

**Sut i ragweld pa ddatblygiadau neu newidiadau eraill sy'n debygol o fod yn angenrheidiol yn y dyfodol er mwyn i'r cynnig ddod yn hyfyw, e.e.:**

- amgylchiadau cymdeithasol
- newidiadau diwylliannol
- cyfyngiadau economaidd
- newidiadau i ofynion a deddfwriaeth cyfreithiol
- ymateb i adborth y gynulleidfa
- ystyried ymatebion i'r cynnig o fwy nag un ffynhonnell
- penderfynu sut neu p'un ai i weithredu ar yr ymatebion hyn mewn datblygu pellach
- datblygu syniadau drwy ddetholiad, gan weithredu ar adborth a chywain barn pobl eraill.

**Beth sydd angen ei ddysgu****Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff dylunio cynnyrch****Sut i dargedu cynulleidfa benodol drwy'r canlynol:**

- paratoi gwybodaeth briodol
- defnyddio dulliau priodol gweledol 2D a 3D, llafar a/neu ysgrifenedig i gefnogi'r gwaith
- targedu'r cyflwyniad i'r gynulleidfa
- cyflwyno'r gwaith mewn modd sy'n cefnogi eich syniadau a'ch gwerthoedd eich hun
- defnyddio technoleg ddigidol briodol (tudalennau gwe, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, blogiau, cyflwyniadau ar sgrin, arddangosiadau, fideos, taflenni cefnogi, datganiadau gwerthuso)
- gwerthuso eich gwaith a'ch perfformiad eich hun gan ddefnyddio gwahanol dulliau o adborth
- defnyddio adborth i hysbysu bwriadau yn y dyfodol
- amcangyfrif sut y bydd y cynnyrch arfaethedig yn ymateb i newidiadau byd-eang yn y dyfodol ac i anghenion cwsmeriaid a newidiadau mewn technoleg.



## Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu A: Ymchwilio i ddyluniadau cynhyrchion ac adnabod anghenion defnyddwyr</b>			
1A.1 Nodi o leiaf ddwy enghraifft o ddyluniadau cynnyrch.	2A.LI1 Ymchwilio i o leiaf bedair enghraifft o ddyluniadau cynnyrch a'u disgrifio.	2A.T1 Dewis ac ymchwilio i amrywiaeth eang o ddyluniadau cynnyrch a'u hadolygu.	2A.Rh1 Dewis ac ymchwilio i amrywiaeth eang o ddyluniadau cynnyrch a'u dadansoddi.
1A.2 Nodi anghenion potensial cwsmeriaid ar gyfer dyluniad cynnyrch.	2A.LI2 Disgrifio anghenion potensial cwsmeriaid ar gyfer dyluniad cynnyrch.	2A.T2 Esbonio anghenion potensial cwsmeriaid ar gyfer dyluniad cynnyrch.	2A.Rh2 Dadansoddi anghenion potensial cwsmeriaid ar gyfer dyluniad cynnyrch.
<b>Nod dysgu B: Archwilio defnyddiau, technegau, prosesau, teclynnau a thechnoleg mewn ymateb i friff dylunio cynnyrch</b>			
1B.3 Archwilio defnyddiau, technegau, prosesau, teclynnau a thechnoleg mewn ymateb i friff dylunio cynnyrch. *	2B.LI3 Dewis a defnyddio defnyddiau, technegau, prosesau, teclynnau a thechnoleg i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd â gofynion briffiau dylunio cynnyrch. *	2B.T3 Dewis a chyfuno amrywiaeth eang o ddefnyddiau, technegau, prosesau, teclynnau a thechnoleg i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau dylunio cynnyrch. *	2B.Rh3 Dewis a chyfuno'n ddychmygus amrywiaeth eang o ddefnyddiau, technegau, prosesau, teclynnau a thechnoleg i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd yn greadigol â gofynion briffiau dylunio cynnyrch. *
<b>Nod dysgu C: Datblygu syniadau mewn ymateb i friffiau dylunio cynnyrch</b>			
1C.4 Datblygu syniad mewn ymateb i friffiau dylunio cynnyrch.	2C.LL4 Datblygu syniadau sy'n cwrdd â gofynion briffiau dylunio cynnyrch.	2C.T4 Datblygu amrywiaeth eang o syniadau sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briffiau dylunio cynnyrch.	2C.Rh4 Datblygu amrywiaeth eang o syniadau sy'n cwrdd yn ddychmygus â gofynion briffiau dylunio cynnyrch.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
<b>Nod dysgu D: Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff dylunio cynnyrch</b>			
1D.5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad mewn ymateb i friff dylunio cynnyrch.	2D.LI5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd â gofynion briff dylunio cynnyrch, gan ddisgrifio eich proses waith.	2D.T5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad sy'n cwrdd yn effeithiol â gofynion briff dylunio cynnyrch, gan adolygu eich proses waith.	2D.Rh5 Cynhyrchu a chyflwyno canlyniad dychmygus sy'n cwrdd â gofynion briff dylunio cynnyrch, gan ddadansoddi eich proses waith.

\*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Gweler *Atodiad E* am ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y grid meini prawf asesu.

## Arweiniad i athrawon

### Adnoddau

Ar gyfer gwaith dylunio bydd angen i ddysgwyr gael gafael ar ddefnyddiau darlunio a dylunio sylfaenol ac offer digidol, megis camerâu, sganwyr a chyfrifiaduron. Mae angen meddalwedd ar gyfer dylunio, animeiddio, gwneud a golygu fideo, recordio sain ac ati er mwyn i ddysgwyr allu trosi eu syniadau 2D yn ddyluniadau digidol. Bydd angen i ddysgwyr gael gafael ar gynhyrchion o wahanol fathau at bwrpas ymchwilio. Bydd angen rhai teclynnau a defnyddiau arbenigol ar ddysgwyr er mwyn gwneud prototeipiau. Bydd angen cyfarpar gweithdy arnynt megis cymwysiadau electronig, yn ogystal â defnyddiau a theclynnau megis gefeiliau, persbecs, ffurfydd â gwactod, llifiau, driliau, gynnu gwres, pren balsa, gynnu glud, clai a theclynnau cysylltiedig i wneud modelau, samplau neu ddarnau gorffenedig. Yn ddelfrydol, gallai'r uned hon gael ei chysylltu â diwydiant lleol lle gallai adnoddau gael eu cyrchu a'u rhannu gyda chydysniad cyffredinol, gan wneud yr uned yn fasnachol berthnasol.

### Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

### Lefel 2

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Llwyddo** yn gallu holi cwestiynau cychwynol am ddyluniad cynnyrch a, gyda pheth arweiniad, yn gallu cynllunio rhaglen ymchwilio fer yn seiliedig ar yr atebion allai gynnwys ffynhonnell gynradd yn ogystal â ffynonellau eilaidd yn cynnwys amrywiaeth o anghenion dynol. Bydd eu gwaith archwilio'n defnyddio brasluniau anodedig clir a defnyddiau 2D a 3D priodol. Bydd cynhyrchu syniadau'n golygu peth cyfeiriadu cyd-destunol gydag ysbrydoliaeth yn dod gan ddylunwyr, mudiadau dylunio neu'r byd naturiol a'r byd gwneud. Bydd datblygiadau pellach yn cynnwys ystyried rhai cyfyngiadau defnyddwyr a thechnegol, yn ddelfrydol gydag ymwybyddiaeth o'r angen am gynaliadwyedd. Bydd dysgwyr yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion gwahanol gynulleidfaedd allanol yn hytrach na'u hathrawon neu grŵp cyfoedion, megis cleient potensial. Bydd dysgwyr yn cyflwyno gwybodaeth am eu gwaith yn glir a byddant yn gallu disgrifio eu syniadau a'u perfformiad.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 2 Teilyngdod** yn gallu holi cwestiynau perthnasol ac adnabod nifer o ffynonellau gwybodaeth cynradd ac eilaidd fydd yn trafod anghenion dynol a gofynion technegol datblygu cynnyrch. Bydd y gwaith ymchwilio wedi cael ei gynllunio a'i weithredu'n dda, a bydd casgliadau clir o'r ymchwiliad cychwynol fydd yn ffurfio sail gwaith dylunio a datblygu pellach. Bydd datblygiad dylunio hyderus, anodedig dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o'r cynnyrch sy'n cael ei greu, a bydd gwaith arbrofol yn denu ysbrydoliaeth o nifer o wahanol ffynonellau cyd-destunol. Bydd nifer o ddatblygiadau technegol, amgylcheddol, diwylliannol neu gymdeithasol sydd â'r potensial i effeithio ar ddyfodol dylunio cynnyrch yn cael eu trafod. Bydd y drafodaeth hon yn gysylltiedig â syniadau'r dysgwr, gan esbonio sut y gallai unrhyw gynhyrchion arfaethedig fod yn fwy hyfyw a chynaliadwy. Bydd gofynion defnyddwyr a materion technegol yn cael eu trafod mewn dyluniadau mwy manwl. Bydd dysgwyr yn adnabod cynulleidfaedd ac yn paratoi dulliau cyflwyno gan ddefnyddio dulliau gweledol, llafar ac ysgrifenedig priodol.

Bydd dysgwyr sy'n gweithio **Lefel 2 Rhagoriaeth** yn datblygu cwestiynau amrywiol a chreadigol, gan adnabod ffynonellau cynradd ac eilaidd priodol am anghenion ac eisiau perthnasol pobl. Gall hyn gynnwys barn ac adborth ar syniadau cychwynnol. Bydd dysgwyr yn dod i gasgliadau gwybodus o ymchwiliadau sy'n darparu sail gadarn ar gyfer datblygu dyluniadau ymhellach. Bydd dyluniadau ac archwiliadau gweledol yn cael eu hysbysu gan amrywiaeth o ffynonellau cyd-destunol, yn cynnwys atebion dylunio mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau. Bydd atebion yn cael eu datblygu drwy fodelau a phrototeipiau o wahanol fathau, yn amlwg yn berthnasol i amcanion profi. Bydd gwybodaeth am faterion dylunio, yn cynnwys cynaliadwyedd, anghenion cwsmeriaid, marchnata, goblygiadau cymdeithasol a diwylliannol ac ystyriaethau technegol yn cael eu cymhwyso drwy'r datblygiadau. Bydd dysgwyr yn cyflwyno gwaith yn ddychmygus, gan ddangos potensial y cynnig. Byddant yn cefnogi cyflwyniad y gwaith gyda dadansoddiad ystyriol o'r broses waith.

### **Lefel 1**

Dull cyfyngedig fydd gan ddysgwyr sy'n gweithio i **Lefel 1** o ymdrin â'r modd y maent yn cwestiynu agweddau ar ddylunio cynnyrch. Mae eu harchwilio syniadau'n debygol o fod drwy ddefnyddio technegau darlunio gydag anodi cyfyngedig a defnyddio defnyddiau a dulliau adeiladu cyfarwydd a hawdd cael gafael arnynt. Bydd eu hymchwilio'n dibynnu'n drwm ar ffynonellau gwybodaeth eilaidd sydd ar gael yn hawdd ar y we neu yn llyfrgell y ganolfan. Bydd dysgwyr yn gallu dysgu am gynhyrchion a'u disgrifio gan gyfeirio at eu nodweddion megis defnyddiau, golwg a swyddogaethau. Gall peth defnydd gael ei wneud o CAD. Bydd dysgwyr yn tueddu i ffocysu ar un agwedd yn unig o'r dyluniad. Wrth gyflwyno eu gwaith bydd peth adnabyddiaeth o anghenion y gynulleidfa, sef yr athro a'r grŵp cyfoedion mae'n debyg, a pha wybodaeth allweddol sydd angen ei chyfathrebu.

## Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1, 1A.2, 2A.LI2, 2A.T2, 2A.Rh2, 1B.3, 2B.LI3, 2B.T3, 2B.Rh3	Cadair i Blentyn	Mae dylunydd yn cael comisiwn i ymchwilio i ofynion a phosibiliadau cadair ddychmygus ac anarferol i blentyn. Ymysg yr agweddau i'w hystyried mae defnyddiau, siapiau, ffurfiau, lliwiau a gwedau, sadrwydd, diogelwch a hylendid.	Arsylwi gan athrawon, datganiadau tystion, cofnodion o ymweliadau, dyddlyfr, adroddiadau ar ganfyddiadau, holiaduron, logiau dysgu, llyfrau braslunio anodedig, blog, cyflwyniad digidol, allbrintiau, tudalennau gwe, byrddau stori, cyflwyniadau grŵp cymheiriaid.
1C.4, 2C.LI4, 2C.T4, 2C.Rh4, 1D.5, 2D.LI5, 2D.T5, 2D.Rh5	DIY	Mae cadwyn DIY mawr yn comisiynu tîm o ddylunwyr i gynhyrchu syniadau a brasfodelau ar gyfer cyfres newydd o declynnau garddio ergonomig, wedi ei hanelu at y farchnad sy'n tyfu o bobl sydd wedi ymddeol, ac i gleientiaid sydd â chyfyngiadau ar eu mudoled.	Cyflwyno'r canlyniad a'r gwaith dylunio cychwynol a therfynol, cyflwyniadau llafar, technolegau digidol, llyfr brasluniau anodedig, arsylwi gan athrawon a chyfoedion, asesiad athrawon o gyflwyniadau ymarferol, dadansoddi parhaus.

